Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Asesiad Anghenion Fferyllol

Awst 2021

This document is available in Welsh/
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Dyfodol Clinigol
Clinical Futures

Contents

Crynodeb gweithredol 4
1 Cyflwyniad 9
2 Trosolwg o ardal y bwrdd iechyd 32
3 Anghenion iechyd cyffredinol ardal y bwrdd iechyd 71
4 Grwpiau cleifion a nodwyd – materion iechyd penodol 85
5 Darparu gwasanaethau fferyllol 101
6 Gwasanaethau eraill y GIG 123
7 Anghenion iechyd y gellir eu diwallu drwy wasanaethau fferyllol 132
8 Ardal Dwyrain Blaenau Gwent 139
9 Ardal Gorllewin Blaenau Gwent 167
10 Ardal Dwyrain Caerffili 198
11 Ardal Gogledd Caerffili 229
12 Ardal De Caerffili 258
13 Ardal leol Gogledd Sir Fynwy 284
14 Ardal de Sir Fynwy 315
15 Ardal Dwyrain Casnewydd 346
16 Ardal Leol Gorllewin Casnewydd 375
17 Ardal Gogledd Torfaen 403
18 Ardal De Torfaen 433
19 Casgliadau at ddibenion atodlen 1 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 459
Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir 466
Atodiad B – gwasanaethau hanfodol 471
Atodiad C – gwasanaethau uwch 475
Atodiad D – gwasanaethau gwell 478
Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr cyfarpar fferyllol 482
Atodiad F – Aelodaeth grŵp llywio Asesu Anghenion Fferyllol 485
Atodiad G – arolwg cleifion ar gyfer asesiad anghenion fferyllol Aneurin Bevan 486
Atodiad H – canlyniadau llawn yr holiadur cleifion a'r cyhoedd 495
Atodiad I – holiadur contractwyr fferyllol 523

Atodiad J – holiadur ymarfer fferyllol 526
Atodiad K – adroddiad ymgynghori 529
Atodiad L – oriau agor 572

Crynodeb gweithredol

O 1 Hydref 2021, mae gan y bwrdd iechyd gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi a diweddaru datganiad o anghenion gwasanaethau fferyllol y boblogaeth yn ei ardal, y cyfeirir ato fel 'asesiad o anghenion fferyllol'. Dyma asesiad anghenion fferyllol cyntaf Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mae grŵp llywio a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r bwrdd iechyd, Fferylliaeth Gymunedol Cymru a Phwyllgor Meddygol Lleol Gwent wedi goruchwylio ei ddatblygiad.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol:

- Yn nodi anghenion iechyd presennol y boblogaeth a sut y byddant yn newid dros oes pum mlynedd y ddogfen (1 Hydref 2021 tan 30 Medi 2026),
- Yn disgrifio darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol gan fferyllfeydd, contractwyr cyfarpar dosbarthu a meddygon fferyllol o fewn a thu allan i ardal y bwrdd iechyd,
- Yn ystyried unrhyw newidiadau a fydd yn codi yn ystod oes y ddogfen megis newidiadau demograffig, datblygiadau tai, prosiectau adfywio, a newidiadau yn lleoliad darparwyr gwasanaethau eraill y GIG, ac
- Yn nodi unrhyw fylchau presennol yn y gwasanaethau a ddarperir neu unrhyw un a fydd yn codi yn ystod oes y ddogfen.

O 1 Hydref 2021 bydd yr asesiad o anghenion fferyllol yn cael ei ddefnyddio gan y bwrdd iechyd wrth ystyried a ddylid caniatáu ceisiadau i ymuno â'i restr fferyllol neu hepgor rhestr meddygon o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau ar geisiadau o'r fath i Weinidogion Cymru a fydd wedyn yn cyfeirio at y ddogfen wrth glywed unrhyw apêl o'r fath. Fe'i defnyddir hefyd i lywio penderfyniadau ar geisiadau i adleoli safleoedd fferyllfeydd a meddygon fferyllol presennol, ceisiadau i newid oriau agor craidd fferyllfeydd, ac mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau newydd o fferyllfeydd.

Mae ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cyd-fynd yn bennaf â Gwent Fwyaf, term a ddefnyddir i gynrychioli pum ardal awdurdod lleol:

- Blaenau Gwent,
- Caerffili,
- Sir Fynwy,
- Casnewydd a
- Thorfaen.

Mae demograffeg ardal y bwrdd iechyd yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd gwledig fel Sir Fynwy, canolfannau trefol fel Casnewydd a Chas-gwent, a chymoedd mwyaf dwyreiniol de Cymru.

Mae amcangyfrifon canol blwyddyn 2019 yn amcan poblogaeth ardal y bwrdd iechyd yn 594,164 a disgwylir i hyn gynyddu i 601,000 erbyn 2036; fodd bynnag, nid yw'r twf hwn wedi'i wasgaru'n gyfartal ar draws yr ardal. Er y gwelir y cynnydd mwyaf yng Nghasnewydd, Caerffili a Thorfaen, rhagwelir y bydd poblogaethau Blaenau Gwent a Sir Fynwy yn gostwng gan 6.6% ac 1.3% yn y drefn hon. Yn unol â mannau eraill yng Nghymru rhagwelir y bydd y boblogaeth 65 oed a hŷn yn cynyddu'n sylweddol.

Mae Pennod 1 yn nodi'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol sydd, at ddibenion y ddogfen hon, yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar gweinyddu (y cyfeirir atynt fel gwasanaethau hanfodol, uwch a gwell) a'r gwasanaeth gweinyddu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu i gleifion cymwys. Mae hefyd yn cynnwys barn 321 o drigolion ardal y bwrdd iechyd ar sut maent yn defnyddio fferyllfeydd a meddygon fferyllol a gafwyd o holiadur ar-lein ac sy'n dangos:

- Y defnyddir fferyllfeydd yn bennaf ar gyfer dosbarthu presgripsiynau, i brynu meddyginiaethau neu i gael cyngor.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymweld â fferyllfa bob mis.
- I’r rhai y mae ganddynt ffafriaeth o ran amser ymweld â fferyllfa, yw'r adegau mwyaf poblogaidd yw rhwng 09:00 a 12:00 a rhwng 15:00 a 18:00.
- O ran diwrnod yr wythnos y mae’n well gan bobl ymweld â fferyllfa, nid oedd gan 42% o ymatebwyr ffafriaeth, dywedodd 23% eu bod yn ffafrio yn ystod yr wythnos yn gyffredinol a dywedodd 11% ei bod yn well ganddynt y penwythnosau yn gyffredinol.
- Y pethau a oedd yn dylanwadau’n fwyaf cyffredin ar ddewis fferyllfa oedd agosrwydd at gyfeiriad y cartref neu bractis y meddyg teulu, lleoliad sy'n hawdd ei gyrraedd, ymddiriedaeth yn y staff, a’r eitemau gofynnol mewn stoc fel arfer.
- Mae 60% o ymatebwyr yn gyrru i fferyllfa a 28% yn cerdded.
- Gall 89% o ymatebwyr deithio i fferyllfa o fewn 20 munud. Dewisodd 8% beidio ag ateb y cwestiwn.

Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan gontractwyr na fu modd dod o hyd i’r wybodaeth genedlaethol:

- Mae 93% o’r fferyllfeydd yn hygyrch i gadeiriau olwyn
- Mae gan bob un o'r fferyllfeydd ardal ymgynghori
- Dywedodd 82% o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ateb cynnydd yn y galw

- Dywedodd 15% nad oedd ganddynt ddigon o lle neu staff ond y gallent wneud addasiadau er mwyn ateb y cynnydd, a
- Dim ond tair fferyllfa a ddywedodd nad oedd ganddynt ddigon o gapasiti ac y byddent yn ei chael yn anodd rheoli cynnydd yn y galw.

Yn dilyn trosolwg ar nodweddion demograffig trigolion ardal y bwrdd iechyd ym mhennod 2, mae pennod 3 yn canolbwyntio ar eu hanghenion iechyd.

Er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a grwpiau cleifion eraill yn gallu cael mynediad at wasanaethau fferyllol, mae pennod 4 yn nodi'r grwpiau penodol sy'n bresennol yn ardal y bwrdd iechyd a'u hanghenion iechyd tebygol.

Mae Pennod 5 yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd a'r darparwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal ond sy'n darparu gwasanaethau i'r rhai sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd. Ym mis Awst 2021 mae 131 o fferyllfeydd ar restr fferyllol y bwrdd iechyd, a weithredir gan 46 o gontractwyr gwahanol. Nid oes unrhyw gontractwyr cyfarpar gweinyddu yn ardal y bwrdd iechyd. O'r 75 meddygfa teulu, mae 13 yn dosbarthu i'w cleifion cymwys o 17 safle, y mae tri ohonynt yn Lloegr. Mae'r fferyllfeydd yn gyffredinol mewn ardaloedd lle ceir dwysedd poblogaeth a lefelau uwch o amddifadedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa. Mae'r ardaloedd nad ydynt o fewn taith 20 munud o fferyllfa, naill ai heb boblogaeth breswyl neu mae’r boblogaeth yn fach iawn, wedi'i gwasgaru ar draws tai a ffermydd ynysig, ac maent yn bennaf yng nghefn gwlad gogledd Sir Fynwy.

Mae'r mwyafrif llethol (93.4%) o eitemau a roddir ar bresgripsiwn gan y practisau meddygon teulu yn 2019/20 wedi cael eu dosbarthu gan un o'r 131 o fferyllfeydd, gyda 5.1% arall yn cael eu dosbarthu neu eu gweinyddu'n bersonol yn y practisau meddygon teulu. Gwelwyd canranau tebyg yn 2020/21.

O edrych ar yr holl eitemau a roddir ar bresgripsiwn gan bractisau meddygon teulu a gwasanaethau eraill y GIG sy'n cynhyrchu presgripsiynau, dosbarthwyd 5.4% o’r eitemau yn 2019/20 y tu allan i ardal y bwrdd iechyd (naill ai mewn mannau eraill yng Nghymru neu yn Lloegr) gan dros 1,400 o gontractwyr gwahanol. Fodd bynnag, cafodd y mwyafrif (80%) eu dosbarthu gan ddim ond 14 o gontractwyr naill ai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Eto gwelwyd patrwm debyg o ddosbarthu yn 2020/21.

Enwir gwasanaethau sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol naill ai drwy alw cynyddol neu ostyngol am wasanaeth penodol ym mhennod 6. Mae gwasanaethau o'r fath yn cynnwys ysbytai, gweinyddu eitemau'n bersonol gan bractisau meddygon teulu, y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau, Helpa Fi i Stopio, a'r gwasanaethau cyffuriau ac alcohol.

Ar ôl ystyried anghenion iechyd cyffredinol y boblogaeth, mae pennod 7 yn canolbwyntio ar y rhai y gall fferyllfeydd, contractwyr cyfarpar dosbarthu a'r gwasanaeth gweinyddu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu eu diwallu.

Mae'r bwrdd iechyd wedi rhannu ei ardal yn 11 ardal at ddibenion y ddogfen hon, yn seiliedig ar y rhwydweithiau gofal cymdogaeth. Sefydlwyd y rhwydweithiau gofal cymdogaeth i gynnwys cynrychiolaeth o iechyd cyhoeddus, awdurdodau lleol, a sefydliadau tai a'r trydydd sector. O ganlyniad, maent mewn sefyllfa ddelfrydol i weithredu fel cyfryngau ar gyfer newid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu, sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n addas at y diben i ddiwallu anghenion yn y dyfodol y boblogaeth leol y maent yn eu gwasanaethu.

Mae gan bob ardal bennod bwrpasol sy'n edrych ar anghenion y boblogaeth, yn ystyried y ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol bresennol i drigolion ac yn nodi a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion y trigolion ai peidio. Mae pob pennod yn mynd ymlaen i ystyried a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a allai godi yn ystod oes yr asesiad o anghenion fferyllol.

Ym mhennod 19, mae’r bwrdd iechyd wedi nodi'r gwasanaethau canlynol fel y rhai sy'n angenrheidiol er mwyn diwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal:

- Gwasanaethau hanfodol, uwch a gwell a ddarperir ym mhob safle sydd ar y rhestr fferyllol, a’r
- gwasanaeth gweinyddu meddyginiaethau a ddarperir gan y practisau meddygon teulu sydd ar restr y meddygon fferyllol.

Mae mynediad at wasanaethau fferyllol i'r trigolion yn dda a phrif gasgliad yr asesiad hwn o anghenion fferyllol yw nad oes unrhyw ddiffygion ar hyn Nodwyd yr anghenion presennol am rai gwasanaethau gwell mewn perthynas â rhai ardaloedd, y gellir dod o hyd i’w manylion yn y penodau ardal berthnasol. I grynhoi, mae'r anghenion hyn yn ymwneud â'r gofyniad bod rhai gwasanaethau (rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3, a brechu rhag y ffliw) ar gael mewn lleoliadau sy'n hygyrch i drigolion, gan ystyried lefel yr angen a phresenoldeb darparwyr gwasanaethau eraill.

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol hefyd yn edrych ar newidiadau a ragwelir o fewn oes y ddogfen, er enghraifft y twf a ragwelir yn y boblogaeth. O ystyried demograffeg bresennol y boblogaeth, amcanestyniadau tai a dosbarthiad y darparwyr gwasanaethau ar draws ardal y bwrdd iechyd, daw'r ddogfen i'r casgliad y bydd y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion yn y dyfodol y trigolion yn ystod oes pum mlynedd yr asesiad anghenion fferyllol hwn ac eithrio yn ardaloedd Dwyrain Casnewydd a Gogledd Torfaen. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod angen fferyllfa yn y dyfodol yn yr ardaloedd canlynol:

- datblygiad Glan Llyn yn Nwyrain Casnewydd (gweler pennod 15), a
- Pentref Trefol Mamheilad yng Ngogledd Torfaen (gweler pennod 17).

Bydd yn ofynnol i bob un o'r fferyllfeydd hyn agor am nifer penodol o oriau agor craidd a darparu amrywiaeth o wasanaethau fferyllol.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi nodi y gall fod angen darparu'r gwasanaeth cyfarwyddyd grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu yn y dyfodol mewn nifer o leoliadau o fewn 12 mis i argaeledd Varenicline eto os nad yw`r fferyllfeydd presennol sy’n darparu y gwasnaeth lefel 3 rhoi’r gorau i ysmygu arwyddo lan i ddarparu yr elfen grwp cyfeiriad cleifion o’r gwasanaeth. Mae hefyd wedi nodi'r angen yn y dyfodol am y gwasanaeth brechu rhag y ffliw yn Nwyrain Blaenau Gwent.

Mae ymgynghoriad 60 diwrnod ar ganfyddiadau'r asesiad anghenion fferyllol hwn wedi cael ei chynnal, fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau, ac mae’r dogfen yma wedi adolygu yn nghyd-destun yr ymatebion a gafwyd a gwneir diwygiadau yn ôl yr angen. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad wedi ei gynnwys fel atodiad a mae manylion y newidiadau i’r assesiad anghenion fferyllol wedi amlinelli yn yr adroddiad yna.

1 Cyflwyniad

1.1 Diben asesiad o anghenion fferyllol

Diben yr asesiad o anghenion fferyllol yw asesu a nodi sut y gall darparu gwasanaethau fferyllol ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth ardal bwrdd iechyd am gyfnod o hyd at bum mlynedd, gan gysylltu'n agos ag Asesiad Anghenion Poblogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Gwent ac asesiadau lles y pum awdurdod lleol. Er bod asesiadau o anghenion y boblogaeth ac asesiadau lles yn canolbwyntio ar anghenion iechyd cyffredinol poblogaeth ardal y bwrdd iechyd, mae'r asesiad o anghenion fferyllol yn edrych ar sut y gall y gwasanaethau fferyllol a gomisiynir gan y bwrdd iechyd ddiwallu'r anghenion iechyd hynny.

Os yw person (fferyllfa neu gontractwr cyfarpar fferyllol) am ddarparu gwasanaethau fferyllol, mae'n ofynnol iddo wneud cais i'r bwrdd iechyd, y mae'r safle i'w leoli yn ei ardal, er mwyn cael ei gynnwys yn ei restr fferyllol. Yn gyffredinol, rhaid i'w cais gynnig diwallu angen a nodir yn asesiad anghenion fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw. Fodd bynnag, mae dau eithriad i hyn; ceisiadau o ran newid perchnogaetha adleoli am rhesymau bysnes.

Os yw meddyg teulu yn dymuno dosbarthu i ardal newydd neu o safle newydd, neu ychwanegol, mae hefyd yn ofynnol iddo wneud cais i'r bwrdd iechyd i gael ei gynnwys ar ei restr meddygon fferyllol, neu i ardal newydd neu safle newydd neu ychwanegol gael ei rhestru mewn perthynas â hwy. Yn gyffredinol, rhaid i'w cais hefyd gynnig diwallu angen a nodir yn asesiad anghenion fferyllol y bwrdd iechyd hwnnw.

Yn ogystal â nodi a oes angen safleoedd ychwanegol, bydd yr asesiad o anghenion fferyllol hefyd yn nodi a oes angen gwasanaeth neu wasanaethau ychwanegol. Gallai anghenion a nodwyd naill ai fod yn gyfredol neu nodi y byddant yn codi o fewn oes pum mlynedd yr asesiad o anghenion fferyllol.

1.2 Dyletswyddau byrddau iechyd mewn perthynas â'r asesiad o anghenion fferyllol

Ceir rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau penodol y bwrdd iechyd mewn perthynas ag asesiadau o anghenion fferyllol, a'r cefndir polisi i asesiadau o anghenion fferyllol, yn atodiad A, ond yn gryno mae’n rhaid i'r bwrdd iechyd:

- Cyhoeddi ei asesiad anghenion fferyllol cyntaf erbyn 1 Hydref 2021;

- Cyhoeddi datganiadau diwygiedig (h.y. asesiadau anghenion fferyllol dilynol), bob pum mlynedd, sy'n cydymffurfio â'r gofynion rheoliadol;
- Cyhoeddi asesiad dilynol o anghenion fferyllol yn gynt, pan fydd yn nodi newidiadau i'r angen am wasanaethau fferyllol sydd o faint sylweddol, oni bai y byddai gwneud hynny'n ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny; a
- Chynhyrchu datganiadau atodol sy'n esbonio newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol mewn rhai amgylchiadau.

1.3 Gwasanaethau fferyllol

Diffinnir y gwasanaethau, y mae'n rhaid i asesiad o anghenion fferyllol eu cynnwys, yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Rheoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Gellir darparu gwasanaethau fferyllol drwy:

- Contractwr fferyllol sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd;
- Contractwr cyfarpar gweinyddu sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr fferyllol a gedwir ar gyfer ardal y bwrdd iechyd; a
- Practis meddyg neu feddyg teulu sydd wedi'i gynnwys ar restr meddygon fferyllol a gedwir ar gyfer ardal y bwrdd iechyd.

Mae pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am baratoi, cynnal a chyhoeddi ei restrau. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan mae 131 o fferyllfeydd, a 13 practis gweinyddu.

Gall contractwyr weithredu naill ai fel unig fasnachwr, partneriaeth neu gorff corfforaethol. Mae Deddf Meddyginiaethau 1968 yn llywodraethu pwy all fod yn gontractwr fferyllol, ond nid oes cyfyngiad ar bwy all weithredu fel contractwr cyfarpar gweinyddu.

1.3.1 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr fferyllol

Yn wahanol i feddygon teulu, deintyddion ac optometryddion, nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gontractau gyda'r contractwyr fferyllol yn ei ardal. Yn hytrach, maent yn darparu gwasanaethau o dan fframwaith contractiol, y cyfeirir ato weithiau fel y fframwaith contractiol fferylliaeth gymunedol, ac mae manylion y rhain (telerau'r gwasanaeth) wedi’u nodi yn atodlen 5 i Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch a Gwell) (Cymru) 2005, a Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr fferyllol yn darparu tri math o wasanaeth sy'n dod o fewn y diffiniad o wasanaethau fferyllol a'r fframwaith contractiol fferylliaeth gymunedol. Dyma nhw:

- Gwasanaethau hanfodol - rhaid i bob fferyllfa ddarparu'r gwasanaethau hyn
    - Dosbarthu presgripsiynau
    - Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy
    - Gwaredu ar gyffuriau diangen
    - Hyrwyddo ffordd o fyw iach
    - Cyfeirio, a
    - Chymorth ar gyfer hunanofal

- Gwasanaethau uwch - gall fferyllfeydd ddewis a ydynt am ddarparu'r gwasanaethau hyn ai peidio. Os ydynt yn dewis darparu un neu fwy o'r gwasanaethau uwch, rhaid iddynt fodloni gofynion penodol, a rhaid iddynt hefyd gydymffurfio'n llawn â'r gwasanaethau hanfodol a'r gofynion llywodraethu clinigol.
    - Gwasanaethau adolygu defnydd meddyginiaethau ac ymyrryd â phresgripsiwn (y cyfeirir atynt yn fwy cyffredin fel y gwasanaeth adolygu defnydd meddyginiaethau)
    - Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau i gleifion a ryddhawyd
    - Addasu cyfarpar Stoma
    - Adolygiad o'r defnydd o gyfarpar

- Gwasanaethau gwell - caiff manylebau gwasanaeth ar gyfer y math hwn o wasanaeth eu datblygu gan y bwrdd iechyd ac yna'u comisiynu er mwyn diwallu anghenion iechyd penodol.
    - Monitro gwrth-geulo
    - Gwasanaeth cartrefi gofal
    - Gwasanaeth rheoli meddyginiaethau sy'n benodol i glefydau
    - Gwasanaeth cyflenwi bwyd di-glwten
    - Gwasanaeth danfon i'r cartref
    - Gwasanaeth mynediad ieithyddol
    - Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau
    - Gwasanaeth asesu meddyginiaethau a chymorth cydymffurfio
    - Cynllun mân anhwylderau
    - Cyfnewid nodwyddau a chwistrellau
    - Gwasanaeth cyffuriau arbenigol ar gael yn ôl y galw
    - Gwasanaeth y tu allan i oriau
    - Gwasanaeth cyfarwyddyd grŵp cleifion
    - Gwasanaeth cymorth rhagnodwr
    - Gwasanaeth ysgolion
    - Gwasanaeth sgrinio
    - Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu
    - Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth
    - Gwasanaeth presgripsiynu

- Gwasanaeth casglu gwrthfeirysol
- Gwasanaeth cyflenwi brys

Ceir rhagor o wybodaeth am y gofynion gwasanaethau hanfodol, uwch a gwell yn atodiadau B, C ac Ch yn y drefn honno.

Yn sail i ddarpariaeth yr holl wasanaethau hyn mae'r gofyniad ar bob contractwr fferyllol i gymryd rhan mewn system o lywodraethu clinigol. Nodir y system hon yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen cynnwys cleifion a'r cyhoedd
- Rhaglen archwilio glinigol
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol
- Rhaglen staffio a rheoli staff,
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth, a
- Rhaglen safonau safle.

Mae'n ofynnol i fferyllfeydd agor am ddim llai na 40 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd, ond mae llawer yn dewis agor am fwy o amser a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor atodol. O dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 mae'n bosibl i gontractwyr fferyllol wneud cais llwyddiannus i agor fferyllfa gyda nifer fwy o oriau agor craidd er mwyn diwallu'r angen a nodwyd mewn asesiad o anghenion fferyllol.

Nodir yr oriau agor arfaethedig ar gyfer pob fferyllfa yn y cais cychwynnol, ac os rhoddir y cais a bod y fferyllfa wedyn yn agor y rhain o oriau agor contract y fferyllfa. Gall y contractwr wneud cais wedyn i newid ei oriau agor craidd a bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei ardal, fel y nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol, i benderfynu a ddylid cytuno i'r newid yn yr oriau agor craidd ai peidio. Os yw contractwr fferyllol yn dymuno newid ei oriau agor atodol, bydd yn rhoi gwybod i'r bwrdd iechyd am y newid, gan roi o leiaf dri mis o rybudd.

1.3.2 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr cyfarpar gweinyddu

Fel gyda chontractwyr fferyllol, nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gontractau gyda chontractwyr cyfarpar gweinyddu. Nodir eu telerau gwasanaeth yn atodlen 6 i Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 a Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010.

Contractwyr cyfarpar fferyllol sy'n darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer cyfarpar (nid cyffuriau), er enghraifft cathetrau a bagiau colostomi, sy'n dod o fewn y diffiniad o wasanaethau fferyllol:

- Dosbarthu presgripsiynau
- Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy
- Gwasanaeth dosbarthu cartref ar gyfer rhai eitemau
- Cyflenwi eitemau atodol priodol (e.e. cadachau tafladwy a bagiau gwaredu)
- Darparu cyngor clinigol arbenigol ynglŷn â'r cyfarpar, a
- Atgyfeirio

Gallant hefyd ddewis darparu gwasanaethau uwch. Os ydynt yn dewis eu darparu yna mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion penodol a rhaid iddynt hefyd gydymffurfio'n llawn â'u telerau gwasanaeth a'r gofynion llywodraethu clinigol. Y ddau gwasanaeth uwch y gallant eu darparu yw:

- Addasu cyfarpar Stoma
- Adolygiadau o'r defnydd o gyfarpar

Fel gyda fferyllfeydd, mae'n ofynnol i gontractwyr cyfarpar gweinyddu gymryd rhan mewn system o lywodraethu clinigol. Nodir y system hon yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen cynnwys cleifion a'r cyhoedd
- Rhaglen archwilio glinigol
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol
- Rhaglen staffio a staff,
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth, a
- Rhaglen safonau safle.

Ceir rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer y gwasanaethau hyn yn atodiad D.

Mae'n ofynnol i gontractwyr cyfarpar fferyllol bod agor dim llai na 30 awr yr wythnos a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd. Gallant ddewis agor am fwy o amser a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor atodol. O dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 mae'n bosibl i gontractwyr cyfarpar fferyllol wneud cais llwyddiannus i agor safleoedd am nifer fwy o oriau agor craidd, er mwyn diwallu angen a nodwyd mewn asesiad o anghenion fferyllol.

Nodir yr oriau agor arfaethedig ar gyfer pob contractwr cyfarpar gweinyddu yn y cais cychwynnol, ac os dyfernir y cais a bod y contractwr cyfarpar dosbarthu wedyn yn agor, yna mae'r rhain yn ffurfio oriau agor

contract y contractwr cyfarpar gweinyddu. Gall y contractwr wneud cais wedyn i newid ei oriau agor craidd. Bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei ardal, fel y nodir yn yr asesiad o anghenion fferyllol, er mwyn penderfynu a ddylid cytuno i'r newid yn yr oriau agor craidd ai peidio.

1.3.3 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan feddygon

Mae Rheoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn caniatáu i fyrddau iechyd wneud trefniadau gyda meddygon i ddosbarthu cleifion cymwys mewn rhai amgylchiadau. Mae'r rheoliadau'n gymhleth ar y mater hwn ond yn gryno:

- Rhaid i gleifion fyw mewn 'ardal reoledig' (ardal sydd wedi'i phennu gan y bwrdd iechyd neu sefydliad blaenorol fel un wledig ei chymeriad, neu ar apêl gan Weinidogion Cymru), mwy nag 1.6km (wedi'i fesur mewn llinell syth) o fferyllfa, a
- Rhaid i'w practis gael cymeradwyaeth safle a chydsyniad amlinellol i ddosbarthu i’r ardal honno.

Mae rhai eithriadau i hyn, er enghraifft cleifion sydd wedi bodloni'r bwrdd iechyd y byddent yn cael anhawster difrifol i gael mynediad at fferyllfa oherwydd pellter neu annigonolrwydd dulliau cyfathrebu.

1.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae gwasanaethau eraill sy'n cael eu comisiynu neu eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'i ysbytai sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol hefyd wedi'u cynnwys yn yr asesiad o anghenion fferyllol.

1.5 Sut y cafodd yr asesiad ei gynnal

1.5.1 Grŵp llywio asesu anghenion fferyllol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sy'n bennaf gyfrifol am gyhoeddi'r asesiad o anghenion fferyllol, ac mae'r cyfarwyddwr iechyd cyhoeddus yn atebol am ei ddatblygu. Sefydlodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan grŵp llywio asesu anghenion fferyllol a'i ddiben oedd sicrhau datblygiad o asesiad cadarn o anghenion fferyllol sy'n cydymffurfio â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac sy'n diwallu anghenion y boblogaeth leol. Roedd aelodaeth y grŵp llywio yn sicrhau bod yr holl brif randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u gweld yn atodiad Dd.

1.5.2 Ardaloedd asesu anghenion fferyllol

Mae'r ardaloedd a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad o anghenion fferyllol yn cyd-fynd â ffiniau'r Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth, sef:

- Dwyrain Blaenau Gwent
- Gorllewin Blaenau Gwent
- Dwyrain Caerffili
- Gogledd Caerffili
- De Caerffili
- Gogledd Sir Fynwy
- Gogledd Sir Fynwy
- Dwyrain Casnewydd
- Gorllewin Casnewydd
- Gogledd Torfaen
- De Torfaen

Sefydlwyd y rhwydweithiau gofal cymdogaeth i gynnwys cynrychiolaeth o iechyd cyhoeddus, awdurdodau lleol, a sefydliadau tai a'r trydydd sector. O ganlyniad, maent mewn sefyllfa ddelfrydol i weithredu fel cyfryngau ar gyfer newid er mwyn sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu, sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n addas i'r diben i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol y maent yn eu gwasanaethu yn y dyfodol.

O ganlyniad, caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu ar yr ôl troed hwn a chytunwyd felly y dylid eu defnyddio fel sail i'r ardaloedd asesu anghenion fferyllol.

1.5.3 Ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd

Er mwyn cael barn cleifion a'r cyhoedd am wasanaethau fferyllol, datblygwyd holiadur a'i ddarparu ar-lein rhwng 19 Tachwedd a 17 Rhagfyr 2020. Cafodd ei hyrwyddo drwy wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y bwrdd iechyd. Oherwydd y pandemig Covid-19 parhaus nid oedd yn bosibl cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb i hyrwyddo'r holiadur nac ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, a chydnabyddir y bydd hyn wedi effeithio ar y gyfradd ymateb. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, er na dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar gyfer y fersiwn Gymraeg.

Mae copi, sy'n dangos y cwestiynau a ofynnwyd, i'w weld yn atodiad E. Mae'r canlyniadau llawn i'w gweld yn atodiad F.

Cwblhaodd cyfanswm o 321 o bobl yr holiadur yn Saesneg (ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion Cymraeg). Mae'r map gwres isod yn dangos lleoliad y rhai a ymatebodd yn seiliedig ar y dosbarth cod post y maent yn byw ynddo.

Map 1 - Map yn dangos dosbarthau cod post y rhai sy'n ymateb i'r holiadur cleifion a'r cyhoedd



© Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Pan ofynnwyd iddynt ble y gweinyddir eu presgripsiynau:

- Dywedodd 71% bod hynny’n digwydd o’r fferyllfa,
- Dywedodd 21% bod hynny’n digwydd o bractis eu meddyg teulu,
- Dewisodd 6% beidio ag ateb y cwestiwn, a
- Nid oedd 2% yn gwybod, ond byddai eu hymatebion dilynol yn awgrymu eu bod yn cael eu dosbarthu mewn fferyllfa.

Roedd 77% o'r ymatebwyr yn fenywod, 19% yn ddynion, roedd yn well gan 2% beidio â dweud a dewisodd 2% beidio ag ateb y cwestiwn hwn. Mae'r ffigur isod yn dangos dadansoddiad oedran yr ymatebwyr.

Ffigur 1 – faint yw eich oedran?



Pan ofynnwyd pam eu bod fel arfer yn ymweld â fferyllfa, yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd:

- I gael presgripsiwn i mi fy hun – 267 o bobl
- I gael presgripsiwn i rywun arall – 171 o bobl
- I brynu meddyginiaeth i mi fy hun – 118 o bobl
- I gael cyngor i mi fy hun – 98 o bobl
- I gael cyngor i rywun arall – 41 o bobl

Gellid rhoi atebion lluosog i'r cwestiwn hwn.

Mae'r ffigur isod yn dangos pa mor aml y mae ymatebwyr yn ymweld â fferyllfa. Fel y disgwylir, mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymweld bob mis a fydd yn adlewyrchu hyd y cyfnod presgripsiynau.

Ffigur 2 – Pa mor aml ydych chi'n ymweld â fferyllfa?



Er nad oedd gan 28% o'r ymatebwyr ffafriaeth o ran yr amser mwyaf cyfleus, dewis y rhai a nododd amser mwyaf cyfleus oedd 3pm i 6pm (21% o'r ymatebion), ac yna 9am i hanner dydd (18% o'r ymatebion) ac yna 12 hanner dydd i 3pm (13%). Dewisodd 7% beidio ag ateb y cwestiwn.

Ffigur 3 – Pa amser sydd fwyaf cyfleus gennych chi i ddefnyddio fferyllfa?



Yna dadansoddwyd yr amser mwyaf cyfleus i gael mynediad i fferyllfa yn ôl oedran i nodi unrhyw wahaniaethau a allai fod gan hyn ar yr adegau y defnyddir fferyllfeydd.

Ffigur 4 – oedran a'r amser mwyaf poblogaidd i ymweld â fferyllfa



Yn gyffredinol, lle atebodd ymatebwyr y ddau gwestiwn, yr amser mwyaf poblogaidd i ymweld â fferyllfa i'r rhai rhwng 25 a 54 oed oedd 3pm i 6pm, ac i'r rhai rhwng 55 a throsodd oedd 9am i hanner dydd.

Pan ofynnwyd iddynt pa un yw'r diwrnod mwyaf cyfleus i gael mynediad i fferyllfa, dywedodd 42% nad oedd ganddynt hoff ddewis, dywedodd 23% o'r ymatebwyr ddyddiau'r wythnos yn gyffredinol, a dywedodd 11% y penwythnosau'n gyffredinol. Dewisodd 8% beidio ag ateb y cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt beth yr oeddent wedi'i wneud, os oedd amser yn ddiweddar pan nad oeddent wedi gallu defnyddio eu fferyllfa arferol, roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Aeth 135 o bobl i fferyllfa arall
- Arhosodd 118 o bobl nes ei fod ar agor
- Anwybyddodd 62 o bobl y cwestiwn
- Dywedodd 15 nad oedd erioed wedi digwydd iddynt
- Aeth 7 at eu meddyg teulu
- Ffoniodd 3 y rhif 111, ac
- Aeth 1 i'r ysbyty.

Nodwch y gellid rhoi atebion lluosog i'r cwestiwn hwn.

Roedd yr holiadur yn holi pobl am eu dewis o fferyllfa. Dywedodd 67% eu bod bob amser yn defnyddio'r un fferyllfa, dywedodd 23% eu bod yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond bod yn well ganddynt ymweld ag un yn fwyaf aml, roedd 2% yn defnyddio fferyllfa'n anaml, a dewisodd 75 beidio ag ateb y cwestiwn.

Mae'r tabl isod yn dangos beth sy'n dylanwadu ar ddewis fferyllfa'r ymatebwyr.

Tabl 1 – beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa?

Rheswm	**Nifer yr ymatebwyr**
Agos at fy nghartref.	215
Agos at fy meddyg	151
Mae lleoliad y fferyllfa yn hawdd i'w gyrraedd	119
Rydw i'n ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno.	116
Fel arfer mae ganddyn nhw beth mae arna i ei angen mewn stoc	102
Y gwasanaeth cwsmeriaid	95
Mae'r staff yn fy adnabod i ac yn gofalu amdanaf	91
Rydw i wedi defnyddio'r fferyllfa hon erioed.	91
Mae'r fferyllfa yn rhoi cyngor a gwybodaeth da	90
Mae'r gwasanaeth yn gyflym	83

Mae'n hawdd parcio yn y fferyllfa	79
Mae gan y fferyllfa oriau agor da	75
Agos at siopau eraill	55
Agos at fy ngwaith	41
Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn danfon fy meddyginiaethau	21
Mae'n hygyrch iawn h.y. cyfeillgar i gadeiriau olwyn/bygis babanod	13
Agos at ysgol neu ysgol feithrin fy mhlant	12
Arall	12
Dydy'r staff ddim yn fy adnabod.	7

Pan ofynnwyd a oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydynt yn ei defnyddio, dywedodd 94 (295) oes, ac aeth 92 ymlaen i roi rheswm pam (nodwch y gellid rhoi atebion lluosog i'r cwestiwn hwn).

Tabl 2 – rhesymau dros beidio â defnyddio fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach

Rheswm	**Nifer yr ymatebion**
Arall	29
Dydy hi ddim yn hawdd parcio yn y fferyllfa	17
Mae'r gwasanaeth yn rhy araf	13
Cefais brofiad gwael yno yn y gorffennol	10
Dydy'r staff ddim yn fy adnabod.	7
Does ganddyn nhw ddim beth mae arna i ei angen mewn stoc	6
Dydy hi ddim ar agor pan fydd arna i ei hangen.	4
Does dim digon o breifatrwydd	3
Nid yw'r fferyllfa'n danfon meddyginiaethau gartref	2
Mae'r staff bob amser yn newid	1

Lle rhoddwyd 'arall' fel ymateb, darparwyd rhagor o wybodaeth a oedd yn cynnwys:

- Yn ffyddlon i'r fferyllfa bresennol neu o ran arfer
- Y fferyllfa wedi gorfodi cau gweinyddfa'r practis meddyg teulu
- Ymddygiad ac agwedd staff yn y fferyllfa agosach
- Newid perchnogaeth
- Materion gweithredol a system o fewn fferyllfa neu feddygfa
- Mae'r fferyllfa ddewisol wedi'i chydleoli â phractis meddyg teulu
- Yn adnabod y staff yn y fferyllfa agosach a ddim eisiau gwybodaeth bersonol i gael ei gwybod
- Hwylustod

- Diffyg preifatrwydd yn y fferyllfa agosach

Yna edrychodd yr holiadur ar sut mae pobl yn teithio i fferyllfeydd.

Ffigur 5 - pan ewch i'r fferyllfa sut ydych chi'n cyrraedd yno fel arfer?



I'r rhai a ddewisodd 'arall', aeth y rhan fwyaf mewn car neu ar droed yn dibynnu ar y tywydd, p'un a oeddent yn mynd i rywle arall ai peidio, ar sgwter symudedd, neu fod eu meddyginiaethau'n cael eu danfon atynt.

I'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr, mae eu hamser teithio yn cymryd llai na 15 munud (81%), gydag 88.5% o fewn 20 munud i fferyllfa. Dewisodd 8% o bobl beidio ag ymateb i'r cwestiwn hwn.

Ffigur 6 - faint o amser y mae'n ei gymryd fel arfer i gyrraedd y fferyllfa?



I'r rhai y mae eu taith yn cymryd mwy nag 20 munud:

- Roedd saith o bobl yn mynd mewn car,
- Roedd tri yn mynd ar fws, ac
- Roedd un yn mynd ar ei feic.

Chwilio drwy'r rhyngrwyd oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o ddod o hyd i wybodaeth am fferyllfa, er enghraifft yr oriau agor a'r gwasanaethau a gynigiwyd (235 o ymatebwyr) ac yna ffonio'r fferyllfa (106 o ymatebwyr), galw heibio a gofyn (60 o ymatebwyr), ac edrych yn y ffenestr (46 o ymatebwyr).

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn teimlo y gallant drafod rhywbeth preifat gyda fferyllydd, atebodd y mwyafrif naill ai ie (55%) neu nad oeddent erioed wedi gorfod gwneud hynny (25%). Fodd bynnag, dywedodd 9% o'r ymatebwyr na, sy'n peri pryder yn enwedig gan fod gan bob fferyllfa ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol.

Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn defnyddio fferyllfa er mwyn cael presgripsiwn, mae fferyllfeydd yn darparu ystod o wasanaethau clinigol. Roedd yr holiadur yn rhestru nifer o wasanaethau a ddarperir gan bob un neu'r rhan fwyaf o fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd, a gofynnodd a oedd ymatebwyr yn ymwybodol ohonynt. Mae'r tabl isod yn dangos eu hymatebion.

Tabl 3 – ydych chi'n ymwybodol y gallech gael gafael ar y gwasanaethau canlynol o fferyllfeydd fel rhan o'r GIG?

Gwasanaeth	Nifer y bobl a oedd yn ymwybodol o'r gwasanaeth
Brechiadau ffliw	257
Cynllun anhwylderau cyffredin	244
Help i roi'r gorau i ysmygu	171
Atal cenhedlu hormonaidd brys, y cyfeirir ato hefyd fel y 'bilsen fore wedyn'	164
Cyflenwad meddyginiaethau brys	128
Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau i gleifion a ryddhawyd	104
Gwasanaeth adolygu defnyddio meddyginiaethau	0
Gwasanaeth adolygu defnyddio cyfarpar	0

Roedd gan 131 o bobl sylwadau pellach i'w gwneud ar wasanaethau fferylliaeth leol. Cafwyd 48 o sylwadau cadarnhaol am fferyllfeydd a dau am feddygon fferyllol, 50 o sylwadau negyddol am fferyllfeydd a dau am feddygon fferyllol, naw a oedd yn gadarnhaol ac yn negyddol, a 21 o arsylwadau.

Mae themâu o'r sylwadau cadarnhaol yn cynnwys:

- Safon ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir
- Y gallu i holi'r fferyllydd am anhwylderau a meddyginiaethau cyffredin
- Gwasanaeth presgripsiwn amlroddadwy yn arbed amser
- Staff cyfeillgar, cymwynasgar a hawdd mynd atynt

Mae enghreifftiau o'r sylwadau cadarnhaol yn cynnwys:

- "Maen nhw'n gymunedol iawn ac yn adnabod pobl yn unigol. Maent yn gyfeillgar, yn effeithlon ac yn wybodus."
- "Mae ganddyn nhw wybodaeth am y meddygon, eich meddyginiaeth, felly os yw'r meddyg wedi rhoi rhywbeth i chi ac mae'r fferyllfa yn gwybod y bydd yn effeithio arnoch chi, byddan nhw'n eich cynghori. Mae hyn yr un fath i'r fferyllfa arall, byddwn yn ei defnyddio eto, mae'r fferyllydd yn yr achos hwn ar gyfer fy nheulu cyfan."

- "Rydym yn falch iawn gydag un ni, rydyn ni'n eu hadnabod ac maen nhw'n ein hadnabod ni. Rydym yn ymddiried ynddynt ac wedi eu defnyddio ers blynyddoedd lawer"
- "Mae fferyllfeydd lleol mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol gan y byddai angen i gleifion deithio i dref i gasglu eu presgripsiwn."
- "Mae fy fferyllfa mor gymwynasgar. Byddwn yn gofyn am eu cyngor cyn mynd at fy meddyg teulu."
- "Mae'r staff wedi gweithio'n eithriadol o galed yn ystod y pandemig dan amodau anodd iawn ac rwy'n eu cymeradwyo."

O ran y sylwadau negyddol, y prif themâu oedd:

- agwedd ac ymddygiad staff
- oriau agor (yn enwedig amser cinio, gyda'r nos ac ar benwythnosau),
- newidiadau i ffyrdd o weithio oherwydd y pandemig – er enghraifft gorfod ciwio y tu allan a faint o amser a dreulir yn aros
- cael mynediad i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin ond wedyn cael tâl wedi codi am eitem neu’n cael eu hatgyfeirio i weld meddyg teulu
- diffyg preifatrwydd
- hyd yr amser i bresgripsiynau gael eu dosbarthu, gan gynnwys pan ddefnyddir hyb ar gyfer dosbarth
- diffyg stoc yn arwain at ail ymweliadau
- lefelau staffio isel ar gyfer maint y gwaith

Mae enghreifftiau o'r sylwadau negyddol yn cynnwys:

- “Yn gyffredinol, mae diffyg ymgysylltiad staff â chwsmeriaid yn fy synnu - efallai y bydd pobl yn cael eu gadael yn aros am amser hir heb gael eu cydnabod, heb sôn am eu cyfarch a'u gwasanaethu, pan fydd sawl aelod o staff yn weladwy 'yn y cefn'. Nid yw hyn yn dod ar draws yn beth cwrtais na phroffesiynol."
- "Bob amser yn brin o staff ar gyfer y gwasanaethau y maent i fod i'w darparu"
- "Rwyf wedi cael rhai profiadau ofnadwy yn ddiweddar gyda fferyllfeydd yn colli fy mhresgripsiwn ac nid yn dweud wrthyf beth sydd wedi digwydd nes ei bod yn rhy hwyr ac rwyf wedi rhedeg allan o'm meddyginiaeth."
- "ddim yn glir os oes unrhyw breifatrwydd yn unman"
- "Dydw i ddim yn hoffi gorfod aros 10 diwrnod i bresgripsiynau amlroddadwy gael eu llenwi. Dydw i ddim yn ymddiried yn [y Fferyllfa] i'w harchebu i mi gan eu bod naill ai wedi anghofio neu wedi colli eitem ar y rhestr. Digwyddodd hyn mor aml fel fy mod wedi gofyn iddynt fy hun am y ddwy flynedd ddiwethaf o'r feddygfa, a gofyn iddynt roi presgripsiynau i’r [Fferyllfa]."

- "Yn aml, nid oes gan fy fferyllfa leol y stoc sydd ei hangen arnaf, sy'n golygu bod yn rhaid i mi wneud ymweliad ychwanegol nad yw'n gyfleus. Nid oes byth ddigon o staff ac felly rwy'n aros rhwng 30 a 60 munud am fy mhresgripsiwn misol a ddylai fod yn barod eisoes, ond yn aml nid yw hynny'n wir."

Codwyd cyfathrebu gwael rhwng practisau meddygon teulu a fferyllfeydd fel problem gan ei fod yn creu teithiau ychwanegol i bobl ar adeg pan fo pobl yn cael eu cynghori i beidio â mynd allan yn ddiangen oherwydd y pandemig, neu efallai'n teimlo'n anniogel wrth fynd allan yn amlach nag sy'n angenrheidiol.

Nodwyd bod darparu meddyginiaethau yn wasanaeth da, ond nid ystyriwyd bod cyflwyno ffi ar gyfer y gwasanaeth preifat gan rai contractwyr yn beth da.

1.5.4 Ymgysylltu â chontractwyr

Cynhaliwyd holiadur ar-lein ar gyfer fferyllfeydd drwy ymarfer dilysu Cronfa Ddata Fferylliaeth Cymru Gyfan, a defnyddiwyd y dull o ofyn i gontractwyr dim ond am wybodaeth na ellid dod o hyd iddi mewn mannau eraill.

Gellir dod o hyd i gopi o'r holiadur yn Atodiad Ff.

Roedd yr holiadur ar agor rhwng 18 Tachwedd a 20 Rhagfyr 2020 a chrynhoir y canlyniadau isod. Ymatebodd 131 o fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd, cyfradd ymateb o 100%. Mae'r bwrdd iechyd yn ddiolchgar am gefnogaeth Fferylliaeth Gymunedol Cymru i gytuno i ymgorffori'r cwestiynau yn ymarfer dilysu Cronfa Ddata Fferylliaeth Cymru Gyfan a chyflwyno'r ymarfer.

Cadarnhaodd 122 o'r fferyllfeydd (93%) bod y safle'n hygyrch ar gadair olwyn. Cadarnhaodd pob un o'r 131 o fferyllfeydd fod ganddynt ardal ymgynghori (er nad yw un fferyllfa yn gallu cael mynediad i'w un nhw oherwydd pandemig Covid) gyda 111 yn cadarnhau ei bod yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn (85%). Mae cael ardal ymgynghori sy'n bodloni pedwar gofyniad penodol yn rhagofyniad ar gyfer gallu darparu'r gwasanaethau uwch. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori yn bodloni'r gofynion hyn sef:

- mae’n ystafell gaeedig;
- mae’n ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd;
- mae’r claf a'r fferyllydd yn gallu siarad ar lefel arferol heb gael eu clywed gan staff fferyllol nac ymwelwyr â'r fferyllfa; ac

- mae wedi'i ddynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol sydd ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd 19 o fferyllfeydd fod ieithoedd ar wahân i'r Saesneg yn cael eu siarad gan staff, ac mae'r tabl isod yn dangos pa ieithoedd ac o fewn sawl fferyllfa y cânt eu siarad.

Tabl 4 – ieithoedd a siaredir gan staff y fferyllfa

Iaith	Nifer y fferyllfeydd lle siaredir yr iaith
Arabeg	1
Bengaleg	1
Ffrangeg	3
Gwjarateg	3
Hindi	2
Portiwgaleg	1
Pwnjabeg	4
Rwsieg	1
Sbaeneg	1
Wrdeg	3
Cymraeg	9

Er ei bod yn ofynnol i fferyllfeydd ddosbarthu holl bresgripsiynau dilys y GIG ar gyfer cyffuriau, gallant ddewis pa gyfarpar y maent yn eu cyflenwi "fel mater o drefn busnes". Cadarnhaodd 114 o fferyllfeydd (87%) eu bod yn dosbarthu'r holl gyfarpar, gydag 13 (10%) yn cadarnhau mai dim ond rhwymynnau y maent yn eu dosbarthu, nid yw dau yn dosbarthu unrhyw gyfarpar, mae un yn dosbarthu cyfarpar ac eithrio'r rhai ar gyfer stomas, ac nid yw un yn dosbarthu cyfarpar stoma ac anymataliaeth.

Mae 130 o'r fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau oddi wrth bractisau meddygon teulu fel gwasanaeth preifat, rhad ac am ddim. Mae 77 o fferyllfeydd yn dosbarthu eitemau a ddosberthir i gleifion fel gwasanaeth preifat, di-dâl ac mae 28 yn ei ddarparu fel gwasanaeth preifat y codir tâl amdano. O'r rhai sy'n darparu'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, mae 39 yn ei gyfyngu i gategorïau penodol o gleifion, er enghraifft y rhai sydd ag angen clinigol, y rhai sydd â phroblemau symudedd neu sy'n gaeth i'r tŷ, cleifion hŷn, cleifion anabl, grwpiau agored i niwed a'r rhai sy'n hunanynysu oherwydd pandemig Covid. Mae 16 o fferyllfeydd yn cyfyngu'r gwasanaeth cyflenwi i gleifion mewn ardaloedd daearyddol penodol.

Er mwyn helpu i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau gwell, gofynnwyd i fferyllfeydd gadarnhau a oes gofyniad am wasanaeth ychwanegol sy'n bodoli eisoes nad yw'n cael ei ddarparu

yn yr ardal ar hyn o bryd, ac i ddarparu'r dystiolaeth i gefnogi hyn. Mae'r mwyafrif (114 neu 87%) naill ai wedi dweud:

- Nac oes,
- Nid ar hyn o bryd,
- ddim yn berthnasol,
- roeddent yn fodlon darparu mwy o wasanaethau ond heb nodi pa rai, neu
- ni wnaethant ymateb i'r cwestiwn.

Y gwasanaethau a nodwyd a'r rhesymu drostynt, a ddarparwyd yn yr ymatebion yw:

- Blychau dychwelyd pethau miniog y cleifion - yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y gymuned ac mae llawer o bobl yn ymholi ac rydym yn rhoi’r rhif ffôn iddynt ond yn amau nad yw rhai pobl yn trafferthu ac yn eu taflu i ffwrdd gyda'u sbwriel.
- Byddai brechu rhag y ffliw yn ehangu'r sylfaen yn yr ardal leol drwy gynnig gwasanaeth yn fwy hyblyg
- Mae angen cynyddu amser presgripsiynu annibynnol y fferyllfa, gan ei fod yn rhedeg yn llawn ond mae gan y fferyllfa le i gynnig apwyntiadau ychwanegol.
- Profion haint ar y llwybr wrinol. Mae nifer o geisiadau'n cael eu derbyn gan un fferyllfa bob wythnos, gan gynnwys penwythnosau, oddi wrth amrywiaeth o gleifion y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyfeirio at feddyg teulu'r claf ar gyfer profion a gwrthfiotigau. Byddai hwn yn wasanaeth syml i'w ddarparu mewn fferyllfa a lleihau llwyth gwaith meddygon teulu.

Pan ofynnwyd a oes gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn unol â'r cwestiwn blaenorol (119 neu 91%).

Roedd y gwasanaethau gofynnol yn seiliedig ar anghenion cleifion fel a ganlyn:

- Darparu presgripsiynau fel yr amlygwyd oherwydd y pandemig Covid – gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.
- Trin mân heintiau croen fel impetigo yn enwedig yn ystod pandemig Covid gan fod sawl claf wedi cael y rhain oherwydd gwisgo mygydau.
- Gwasanaeth dosbarthu a gychwynnwyd gan feddyg teulu mewn achosion brys/argyfwng. Gydag ymgynghoriadau fideo a ffôn â meddygon teulu yn dod yn arferol, mae nifer cynyddol o geisiadau gan feddygon teulu i ddarparu meddyginiaeth ar fyr rybudd. Byddai gwasanaeth gwell yn helpu i reoli'r galw ac yn talu'r costau cyflenwi cynyddol.

- Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol. Mae'r sefyllfa bresennol wedi gadael llawer o feddygfeydd teulu yn gweld llai o gleifion nag arfer sy'n golygu bod fferyllwyr wedi gorfod camu i fyny i ateb gofynion cleifion. Bydd y gwasanaeth presgripsiynu annibynnol yn ychwanegu nifer o fanteision i'r gymuned.
- Mae angen gwasanaeth gwirio pwysedd gwaed gan nad yw ar gael yn rhwydd yn rhai o'r meddygfeydd lleol.

Gan gydnabod bod y galw am wasanaethau fferyllol yn cynyddu am nifer o resymau, gan gynnwys y cynnydd parhaus yn nifer yr eitemau sy'n cael eu rhagnodi a phoblogaeth sy'n tyfu, roedd y fferyllfeydd yn gofyn a allant ymateb i'r cynnydd hwn. Dywedodd 108 o fferyllfeydd (82%) bod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd presennol a'u lefelau staffio i ateb cynnydd yn y galw, a dywedodd 20 fferyllfa (15%) nad oedd ganddynt ddigon o gapasiti ond y gallent wneud addasiadau er mwyn gwneud hynny.

Dim ond tair fferyllfa a ddywedodd nad oedd ganddynt ddigon o safleoedd a chapasiti staffio ac y byddent yn ei chael yn anodd rheoli cynnydd yn y galw.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu safleoedd neu eu darpariaeth gwasanaeth, roedd 46 o fferyllfeydd (35%) wedi nodi bod ganddynt. Mae'r cynlluniau mewn perthynas â safleoedd yn cynnwys:

- Estyniadau i wella'r amgylchedd gwaith a bodloni'r galw cynyddol
- Adnewyddu safleoedd presennol (gan gynnwys adnewyddu sydd wedi digwydd yn ddiweddar)
- Lleihau gofod manwerthu er mwyn cynyddu'r lle i ddarparu gwasanaethau
- Dod â gofod ychwanegol ar waith o fewn safleoedd presennol
- Ymgorffori ail ystafell ymgynghori
- Symud i safle newydd.

Mewn perthynas â datblygiadau gwasanaeth:

- Gosod pwynt casglu meddyginiaethau 24/7
- Adolygu'r defnydd o dechnoleg/awtomeiddio i wella effeithlonrwydd y broses ddosbarthu
- Fferyllwyr yn cwblhau cwrs rhagnodi annibynnol (ymateb mwyaf cyffredin) a defnyddio'r sgiliau hynny
- Ehangu'r cwrs rhagnodi annibynnol presennol
- Cwblhau achrediad er mwyn darparu'r gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 (yr ail ymateb mwyaf cyffredin)
- Dechrau darparu gwasanaeth gwell o ran profi a thrin gwddf tost

- Dechrau (neu ymgymryd ag ailddilysu) er mwyn darparu'r gwasanaeth gwell atal cenhedlu hormonaidd brys
- Yn barod i ddarparu gwasanaethau y mae'r bwrdd iechyd neu'r rhwydwaith gofal cymdogaeth yn dymuno eu comisiynu
- Darparu'r gwasanaeth brechu rhag y ffliw
- Dechrau darparu gwasanaethau uwch a gwell ychwanegol. Mae'r rhai a restrir yn cynnwys rheoli pwysau, chwistrellu clust/meicro sugno ochr yn ochr â'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol presennol, cynnig gwasanaethau ychwanegol fel podiatreg, sefydlu gwasanaeth/clinig mân anhwylderau mewn cydweithrediad â'r feddygfa leol, a chlinig teithio
- Ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau sy'n bodoli eisoes megis presgripsiynu annibynnol a defnydd dan oruchwyliaeth
- Cyflwyno danfoniadau y codir tâl amdanynt ar gyfer cleifion heb anableddau a gofyn am wasanaeth dosbarthu ar sail cyfleustra'n unig
- Cynnig mwy o gasgliadau o feddygfeydd eraill.

Cynhaliwyd holiadur ar-lein ar gyfer arferion dosbarthu hefyd ac fel gyda fferyllfeydd, cymerwyd y dull o weithredu i ofyn i gontractwyr am wybodaeth na ellid dod o hyd iddi yn rhywle arall.

Gellir dod o hyd i gopi o'r holiadur yn Atodiad G.

Roedd yr holiadur ar agor rhwng 5 Tachwedd a 4 Rhagfyr 2020 a chrynhoir y canlyniadau isod. O'r 12 practis dosbarthu, ymatebodd pedwar, cyfradd ymateb o 33%. Mae'r bwrdd iechyd yn ddiolchgar am gefnogaeth Pwyllgor Meddygol Lleol Gwent i annog contractwyr i gwblhau'r holiadur.

Mae'r gweinyddwyr mewn tri o'r practisau ar agor drwy'r dydd, gan agor naill ai 08.00 neu 08.30 a chau am 18.00 neu 18.30), ond yn y pedwerydd practis mae ar agor o 8.30 i 14.30. Dim ond un dosbarthwr sy'n cau amser cinio.

Mae un practis yn dosbarthu'r holl bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar, mae dau ond yn dosbarthu rhwymynau ac nid yw'r pedwerydd yn dosbarthu unrhyw rwymyn.

Mae un practis wedi bod yn cynnig gwasanaeth dosbarthu i bob claf ers dechrau pandemig Covid. Nid yw'r tri arall yn cynnig gwasanaeth o'r fath.

Heblaw Saesneg, ni nodwyd bod unrhyw ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan staff fferyllol.

Mae gan ddau o'r practisau ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd presennol a'u lefelau staffio i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaeth

fferyllol, ond nid yw dau arall yn yr un sefyllfa a byddant yn cael anhawster i reoli cynnydd yn y galw.

Mewn perthynas â darparu gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â gweinyddu:

- Mae dau yn darparu siartiau cofnodi rhoi meddyginiaethau, ac
- Mae un hefyd yn darparu blychau dos a siartiau meddyginiaeth i gleifion eu defnyddio gyda gweinyddu awtomatig.

Mewn perthynas â newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r gwasanaeth gweinyddu o ganlyniad i bandemig Covid, dywedodd un practis ei fod yn bwriadu parhau i ddarparu adolygiadau meddyginiaeth o bell a mwy o ddefnydd o Fy Iechyd Ar-lein.

1.5.5 Ffynonellau gwybodaeth eraill

Defnyddiwyd y dogfennau a'r gwefannau canlynol fel ffynonellau gwybodaeth am anghenion iechyd y boblogaeth:

- Asesiad o Anghenion Poblogaeth Adroddiad Rhanbarth Gwent Mai 2017
- Asesiad Llesiant Blaenau Gwent Ebrill 2017
- Asesiad Llesiant Ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili Mawrth 2017
- Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy Ebrill 2017
- Proffil Llesiant Cymunedol Casnewydd Mai 2017
- Asesiad Llesiant Torfaen Mawrth 2017
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus 2019 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gwefan Nomis
- Gwefan StatsCymru
- Cronfa ddata QOF gwefan Contract Meddygon Teulu
- Gwefan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Gwefan Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019
- Gwefan Mapiau Iechyd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Cynlluniau Datblygu Lleol ac Adroddiadau Monitro Blynyddol yr awdurdodau lleol (2019 neu 2020)

1.5.6 Ymgynghori

Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r asesiad o anghenion fferyllol, yn cael ei gynnwys yn atodiad Ng.

2 Trosolwg o ardal y bwrdd iechyd

2.1 Cyflwyniad

Mae ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cyd-fynd ar y cyfan â 'Gwent' Fwyaf, term a ddefnyddir i adlewyrchu pum ardal awdurdod lleol:

- Blaenau Gwent,
- Caerffili,
- Sir Fynwy,
- Casnewydd a
- Thorfaen.

Mae demograffeg ardal y bwrdd iechyd yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd cefn gwlad wledig, canolfannau trefol a'r mwyaf dwyreiniol o gymoedd De Cymru. Mae'r map isod yn dangos y dosbarthiad trefol gwledig ar gyfer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn ardal y bwrdd iechyd, ac mae'n adlewyrchu natur wledig gyffredinol ochr ddwyreiniol ardal y bwrdd iechyd o'i gymharu â'r ochr orllewinol fwy trefol.

Map 2 – dosbarthiad trefol gwledig (2011) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan[1]



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100050829

[1] Mapiau Iechyd Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Mae **Blaenau Gwent** yn lle o dreftadaeth a newid dramatig, gydag ymdeimlad o'i orffennol ond ei lygaid yn gadarn ar y dyfodol. Mae'r ardal yn gymharol fach yn ddaearyddol, gan ei bod ar y mwyaf 15 milltir i'r gogledd i'r de, ac 8 milltir o'r Dwyrain i'r Gorllewin, sy'n cwmpasu tua 10,900 hectar, gyda phoblogaeth o 69,862[2]. Diffinnir Blaenau Gwent yn ffisegol gan fryniau uchel sy'n rhannu'r tri phrif gwm. Mae'r cymoedd hyn yn gartref i drefi a phentrefi sydd, er eu bod fel petaent yn uno â'i gilydd yn un, yn cynnal eu cymeriad a'u traddodiadau eu hunain ac yn falch o hynny.

Er bod y trefi'n rhoi teimlad prysur, trefol i'r fwrdeistref sirol, mae Blaenau Gwent mewn gwirionedd yn ardal wledig i raddau helaeth. Mae gan yr ardal fannau gwyrdd hygyrch a gweithio cymunedol agos ond mae'n ardal â lefelau uchel o ddiweithdra a chanran uchel o bobl sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau.

Mae **Bwrdeistref Sirol Caerffili** yn cwmpasu ardal sy'n ymestyn o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y gogledd, i Gaerdydd a Chasnewydd yn y de. Mae'n ffinio i'r gorllewin â Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, ac i'r dwyrain ag awdurdodau lleol Blaenau Gwent a Thorfaen. Mae'r ardal wrth galon Cymoedd De Cymru a Rhanbarth Prifddinas Caerdydd. Mae bwrdeistref sirol Caerffili tua 28,000 hectar o ardal y Cymoedd yn Ne-ddwyrain Cymru, ac mae ganddi boblogaeth o 181,075[3]. Mae ychydig dros 30 cilomedr o hyd a 17.5 cilomedr o led ac fe'i ffurfir gan gymoedd tair afon: y Rhymni, Sirhywi a'r Ebwy. Mae'r fwrdeistref sirol yn gymysgedd o gymunedau trefol a gwledig. Defnyddir tri chwarter y fwrdeistref sirol ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth.

---

[2] StatsCymru amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 yn ôl awdurdod lleol
[3] StatsCymru amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 yn ôl awdurdod lleol

Mae'r cyfyngiadau topograffig sy'n gysylltiedig â'r tri chwm yn cyflwyno heriau sylweddol o ran perthnasoedd a swyddogaethau eu trefi a'u pentrefi. Prin yw'r ardaloedd ym mwrdeistref sirol Caerffili sy'n gallu bod yn hunangynhaliol yn economaidd.

Mae pum prif ganolfan ym mwrdeistref sirol Caerffili:

- Caerffili,
- Y Coed Duon,
- Rhisga,
- Bargod ac
- Ystrad Mynach.

Cefnogir swyddogaethau'r canolfannau hyn gan bedair canolfan leol Trecelyn, Rhymni, Nelson a Bedwas sy'n gweithredu fel cyflogwyr mawr, canolfannau manwerthu, darparwyr gwasanaethau a chanolfannau poblogaeth. Ardaloedd trefol preswyl yw'r aneddiadau sy'n weddill yn y fwrdeistref sirol yn bennaf, er bod nifer o aneddiadau cymoedd gwledig anghysbell. Yn gyffredinol, mae'r fwrdeistref sirol yn cynnwys 50 o drefi a phentrefi penodol, y mae llawer ohonynt yn aneddiadau cwm nodweddiadol ac wedi'u lleoli ar lawr y dyffryn, gyda'r prif aneddiadau i raddau helaeth yn adlewyrchu treftadaeth lofaol gyfoethog yr ardal. Mae gan Gaerffili economi sy'n ehangu ac mae'n elwa drwy gysylltiadau trafnidiaeth da â Chaerdydd ond ceir lefelau sylweddol o ddiweithdra ac iechyd gwael.

Wedi'i leoli yn Ne-ddwyrain Cymru, mae **Sir Fynwy** mewn safle strategol rhwng y prif ganolfannau yn Ne Cymru, De-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Mae'r sir yn cwmpasu ardal o tua 880 cilomedr sgwâr ac amcangyfrifir bod y boblogaeth yn 94,590[4].

Mae'n sir wledig yn bennaf gyda 53% o gyfanswm y boblogaeth yn byw mewn wardiau a ddiffinnir fel rhai mewn ardaloedd trefol. Y prif aneddiadau yw:

- Y Fenni,
- Cas-gwent,
- Trefynwy,
- Cil-y-coed,
- Brynbuga a
- Magwyr a Gwndy.

Mae gan y sir hunaniaeth unigryw sy'n deillio o'i lleoliad yn y gororau rhwng Lloegr a hen galon ddiwydiannol cymoedd De Cymru. Mae elfen

[4] StatsCymru amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 yn ôl awdurdod lleol

annatod o batrwm anheddu unigryw Sir Fynwy yn deillio o'i threfi a'i phentrefi marchnad hanesyddol a'u perthynas â'r ardaloedd gwledig cyfagos.

Mae gan y Sir dirwedd gyfoethog ac amrywiol sy'n ymestyn o arfordir Gwastadeddau Gwent yn Ne'r Sir, i ucheldiroedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y Gogledd, y coridor afon hardd yn Nyffryn Wysg yn y dwyrain. Mae rhwydwaith ffyrdd da yn cysylltu Sir Fynwy â chanolfannau poblogaeth mawr fel Caerdydd, Casnewydd a Bryste ac mae llawer o'r boblogaeth yn manteisio ar y cysylltiadau hyn i gymudo allan o'r ardal am gyfleoedd cyflogaeth.

Mae gan Sir Fynwy adnoddau tirwedd mawr ac mae'n gartref i dirweddau a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol, sy'n amrywio o ardal o harddwch naturiol eithriadol Dyffryn Gwy i'r dwyrain a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd-orllewin. Mae'n cynnwys rhywfaint o dir amaethyddol o ansawdd da ac mae ganddi gyfran uchel o dir ffermio – mwy na dwbl cyfartaledd Cymru gydag 16.7% o hyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cnydau a garddwriaeth.

Yn gyffredinol mae Sir Fynwy yn ardal ffyniannus sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel i'w thrigolion. Fodd bynnag, gall y prif ffigurau hyn guddio pocedi o amddifadedd sydd yn fwy llwm byth pan gânt eu cyfosod ag ardaloedd o gyfoeth cymharol.

Mae **Casnewydd** yn ddinas amlddiwylliannol ag awyrgylch unigryw lle mae diwydiannau traddodiadol yn bodoli ochr yn ochr â sectorau electronig a gwasanaethau ariannol newydd. Dyma'r drydedd ganolfan drefol fwyaf yng Nghymru gyda phoblogaeth o 154,676[5] ac mae'n cwmpasu ardal o 217.7 cilomedr sgwâr – tua 1% o gyfanswm arwynebedd Cymru, sy'n 21,225 cilomedr sgwâr. Mae gan y ddinas yr ail nifer fwyaf o bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol o holl siroedd Cymru (ar ôl Caerdydd) sydd wedi parhau i gynyddu ers 2009 pan amcangyfrifwyd y ffigur ar 6.6% o'r boblogaeth.

Gan sefyll wrth y porth rhwng Cymru a Lloegr, mae Casnewydd yn ddinas fywiog, flaengar sy'n llawn treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog, sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan gydnabuwyd ei lleoliad strategol pwysig am y tro cyntaf.

Cyrhaeddodd yr ymsefydlwyr cyntaf ardal Casnewydd yn yr Oes Efydd, a cheir tystiolaeth o hyn hyd heddiw, yn enwedig ar y gwastatiroedd arfordirol. Yn ystod y goresgyniad Rhufeinig, roedd Caerllion yn brif bencadlys milwrol a gellir gweld olion sylweddol a gloddiwyd yno, gan

[5] StatsCymru amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 yn ôl awdurdod lleol

gynnwys yr amffitheatr, y baddonau a’r barics a ddefnyddiwyd gan y Lleng Rufeinig. Yn y 5ed ganrif sefydlwyd safle crefyddol gan y Sant Cymreig, Gwynllyw, safle sydd wedi datblygu i fod yn Eglwys Gadeiriol Gwynllyw, a saif heddiw.

Erbyn y 15fed ganrif, roedd Casnewydd yn borthladd masnachu nodedig. Yna tyfodd y Ddinas yn sylweddol yn ystod chwyldro diwydiannol ddiwedd y 18fed ganrif a’r 19eg ganrif, yn gyntaf yn sgil datblygu’r rhwydwaith camlesi ac yna yn sgil dyfodiad y rheilffyrdd, gan alluogi allforio llwythi glo sylweddol ynghyd â chynnyrch haearn a dur. Daeth Casnewydd yn brif dref Sir Fynwy, sir a oedd yn ymestyn mor bell i’r gorllewin â Chwm Rhymni bryd hynny. Mae llawer o’r adeiladau mawreddog a godwyd yn Oes Fictoria i’w gweld o hyd, sy’n golygu bod gan Gasnewydd gymeriad a gollwyd gan nifer o drefi a dinasoedd eraill.

Yn y cyfnod modern, bu gweithgynhyrchu dur yn un o gonglfeini’r economi drwy gydol yr 20fed ganrif, ynghyd â’r porthladd. Fodd bynnag, dirywiodd llawer o’r diwydiannau trymion yng Nghasnewydd. Daeth gweithgynhyrchu dur i ben yng Ngwaith Dur Llanwern yn 2001, gan arwain at golli 1,300 o swyddi.

Mae bwrdeistref sirol **Torfaen** yn ffinio â dinas Casnewydd i'r de, sir Fynwy i'r dwyrain a bwrdeistrefi sirol Caerffili a Blaenau Gwent i'r gorllewin a'r gogledd-orllewin. Mae gan Dorfaen ardal o 126 cilomedr sgwâr a dyma'r drydedd fwrdeistref leiaf yng Nghymru; mae ganddi boblogaeth o tua 93,961.[6]

Yn ddaearyddol mae'r ardal yn rhedeg o Flaenau'r Cymoedd yn y gogledd i goridor yr M4 yn y de ac mae tri phrif anheddiad ar hyd y ffordd - Blaenafon, Pont-y-pŵl a Chwmbrân. Torfaen yw'r mwyaf dwyreiniol o gymoedd diwydiannol De Cymru gyda'r aneddiadau yng ngogledd a chanol y fwrdeistref a sefydlwyd yn wreiddiol i fanteisio ar yr adnoddau siarcol, glo a haearn anadnewyddadwy helaeth yn yr ardal. Wrth i'r diwydiannau trwm hynny ddirywio dros y 100 mlynedd diwethaf, felly hefyd a wnaeth llewyrch yr ardaloedd hynny.

Heddiw mae gan dref Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon boblogaeth o tua 6,000 a dyma dref sydd bellaf i'r gogledd yn y fwrdeistref. Mae Blaenafon yn enwog am amgueddfa lofaol y Pwll Mawr a gwaith haearn gorau Ewrop o'r 18fed ganrif.

Hen dref ddiwydiannol Pont-y-pŵl gyda'i marchnad draddodiadol dan do ac awyr agored yw'r ail anheddiad mwyaf yng nghanol y fwrdeistref, ac

[6] StatsCymru amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 yn ôl awdurdod lleol

mae ganddi boblogaeth o tua 37,100 gan gynnwys y gwahanol gymunedau sydd o'i hamgylch.

Yn ne'r fwrdeistref, mae Cwmbrân yn unigryw o ran bod yr unig Dref Newydd yng Nghymru, wedi'i dynodi felly ym 1949 ac fe'i cynlluniwyd fel tref nodedig, flaengar a modern yn cynnig cyfleoedd newydd i'w thrigolion. Mae llawer o rannau deheuol y fwrdeistref sirol bellach wedi'u trefoli o amgylch Cwmbrân, sydd â'r boblogaeth fwyaf o bob un o'r tair ardal anheddu, sef tua 48,700. Canolfan Siopa Cwmbrân sy'n denu'r nifer fwyaf o ymwelwyr siopa gyda 17 miliwn o gwsmeriaid y flwyddyn o ardal ehangach Gwent a choridor yr M4.

2.2 Cyd-destun Strategol

Gwelodd cyhoeddi "Cymru Iachach[7]" yn 2018 ddechrau'r cyfnod cynllunio newydd ar gyfer darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol a oedd yn canolbwyntio ar iechyd a lles dinasyddion ac ar atal salwch. Yr uchelgais oedd creu system ofal ddi-dor, integredig wedi'i chynllunio o amgylch cymunedau lle mae pobl sy'n byw yn y lleoedd hyn yn ymwneud â datblygu atebion hirdymor, sy'n helpu dinasyddion i atal salwch y gellir ei osgoi a darparu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r weledigaeth genedlaethol hon ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn cyd-fynd â Strategaeth Dyfodol Clinigol hirsefydlog y bwrdd iechyd[8] a ddatblygwyd ac a gefnogwyd drwy ymgynghoriad cyhoeddus yn 2007. Roedd hyn yn gosod y bwrdd iechyd ar daith uchelgeisiol i sicrhau gwell cydbwysedd gofal:

- Perthynas fwy cyfartal rhwng pobl leol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gydag unigolion yn cael mwy o reolaeth dros eu cyflyrau ac yn rhannu'r broses o wneud penderfyniadau ar y gofal sy'n iawn iddynt;
- Cryfhau gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol ym mhob ardal rhwydwaith gofal cymdogaeth, gan symud o ofal adweithiol i ofal rhagweithiol a diwallu'r rhan fwyaf o anghenion gofal y tu allan i ysbytai traddodiadol;
- Ar y cyfan, bydd gwasanaethau asesu a thrin brys yn cael eu darparu ar yr un diwrnod heb fod angen arhosiad dros nos yn yr ysbyty;
- Rhwydwaith ategol o ysbytai lleol yn darparu gwasanaethau diagnostig a thriniaeth arferol, a

[7] Llywodraeth Cymru, Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, 2018
[8] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Dyfodol Clinigol

- Bydd mynediad at wasanaethau gofal arbenigol a hanfodol i'r dinasyddion mwyaf difrifol wael yn cael ei wella drwy gyfuno'r gwasanaethau hyn mewn cyfleuster pwrpasol newydd – Ysbyty Prifysgol y Faenor - a agorodd yn 2021.

Mae'r ffigur isod yn rhoi trosolwg o sut y bydd y system gofal iechyd yn edrych unwaith y bydd gweledigaeth Dyfodol Clinigol yn cael ei gwireddu.

Ffigur 7 – system gofal iechyd y dyfodol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



Mae gan y bwrdd iechyd saith cynllun newid gwasanaeth:

1. Cadw pobl yn iach,
2. Gofal agos i'r cartref,
3. Cyflyrau iechyd difrifol,
4. Iechyd meddwl ac anableddau dysgu
5. Gofal brys ac mewn argyfwng,
6. Gofal wedi'i gynllunio, a
7. Chynllunio rhanbarthol.

Maent yn ceisio:

- Lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd y boblogaeth,
- Darparu system integredig o iechyd, gofal a lles,
- Gwella perfformiad y system ysbytai, a
- Sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

Er mwyn i wasanaethau y tu allan i'r ysbyty gael eu darparu'n fwyaf effeithiol, mae Gwent fel rhanbarth wedi ymrwymo i weithredu model o 'ofal seiliedig ar le'. Mae'r model hwn yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, sy'n cael eu strwythuro i gyd-fynd a gweithio gyda'i gilydd o amgylch ardal ddaearyddol benodol.

Mae 'gofal seiliedig ar le' yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu ar y lefel fwyaf priodol er mwyn sicrhau màs critigol cynaliadwy, tra'n ceisio meithrin mwy o ofal integredig a llai o gymhlethdod i gleifion a staff proffesiynol. Mae'r ffigur isod yn dangos y gwahanol lefelau o ddarpariaeth gofal yn seiliedig ar leoedd yn ardal y bwrdd iechyd.

Ffigur 8 – lefelau'r ddarpariaeth gofal yn y lle



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Mae gwasanaethau eisoes wedi'u strwythuro i'r pum bwrdeistref (awdurdod lleol) ac 11 o ardaloedd rhwydwaith gofal cymdogaeth ond rhaid i waith fynd rhagddo yn awr i ddiffinio'r lefel nesaf o 'leoedd'. Bydd yr ardaloedd hyn yn dibynnu ar ffiniau daearyddol neu derfynau poblogaeth a byddant yn cynrychioli grŵp llai o wasanaethau sy'n darparu gofal i'r un boblogaeth ac a all weithio'n weithredol mewn partneriaeth. Bydd y 'lleoedd' hyn fel arfer yn cynnwys rhwng un a thri practis meddyg teulu (yn dibynnu ar faint) a chontractwyr gofal sylfaenol eraill a byddant, yn y dyfodol, yn dod yn ffiniau gweithredol ar gyfer timau integredig sy'n seiliedig ar leoedd sy'n cynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol. Cymunedau naturiol fydd y rhain, a gydnabyddir gan y boblogaeth leol fel canolfannau y maent yn teithio iddynt ar gyfer siopa/llyfrgelloedd/gweithgareddau cymunedol ac sy'n adlewyrchu trefniadau trafnidiaeth gyhoeddus.

Y bwriad yw y bydd pob rhwydwaith gofal is-gymdogaeth yn 'lle', yn ceisio datblygu model hyb. Nod y dull hwn yw gwneud y gorau o'r adnoddau presennol drwy gydleoli gwasanaethau ar draws sbectrwm iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

Bydd y canolfannau hyn yn cynnwys ymarferwyr gofal sylfaenol a, lle bynnag y bo modd, yn gartref i wasanaethau rhyngddibynnol er mwyn lleihau nifer y 'drysau blaen' i gleifion. Bydd canolfannau'n ceisio meithrin y dull amlddisgyblaethol ac integredig newydd o ymdrin â gofal sylfaenol a gwasanaethau yn y gymuned, gan ddwyn ynghyd amrywiaeth o ymarferwyr sydd ag arbenigedd gwahanol i ddarparu gofal ar gyfer poblogaeth benodol yn seiliedig ar eu hanghenion. Bydd hybiau'n rhoi cyfle i dimau gydweithio'n agosach i symleiddio prosesau gweithredol, lleihau dyblygu a rhannu adnoddau.

Bydd y nifer sy'n ffurfio canolfannau yn amrywio o le i le, yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd canolfannau'n cynnwys cyfuniad o wasanaethau a ddarperir ar y lefelau canlynol:

- Hybiau lles: Dylai pob ardal o leiaf gael mynediad i hyb lles. Yr hybiau hyn fydd y ganolfan ar gyfer timau integredig sy'n seiliedig ar leoedd a byddant yn cyfuno gwasanaethau a ddarperir ar lefel leol (rhwydwaith gofal is-gymdogaeth) o tua 25,000 o bobl.

- Hybiau iechyd a lles integredig: Ar lefel rhwydwaith gofal cymdogaeth neu fwrdeistref yn dibynnu ar y ddaearyddiaeth a'r angen a aseswyd, bydd un hyb yn cael ei ffurfweddu fel canolfan iechyd a lles integredig gwell. Bydd yr hybiau hyn yn ychwanegu haen ychwanegol o ddarpariaeth gwasanaeth sy'n cael ei darparu orau o amgylch poblogaeth fwy o rhwng 50,000 a 100,000 o bobl.

- Hybiau gofal brys: Gall yr hybiau hyn gyflwyno'r potensial i ymarferwyr gofal sylfaenol gyfuno adnoddau er mwyn darparu mwy o fynediad ar gyfer achosion brys/argyfwng. Bydd hybiau gofal brys yn canolbwyntio ar ofal heb ei gynllunio, a allai fel arall arwain at bresenoldeb i'r adran achosion brys neu unedau asesu brys yn yr ysbyty. Gall yr hybiau fod wedi'u lleoli mewn ysbyty acíwt neu gymunedol neu fel rhan o ganolfan iechyd a lles integredig a byddant fel arfer yn bodoli ar gyfer poblogaeth o rhwng 100,000 a 200,000 o bobl.

- Hybiau rhithwir: Ni fydd yn bosibl nac yn angenrheidiol adeiladu cyfleusterau newydd ym mhob achos i gyflawni'r model hwn. Mewn llawer o achosion gellir mabwysiadu egwyddorion yr hybiau mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes gan ddefnyddio dull 'rhithwir' o ddod â thimau integredig sy'n seiliedig ar leoedd at ei gilydd. Bydd disgwyl i dimau lleol ystyried addasiadau i adeiladau/modelau gwasanaeth

presennol er mwyn asesu'r cyfleoedd i weithio ar sail ddaearyddol cyn blaenoriaethu datblygiadau ystadau newydd.

Mae'r ffigur isod yn dangos sut y byddai gofal seiliedig ar leoedd yn cael ei strwythuro drwy ddefnyddio hybiau.

Ffigur 9 – Darparu gofal seiliedig ar le drwy hybiau



Mae gan y byrddau iechyd weledigaeth glir ar gyfer natur y gwasanaethau sydd i'w darparu ar bob lefel poblogaeth. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr o wasanaethau a gynhwysir yn y ffigur isod yn hollgynhwysol a bydd angen cynllunio pob canolfan ar wahân ochr yn ochr â chyfuniad o bartneriaid sy'n gyfrifol am ddarparu gofal yn lleoliad y ganolfan.

Ffigur10 – gwasanaethau sydd i'w darparu ar bob lefel



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Fel y gwelir, mae fferyllfeydd wedi'u lleoli ar y lefel 'leol' sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 10,000 fel rhan o hybiau lles a chanolfannau iechyd a lles. Fodd bynnag, bydd fferyllfeydd hefyd yn sail i ddarparu gwasanaethau a ddarperir ar lefelau eraill, er enghraifft gweinyddu presgripsiynau a gyhoeddir gan y gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau brys (lefel bwrdd iechyd), a chynnal stoc o gyffuriau gofal lliniarol i gefnogi gofal diwedd oes gartref.

Fferylliaeth; Cyflawni Cymru Iachach[9] - cafodd y weledigaeth ei rhyddhau ym mis Ebrill 2019 ac mae'n nodi nodau hirdymor ar gyfer trawsnewid gwasanaethau, er mwyn galluogi dinasyddion Cymru i gael y budd iechyd gorau o'u meddyginiaethau. Cafodd ei derbyn gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n cael ei datblygu drwy sefydlu bwrdd cyflawni. Mae'r weledigaeth hon yn cyd-fynd â 14 egwyddor i drawsnewid fferylliaeth yng Nghymru erbyn 2030 gan ganolbwyntio ar y pedair thema ganlynol:

- Gwella profiad cleifion,
- Datblygu’r gweithlu,
- Gofal fferyllol di-dor, a
- Harneisio arloesedd a thechnoleg.

Meddyginiaethau yw'r ymyriad therapiwtig mwyaf cyffredin a ddefnyddir ym maes gofal iechyd:

- Amcangyfrifir nad yw rhwng 30% a 50% o feddyginiaethau a ragnodir ar gyfer cyflyrau hirdymor yn cael eu cymryd fel y bwriadwyd. Mae hyn yn cynrychioli nid yn unig gost economaidd oherwydd y feddyginiaeth wastraffus, ond hefyd y gost sy'n deillio o alwadau cynyddol am ofal iechyd oherwydd diffyg ymlyniad a gwaethygu o ran cyflwr y claf.
- Mae diogelwch meddyginiaethau yn ystyriaeth bwysig arall gyda 6.5% o'r holl dderbyniadau’n gysylltiedig â meddyginiaeth. Mae tystiolaeth yn awgrymu yr ystyrir bod modd osgoi 72% o'r rhain. Cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd her diogelwch meddyginiaeth er mwyn lleihau lefel y niwed difrifol, y gellir ei osgoi sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau gan 50% erbyn 2022.
- Bydd y pwysau ariannol ar bresgripsiynu yn parhau i dyfu ar draws pob sector oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio a chyflwyno meddyginiaethau newydd ac arloesol. Mae'n bwysig felly bod y

[9] Pwyllgor Fferyllol Cymru, Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach, Ebrill 2019

ffocws yn parhau i sicrhau dull darbodus o reoli meddyginiaethau'n effeithiol.

Felly, mae'n hanfodol bod y gwasanaeth fferyllol ar draws gofal sylfaenol (gan gynnwys fferyllwyr cymunedol) a gofal eilaidd yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu sgiliau proffesiynol fel yr arbenigwyr mewn meddyginiaethau, drwy weithio ar frig eu trwydded, i ddarparu gwasanaethau diogel, hygyrch ac effeithiol. Bydd hyn yn sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar y gweithiwr proffesiynol cywir yn y lleoliad cywir ar yr adeg gywir, er mwyn cael y budd mwyaf o'u meddyginiaethau.

2.3 Poblogaeth

Yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth StatsCymru ar gyfer canol blwyddyn 2019, cyfanswm poblogaeth ardal y bwrdd iechyd oedd 594,164, ac roedd 49% ohonynt yn ddynion a 51% yn fenywod[10].

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 4.1% o tua 577,100 yn 2011 i 601,000 yn 2036. Gwelir y cynnydd mwyaf yng Nghasnewydd gyda chynnydd amcangyfrifedig o 17.3% (145,800 i 170,900), Caerffili 2%, Torfaen 1.1%. Amcangyfrifir y bydd gan Flaenau Gwent ostyngiad yn y boblogaeth o 6.6% a Sir Fynwy -1.3%. Gostyngiad Blaenau Gwent yw'r gostyngiad amcangyfrifedig mwyaf ar draws y boblogaeth yng Nghymru.

Rhagwelir cynnydd sylweddol ar gyfer y boblogaeth dros 65 oed pan amcangyfrifir y bydd un o bob pedwar o bobl (26%) yn 65 oed neu'n hŷn - sy'n debyg i ffigur Cymru.

Erbyn 2036, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl 85 oed a throsodd yn cynyddu 147% (o tua 13,000 yn 2011 i 32,000 yn 2036).

Yn 2014, roedd tua un o bob pump o breswylwyr dros 65 oed (19%), chwech o bob deg (62%) o oedran gweithio (16 i 64 oed) a bron i un o bob pump (19%) o dan 16 oed.

Mae'r boblogaeth o dan 16 oed wedi gostwng 2,700 (1%) rhwng 2005 a 2014, o 114,100 i 108,300.

Mae'r ffigur isod yn dangos sut mae oedran y boblogaeth wedi newid yn y deng mlynedd rhwng 2009 a 2019, gyda gostyngiad yn nifer y bobl o dan 44 oed a chynnydd yn nifer y bobl 45 oed a throsodd.

[10] StatsCymru amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2019 yn ôl awdurdod lleol

Ffigur 11 – newid yn oedran y boblogaeth yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, 2009 a 2019



Bu gostyngiad sylweddol yn y gyfradd marwolaethau o dan 75 o 17.1% a 17.4% ar gyfer dynion a menywod yn y drefn honno (mwy o welliant na Chymru). Mae hyn yn dangos yr effeithiau cadarnhaol a'r gwelliannau sylweddol y mae amrywiaeth o wasanaethau, gweithgareddau a rhaglenni wedi'u targedu wedi'u gwneud i leihau cyfraddau marwolaethau.

Ac eithrio Sir Fynwy, mae gan yr ardal fwy o ddwysedd poblogaeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a Chasnewydd yw'r ardal â'r boblogaeth fwyaf dwys.

Ffigur 12 - dwysedd poblogaeth (personau fesul cilomedr sgwâr), 2019[11]

	Canol blwyddyn 2019
Cymru	152.0
Blaenau Gwent	642.5
Caerffili	652.8
Sir Fynwy	111.4
Casnewydd	812.5
Torfaen	747.5

[11] StatsCymru - dwysedd poblogaeth (personau fesul cilomedr sgwâr) yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn

2.4 Twristiaid

Yn ôl Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2019, rhwng 2017 a 2019, roedd 0.54 miliwn o deithiau ar gyfartaledd (gan gynnwys tripiau plant) y flwyddyn i ardal Gwent gan drigolion Prydain Fawr. Nifer y nosweithiau (gan gynnwys nosweithiau plant) a dreuliwyd oddi cartref ar y teithiau hyn oedd tua 0.60 miliwn y flwyddyn. Gwerth gwario ar y teithiau hyn oedd £89 miliwn y flwyddyn[12].

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys ymweliadau dydd, a gwmpesir yn Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr. Dywed yr arolwg hwn wrthym fod 18 miliwn o deithiau diwrnod o gartref wedi'u gwneud yn 2019 i gyrchfannau yn Ne-ddwyrain Cymru[13] fesul blwyddyn a chyfanswm y gwariant yw tua £579 miliwn y flwyddyn[14].

Mae twristiaid tramor yn cael eu cynnwys ar wahân yn Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2019 sy'n adrodd 100,750 o deithiau rhyngwladol i Went yn 2019, gyda chyfanswm gwariant o £31.32 miliwn[15].

2.5 Ethnigrwydd

Yn ôl data Cyfrifiad 2011[16], mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y bwrdd iechyd (96.1%) o fewn y grŵp ethnig Gwyn. Mae'r 3.9% sy'n weddill yn breswylwyr sy'n disgrifio eu hunain fel a ganlyn:

- Asiaidd/Asiaidd Prydeinig – 2.0%
- Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – 1.0%
- Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig – 0.6%
- Grŵp Ethnig Arall – 0.3%.

Fel y gwelir o'r tabl isod, mae gan Gasnewydd boblogaeth fwy ethnig amrywiol na sydd gan yr awdurdodau lleol eraill.

---

[12] Croeso Prydain, Adroddiad blynyddol Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2019

[13] Mae'r ffigurau hyn hefyd yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

[14] Croeso Prydain, Adroddiad blynyddol Ymwelwyr Dydd Prydain Fawr 2019

[15] Croeso Prydain, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2019

[16] Nomis CA201EW - Grŵp ethnig

Tabl 5 – Grwpiau ethnig yn ôl canran yn ôl awdurdod lleol a Chymru

Awdurdod lleol	Gwyn	Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig	Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	Du/Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig	Grŵp ethnig arall
Blaenau Gwent	98.5%	0.6%	0.7%	0.1%	0.1%
Caerffili	98.3%	0.7%	0.8%	0.1%	0.1%
Sir Fynwy	98.0%	0.7%	1.0%	0.2%	0.1%
Casnewydd	89.9%	1.9%	5.5%	1.7%	1.0%
Torfaen	98.0%	0.7%	1.1%	0.2%	0.1%
Cymru	95.6%	1.0%	2.3%	0.6%	0.5%

2.6 Iaith yr aelwyd

Nifer y preswylwyr yn y bwrdd iechyd nad y Gymraeg neu'r Saesneg yw eu prif iaith oedd 11,423 yng Nghyfrifiad 2011, gyda 2,296 neu 20.1% yn methu â siarad Saesneg yn dda a 423 neu 3.7% yn methu â siarad Saesneg o gwbl[17]. Fel y gwelir o'r ffigur isod mae'r gallu i siarad Saesneg ar ei fwyaf ymhlith plant o oedran ysgol ac yn is yn y grwpiau oedran hŷn.

Ffigur 13 – Hyfedredd mewn Saesneg yn ôl oedran



[17] Nomis DC2105EW – hyfedredd mewn Saesneg yn ôl oedran

Yn ôl Cyfrifiad 2011, Cymraeg neu Saesneg oedd prif iaith trigolion y bwrdd iechyd yn seiliedig ar y cyfuniad o oedolion a phlant tair oed a hŷn (97.9%)[18]. Y saith iaith lafar fwyaf cyffredin nesaf oedd:

- Pwyleg – 0.3%
- Bengaleg (gyda Sylheteg a Chatgayeg) – 0.2%
- Nepaleg, Panjabeg, Slofaceg, Tagalog/Ffintno ac Wrdeg – 0.1% yr un

Mae rhywfaint o amrywiaeth ar lefel awdurdod lleol gyda llai o bobl sydd â Saesneg fel eu prif iaith yng Nghasnewydd (95%) o gymharu ag ardaloedd eraill yr awdurdodau lleol (pob un ar 99%).

2.7 Sgiliau iaith Gymraeg[19]

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn well ar y cyfan yng Nghaerffili nag yn yr ardaloedd awdurdod lleol eraill, ond ni nododd y rhan fwyaf o drigolion ardal y bwrdd iechyd unrhyw sgiliau yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2011 (86%).

Trigolion Blaenau Gwent oedd y lleiaf tebygol o fod ag unrhyw sgiliau Cymraeg.

[18] Nomis QS204Y prif iaith
[19] Nomis CA207WA Sgiliau iaith Gymraeg

Tabl 6 – Sgiliau iaith Gymraeg yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod Lleol	Dim sgiliau Cymraeg	Deall Cymraeg llafar yn unig	Yn gallu siarad Cymraeg	Yn gallu siarad, ond nid darllen nac ysgrifennu yn Gymraeg	Yn gallu siarad a darllen, ond nid ysgifennu yn Gymraeg	Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg	Cyfuniad arall o sgiliau iaith Gymraeg
Blaenau Gwent	88.5%	2.2%	7.8%	1.5%	0.6%	5.5%	1.7%
Caerffili	83.9%	3.0%	11.2%	1.7%	0.9%	8.4%	2.1%
Sir Fynwy	86.0%	2.5%	9.9%	1.8%	0.8%	7.2%	1.9%
Casnewydd	86.9%	2.2%	9.3%	1.7%	0.7%	6.5%	1.8%
Torfaen	86.5%	2.3%	9.8%	1.8%	0.7%	7.1%	1.7%
Bwrdd iechyd	**86.0%**	**2.5%**	**9.9%**	**1.7%**	**0.7%**	**7.2%**	**1.9%**

2.8 Crefydd

Yn 2011, roedd 57.1% o boblogaeth y bwrdd iechyd yn cynnwys trigolion a ddywedodd eu bod yn dilyn un o'r chwe phrif grefydd a dywedodd 35.3% nad oeddent yn dilyn unrhyw grefydd.

Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiad rhwng lefelau awdurdodau lleol ac yn cymharu'r rhain â'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru. Er mai Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf cyffredin (i'r rhai sydd â chrefydd), mae Casnewydd yn gartref i boblogaeth Fwslimaidd sylweddol, yr ail uchaf yng Nghymru ar ôl Caerdydd.

Tabl 7 – crefydd ar lefel awdurdod lleol a Chymru[20]

Ardal	Cristnogol	Bwdhydd	Hindŵ	Iddew	Mwslim	Sîc	Crefydd arall	Dim crefydd	Crefydd heb ei nodi
Blaenau Gwent	49.9%	0.2%	0.1%	0.0%	0.3%	0.1%	0.4%	41.1%	8.1%
Caerffili	50.7%	0.2%	0.1%	0.0%	0.2%	0.1%	0.4%	40.9%	7.5%
Sir Fynwy	62.5%	0.3%	2.0%	0.1%	0.3%	0.1%	0.4%	28.5%	7.7%
Casnewydd	56.9%	0.2%	0.5%	0.1%	4.7%	0.1%	0.3%	29.7%	7.5%
Torfaen	55.4%	0.2%	0.3%	0.0%	0.3%	0.1%	0.3%	35.8%	7.6%
Cymru	57.6%	0.3%	0.3%	0.1%	1.5%	0.1%	0.4%	32.1%	7.6%

2.9 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[21]

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 yw'r mesur swyddogol ar gyfer amddifadedd ar gyfer ardaloedd daearyddol bach o'r enw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig).

Mae'r mynegai yn seiliedig ar wyth maes, yn seiliedig ar ystod o wahanol ddangosyddion, sy'n cael eu pwysoli a'u cyfuno'n fynegai cyffredinol o amddifadedd lluosog. Y pwysoliad yw addasu cyfraniad y mynegeion parth i'r mynegai cyffredinol pan gânt eu cyfuno. Mae'r ffigur isod yn dangos pob parth a'u pwysoliad.

[20] Nomis CA209EW - Crefydd
[21] Llywodraeth Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Ffigur 14 – wyth maes Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a'u pwysoliad priodol



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Mae'n bwysig nodi nad yw amddifadedd isel yn gyfystyr â chyfoeth ac nad yw pawb sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig yn ddifreintiedig ac nad yw pob un o'r bobl ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig. Nid yw ardal ei hun yn ddifreintiedig, amgylchiadau pobl sy'n byw yno sy'n effeithio ar ei rhengoedd amddifadedd.

Mae'r map isod yn dangos pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is o fewn ardal y bwrdd iechyd a lle mae'n eistedd yn y mynegai.

Map 3 – Map o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019. Arolwg Ordnans 100017916

Rank	Most deprived
1 - 191	10% most deprived
192 - 382	10-20% most deprived
383 - 573	20-30% most deprived
574 - 955	30-50% most deprived
956 - 1909	50% least deprived
	Least deprived

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Mae'r ffigur isod yn dangos nifer yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig yn ôl ardal awdurdod lleol.

Ffigur 15 – ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig yn ôl awdurdod lleol

	Cyfanswm yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI)	**Yn y 10% o ACEHIau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safle 1-191)**	**Yn yr 20% o ACEHIau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safle 1-382)**	**Yn y 30% o ACEHIau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safle 1-573)**	**Yn y 50% o ACEHIau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (safle 1-955)**
Blaenau Gwent	47	6	21	30	40
Caerffili	110	11	26	42	69
Sir Fynwy	56	0	1	3	11
Casnewydd	95	23	33	38	57
Torfaen	60	3	19	25	34

Fel y gwelir, Blaenau Gwent oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (40 neu 85.1%). Nid oedd gan Sir Fynwy unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig, a dim ond 11 yn y 50% mwyaf difreintiedig. Casnewydd oedd â'r ganran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% mwyaf difreintiedig (23 neu 24.2%).

2.10 Cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol[22]

Ers 1955 (ac eithrio ym 1976) mae nifer y genedigaethau yn y DU wedi bod yn uwch na nifer y marwolaethau. Mae'r newid naturiol hwn wedi arwain at dwf y boblogaeth. Yn y DU, mae nifer y genedigaethau byw bob blwyddyn wedi amrywio dros y 60 mlynedd diwethaf. Y mwyaf nodedig yw twf niferoedd babanod y 1960au, "adlais" yr y grŵp hwnnw'n cael plant eu hunain ac yn ddiweddarach, genedigaethau'n cyrraedd uchafbwynt eto yn y DU yn 2012.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol (nifer y genedigaethau byw fesul 1,000 o fenywod 15-44 oed) ar lefel awdurdod lleol yn 2015, a sut mae'n cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Fel y gwelir, mae'r gyfradd ar gyfer ardal y bwrdd iechyd yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, ceir amrywiadau ar lefel awdurdodau lleol gyda Sir Fynwy yn sylweddol is na'r gyfradd ar gyfer Cymru, a Chasnewydd yn sylweddol uwch.

Tabl 8 – cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol yn ardal y bwrdd iechyd, 2015

	2011	2012	2013	2014	2015
Cymru	61.4	61.2	58.9	59.1	59.1
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	60.7	61.8	60.8	61.3	61.8
Caerffili	59.9	60.8	57.7	62.0	60.2
Blaenau Gwent	57.7	57.9	60.4	58.7	58.3
Torfaen	63.3	65.7	60.8	59.8	59.7
Sir Fynwy	53.3	56.4	55.2	54.2	55.8
Casnewydd	65.2	65.2	67.6	66.1	69.5

2.11 Disgwyliad oes[23]

Roedd disgwyliad oes ar draws ardal y bwrdd iechyd wedi cyrraedd man gwastad rhwng 2012 a 2016, ar 78.3 oed i ddynion ac yna wedi gostwng i 78.0 oed yn 2015-2017. Gwelir patrwm tebyg ar gyfer menywod er bod disgwyliad oes ar eu cyfer yn uwch ar 82.0 ac 81.9 mlynedd am yr un cyfnodau amser. Mae disgwyliad oes cyfartalog dynion a menywod ledled

[22] StatsCymru Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb a'r Gyfradd Ffrwythlondeb Gyffredinol yn ôl ardal
[23] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

Cymru yn uwch (78.3 ac 82.3 o flynyddoedd yn y drefn honno o 2015/2017).

Ar lefel awdurdodau lleol, mae disgwyliad oes dynion ar ei uchaf yn Sir Fynwy (80.3 blynedd) ac ar ei isaf ym Mlaenau Gwent (76.2 mlynedd) yn seiliedig ar ffigurau 2015-2017. Ar gyfer menywod, mae disgwyliad oes ar ei uchaf yn Sir Fynwy (84.0 o flynyddoedd) ac ar ei isaf ym Mlaenau Gwent (80.6 o flynyddoedd).

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae disgwyliad oes wedi newid ar gyfer dynion ar lefel awdurdod lleol.

Tabl 9 – disgwyliad oes dynion ar gyfer dynion 2006 i 2017 yn ôl awdurdod lleol

	2006-2008	2007-2009	2008-2010	2009-2011	2010-2012	2011-2013	2012-2014	2013-2015	2014-2016	2015-2017
Blaenau Gwent	75.2	75.6	75.8	75.9	75.7	75.5	76.2	76.5	76.6	76.2
Caerffili	75.6	76.2	76.8	77.4	77.5	77.6	77.9	77.8	77.9	77.8
Sir Fynwy	78.7	79.5	80.3	80.3	80.0	79.8	80.6	80.7	80.8	80.3
Casnewydd	76.9	76.7	76.8	77.6	77.8	77.9	78.1	78.1	78.2	77.8
Torfaen	76.8	76.5	77.2	77.6	77.5	77.6	77.9	78.2	78.0	77.6

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae disgwyliad oes wedi newid ar gyfer menywod ar lefel awdurdod lleol.

Tabl 10 – disgwyliad oes menywod ar gyfer menywod 2006 i 2017 yn ôl awdurdod lleol

	2006-2008	2007-2009	2008-2010	2009-2011	2010-2012	2011-2013	2012-2014	2013-2015	2014-2016	2015-2017
Blaenau Gwent	78.6	78.9	79.5	79.8	79.9	80.1	80.4	80.6	80.6	80.6
Caerffili	80.7	80.9	81.2	81.5	81.4	81.5	81.4	81.2	81.3	81.2
Sir Fynwy	83.2	83.2	83.6	83.6	83.7	84.0	83.9	84.1	83.9	84.0
Casnewydd	80.9	81.3	81.8	82.0	82.0	82.2	82.4	82.3	81.9	81.8
Torfaen	80.7	80.7	81.4	82.2	82.1	81.7	81.6	82.0	82.4	82.2

O ran disgwyliad oes iach adeg geni, h.y. nifer y blynyddoedd iach y gall pobl ddisgwyl byw, Sir Fynwy sydd â'r uchaf ar gyfer dynion a menywod, yn 65.7 a 64.3 o flynyddoedd yn y drefn honno. Blaenau Gwent sydd â'r disgwyliad oes iach isaf adeg geni ar gyfer dynion a menywod (54.1 a 54.5 mlynedd yn y drefn honno), nid yn unig yn ardal y bwrdd iechyd ond yng Nghymru gyfan. Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiad ar lefel awdurdod lleol ar gyfer disgwyliad oes iach a hefyd sut mae pob awdurdod lleol yn graddio o gymharu â'r holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, lle mae un yn cynrychioli'r awdurdod lleol sydd â'r nifer fwyaf o fywydau iach a 22 yw'r nifer lleiaf.

Tabl 11 – disgwyliad oes iach i ddynion a menywod 2015-2017 yn ôl awdurdod lleol

	Blynyddoedd o fywyd		Safle yng Nghymru	
	Dynion	**Menywod**	**Dynion**	**Menywod**
Blaenau Gwent	54.1	54.5	22	22
Caerffili	55.2	56.1	21	21
Sir Fynwy	65.7	64.3	4	7
Casnewydd	58.4	62.0	18	13
Torfaen	59.6	57.6	17	19

Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn cuddio'r amrywiad o fewn lefelau awdurdodau lleol. Ym Mlaenau Gwent, mae gwahaniaethau mawr mewn disgwyliad oes yn parhau rhwng yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. O ran dynion, erys bwlch mewn disgwyliad oes o tua naw mlynedd rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig, a bwlch mwy fyth mewn disgwyliad oes iach o tua 19 mlynedd; mae'r bwlch yn fwy i fenywod.

Yng Nghaerffili mae bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yr awdurdod lleol, ym mis Mawrth 2017 roedd hyn yn 13 o flynyddoedd i ddynion a 14.6 o flynyddoedd i fenywod.

Hyd yn oed yn Sir Fynwy lle mae disgwyliad oes yn uchel, ceir amrywiadau nodedig gyda'r disgwyl bod y rhai sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Sir Fynwy yn byw’n hirach na'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, 6.3 blynedd ar gyfartaledd ar gyfer dynion a 3.6 blynedd i fenywod. Yn yr un modd, mae'r rhai yn y rhannau lleiaf difreintiedig o Sir Fynwy yn debygol o fyw mewn iechyd da am fwy o amser, o 10.1 mlynedd ar gyfartaledd i ddynion ac 11.1 mlynedd i fenywod.

Yng Nghasnewydd mae'r bwlch mewn blynyddoedd o ran disgwyliad oes adeg geni dynion rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig Casnewydd yn dal i fod yn sylweddol, ond mae wedi gostwng o 10.6 o flynyddoedd yn 2005-2009 i 9.9 mlynedd yn 2010-2014. I'r gwrthwyneb, mae'r bwlch yn y blynyddoedd yn y disgwyliad oes adeg geni menywod rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig Casnewydd wedi cynyddu o 5.7 mlynedd yn 2005-2009 i 7.2 mlynedd yn 2010-2014.

Yn Nhorfaen, gall pobl sy'n cael eu geni yn y pumed ardal fwyaf difreintiedig ddisgwyl byw tua 15 mlynedd yn llai mewn iechyd da (14.8

blynedd i ddynion ac 16.5 blynedd i fenywod) o gymharu â'r pumed lleiaf difreintiedig yn ardal yr awdurdod lleol.

2.12 Marwolaethau

Un o'r rhesymau dros y cynnydd yn y boblogaeth yw bod pobl yn byw'n hirach gyda chynnydd yn y boblogaeth hŷn a mwy o bobl bellach yn byw yn eu 90au, mae hyn yn aml yn arwain at ofynion gofal a chymorth hirach a mwy cymhleth. Er enghraifft, yn y DU o fewn 50 mlynedd, rhagwelir y bydd 8.2 miliwn o bobl ychwanegol yn 65 oed a throsodd yn y DU – poblogaeth yn fras o faint Llundain fel y mae heddiw.

Prif achosion marwolaethau cynamserol yw clefyd cylchrediad y gwaed a chanserau. Byddai lleihau nifer y marwolaethau cyffredinol o glefyd cylchrediad y gwaed i lefelau a welir yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru yn cynyddu disgwyliad oes yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig gan 1.5 mlynedd ymhlith dynion ac 1.3 blynedd ymhlith menywod, gyda mwy o enillion posibl yn yr ardaloedd mwy difreintiedig. Gellid gwneud cynnydd tebyg pe bai cyfraddau marwolaethau canser yn gostwng i'r un lefel (1.3 blynedd ymhlith dynion, 1.2 ymhlith menywod). Gellir priodoli cyfran sylweddol o glefyd cylchrediad y gwaed a rhai mathau o ganser i ymddygiad iechyd afiach (deiet, gweithgarwch corfforol, ysmygu). Ar gyfer llawer o fathau o ganser, mae canlyniadau mwy cadarnhaol yn gysylltiedig â chanfod a diagnosio'n gynnar. Mae hyn yn dibynnu ar wasanaethau iechyd, ond hefyd ar ymwybyddiaeth cleifion o arwyddion canser a symptomau canser ac a ydynt yn ceisio triniaeth yn brydlon[24].

Ers 2008-2010 bu gostyngiad yn gyffredinol yn nifer y marwolaethau cynamserol o glefydau allweddol nad ydynt yn drosglwyddadwy ar draws ardal y bwrdd iechyd, ac eithrio Blaenau Gwent lle mae'r lefelau wedi cynyddu yn 2014-2016. Mae lefelau Sir Fynwy wedi gostwng yn gyson is na'r holl awdurdodau lleol eraill yn ardal y bwrdd iechyd, ac maent hefyd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru[25].

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y marwolaethau o glefydau allweddol nad ydynt yn drosglwyddadwy, 2016 i 2018, fesul 100,000 o bobl rhwng 30 a 70 oed yn ôl awdurdod lleol. Diffinnir clefydau nad ydynt yn drosglwyddadwy fel:

- Clefydau'r system gylchredol,
- Clefyd y siwgr, a
- Chlefydau'r system anadlol (ac eithrio clefydau heintus).

---

[24] Asesiad Llesiant Blaenau Gwent Ebrill 2017
[25] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

Mae hefyd yn dangos safle pob awdurdod lleol yng Nghymru, lle mae safle o un yn golygu'r gyfradd uchaf. Fel y gwelir ym Mlaenau Gwent y mae'r gyfradd uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Tabl 12 – marwolaethau cynamserol o glefydau allweddol nad ydynt yn drosglwyddadwy, 2016-2018 yn ôl awdurdod lleol

	Cyfradd	Rhestrwyd
Blaenau Gwent	391.4	1
Caerffili	344.7	7
Sir Fynwy	244.7	22
Casnewydd	347.3	5
Torfaen	342.2	8

Gellir priodoli datblygiad canran fawr o glefydau cardiofasgwlaidd, canserau a chlefydau anadlol cronig i ffactorau risg y gellir eu hatal gan gynnwys ysmygu, dietau afiach ac anweithgarwch corfforol fel y gwelir o'r ffigur isod.

Ffigur 16 – cyfraniad canrannol ffactorau risg i dri salwch mawr[26]



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

2.13 Pobl sydd ag anableddau[27]

Mae'r ffigur isod yn dangos y nifer a ragwelir o bobl 18 oed neu'n hŷn sydd â salwch hirdymor cyfyngol dros y cyfnod 2013 i 2035. Mae'n dangos y rhagwelir y bydd pob ardal awdurdod lleol ar draws ardal y

[26] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd 2019
[27] Asesiad o Anghenion Poblogaeth Adroddiad Rhanbarth Gwent 2016

bwrdd iechyd yn gweld cynnydd yn y nifer. Mae'r cynnydd a ragwelir yn amrywio o 14.1% ym Mlaenau Gwent i 25.1% yng Nghasnewydd.

Ffigur 17 – nifer a ragwelir o bobl 18+ oed â salwch cyfyngus hirdymor



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfradd salwch cyfyngus hirdymor fesul 10,000 o'r boblogaeth yn 2011. Ar draws ardal y bwrdd iechyd roedd y gyfradd yn amrywio o lefel isel yn Sir Fynwy (sydd hefyd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru) i lefel uchel ym Mlaenau Gwent.

Ffigur 18 – cyfradd salwch cyfyngus hirdymor fesul 10,000 o'r boblogaeth, 2011



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.
Yn ôl Cyfrifiad 2011, dywedodd 13% fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn (ar ei uchaf ym Mlaenau Gwent ar 16% ac ar ei isaf yn Sir Fynwy ar 10%). Dywedodd 11% fod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd rhywfaint yn gyfyngedig.

Mae'r ffigurau isod yn dangos canran y dynion a'r menywod a asesodd eu hiechyd neu eu statws cyffredinol eu hunain yn dda neu'n dda iawn yng Nghyfrifiad 2011. Mae'r ddau'n dangos bod trigolion yn hanner gorllewinol ardal y bwrdd iechyd yn llai tebygol o asesu eu hiechyd cyffredinol fel hyn – yn y ffigurau hyn mae'r ardaloedd hynny sydd wedi'u cysgodi'n borffor a glas tywyll yn llai tebygol o asesu eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn.

Ffigur 19 – canran y dynion sy'n asesu eu statws iechyd cyffredinol fel da neu dda iawn, Cyfrifiad 2011[28]



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio tabl data Cyfrifiad 2011 LC3302EW (SYG)

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100044810

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

[28] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mesur anghydraddoldebau 2016. Tueddiadau mewn marwolaethau a disgwyliad oes ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ffigur 20 – canran y menywod sy'n asesu eu statws iechyd cyffredinol fel da neu dda iawn, Cyfrifiad 201128



Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio tabl data Cyfrifiad 2011 LC3302EW (SYG)

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100044810

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

2.14 Aelwydydd[29]

O ran cyfansoddiad yr aelwydydd yn ardal y bwrdd iechyd, o Gyfrifiad 2011:

- Roedd 12.3% yn aelwydydd un person (y mae 46% ohonynt yn bobl 65 oed a throsodd),
- Roedd 79.2% yn deuluoedd sengl,
- Roedd 8.5% yn fathau eraill o aelwydydd (yn cynnwys aelwydydd cymhleth nad oeddent yn cynnwys un person neu deulu sengl yn unig. Er enghraifft, mae'r gwahaniaeth oedran rhwng y person hynaf a'r ieuengaf yn fwy na 50 mlynedd. Mae hyn yn dangos bod mwy na dwy genhedlaeth deuluol yn bresennol).

Ar lefel awdurdod lleol, Blaenau Gwent sydd â'r ganran uchaf o aelwydydd un person, ar 13.9% o'r holl aelwydydd, â Chaerffili sydd â'r ganran isaf, ar 11.4%. Fodd bynnag, sir Fynwy sydd â'r ganran uchaf o aelwydydd un person a feddiennir gan rywun 65 oed a throsodd, ar 45.3% (6.1% o'r holl aelwydydd yn Sir Fynwy).

Sir Fynwy hefyd sydd â'r ganran uchaf o aelwydydd un teulu yn unig gyda phob aelod 65 oed a throsodd (12.0% o'r holl aelwydydd un teulu neu 9.6% o'r holl aelwydydd).

2.15 Perchnogaeth car neu fan

Yn ôl data Cyfrifiad 2011:

- Nid oedd gan 24.3% o'r aelwydydd yn ardal y bwrdd iechyd gar na fan
- Mae gan 42.4% un car neu fan
- Mae gan 25.3% ddau gar neu fan
- Mae gan 6.0% dri char neu fan a
- Mae gan 2.0% bedwar neu fwy o geir neu faniau

Mae'r ffigur isod yn dangos yr amrywiad ar lefel awdurdodau lleol a Chymru. Fel y gwelir, yn gyffredinol mae perchnogaeth ceir yn uwch yn Sir Fynwy nag yn ardaloedd eraill yr awdurdod lleol, gyda mwy o aelwydydd â dau gar neu fan neu fwy (44.6%) o gymharu â gweddill ardal y bwrdd iechyd (30.9%) a Chymru gyfan (34.1%). Mae mwy o aelwydydd ym Mlaenau Gwent heb gar na fan, neu dim ond un (72.8%).

[29] Nomis DC1109EW - Cyfansoddiad aelwydydd yn ôl oedran ac yn ôl rhyw

Ffigur 21 – perchnogaeth ceir ar lefel awdurdod lleol[30]



2.16 Gweithgarwch Economaidd:

Yn seiliedig ar ymatebion i Gyfrifiad 2011, roedd 66% o'r boblogaeth yn economaidd weithgar (h.y. cyflogedig, hunangyflogedig neu ddi-waith ond yn chwilio am waith ac yn gallu dechrau o fewn pythefnos, myfyriwr llawn amser), gyda'r gweddill yn economaidd anweithgar (naill ai wedi ymddeol, myfyriwr, yn gofalu am gartref neu deulu, yn sâl neu'n anabl hirdymor, neu'n ddi-waith).

Mewn perthynas â'r boblogaeth gyfan:

- Roedd 58.3% mewn cyflogaeth (ar ei uchaf yn Sir Fynwy, ar 62.9% ac ar ei isaf ym Mlaenau Gwent, ar 53.1%). O'r rhain:
  - Mae 64.2% yn gweithio llawn amser,
  - Mae 23.8% yn gweithio'n rhan-amser, ac
  - Mae 11.9% yn hunangyflogedig
- Roedd 5.1% yn ddi-waith ond yn chwilio am waith
- Roedd 2.6% yn fyfyrwyr ac yn economaidd weithgar (ar ei uchaf yng Nghasnewydd, ar 3.6% ac ar e isaf ym Mlaenau Gwent)
- Roedd 16.2% wedi ymddeol (ar ei uchaf yn Sir Fynwy, ar 17.6% ac ar ei isaf yng Nghasnewydd, ar 14.6%)

[30] Nomis CA404EW - Argaeledd car neu fan

- Roedd 4.6% yn fyfyrwyr ond nid oeddent yn economaidd weithgar (ar ei uchaf yng Nghasnewydd, ar 5.3% ac ar ei isaf yn Nhorfaen, ar 4.0%)
- Roedd 4.3% yn gofalu am gartref neu deulu (ar ei uchaf ym Mlaenau Gwent, ar 4.5% ac ar ei isaf yn Sir Fynwy, ar 3.75%)
- Roedd 6.9% yn sâl neu'n anabl hirdymor ac yn economaidd anweithgar (ar ei uchaf ym Mlaenau Gwent, ar 9.6% ac ar ei isaf yn Sir Fynwy, ar 4.05)

2.17 Cyfeiriadedd Rhywiol[31]

Mae "cyfeiriadedd rhywiol" yn derm ymbarél sy'n cwmpasu hunaniaeth rywiol, atyniad ac ymddygiad. Mae'n farn oddrychol ohonoch eich hun a gall newid dros amser ac mewn gwahanol gyd-destunau.

Yn 2018, yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, nododd 2.4% o boblogaeth Cymru eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, yn uwch nag yn Lloegr (2.3%), yr Alban (2.0%) a Gogledd Iwerddon (1.2%). Gwelodd pob gwlad ar wahân i Ogledd Iwerddon gynnydd o'r ffigurau yn 2014.

Ledled y DU:

- Mae dynion yn fwy tebygol o nodi eu bod yn y categori o lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol na menywod
- Mae pobl iau (rhwng 16 a 24 oed) yn fwyaf tebygol o nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol
- Mae mwy na dwy ran o dair (68.7%) o bobl a nododd eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol yn sengl (heb briodi nac mewn partneriaeth sifil).

Yn seiliedig ar amcangyfrif o faint poblogaeth o 594,164 amcangyfrifir bod 15,780 o boblogaeth y bwrdd iechyd yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol.

2.18 Gofalwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gofalwr fel "unrhyw un o unrhyw oedran, sy'n darparu gofal a chymorth di-dâl i berthynas, ffrind neu gymydog sy'n anabl, yn sâl yn gorfforol neu'n feddyliol, neu sy'n cael ei effeithio gan gamddefnyddio sylweddau". Gall gofalwyr gymryd rhan mewn ystod eang o dasgau ymarferol, corfforol, personol a gweinyddol.

---

[31] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Hunaniaeth rywiol, Cyfeiriadedd rhywiol y DU

Gallai enghreifftiau gynnwys: coginio; gwaith tŷ; codi, ymolchi a gwisgo'r person y gofelir amdano; helpu gydag anghenion mynd i'r toiled; rhoi meddyginiaeth; a rhoi cymorth emosiynol.

Yn 2018 roedd 370,000 o ofalwyr yng Nghymru, y ffigur cymesur uchaf o holl wledydd y DU. Mae nifer y gofalwyr yn parhau i godi ac amcangyfrifir erbyn 2037 y bydd dros hanner miliwn o ofalwyr yng Nghymru, cynnydd o 40%[32].

Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 roedd 71,497 o bobl yn byw yn ardal y bwrdd iechyd yn darparu gofal di-dâl (12.4% o'r boblogaeth). O'r boblogaeth gyfan:

- Darparodd 7.0% ofal di-dâl am un i 19 awr yr wythnos,
- Darparodd 1.9% ofal di-dâl am 20 i 49 awr yr wythnos, a
- Darparodd 3.5% ofal di-dâl am 50 awr neu fwy'r wythnos.

Roedd y gyfran uchaf o ofalwyr di-dâl yng Nghaerffili (3.9%) a'r isaf ym Mlaenau Gwent (1.5%).

2.19 Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Dangosodd Cyfrifiad 2011 y bobl ganlynol a nodwyd fel Sipsiwn/Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig (nid yw hyn yn cynnwys Roma):

- Blaenau Gwent - 72 (0.10% o'r boblogaeth)
- Caerffili - 31 (0.02% o'r boblogaeth)
- Sir Fynwy - 6 (0.01% o'r boblogaeth)
- Casnewydd - 84 (0.06% o'r boblogaeth)
- Torfaen - 155 (0.17% o'r boblogaeth)

Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â chyfanswm o 2,785 ar draws Cymru gyfan neu 0.1% o'r boblogaeth gyfan.

Fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai llawer o aelwydydd wedi cwblhau'r cyfrifiad – naill ai am eu bod yn byw ar 'safleoedd anawdurdodedig' neu wersylloedd ac felly nid oeddent yn ymddangos ar gofnodion swyddogol neu oherwydd drwgdybiaeth o ddiben y cyfrifiad. Lle'r oedd pobl yn derbyn ffurflenni, mae'n bosibl bod lefelau llythrennedd is na'r cyfartaledd wedi golygu na fyddai rhai aelwydydd wedi'u cwblhau, a lle cawsant eu cwblhau byddai rhai aelwydydd wedi dewis peidio ag uniaethu fel Sipsiwn/Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig.

[32] Conffederasiwn GIG Cymru, Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gofalwyr yng Nghymru

Mae’r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr fwyaf yn Nhorfaen, fodd bynnag mae gan Nantyglo ym Mlaenau Gwent boblogaeth fawr hefyd, llawer ohonynt bellach yn byw mewn eiddo ‘brics a morter’ yn agos at safle hirsefydlog. Mae gan Gasnewydd hefyd boblogaeth sylweddol o Sipsiwn a Theithwyr mewn safleoedd answyddogol o amgylch cyrion canol y ddinas ac yn aml iawn Casnewydd yw'r safle anawdurdodedig answyddogol i deithwyr sy'n teithio rhwng y dwyrain / gorllewin sef o Iwerddon i Loegr neu i’r gwrthwyneb.

Yn ôl y cyfrif carafanau Sipsiwn a Theithwyr ym mis Ionawr 2020[33] roedd 1,092 o garafannau Sipsiwn a Theithwyr a 136 o safleoedd yng Nghymru, cynnydd o'r un mis yn y blynyddoedd blaenorol (4% a 10% yn y drefn honno).

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y carafannau a'r safleoedd ar draws ardal y bwrdd iechyd.

Tabl 13 - nifer y carafannau drwy awdurdodiad ac awdurdod lleol

	Nifer y carafannau		
	Safleoedd ag awdurdod (gyda chaniatad cynllunio)	**Safleoedd heb awdurdod (heb ganiatad cynllunio)**	**Cyfanswm y carafannau**
Blaenau Gwent	25	0	25
Caerffili	0	6	6
Sir Fynwy	6	4	10
Casnewydd	22	32	54
Torfaen	65	0	65
Cyfanswm y carafannau	**118**	**42**	**160**

Mae proffil oedran y gymuned yn ardal y bwrdd iechyd yn dangos graddau'r mater disgwyliad oes i deithwyr. O'i gymharu â'r proffil cyffredinol, mae'r strwythur oedran wedi'i ganoli'n drwm ar y bandiau oedran is, sy'n gyson uwch na ffigurau cyfrannol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd tan ganol y 30au, ac ar ôl hynny mae'n gostwng yn is nag yn enwedig o 55 oed ymlaen. Er bod ffactorau diwylliannol yn chwarae rhan sylweddol yn eu hiechyd gwael, gall rhan o'r mater hwn hefyd ymwneud ag ymgysylltu â gwasanaethau ac agosrwydd safleoedd at wasanaethau gofal iechyd.

[33] Cyfrif carafanau Sipsiwn a Theithwyr, Ionawr 2020

Ffigur 22 - Proffil oedran ar gyfer poblogaeth y bwrdd iechyd a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr 2011[34]



2.20 Troseddwyr

Mae poblogaeth y rhai sydd wedi'u dynodi'n droseddwyr yn cwmpasu dau grŵp penodol.

Y cyntaf yw poblogaeth HMP Brynbuga a'i garchar lloeren, HMP Prescoed. Carchar dynion Categori C yw'r cyntaf sydd wedi'i leoli ym Mrynbuga, Sir Fynwy sy'n lletya hyd at 276 o ddynion, ac mae'r llall yn garchar agored i ddynion Categori D sy'n lletya hyd at 260 o ddynion a sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghoed-y-paen, dair milltir o Frynbuga.

Yr ail grŵp o droseddwyr yw'r rhai nad ydynt bellach o dan delerau carchar; gall hyn gynnwys y rhai sydd â dedfrydau gohiriedig, y rhai sydd ar brawf, a'r rhai sy'n byw mewn llety diogel. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes ffigurau ar gael ar gyfer y garfan hon o'r boblogaeth.

2.21 Y digartref a phobl sy'n cysgu allan

Mae Adolygiadau Digartrefedd Gwent 2018 yn nodi mai Casnewydd oedd â'r galw mwyaf yn y tair blynedd ariannol 2015-16, 2016-2017 a 2017-2018 ar ei gwasanaethau i'r digartref (1,707 o aelwydydd), ac yna Caerffili (1,115), Torfaen (861), Blaenau Gwent (588) a Sir Fynwy (515). O ystyried bod y data'n dangos bod y duedd hon wedi digwydd dros y tair blynedd diwethaf, nid oedd disgwyl iddi newid yn ystod oes Strategaeth Ddigartrefedd Gwent 2018-2022.

[34] Nomis DC2101EW Grŵp ethnig yn ôl rhyw ac yn ôl oedran

Mae'r materion allweddol sy'n sail i'r holl aelwydydd sy'n cael eu bygwth â digartrefedd ac sy'n profi digartrefedd (mewn cysylltiad â chyfrannau dyletswyddau Adran 66, 73 a 75 sy'n ddyledus o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014) yn gysylltiedig â dadansoddiadau mewn perthnasoedd, ôl-ddyledion rhent a cholli llety ar rent neu lety clwm. Ymddengys mai colli llety ar rent neu lety clwm yw prif achos sylfaenol digartrefedd ar draws ardal y bwrdd iechyd.

Bob blwyddyn, mae cyfrif o bobl sy'n cysgu allan yn cael ei wneud i roi cipolwg un noson. Mae'r cyfrif amcangyfrifedig yn seiliedig ar ddata a gasglwyd dros gyfnod o bythefnos gyda chymorth gan y sector gwirfoddol, grwpiau ffydd, busnesau/trigolion lleol, asiantaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau, a'r heddlu. Mae'r ffigur isod yn dangos nifer y rhai sy'n cysgu allan ar gyfrif un noson yn 2019, ac amcangyfrif o nifer y rhai sy'n cysgu ar y stryd dros gyfnod o amser yn ystod y cyfrif.

Ffigur 23 – cyfrif cysgu allan 2019[35]

	Cyfanswm y niferoedd o bobl sy'n cysgu allan	**Amcangyfrif o'r niferoedd o bobl sy'n cysgu allan**
Blaenau Gwent	1	0
Caerffili	6	42
Sir Fynwy	5	5
Casnewydd	24	42
Torfaen	3	7
Cyfanswm	**39**	**96**

[35] Llywodraeth Cymru Cyfrif cenedlaethol o gysgu allan: Tachwedd 2019

3 Anghenion iechyd cyffredinol ardal y bwrdd iechyd

3.1 Canser[36]

Mae canser yn un o brif achosion afiechyd ac yn ôl Cancer Research UK bydd un o bob dau berson yn y DU yn cael canser yn ystod eu hoes. Mae'n grŵp o 200 o glefydau sydd gyda'i gilydd yn gosod baich trwm o glefydau.

Yn ardal y bwrdd iechyd, fel yng Nghymru gyfan, canserau prostad, canser y fron, yr ysgyfaint a chanser y colon a'r rhefr yw'r mathau mwyaf cyffredin o ganser i bawb (2013-2017). I ddynion, y pedwar canser mwyaf cyffredin yw prostad, y colon a'r rhefr, ysgyfaint a’r coluddyn mawr, ac i fenywod y pedwar mwyaf cyffredin yw’r fron, yr ysgyfaint, y colon a'r rhefr a'r a’r coluddyn mawr.

Mae amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu ar risg unigolyn o ddatblygu canser yn ystod ei oes. Ni ellir addasu rhai o'r ffactorau hyn gan eu bod yn ymwneud â phethau fel oedran, rhyw a gwneuthuriad genetig. Fodd bynnag, gellir addasu llawer megis:

- Peidio ag ysmygu
- Cynnal pwysau iach
- Bwyta ac yfed yn iach
- Yfed llai o alcohol
- Bod yn fwy egnïol, a
- Mwynhau'r haul yn ddiogel.

Amcangyfrifwyd bod tua 40% o ganserau yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ymddygiadau ffordd o fyw addasadwy hyn.

Ar draws ardal y bwrdd iechyd mae annhegwch mewn cyfraddau goroesi ar gyfer rhai mathau o ganser gyda'r rhai sy'n byw mewn mwy o amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o gael canserau newydd, ond yn llai tebygol o oroesi na'r rhai sy'n fwy cefnog.

Mewn perthynas â phob llid (ac eithrio canserau croen nad ydynt yn felanoma) am y cyfnod 2013 i 2017, roedd gan Flaenau Gwent y Gyfradd Safonedig Oedran Ewropeaidd uchaf fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer pob person (321.1) gyda Chasnewydd yr ail uchaf (313.9). Mae'r ffigurau hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru o 288.8. Sir Fynwy ar 236.1 oedd â'r gyfradd isaf yn ardal y bwrdd iechyd ac mae hefyd 18% yn is na chyfartaledd Cymru.

[36] Achosion o ganser Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru yng Nghymru, 2001-2017

3.2 Clefyd cardiofasgwlaidd

Mae clefydau cardiofasgwlaidd yn effeithio ar y cyflenwad gwaed i'r galon ac organau hanfodol eraill ac yn cynnwys:

- Clefyd cynhenid y galon,
- Clefyd coronaidd y galon,
- Methiant y galon,
- Ffibriliad atrïaidd,
- Adsefydlu cardiaidd.
- Strôc, a
- Chlefyd fasgwlaidd ymylol.

Fel gyda chanser, bydd cymryd camau i addasu ymddygiad ffordd o fyw yn helpu i leihau'r risg o glefyd cardiofasgwlaidd. Mae naw prif ffactor risg:

- Pwysedd gwaed uchel,
- Lefelau colesterol uchel,
- Ysmygu, a
- Gordewdra.

Ymhlith y ffactorau risg na ellir eu haddasu mae oedran, rhyw gwrywaidd, ethnigrwydd, a hanes teuluol o glefyd cardiofasgwlaidd cynamserol.

Mae'r graff isod yn dangos sut mae cyfradd y marwolaethau, oherwydd clefydau cardiofasgwlaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn amrywio ar draws ardaloedd yr awdurdodau lleol a sut maent yn cymharu â'r gyfradd ar gyfer Cymru yn 2017. Fel y gwelir, Blaenau Gwent sydd â'r gyfradd uchaf, a Sir Fynwy yw'r isaf[37].

[37] Mapiau Iechyd Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru - marwolaethau

Ffigur 24 – cyfradd y marwolaethau oherwydd clefydau cardiofasgwlaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2017



3.3 Diabetes

Mae dau brif fath o ddiabetes, math 1 a math 2, gyda'r olaf yn llawer mwy cyffredin. Gall gael ei ragflaenu gan gyflwr cyn diabetes lle mae lefelau uwch siwgr yn y gwaed, ond nid ydynt eto'n ddigon uchel i wneud diagnosis o glefyd y siwgr. Mae gan bobl sydd â diabetes math 2 gyfraddau uchel o glefyd coronaidd y galon a strôc. Mae cymhlethdodau eraill diabetes yn cynnwys methiant yr arennau, clefyd y llygaid a phroblemau cylchrediad y gwaed a niwrolegol yn y traed a'r goes. Mae diabetes yn fwy cyffredin mewn cymunedau cymdeithasol-economaidd ddifreintiedig ac mewn pobl Dduon ac Asiaidd.

Yn ôl Diabetes UK[38], Cymru sydd â'r nifer fwyaf o achosion o ddiabetes yn y DU, gyda mwy na 209,000 o bobl, neu 8% o'r boblogaeth, yn byw gyda diabetes. Mae'r niferoedd yn codi bob blwyddyn, gyda 10,695 o bobl ychwanegol yn cael diagnosis yn 2020. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 65,501 o bobl eraill â math 2 nad ydynt wedi cael diagnosis eto, ac y gallai 580,000 o bobl eraill fod mewn perygl o ddatblygu diabetes math 2.

Mae'r clefyd yn costio tua £500m i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn, gyda thua 80% o hyn yn cael ei wario ar reoli cymhlethdodau, y gellid atal y rhan fwyaf ohonynt. Y ddau ffactor risg addasadwy mwyaf yw gordewdra ac anweithgarwch corfforol.

[38] Diabetes UK, Diabetes yng Nghymru

Ym Mhowys, y bwrdd iechyd sydd â'r gyfradd marwolaethau uchaf (wedi'i safoni ar gyfer oedran) (2015-2017) ar 12.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o'i gymharu ag 11.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer Cymru[39].

O dan y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau, mae practisau meddygon teulu yn sefydlu ac yn cynnal cofrestr o'r holl gleifion 17 oed neu hŷn sydd â diabetes. Mae'r ffigurau ar gyfer 2019 yn dangos nifer yr achosion o ddiabetes o 6.5% ar gyfer y boblogaeth sydd wedi'i chofrestru gan feddygon teulu yn ardal y bwrdd iechyd [40]. Mae'r ffigur isod yn dangos yr amrywiad yn nifer yr achosion o ddiabetes ar lefel ardal yn seiliedig ar y cofrestrau a gynhelir gan y practisau meddygon teulu yn yr ardal honno, o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Casglwyd y data cyn y newidiadau i'r rhwydweithiau gofal cymdogaeth yng Nghasnewydd ac felly mae'n dangos tri rhwydwaith o'r fath yng Nghasnewydd yn hytrach na'r ddau sydd wedi bodoli ers mis Ebrill 2020.

Fel y gwelir, mae'r gyfradd uchaf o achosion yn ardal Dwyrain Blaenau Gwent a'r isaf yn rhwydwaith gofal cymdogaeth Gogledd Casnewydd, nad yw bellach yn bodoli.

Ffigur 25 – Nifer yr achosion o ddiabetes ar lefel ardal a Chymru yn seiliedig ar gofrestrau practisau meddygon teulu, 2019.



[39] Mapiau Iechyd Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru - afiechydon endocrin, maethol a metabolaidd

[40] data Cymru 2019 Cronfa Ddata'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau Meddygon Teulu

3.4 Iechyd meddwl

Mae iechyd meddwl cadarnhaol yn ffactor allweddol ar gyfer iechyd da ac yn berthnasol i'r boblogaeth gyfan. Yn 2007 dywedodd Sefydliad Iechyd y Byd nad oes iechyd heb iechyd meddwl, sy'n golygu bod iechyd meddwl y cyhoedd yn rhan annatod o holl waith iechyd y cyhoedd. Mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwent 2017[41] yn datgan:

- Mae un o bob pedwar o bobl yn profi problemau iechyd meddwl neu salwch ar ryw adeg yn ystod eu hoes.
- Bydd un o bob chwech o bobl yn profi symptomau ar unrhyw un adeg.
- Bydd gan ddau o bob 100 o bobl salwch meddwl difrifol fel sgitsoffrenia neu anhwylder deubegynol.
- Mae gan un o bob deg plentyn rhwng pump ac 16 oed broblem iechyd meddwl ac mae gan lawer mwy problemau ymddygiad.
- Bydd gan tua 50% o bobl sy'n mynd ymlaen i gael problemau iechyd meddwl difrifol symptomau erbyn iddynt fod yn 14 oed a llawer ohonynt yn iau o lawer.
- Mae rhwng un o bob deg ac un o bob 15 o famau newydd yn profi iselder ôl-enedigol.
- Bydd dementia yn effeithio ar un o bob 14 o bobl dros 65 oed ac un o bob chwech dros 80 oed.
- Mae gan naw o bob deg carcharor broblem iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau y gellir ei diagnosio.

Mae hunanladdiad yn drasiedi i bawb dan sylw ac mae'n achosi trallod i lawer o bobl - yr unigolyn, y teulu, ffrindiau, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned yn gyffredinol. Amcangyfrifir bod o leiaf chwech arall yn cael eu heffeithio'n sylweddol ac yn uniongyrchol fesul pob un person sy'n marw trwy hunanladdiad. Gall llawer o rai eraill gael eu heffeithio'n anuniongyrchol. Gall colli rhywun drwy hunanladdiad fod yn arbennig o drawmatig ac anodd ymdopi ag ef; mae ei effeithiau'n seicolegol, ysbrydol ac economaidd. Nid oes un rheswm pam y gall rhywun geisio cymryd ei fywyd ei hun. Mae'n well ei ddeall drwy edrych ar fywyd ac amgylchiadau pob unigolyn. Fodd bynnag, gall rhai ffactorau neu broblemau wneud hunanladdiad yn fwy tebygol. Mae hunan-niweidio blaenorol yn ffactor risg allweddol. Gall salwch meddwl, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, neu gael perthynas agos sydd wedi marw o hunanladdiad oll gynyddu risg. Gall digwyddiadau bywyd fel colli eich cartref, swydd neu ddiwedd perthynas hefyd gynyddu'r risg o hunanladdiad neu hunan-niweidio.

Efallai y bydd gan lawer o bobl feddyliau am hunanladdiad oherwydd digwyddiadau gofidus; bydd tua 19 o bobl ym mhob 100 yn cael y

[41] Asesiad o Anghenion Poblogaeth Adroddiad Rhanbarth Gwent 2017

meddyliau hyn ar ryw adeg yn eu bywyd. Dim ond nifer fach iawn o'r rhai sy'n niweidio eu hunain, neu sy'n meddwl am hunanladdiad, a fydd yn marw fel hyn. Mae hunanladdiad tua thair gwaith yn fwy cyffredin mewn dynion na menywod. Gall hyn fod oherwydd bod dynion yn tueddu i ddefnyddio dulliau gwahanol i'r rhai a ddefnyddir gan fenywod. Mae menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o gael eu derbyn i'r ysbyty o ganlyniad i hunan-niweidio.

Mae'r ffigur isod yn dangos y gyfradd marwolaethau o hunanladdiad (wedi'i safoni ar gyfer oedran) fesul 100,000 o'r boblogaeth rhwng 2015 a 2017 ar gyfer pob ardal a Chymru. Fel y gwelir, y gyfradd yn Sir Fynwy yw'r uchaf yn ardal y bwrdd iechyd ac mae hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru[42].

Ffigur 26 – Cyfraddau marwolaethau hunanladdiad (wedi'u safoni ar gyfer oedran) fesul 100,000 o'r boblogaeth 2015-2017 yn ôl ardal a Chymru



3.5 Dementia

Mae dementia yn derm ymbarél a ddefnyddir i ddisgrifio ystod o anhwylderau niwrolegol cynyddol h.y. cyflyrau sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae dros 200 o isdeipiau o ddementia, ond y pump mwyaf cyffredin yw:

- clefyd Alzheimer,
- dementia fasgwlaidd,

[42] Mapiau Iechyd Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru - achosion allanol morbidrwydd a marwolaeth

- dementia gyda chyrff Lewy,
- dementia blaen-arleisiol,
- dementia cymysg.

Efallai y bydd gan rai pobl gyfuniad o wahanol fathau o ddementia a gelwir y rhain yn ddementia cymysg fel arfer.

Mae dementia yn niweidio'r celloedd nerfol yn yr ymennydd, fel na ellir anfon negeseuon o'r ymennydd ac oddi mewn iddo'n effeithiol, sy'n atal y corff rhag gweithredu fel arfer.

Mae'r Gymdeithas Alzheimer (2014) yn adrodd bod dros 850,000 o bobl yn byw gyda dementia yn y DU heddiw. O'r rhain, mae tua 42,000 yn bobl â dementia sy'n dechrau'n ifanc, sy'n effeithio ar bobl o dan 65 oed. Wrth i unigolyn heneiddio, felly hefyd mae’r risg y bydd yn datblygu dementia yn cynyddu. Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sy'n byw â dementia yn y DU erbyn 2025 yn codi i dros filiwn. Mae cyfraddau diagnosis yn gwella ond credir bod llawer o bobl â dementia yn dal heb gael diagnosis.

Mae sefydliad Daffodil Cymru[43] yn rhagweld y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd sydd â dementia yn ardal y bwrdd iechyd yn cynyddu 25% rhwng 2020 a 2030. Mae'r ffigur isod yn dangos y cynnydd ar lefel awdurdodau lleol. Fel y gwelir, rhagwelir mai Caerffili fydd â'r nifer uchaf o bobl 65 oed a throsodd â dementia yn 2030 (3,287), ond rhagwelir mai Sir Fynwy fydd â'r cynnydd mwyaf, ar 35%.

[43] Llwyfan Amcanestyniadau Poblogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru, Daffodil Cymru

Ffigur 27 – nifer o bobl 65 oed a throsodd â dementia a ragwelir, yn ôl awdurdod lleol, 2020-2030



3.6 Clefyd anadlol[44]

Clefydau'r llwybrau anadlu a strwythurau eraill yr ysgyfaint yw clefydau anadlol. Un o'r rhai mwyaf cyffredin yw clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, asthma, clefydau galwedigaethol yr ysgyfaint fel niwmoconiosis glowyr, niwmonia a gorbwysedd yr ysgyfaint.

Tybaco yw achos mwyaf canser yr ysgyfaint yn y DU, a dangoswyd yn gyntaf bod pobl sy'n ysmygu yn fwy tebygol o ddatblygu canser yr ysgyfaint o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn ysmygu ym 1952. Mae hefyd yn cynyddu'r risg ar gyfer canserau mewn mannau eraill yn y corff, er enghraifft y geg, y gwefusau, y trwyn a'r sinysau, oesoffagws, stumog, afu/iau, y bledren a'r colon/rhefr.

Er y gall clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint fod yn ganlyniad i amlygiad i beryglon galwedigaethol a llygredd aer, mae'n cael ei achosi'n bennaf gan amlygiad i fwg tybaco gweithredol ac ail-law. Hefyd, mae mathau eraill o dybaco fel sigarennau a phibellau dŵr yn cynyddu'r risg o'r clefyd hwn.

Gellir cael niwmonia naill ai yn y gymuned neu mewn ysbyty/amgylchedd gofal iechyd a gall effeithio ar bobl o unrhyw oedran. Yn y DU, mae niwmonia yn effeithio ar tua 0.5 i 1% o oedolion bob blwyddyn, ac mae'n fwy cyffredin yn yr hydref a'r gaeaf. Mae ysmygu ac amlygiad i fwg tybaco yn ffactorau risg ar gyfer niwmonia a gafwyd yn y gymuned.

---

[44] Taflen ffeithiau ASH - ysmygu a chlefyd anadlol, Medi 2020

Asthma yw clefyd cronig mwyaf cyffredin plentyndod a'r prif achos marwolaethau ymhlith plant o glefyd cronig, fel y'i mesurir gan absenoldebau ysgol, ymweliadau i adrannau achosion brys a mynd i'r ysbyty. Mae'n effeithio ar bob oedran, hil ac ethnigrwydd. Gall dod i gysylltiad â mwg sigaréts sbarduno datblygiad asthma a gwaethygu symptomau.

Fel y gwelir o'r ffigur isod, roedd y gyfradd marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer pob clefyd anadlol yn 2017 yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Torfaen, ac ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yng Nghasnewydd. O gymharu, Sir Fynwy oedd â'r gyfradd isaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ffigur 28 – pob cyfradd marwolaeth clefyd anadlol (wedi'i safoni ar gyfer oedran) fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl ardal a Chymru, 2017



Rhoi'r gorau i ysmygu yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal clefydau anadlol a thrin pobl â chlefyd anadlol.

3.7 Iechyd rhywiol

Iechyd rhywiol yw'r gallu a'r rhyddid i fwynhau a mynegi rhywioldeb heb gamfanteisio, gormesu na niwed corfforol neu emosiynol. Mae problemau iechyd rhywiol yn cynnwys:

- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gan gynnwys haint firws imiwnedd dynol,
- Beichiogrwydd anfwriadol,
- Erthyliad,
- Problemau ffrwythlondeb, a
- Chamweithrediad rhywiol.

Mae beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yn achos ac yn ganlyniad posibl i dlodi plant, a all gynyddu'r tebygolrwydd o anghydraddoldebau iechyd. Mae bod yn fam yn ei harddegau neu'n blentyn i fam yn ei harddegau yn cynyddu'r risg o broblemau iechyd a materion eraill, i'r fam a'r plentyn. Mae cyfraddau beichiogi uwch yn yr arddegau yn gysylltiedig ag ardaloedd o amddifadedd uwch ac ardaloedd o ddiweithdra uwch.

Yn 2017, y gyfradd beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau fesul 1,000 o fenywod o dan 18 oed ar gyfer Cymru oedd 20.2. Sir Fynwy oedd â'r gyfradd isaf (5.7) o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, gyda Blaenau Gwent (16.1) a Chaerffili (18.0) hefyd yn is na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru. Roedd Torfaen (22.9) a Chasnewydd (21.3) ill dau yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru[45].

Fel y gwelir o'r ffigur isod, mae cyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau ar draws ardal y bwrdd iechyd wedi gostwng ers 2006, er eu bod wedi dechrau lefelu yng Nghasnewydd.

[45] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

Ffigur 29 – cyfradd beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau fesul 1,000 o fenywod o dan 18 oed, 2006-08 i 2016-17 fesul awdurdod lleol a Chymru[46]



3.8 Alcohol[47]

Alcohol yw un o brif achosion marwolaeth a salwch yng Nghymru gyda thua 1,500 o farwolaethau i'w priodoli i alcohol bob blwyddyn (1 o bob 20 o'r holl farwolaethau). Ledled Cymru mae'r defnydd o alcohol wedi gostwng ychydig ac mae oedolion o dan 45 oed bellach yn yfed llai. Er bod y gostyngiad hwn yn newyddion da, mae'n cuddio yfed parhaus neu gynyddol mewn pobl dros 45 oed.

Ar draws ardal y bwrdd iechyd, dywedodd 18.4% o'r ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol Cymru nad ydynt yn yfed, 63.7% yn yfwyr cymedrol, 15.5% yn yfwyr peryglus a 2.5% yn yfwyr niweidiol. Fodd bynnag, mae amrywiad ar lefel awdurdod lleol:

- Roedd canran y rhai nad oeddent yn yfed ar ei huchaf ym Mlaenau Gwent (26.6%) ac isaf yn Sir Fynwy (12.6%),
- Roedd canran yr yfwyr cymedrol (a ddiffinnir fel rhai sy'n defnyddio hyd at a chan gynnwys 14 uned yr wythnos) ar ei huchaf yn Nhorfaen, ar 67.9% ac ar ei hisaf ym Mlaenau Gwent, ar 57.1%,
- Roedd canran yr yfwyr peryglus (a ddiffinnir fel mwy na 14 a hyd at 50 uned yr wythnos i ddynion a mwy na 14 a hyd at 35 uned yr wythnos ar gyfer menywod) ar ei huchaf yn Sir Fynwy ar 21.7% ac ar ei hisaf yng Nghasnewydd, ar 11.2%, a

[46] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

[47] Alcohol yng Nghymru 2019, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Roedd canran yr yfwyr niweidiol (mwy na 50 neu fwy na 35 uned yr wythnos ar gyfer dynion a menywod yn y drefn honno) ar ei huchaf yng Nghasnewydd, ar 3.2% ac ar ei hisaf ym Mlaenau Gwent, ar 1.5%.

Mae'r ffigur isod yn crynhoi'r data hwn.

Ffigur 30 – Canran y defnydd wythnosol yn ôl lefel yfed 2016/17-2017/18[48]



3.9 Gordewdra

Mae cael mynegai màs y corff uchel (h.y. bod dros bwysau neu'n ordew) ac anweithgarwch corfforol yn drydydd ac yn bedwerydd prif achos salwch yn y DU. Gyda'i gilydd, gellid dadlau mai nhw yw'r ffactor cyfrannol pwysicaf at les gwael mewn cymunedau heddiw. Mae gordewdra ymhlith plant yn arwain at ordewdra ymhlith oedolion ac yn ei waethygu sydd yn ei dro yn achosi neu'n gwaethygu ein cyflyrau salwch cyfyngus hirdymor mwyaf cyffredin. Derbynnir yn iawn fod gordewdra oedolion yn arwain at ddisgwyliad oes llai iach a disgwyliad oes byrrach.

Mae deiet iach a chytbwys yn elfen hanfodol o fyw'n iach. Mae deiet cytbwys ynghyd â gweithgarwch corfforol yn helpu i reoleiddio pwysau'r corff ac yn cyfrannu at iechyd da. Mae cynnal pwysau corff iach hefyd yn lleihau'r risg o broblemau iechyd fel diabetes, clefyd coronaidd y galon, strôc a rhai mathau o ganser. Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd yn rhan hanfodol o fyw'n iach. Mae diffyg gweithgarwch corfforol ymhlith prif achosion salwch y gellir ei osgoi a marwolaeth gynamserol.

[48] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Alcohol yng Nghymru

Cyngor y Llywodraeth yw y dylai pawb gael o leiaf pum dogn o amrywiaeth o ffrwythau a llysiau bob dydd. Dogn o ffrwythau neu lysiau yw 80g. Yn ôl y canlyniadau diweddaraf ar gyfer ardal y bwrdd iechyd o Arolwg Cenedlaethol Cymru (Gorffennaf 2020)[49]:

- Ni fwytaodd 10.2% o ymatebwyr unrhyw ffrwythau a llysiau'r diwrnod cynt,
- Roedd 69.3% yn bwyta rhai ond llai na phum dogn, a
- Roedd 20.5% yn bwyta o leiaf bum dogn.

Ceir amrywiad yn yr awdurdod lleol lle mae trigolion Sir Fynwy yn fwyaf tebygol o fod wedi bwyta pum dogn y diwrnod cynt (32%) a thrigolion Caerffili yw'r lleiaf tebygol (16.6%), o gymharu â chyfartaledd o 24.3%.

Ymhlith y canllawiau gweithgarwch corfforol ar gyfer oedolion rhwng 19 a 64 oed mae o leiaf 150 munud o weithgarwch dwysedd cymedrol yr wythnos neu 75 munud o weithgarwch dwys yr wythnos. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae 54.9% o drigolion y bwrdd iechyd yn cyrraedd y targed hwn o'i gymharu â 53.2% ar gyfer Cymru. Oedolion Blaenau Gwent sydd â'r lefelau gweithgaredd corfforol isaf, gyda dim ond 42.5% yn actif am o leiaf 150 munud yn yr wythnos flaenorol, o'i gymharu â'r lefel uchaf o 61%, yn Sir Fynwy.

Yng Nghymru, dosbarthwyd 59.9% o oedolion yn rhy drwm neu'n ordew. Ar gyfer y bwrdd iechyd, y ffigur yw 64.9%. Ceir amrywiad sylweddol ar draws ardal y bwrdd iechyd gyda 56% dros bwysau neu'n ordew yn Sir Fynwy a 70% ym Mlaenau Gwent.

3.10 Ysmygu[50]

Mae ysmygu yn parhau i fod yn un o brif achosion marwolaeth gynamserol yng Nghymru. Fel y nodwyd mewn rhannau cynharach o'r bennod hon, mae ysmygu ac ysmygu goddefol wedi'u cysylltu ag amrywiaeth o afiechydon difrifol gan gynnwys canserau a chlefyd y galon.

Ledled Cymru, ar gyfartaledd, nododd 17.4% o bobl 16 oed a throsodd statws ysmygu 'ysmygwr dyddiol' neu 'ysmygwr achlysurol' yn y data diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru. Y cyfartaledd ar gyfer ardal y bwrdd iechyd yw 18.4% ond mae amrywiad ar lefel awdurdod lleol. Fel y gwelir o'r ffigur isod, mae canran y bobl 16 oed a hŷn sy'n ysmygu ar ei isaf yng Nghasnewydd (16.5%) ac uchaf yng Nghaerffili (19.3%).

---

[49] StatsCymru, Ffordd o fyw oedolion yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd

[50] StatsCymru, Ffordd o fyw oedolion yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd

Ffigur 31 – pobl 16 oed a throsodd yn ôl statws ysmygu (canran)



4 Grwpiau cleifion a nodwyd – materion iechyd penodol

Nodwyd bod y grwpiau cleifion canlynol yn byw yn ardal y bwrdd iechyd neu'n ymweld â hi:

- Y rhai sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 canlynol,
  - Oedran
  - Anabledd, sy’n cael ei ddiffinio fel nam corfforol neu feddyliol, sy’n cael effaith niweidiol hirdymor sylweddol ar allu person i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd
  - Beichiogrwydd a mamolaeth
  - Hil, gan gynnwys lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol a chenedligrwydd
  - Crefydd (gan gynnwys diffyg crefydd) neu gred (unrhyw gred grefyddol neu athronyddol)
  - Rhyw
  - Cyfeiriadedd rhywiol
  - Ailbennu rhywedd
  - Priodas a phartneriaeth sifil
- Myfyrwyr Prifysgol
- Troseddwyr a phlant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid
- Y digartref a phobl sy'n cysgu allan
- Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr
- Ffoaduriaid, ceiswyr lloches ac ymfudwyr
- Cyn-filwyr y lluoedd arfog
- Ymwelwyr â chyfleusterau chwaraeon a hamdden, er enghraifft Canolfan Siopa Cwmbrân, cae rasio Cas-gwent, Gwesty'r Celtic Manor, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy, Coedwig y Deon, Parc Tredegar, camlas Aberhonddu a Sir Fynwy, ac atyniadau treftadaeth fel Castell y Fenni, Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, Abaty Tyndyrn a Chastell Rhaglan.

Er y cyfeirir at rai o'r grwpiau hyn mewn rhannau eraill o'r asesiad o anghenion fferyllol, mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eu materion iechyd penodol.

4.1 Oed

Tuedda materion iechyd i fod yn fwy ymhlith pobl ifanc iawn a'r hen iawn. Fodd bynnag, er ei bod yn amlwg y bydd nifer a chyfran y bobl 65 oed a throsodd yn mynd i godi a bod nifer yr achosion o bron pob cyflwr cronig a hirdymor yn cynyddu gydag oedran, mae'n bwysig cydnabod bod y boblogaeth hŷn yn amrywiol iawn ei natur gyda llawer o bobl yn parhau'n heini ac yn egnïol. Er ei bod yn wir y bydd poblogaeth hŷn sy'n tyfu yn

arwain at nifer cynyddol o bobl yn byw gydag anghenion iechyd a gofal cymhleth, bydd niferoedd cynyddol hefyd ar draws yr holl grwpiau oedran hŷn sy'n byw heb unrhyw anghenion sylweddol o ran cymorth.

At hynny, nid yw datblygu cyflwr iechyd neu anabledd o reidrwydd yn cyfateb i lefelau uchel o alw am wasanaethau iechyd a gofal. Bydd gan lawer o bobl 75 oed a throsodd un neu fwy o gyflyrau iechyd ond efallai na fyddant o'r farn bod eu cyflwr iechyd wedi cael effaith sylweddol ar eu bywyd, neu fod cyflyrau'n cael effaith sylweddol arnynt.

Yn ogystal, mae pobl hŷn hefyd yn rhoi cryn dipyn o'u hamser a'u hegni i ofalu am eraill.

O ran pobl hŷn:

- Mae ysmygu sigarennau’n gysylltiedig ag wyth o'r pedwar ar ddeg prif achos marwolaeth i bobl 65 oed neu'n hŷn. Mae ysmygu'n achosi anabledd a chlefyd angheuol, gan gynnwys canser yr ysgyfaint a chanserau eraill, clefydau'r galon a chlefydau cylchrediad y gwaed, a chlefydau anadlol fel emffysema. Mae hefyd yn cyflymu cyfradd y dirywiad mewn dwysedd esgyrn wrth i bobl heneiddio. Yn 70 oed, mae gan ysmygwyr esgyrn llai dwys a risg uwch o dorri esgyrn na rhai nad ydynt yn ysmygu. Mae ysmygwyr benywaidd mewn mwy o berygl o gael osteoporosis ar ôl y menopos. Mae hanner ysmygwyr hirdymor yn marw o afiechydon sy'n gysylltiedig â thybaco, rhan fwyaf yn gynamserol, ac mae llawer yn dioddef o amrywiaeth o gyflyrau cronig sy'n gysylltiedig ag ysmygu.
- Gall hyd yn oed defnydd cymedrol o alcohol mewn henaint fod yn niweidiol fel cyfrannwr i gwympiadau, niweidio’r cof, camreoli meddyginiaeth, deiet annigonol a chyfyngiadau ar fyw'n annibynnol.
- Mae atal cwympiadau yn fater allweddol o ran gwella iechyd a lles ymhlith pobl hŷn. Mae cwympiadau yn un o brif achosion anabledd a marwolaeth ymhlith pobl hŷn yng Nghymru, ac maent yn arwain at gostau dynol sylweddol o ran poen, colli hyder ac annibyniaeth. Amcangyfrifir bod rhwng 230,000 a 460,000 o bobl dros 60 oed yn cwympo yng Nghymru bob blwyddyn. Caiff rhwng 11,500 a 45,900 o'r rhain anaf difrifol: toriad asgwrn, anaf i'r pen, neu larpiadau difrifol.
- Gall unigrwydd gael effaith sylweddol a pharhaol ar iechyd. Mae'n gysylltiedig â phwysedd gwaed uwch ac iselder ac mae'n arwain at gyfraddau marwolaethau uwch, yn wir yn debyg i'r rhai sy'n gysylltiedig ag ysmygu ac yfed alcohol. Mae hefyd yn gysylltiedig â mwy o achosion o ddementia gydag un astudiaeth yn nodi risg ddwbl o glefyd Alzheimer. Mae pobl unig yn tueddu i wneud mwy o ddefnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac maent yn

fwy tebygol o gael eu derbyn yn gynnar i ofal preswyl neu ofal nyrsio.

- Iselder yw'r angen iechyd meddwl mwyaf cyffredin i bobl hŷn ac mae nifer yr achosion yn codi gydag oedran. Mae menywod yn cael diagnosis o iselder yn amlach na dynion. Ar unrhyw un adeg, yn genedlaethol bydd gan tua 10-15% o'r boblogaeth dros 65 oed iselder a bydd 25% yn dangos symptomau iselder. Mae gan 29% o bobl hŷn mewn ysbytai acíwt iselder ac mae'r ffigur yn 40% ymhlith y rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae iselder mwy difrifol yn llai cyffredin, sy'n effeithio ar 3-5% o bobl hŷn.
- Gall pobl ag anghenion iechyd meddwl ofyn am gyngor a chymorth gan eu meddyg teulu. Fodd bynnag, nid yw dwy ran o dair o bobl hŷn ag iselder byth yn ei drafod gyda'u meddyg teulu, ac o'r traean sy'n ei drafod, dim ond hanner sy'n cael diagnosis a thriniaeth. Mae hyn yn golygu mai dim ond 15 y cant, neu un o bob saith, sy'n cael diagnosis ac yn cael unrhyw fath o driniaeth. Hyd yn oed pan gânt ddiagnosis, mae pobl hŷn yn llai tebygol o gael cynnig triniaeth na'r rhai rhwng 16 a 64 oed.
- Mae dementia yn gyflwr cyffredin sy'n effeithio ar tua 800,000 o bobl yn y DU. Mae'r risg o ddatblygu dementia yn cynyddu wrth i chi fynd yn hŷn, ac mae'r cyflwr fel arfer yn digwydd mewn pobl dros 65 oed. Dementia yw'r ail broblem iechyd meddwl fwyaf cyffredin ymhlith pobl hŷn ac mae gan 20% o bobl dros 85 oed, a 5% dros 65 oed, ddementia. Yn 2013 amcangyfrifwyd bod 45,529 o bobl yn byw gyda dementia yng Nghymru, o'r bobl hynny, dim ond 17,661 oedd wedi derbyn diagnosis ffurfiol. Erbyn 2021 amcangyfrifir y bydd gan dros 55,000 o bobl yng Nghymru ddementia.
- Oedran yw'r ffactor unigol mwyaf sy'n gysylltiedig â chael cyflwr hirdymor ac effeithir ar 60% o bobl 65 oed a throsodd, ond amcangyfrifir bod ffactorau ffordd o fyw fel ysmygu, yfed gormod o alcohol, dietau afiach ac anweithgarwch corfforol yn achosi tua 50% o gyflyrau hirdymor.

O ran pobl ifanc:

- Hyd yn oed cyn geni, mae ffactorau sy'n gallu effeithio ar ddisgwyliad oes iach baban a chyfleoedd bywyd eisoes yn dod i'r amlwg. Ar hyn o bryd, mae plant, sy'n cael eu geni i dlodi, yn fwy tebygol o fod yn oedolion gydag iechyd gwael na'r rhai sy'n cael eu geni i gyfoeth. Mae baban, sy'n cael ei eni i fam sy'n ordew ac sydd yn ysmygu drwy gydol ei beichiogrwydd, mewn mwy o berygl o ddatblygu ffyrdd afiach o fyw yn y dyfodol, sy'n ei wneud mewn mwy o berygl o gyflyrau cronig difrifol a fydd yn effeithio ar ansawdd ei fywyd a'i ddisgwyliad oes. Mae'r effaith ar iechyd a disgwyliad oes unigolyn, profiadau plentyndod ac ymddygiadau

iechyd yn parhau i effeithio ar brofiadau ac ymddygiadau iechyd a'u cronni drwy gydol plentyndod ac i fod yn oedolion.

- Ceir tystiolaeth gref bod cysylltiad agos rhwng ymddygiad ffordd o fyw sy'n effeithio ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol tymor hwy mewn oedolion â ffordd o fyw ym mlynyddoedd yr arddegau. Bydd dylanwadu ar ddewisiadau cadarnhaol o ran ffordd o fyw ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau yn effeithio ar ganlyniadau iechyd i bobl ifanc ac ar y galw yn y dyfodol am ystod eang o wasanaethau gan oedolion.
- Mae tystiolaeth dda o fwydo ar y fron i ddarparu manteision iechyd i'r fam a'r baban ac i hyrwyddo ymlyniad, ond mae mamau ifanc ymhlith y grwpiau sydd leiaf tebygol o fwydo ar y fron.
- Dechreuodd mwy nag wyth o bob deg oedolyn sydd erioed wedi ysmygu'n rheolaidd cyn eu bod yn 19 oed.
- Mae wyth o bob deg o bobl ifanc ordew yn eu harddegau yn mynd ymlaen i fod yn oedolion gordew.
- Gall heintiau a drosglwyddir yn rhywiol heb eu trin gael effaith tymor hwy ar iechyd gan gynnwys ffrwythlondeb.. Gall ymddygiad rhywiol pobl ifanc hefyd arwain at feichiogrwydd heb ei gynllunio sydd â risgiau iechyd sylweddol ac sy'n niweidio iechyd a chyfleoedd bywyd tymor hwy mamau a babanod..

4.2 Anabledd

Nododd astudiaeth yn 2010 gan yr Arsyllfa Anableddau Dysgu Gwella Iechyd a Bywydau fod gan bobl sydd ag anableddau dysgu iechyd gwaeth na'u cyfoedion nad ydynt yn anabl, gwahaniaethau mewn statws iechyd y gellir eu hosgoi i raddau. Nododd hefyd fod anghydraddoldebau iechyd a wynebir gan bobl sydd ag anabledd dysgu wedi dechrau yn ystod plentyndod a'u bod yn aml yn cael eu hachosi o ganlyniad i ddiffyg mynediad at ofal iechyd amserol, priodol ac effeithiol.

Mae'r canlyniadau ar gyfer oedolion sydd ag anableddau o gymharu â'r boblogaeth ehangach yn dlotach ym mhob ffordd bron. Mae gan bobl sydd ag anableddau dysgu ddisgwyliad oes byrrach a risg uwch o farwolaeth gynnar o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Fodd bynnag, mae pobl sydd ag anableddau dysgu yn byw'n hirach nag yn y gorffennol ac o ganlyniad, mae nifer y bobl hŷn ag anabledd dysgu yn cynyddu. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod pobl sydd ag anableddau dysgu 58 gwaith yn fwy tebygol o farw cyn eu bod yn 50 oed na gweddill y boblogaeth. Mae angen mwy o gymorth ar bobl hŷn sydd ag anabledd dysgu i heneiddio'n dda, er mwyn parhau'n egnïol ac yn iach cyhyd ag y bo modd. Canfu ymchwil gan y Comisiwn Hawliau Anabledd yn 2006 fod pobl sydd ag anabledd dysgu ddwy waith a hanner yn fwy tebygol o fod â phroblemau iechyd na gweddill y gymuned.

- Mae gan tua 1.5 miliwn o bobl yn y DU anabledd dysgu. Mae gan dros 1 filiwn o oedolion dros 20 oed, a thros 410,000 o blant hyd at 19 oed anabledd dysgu.
- Mae 29,000 o oedolion sydd ag anabledd dysgu yn byw gyda rhieni 70 oed neu hŷn, y mae llawer ohonynt yn rhy hen neu fregus i barhau yn eu rôl gofalu. Dim ond mewn 25% o'r achosion hyn y mae gan Awdurdod Lleol dai amgen wedi'u cynllunio.
- Mae llai nag 20% o bobl sydd ag anabledd dysgu yn gweithio, ond mae o leiaf 65% o bobl sydd ag anabledd dysgu eisiau gweithio. O'r bobl hynny sydd ag anabledd dysgu sy'n gweithio, mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n rhan-amser ac yn talu'n isel.
- Mae pobl sydd ag anabledd dysgu 58 gwaith yn fwy tebygol o farw o dan 50 oed na phobl eraill. Ac mae pedair gwaith cymaint o bobl sydd ag anabledd dysgu yn marw o achosion y gellir eu hatal o gymharu â phobl yn y boblogaeth gyffredinol.
- Mae pobl sydd ag anabledd dysgu ddeg gwaith yn fwy tebygol o fod â phroblemau golwg difrifol ac mae angen i chwech o bob deg o bobl sydd ag anabledd dysgu wisgo sbectol.

Dangosodd astudiaethau fod unigolion sydd ag anableddau yn fwy tebygol na phobl heb anableddau o adrodd:

- Iechyd cyffredinol gwaeth.
- Llai o fynediad at ofal iechyd digonol.
- Ysmygu ac anweithgarwch corfforol.

Yn ardal y bwrdd iechyd mae cyfran fawr o anableddau oherwydd clefyd a marwolaethau cynamserol yn y boblogaeth oherwydd:

- Clefyd cardiofasgwlaidd, sy'n cynnwys trawiadau ar y galon a strôc,
- Anhwylderau cyhyrysgerbydol h.y. anhwylderau'r cyhyrau, cymalau neu esgyrn,
- Clefyd anadlol fel asthma,
- Canserau, a
- Salwch meddwl

4.3 Beichiogrwydd a Mamolaeth

Mae llawer o broblemau iechyd cyffredin sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. Dyma rai o'r rhai mwyaf cyffredin:

- Troethi aml
- Poen yn y pelfis
- Clwyf y marchogion (peils)
- Newidiadau i'r croen a'r gwallt

- Methu cysgu
- Olion beichiogi
- Fferau, traed a bysedd chwyddedig
- Deintgig chwyddedig a dolurus, a allai waedu
- Blinder
- Gollyngiad o’r fagina
- Gwaedu o’r fagina
- Gwythiennau chwyddedig

4.4 Hil

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canfod bod ethnigrwydd yn fater pwysig oherwydd, yn ogystal â chael anghenion penodol sy'n ymwneud ag iaith a diwylliant, mae pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddod o deuluoedd incwm isel, dioddef amodau byw gwaeth ac ennill lefelau is o gymwysterau addysgol.

Yn ogystal, mae gan rai grwpiau ethnig gyfraddau uwch o rai cyflyrau iechyd. Er enghraifft, mae gan boblogaethau De Asiaidd a Caribïaidd risg sylweddol uwch o glefyd y siwgr; mae poblogaethau o gefndir Bangladeshaidd yn fwy tebygol o osgoi alcohol ond i ysmygu, ac mae anemia cryman-gell yn anhwylder gwaed etifeddol, sy'n effeithio'n bennaf ar bobl o darddiad Affricanaidd neu Caribïaidd.

Nod Codi’r Safonau: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion yw hyrwyddo cydraddoldeb hiliol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau iechyd a brofir gan rai grwpiau ethnig.

- Mae gwahaniaethau ethnig mewn iechyd yn fwyaf amlwg ym meysydd lles meddyliol, canser, clefyd y galon, Firws Imiwnoddiffygiant Dynol, twbercwlosis a chlefyd y siwgr.
- Mae cynnydd yn nifer y bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn debygol o arwain at fwy o angen i ddarparu gofal cymdeithasol a gofal lliniarol sy'n ddiwylliannol sensitif.
- Gall poblogaethau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wynebu gwahaniaethu ac aflonyddu a gallant fod yn dargedau posibl ar gyfer troseddau casineb.

4.5 Crefydd a Chred

Ni ddylid byth cymryd yn ganiataol y bydd unigolyn sy'n perthyn i grŵp crefyddol penodol o reidrwydd yn cydymffurfio â neu'n hollol sylwgar o holl farn ac arferion y grŵp hwnnw. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar ymatebion cleifion unigol i sefyllfa glinigol benodol, gan gynnwys pa gangen o grefydd neu gred benodol y maent yn perthyn iddi, a pha mor

gryf yw eu credoau crefyddol (er enghraifft, uniongred neu ddiwygiedig, cymedrol neu ffwndamentalaidd). Am y rheswm hwn, dylid trin pob person fel unigolyn.

- Mae hefyd gysylltiad posibl â 'thrais er anrhydedd' sy'n fath o drais domestig sy'n cael ei ysgogi gan y syniad o anrhydedd ac sy'n digwydd yn y cymunedau hynny lle mae'r cysyniad anrhydedd yn gysylltiedig ag ymddygiad disgwyliedig teuluoedd ac unigolion.
- Mae anffurfio organau rhywiol menywod yn gysylltiedig â ffactorau diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol o fewn teuluoedd a chymunedau er nad oes cysylltiad uniongyrchol ag unrhyw grefydd na ffydd. Mae'n arfer anghyfreithlon sy'n codi pryderon difrifol sy'n gysylltiedig ag iechyd.
- Mae posibilrwydd o droseddau casineb yn gysylltiedig â chrefydd a chred.

4.6 Rhyw

- Mae disgwyliad oes cyfartalog dynion adeg geni yn ardal y bwrdd iechyd yn amrywio o 76.2 i 80.3 o flynyddoedd. Ar gyfer menywod, mae'r ffigurau'n amrywio o 80.6 i 84.0 o flynyddoedd.
- Tuedda dynion i ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn llai na menywod a chyflwyno clefydau'n ddiweddarach na menywod. Mae ymchwil defnyddwyr gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol[51] i mewn i'r defnydd o fferyllfeydd yn 2009 yn dangos bod dynion rhwng 16 a 55 oed yn 'osgoi' h.y. maent yn mynd ati i osgoi mynd i fferyllfeydd, yn teimlo'n anghyfforddus yn yr amgylchedd fferyllol fel y mae ar hyn o bryd oherwydd canfyddiadau o'r amgylchedd fel rhai benywaidd/i bobl hŷn/diffyg preifatrwydd a bod gwasanaeth cwsmeriaid yn dafodrydd.
- Mae dynion yn fwy tebygol o farw o glefyd coronaidd y galon yn gynamserol ac maent hefyd yn fwy tebygol o farw yn ystod digwyddiad cardiaidd sydyn. Mae risg menywod o glefyd cardiofasgwlaidd yn cynyddu'n gyffredinol yn ddiweddarach mewn bywyd ac mae menywod yn fwy tebygol o farw o strôc.
- Mae canran yr oedolion sy'n dweud eu bod dros bwysau neu'n ordew yn uwch mewn dynion na menywod ar gyfer pob grŵp oedran.
- Mae menywod yn fwy tebygol o adrodd am, ac ymgynghori ar gyfer iselder ysbryd a phryder, a chael diagnosis o'r rheiny. Mae'n bosibl bod iselder a phryder yn cael ei dan-ddiagnosio ymhlith dynion. Mae hunanladdiad yn fwy cyffredin ymhlith dynion, fel y mae pob math o gamddefnyddio sylweddau
- Roedd 19% o oedolion yng Nghymru yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol yn 2016/17-2017/18. Roedd yfed uwchlaw'r canllawiau

[51] Ymchwil defnyddwyr fferyllfeydd. Mapio defnydd a chyfathrebu fferylliaeth – Crynodeb gweithredol. Mehefin 2009

yn fwy cyffredin ymhlith dynion na menywod ym mhob grŵp oedran 10 mlynedd. I rai grwpiau oedran, roedd y gwahaniaeth gymaint â dwbl i ddynion o'i gymharu â menywod. Dynion 55-74 oed oedd â'r lefelau uchaf o yfed yng Nghymru, gyda thua thraean yn yfed dros 14 uned o alcohol mewn wythnos arferol.
- Ceir afiachusrwydd a marwolaethau yn gyson uwch ymhlith dynion ar gyfer bron pob canser nad ydynt yn benodol i ryw. Ar yr un pryd, mae cyfraddau afiachusrwydd a marwolaethau canser yn gostwng yn gyflymach i ddynion na menywod.

4.7 Cyfeiriadedd Rhywiol

Nododd y papur gwyn ar iechyd y cyhoedd 'Bywydau Iach, Pobl Iach' iechyd meddwl gwael, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, defnydd problemus o gyffuriau ac alcohol ac ysmygu fel y prif faterion iechyd cyhoeddus sy'n wynebu'r DU.

Mae pob un o'r rhain yn effeithio'n anghymesur ar boblogaethau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol:

- Mae'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon o leiaf wyth gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol
- Mae tua 25% yn dangos lefel o ddibyniaeth ar alcohol
- Mae bron i hanner yn ysmygu, o'i gymharu â chwarter eu cyfoedion heterorywiol
- Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn mwy o berygl o anhwylder meddyliol, delfrydu hunanladdol, camddefnyddio sylweddau a hunan-niweidio bwriadol
- Dywedodd 41% o bobl draws eu bod wedi ceisio hunanladdiad o gymharu ag 1.6% o'r boblogaeth gyffredinol

4.8 Ailbennu rhywedd[52]

- Prosesir cyffuriau ac alcohol gan yr afu yn ogystal â hormonau traws-ryw. Gall defnydd trwm o alcohol a/neu gyffuriau wrth gymryd hormonau gynyddu'r risg o wenwyn yr iau a niwed i'r iau
- Gall alcohol, cyffuriau a thybaco a'r defnydd o therapi hormonau i gyd gynyddu risg cardiofasgwlaidd. Gyda'i gilydd, gallant hefyd gynyddu'r risg a achosir eisoes gan therapi hormonau
- Gall ysmygu effeithio ar lefelau oestrogen, gan gynyddu'r risg o osteoporosis a lleihau effeithiau benyweiddio meddyginiaeth estrogen
- Mae pobl drawsryweddol yn wynebu nifer o rwystrau a all eu hatal rhag cymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd. Mae llawer o bobl drawsryweddol yn cael trafferth gyda delwedd y corff ac o ganlyniad gallant fod yn amharod i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol

[52] Cymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Rhywedd Taflenni Ffeithiau Iechyd Traws

- Dysfforia rhyw yw'r term meddygol a ddefnyddir i ddisgrifio'r anghysur hwn. Mae pobl drawsryweddol yn debygol o ddioddef o salwch meddwl fel adwaith i'r anghysur y maent yn ei deimlo. Mae hyn yn cael ei yrru'n bennaf gan ymdeimlad o wahaniaeth ac nid yw'n cael ei dderbyn gan gymdeithas. Os yw person trawsryweddol yn dymuno trosglwyddo a byw yn y rôl rhyw y mae'n uniaethu â hi, gall hefyd boeni am niweidio'u perthnasoedd, colli ei swydd, dioddef trosedd casineb a chael ei wahaniaethu yn ei erbyn. Gall ofn rhagfarn a gwahaniaethu o'r fath, a all fod yn real neu'n ddychmygol, achosi trallod seicolegol sylweddol.

4.9 Myfyrwyr y Brifysgol

- Sgrinio ar gyfer clefydau a drosglwyddir yn rhywiol a'u trin
- Rhoi'r gorau i ysmygu
- Brechu ar gyfer llid yr ymennydd
- Darpariaeth atal cenhedlu, gan gynnwys dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys
- Mae problemau iechyd meddwl yn cynyddu o fewn y boblogaeth myfyrwyr. Mae 94% o brifysgolion yn y DU wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y bobl sy'n ceisio cael gafael ar wasanaethau cymorth, gyda rhai sefydliadau'n sylwi ar gynnydd o dair gwaith.
- Yn ôl adroddiad Unite Students Insight 2019[53], mae canran y myfyrwyr sy'n ystyried bod ganddynt gyflwr iechyd meddwl wedi codi, ac erbyn hyn mae'n 17%. Mae hyn wedi codi o 12% yn 2016 pan ofynnwyd y cwestiwn am y tro cyntaf. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gorbryder ac iselder – y ddau yn aml – oedd yr amodau a gofnodwyd amlaf.
- Mae nifer y myfyrwyr sy'n gadael y brifysgol gyda phroblemau iechyd meddwl wedi treblu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

4.10 Troseddwyr a phlant a phobl ifanc mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuenctid

Mae Carchar Brynbuga/Prescoed wedi'i leoli yn Sir Fynwy ac mae staff gofal cymdeithasol yn cefnogi carcharorion yn unol â'r Ddeddf. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol i droseddwyr yn y carchar, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Yn ogystal â phoblogaeth y carchardai, mae'n debygol y bydd angen gofal a chymorth ychwanegol ar gyn-droseddwyr i atal anghenion rhag codi, yn enwedig y rhai sy'n camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol neu sydd â phroblemau iechyd meddwl.

[53] Adroddiad Unite Students Insight 2019

Cyhoeddwyd adroddiad diweddar 'Asesiad o Anghenion Iechyd Carchardai yng Nghymru' gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a thynnodd sylw at nifer o feysydd allweddol i fynd i'r afael â nhw:

- Mynediad i gyfleusterau gofal iechyd,
- Iechyd meddwl a gofal iechyd,
- Camddefnyddio sylweddau gan gynnwys ysmygu,
- Iechyd y geg:
- Clefydau heintus, a
- Chymorth ar ôl eu rhyddhau

Gall plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid fod â mwy o anghenion iechyd a lles na phlant eraill o'u hoedran. Maent yn aml wedi colli sylw cynnar i'r anghenion hyn. Maent yn aml yn wynebu ystod o anawsterau eraill, sydd wedi'u sefydlu'n aml, gan gynnwys gwaharddiad ysgol, perthnasoedd teuluol wedi chwalu, profedigaeth, amodau byw ansefydlog, a rhianta gwael neu niweidiol a allai fod yn gysylltiedig â thlodi rhieni, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Gall llawer o'r plant a'r bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid yn yr ardal hefyd fod yn hysbys i ofal cymdeithasol plant a bod ymhlith y plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid, mae lles yn ymwneud â chryfhau'r ffactorau amddiffynnol yn eu bywydau a gwella eu gwydnwch i'r ffactorau risg a'r anfanteision sy'n ymddangos mor bennaf, ac sy'n debygol o gael effaith andwyol barhaus ar eu datblygiad hirdymor. Mae lles hefyd yn ymwneud â phlant yn teimlo'n ddiogel am eu hunaniaeth a'u diwylliant personol. Dylai sylw dyledus i'w hanghenion iechyd a lles helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a lleihau'r risg o aildroseddu gan bobl ifanc.

4.11 Y digartref a phobl sy'n cysgu allan

Mae cysgu allan yn beryglus ac mae'n niweidiol iawn i iechyd corfforol a meddyliol unigolyn. Mae pobl sy'n cysgu allan 17 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais na'r cyhoedd yn gyffredinol.

Yr oedran cymedrig adeg marwolaeth i rywun sy'n ddigartref yng Nghymru a Lloegr yw 44 oed i ddynion a 42 oed i fenywod o'i gymharu â'r oedran cymedrig adeg marwolaeth ar gyfer poblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr, sef 76 ac 81 yn y drefn honno (2017). Roedd hyd yn oed y bobl hynny sy'n cysgu allan am ychydig fisoedd yn unig yn debygol o farw'n iau nag y byddent wedi'i wneud pe na baent erioed wedi cysgu allan.

Y tri achos mwyaf cyffredin o farwolaethau ymhlith pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr yn 2017 oedd:

- damweiniau (40%)
- clefyd yr afu (9%)
- hunanladdiad (9%).

Mae pobl sy'n cysgu allan bron 17 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais. Mae mwy nag un o bob tri o bobl sy'n cysgu allan wedi cael eu taro neu eu cicio'n fwriadol neu wedi profi rhyw fath arall o drais tra'n ddigartref. Mae pobl ddigartref dros naw gwaith yn fwy tebygol o gymryd eu bywyd eu hunain na'r boblogaeth gyffredinol.

Yn ôl adroddiad gan Centrepoint[54], mae pobl ifanc ddigartref ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol mewn cymdeithas. Mae ymchwil blaenorol wedi dangos bod gan lawer broblemau cymhleth gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a chorfforol, a'u bod wedi dioddef camdriniaeth neu ddigwyddiadau trawmatig profiadol. Mae gan 42% o bobl ifanc ddigartref broblem iechyd meddwl sydd wedi cael diagnosis neu sy'n adrodd am symptomau iechyd meddwl gwael, mae 18% wedi ceisio hunanladdiad, mae gan 31% broblem iechyd corfforol (fel problemau gyda'u hanadlu, cymalau a chyhyrau, neu gur pen aml), mae gan 21% hanes o hunan-niweidio, mae 52% yn adrodd am broblemau gyda'u cwsg, 55% yn ysmygu, ac mae 50% yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon.

4.12 Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr[55]

Mae'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu canlyniadau iechyd gwaeth o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol:

- Ceir cyfraddau marwolaethau babanod hyd at bum gwaith yn uwch ymhlith y grŵp lleiafrifol hwn o gymharu â'r gyfradd genedlaethol.
- Mae'r cyfraddau imiwneiddio ymhlith plant Teithwyr yn isel o'u cymharu â gweddill y boblogaeth. Mae rhai'n awgrymu bod meddygon teulu yn amharod i gofrestru Teithwyr gan nad ydynt o unrhyw breswylfa sefydlog, sy'n golygu na ellir eu cyfrif tuag at dargedau ac felly gydnabyddiaeth ariannol.
- Mae cyfradd ddamweiniau uchel ymhlith y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r amodau peryglus ar lawer o safleoedd Teithwyr - yn enwedig gan fod safleoedd yn aml yn agos at draffyrdd neu brif ffyrdd, tomenni sbwriel, gweithfeydd carthffosiaeth, rheilffyrdd neu ardaloedd diwydiannol. Mae safonau iechyd a diogelwch yn aml yn wael.
- Mae gan deithwyr lefelau is o fwydo ar y fron.
- Ceir hefyd fwy o achosion o lawer o gyflyrau meddygol o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol, gan gynnwys cyfradd camesgoriad,

[54] Cymysgedd Gwenwynig: Anghenion iechyd pobl ifanc ddigartref, Centrepoint 2014

[55] Asesiad Anghenion Poblogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gwent Mai 2017

problemau anadlu, llid y cymalau, clefyd cardiofasgwlaidd, iselder a chyfraddau marwolaeth mamol.
- Mae yfed alcohol yn aml yn cael ei ddefnyddio fel strategaeth ymdopi, ac mae henuriaid Teithwyr yn adrodd ac yn ofni defnydd cyffuriau ymysg pobl ifanc Teithwyr.
- Mae credoau diwylliannol yn cynnwys ystyried problemau iechyd (yn enwedig y rhai a ganfyddir fel yn beth cywilyddus, fel iechyd meddwl gwael neu gamddefnyddio sylweddau) y dylent gael eu trin gan aelodau'r cartref neu eu cadw o fewn yr uned deuluol estynedig
- Mae teithwyr hefyd yn wynebu heriau o ran cael mynediad at wasanaethau naill ai oherwydd lleoliad y safleoedd (neu oherwydd natur dros dro bod mewn ardal). Mae peidio â chael mynediad at drafnidiaeth (sy'n arbennig o gysylltiedig â menywod nad ydynt yn aml yn gallu gyrru) i gyrraedd gwasanaethau yn rheswm arall dros ddefnydd isel o wasanaethau yn ogystal â lefelau isel o lythrennedd iechyd o ba wasanaethau y mae ganddynt hawl i'w defnyddio neu sut i gael gafael arnynt.

Yn gyffredinol, mae gan y cymunedau ddisgwyliadau isel o ran eu hiechyd a'u disgwyliad oes. Dangosodd astudiaethau dro ar ôl tro fod Teithwyr yn aml yn byw mewn amodau eithriadol o afiach, ac ar yr un pryd yn defnyddio gwasanaethau iechyd yn llawer llai aml na gweddill y boblogaeth.

4.13 Ffoaduriaid, ceiswyr lloches ac ymfudwyr[56]

Tan 2001, niferoedd cymharol fychan o geiswyr lloches a ffoaduriaid a benderfynai ymgartrefu yng Nghymru o’i gymharu â rhannau eraill yn y DU. Cododd niferoedd y ceiswyr lloches a ffoaduriaid pan ddaeth Cymru yn ardal wasgaru. Roedd nifer y ceisiadau am loches yn 2016 yn 8% yn uwch na’r flwyddyn gynt. Mae'r gwasanaethau a ddarperir i ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches gan sefydliadau anllywodraethol wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar iechyd a lles pobl. Y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg i ddarparwyr gwasanaethau yw heb fod â hawl i gael arian cyhoeddus a materion diogelu megis trais ar sail anrhydedd a masnachu mewn pobl. I ddefnyddwyr gwasanaeth, ymddengys mai diffyg gwybodaeth a chymorth tenantiaeth, neu fynediad cyfyngedig iddynt, yw'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg.

Mae adroddiadau amrywiol yn cydnabod bod gan systemau casglu data ar gyfer nifer y mudwyr wendidau, sy'n gosod cyfyngiadau ar eu dibynadwyedd. Nid oes diffiniad y cytunwyd arno ar gyfer 'ymfudwyr' sy'n gwaethygu'r broses o gasglu data dibynadwy ymhellach.

[56] Asesiad Anghenion Poblogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gwent Mai 2017

Canfu cyfrifiad 2011 mai'r deg gwlad wreiddiol orau o bobl a anwyd y tu allan i'r DU, yn nhrefn y niferoedd uchaf yn gyntaf oedd:

- Pacistan,
- India,
- Bangladesh,
- Gwlad Pwyl,
- Ynysoedd y Philipinau,
- Yr Almaen,
- De Affrica,
- Nigeria,
- Yr Eidal, a
- Simbabwe.

Mae adborth gan Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dangos bod gan bobl o gefndir Roma anghenion penodol iawn yn ogystal â rhai'r boblogaeth fudol newydd gyffredinol.

Mae cyfathrebu da ag ymfudwyr yn hanfodol. Mae pennu iaith ac addasrwydd fformat (e.e. ysgrifenedig, sain, wyneb yn wyneb, dros y ffôn) a'r cymorth sydd ar gael, megis eiriolaeth a dehongli, yn elfennau hanfodol i sicrhau cyfathrebu effeithiol. Bydd hyn yn ei dro o fudd i gyllidebau a gofal cwsmeriaid gan ei fod yn cyfrannu at bennu'r gwasanaeth priodol. Yn ogystal, mae materion eraill a amlygwyd ar gyfer ymfudwyr a cheiswyr lloches yn cynnwys yr angen am fwy o eiriolaeth a chymorth symudol i ymfudwyr, diffyg dull strategol o ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau ar gyfer ymfudwyr newydd a diffyg cydgysylltu rhwng gwasanaethau i ymfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

4.14 Cyn-filwyr [57]

Diffinnir cyn-filwr fel "unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf un diwrnod yn y Lluoedd Arfog (Rheolaidd neu Wrth Gefn), yn ogystal â morwyr a physgotwyr y Llynges Fasnachol sydd wedi gwasanaethu mewn llong a weithredwyd i hwyluso gweithrediadau milwrol gan y Lluoedd Arfog." Nid oes ffynhonnell wybodaeth reolaidd ar gyn-filwyr yng Nghymru, felly nid yw'r nifer sy'n byw yng Nghymru yn hysbys. Mae astudiaethau'n nodi bod y rhan fwyaf o gyn-filwyr yn gyffredinol yn ystyried eu hamser yn y Gwasanaethau fel profiad cadarnhaol ac nad ydynt yn dioddef effeithiau andwyol ar iechyd o ganlyniad i'r amser y maent wedi'i wasanaethu.

Fodd bynnag, ar gyfer lleiafrif, gall canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol anffafriol fod yn sylweddol a gellir eu dwysáu gan ffactorau eraill – fel problemau ariannol a lles. Mae materion iechyd allweddol sy'n

[57] Asesiad Anghenion Poblogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gwent Mai 2017

wynebu'r boblogaeth cyn-filwyr yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl cyffredin (ond maent hefyd yn cynnwys anhwylder straen ôl-drawma) a chamddefnyddio sylweddau – gan gynnwys yfed gormod o alcohol ac i raddau llawer llai - defnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Yn ogystal, nodwyd bod amser yn y Gwasanaethau yn gysylltiedig ag anhwylderau cyhyrysgerbydol i rai cyn-filwyr.

Mae materion eraill y mae astudiaethau wedi nodi eu bod o bwys i gyn-filwyr yn cynnwys:

- Cael gafael ar dai addas ac atal digartrefedd.
- Cefnogi cyn-filwyr i gael gwaith.
- Cael gafael ar gyngor a gwybodaeth ariannol briodol am fudd-daliadau perthnasol.
- Cael mynediad at wasanaethau iechyd a chymorth.
- Cefnogi cyn-filwyr sydd wedi bod yn y system cyfiawnder troseddol.
- Unigedd ac unigrwydd
- Mynediad parod at wasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau'n eu hadnabod ac yn eu trin yn gynnar (iechyd corfforol ac iechyd y meddwl).
- Cefnogi teulu ehangach cyn-filwyr.

Mae ymchwil yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o bobl 'yn dioddef anawsterau iechyd meddwl hyd yn oed ar ôl gwasanaethu mewn amgylcheddau heriol iawn'. Fodd bynnag, mae rhai cyn-filwyr yn wynebu problemau iechyd meddwl difrifol.

Y problemau mwyaf cyffredin a brofir gan gyn-filwyr (a chan y boblogaeth gyffredinol) yw:

- iselder
- gorbryder
- cam-ddefnyddio alcohol

Mae Anhwylder Straen Ôl-drawma yn debygol o effeithio ar tua 4% o gyn-filwyr. Bob blwyddyn, mae tua 0.1% o'r holl bobl sy'n gadael gwasanaeth rheolaidd yn cael eu rhyddhau am resymau iechyd meddwl. Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi penodi clinigwr profiadol fel therapydd cyn-filwyr sydd â diddordeb neu brofiad o broblemau iechyd milwrol (meddyliol). Bydd y therapydd cyn-filwyr yn derbyn atgyfeiriadau gan staff gofal iechyd, meddygon teulu, elusennau cyn-filwyr a hunangyfeiriadau gan gyn-aelodau'r lluoedd arfog. Mae'r gwasanaeth yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'i leoli ym Mhont-y-pŵl. Prif nod Cyn-filwyr GIG Cymru yw gwella iechyd meddwl a lles cyn-filwyr sydd â phroblem iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth. Y nod eilaidd yw cyflawni hyn drwy ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy, hygyrch ac effeithiol sy'n diwallu anghenion cyn-filwyr ag anawsterau iechyd meddwl a lles sy'n byw yng Nghymru. Mae adroddiad yn 2016 gan

y sefydliad 'Forces in Mind' yn darparu canfyddiadau adolygiad o anghenion iechyd meddyliol a chysylltiedig cyn-filwyr ac aelodau o'r teulu yng Nghymru.

Nododd yr adroddiad fod llawer o waith da wedi'i ddatblygu yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddiwallu anghenion iechyd meddwl a cysylltiedig cyn-filwyr ac aelodau o'u teuluoedd yn well, ond nododd yr adroddiad hefyd feysydd lle teimlwyd bod angen gwneud gwaith ychwanegol i ddiwallu anghenion cyn-filwyr. Roedd hyn yn cynnwys:

- Angen ffocws a chydlyniad strategol o ran cynllunio/comisiynu gwasanaethau i gyn-filwyr - cyffredinol ac arbenigol - ar draws sectorau a rhanbarthau.
- Angen sicrhau cysondeb a gweithrediad fforymau a Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog ledled Cymru.
- Angen sicrhau cynaliadwyedd/capasiti hirdymor o fewn gwasanaethau.
- Angen sefydlu partneriaethau amlasiantaethol lleol effeithiol i wella llwybrau asesu ac atgyfeirio.
- Diwallu anghenion cyn-filwyr sydd ag anghenion cymhleth iawn, yn enwedig y rhai sydd â diagnosis deuol (iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau) a'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol.
- Er mwyn diwallu'r angen nas diwallwyd ymhlith cyn-filwyr a theuluoedd, mae angen mwy o atal, nodi ac ymyrryd yn gynnar o fewn gwasanaethau cyffredinol/prif ffrwd er mwyn atal pwysau ar wasanaethau argyfwng.
- Cydnabod a darparu'n briodol ar gyfer anghenion cymorth ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol teuluoedd cyn-filwyr â phroblemau iechyd meddwl gan gynnwys materion diogelu, yn enwedig o ran trais domestig a lles hirdymor plant;

Nododd adroddiad gan Lywodraeth Cymru o 2014 'Gwella Mynediad at Driniaeth Camddefnyddio Sylweddau i Gyn-filwyr' fod Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau yn arwain ar gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau ar y cyd yn lleol er mwyn sicrhau bod anghenion cyn-filwyr yn cael eu diwallu. Nododd adroddiad yn 2011 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 'Asesiad o anghenion gofal iechyd cyn-filwyr o wasanaethau adsefydlu arbenigol yng Nghymru' amrywiaeth o argymhellion i gefnogi cyn-filwyr mewn perthynas â'u hiechyd corfforol a'u hanabledd o ran darparu gwasanaethau adsefydlu arbenigol.

4.15 Ymwelwyr â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yn ardal y bwrdd iechyd

Ni ragwelir y bydd anghenion iechyd y grŵp cleifion hwn yn debygol o fod yn wahanol iawn i anghenion poblogaeth gyffredinol ardal y bwrdd iechyd.

Gan mai dim ond am ddiwrnod neu ddau y gallant fod yn yr ardal, mae eu hanghenion iechyd yn debygol o fod fel a ganlyn:

- Trin cyflwr acíwt sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddosbarthu presgripsiwn
- Yr angen am feddyginiaeth reolaidd
- Cymorth ar gyfer hunanofal, neu
- Gyfeirio at wasanaethau iechyd eraill fel meddyg teulu neu ddeintydd.

5 Darparu gwasanaethau fferyllol

5.1 Y ddarpariaeth bresennol o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ym mis Awst 2021 roedd 131 o fferyllfeydd wedi'u cynnwys yn y rhestr fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd, a weithredir gan 46 o gontractwyr gwahanol.

O'r 75 o bractisau meddygon teulu yn ardal y bwrdd iechyd, mae 13 yn dosbarthu i gleifion cymwys o 17 o safleoedd yn ardal y bwrdd iechyd. Mae tri o'r practisau'n dosbarthu o safleoedd sydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd yn Swydd Gaerloyw:

- Mae gan Bractis Vauxhall safle yn Tutshill,
- Mae gan Bractis Town Gate safle yn Sedbury, ac
- Mae gan Bractis Wye Valley safle yn Sant Briavels.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad safleoedd fferyllfa a phractisau dosbarthu ar draws ardal y bwrdd iechyd. Cynrychiolir fferyllfeydd gan ddotiau porffor a safleoedd dosbarthu meddygon teulu gan ddiemwntau melyn.

Map 4 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd ymarfer dosbarthu



© Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad safle'r fferyllfa a'r practis dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd o'i gymharu â dwysedd y boblogaeth yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is. Oherwydd maint yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd iechyd, ni ddangosir llawer o'r safleoedd yn unigol, ond gellir dod o hyd i fapiau manylach yn y penodau ardal.

Cynrychiolir fferyllfeydd gan ddotiau porffor a safleoedd dosbarthu meddygon teulu gan ddiemwntau melyn.

Fel y gwelir, ac fel y disgwylir, mae'r rhan fwyaf o safleoedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae mwy o ddwysedd poblogaeth gydag ambell eithriad.

Map 5 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd ymarfer dosbarthu o gymharu â dwysedd y boblogaeth



© Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad safle'r fferyllfa a'r practis dosbarthu yn ardal y bwrdd iechyd o'i gymharu â lefelau amddifadedd. Yn gyffredinol, mae fferyllfeydd mewn ardaloedd lle ceir mwy o amddifadedd, ac yn dosbarthu eiddo meddygon mewn ardaloedd llai difreintiedig.

Map 6 – lleoliad fferyllfeydd ac adeiladau ymarfer dosbarthu o gymharu â lefelau amddifadedd



© Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Yn 2019/20, cafodd 93.4% o'r eitemau a bresgripiynwyd gan bractisau meddygon teulu yn ardal y bwrdd iechyd eu dosbarthu gan fferyllfeydd o fewn ardal y bwrdd iechyd a dosbarthwyd neu rhoddwyd yn bersonol 5.1% o'r eitemau gan bractisau'r meddygon teulu. Yn 2020/21, gafodd 93.8% ei dosbarthu gan fferyllfeydd a 5% wedi dosbarthu yn uniongyrchol gan swyddfeydd meddygon teulu.

5.1.1 Mynediad i’r safleoedd

Mae'r bwrdd iechyd wedi dewis amser teithio o 20 munud mewn car fel safon mynediad briodol. Er mwyn asesu a yw preswylwyr yn gallu cael mynediad i fferyllfa yn unol â'r safon hon, dadansoddwyd amseroedd teithio safonol gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Fel y gwelir o'r map isod, mae'r rhan fwyaf o ardal y bwrdd iechyd o fewn 20 munud i fferyllfa neu i safle dosbarthu gan feddyg. Nid yw rhannau o Sir Fynwy o fewn 20 munud ac edrychir ar hyn yn fanylach yn y penodau ardal perthnasol.

Map 7 – Amser a gymerir i gael mynediad i fferyllfa, mewn car



© Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Mae'r ymatebion i'r holiadur cyhoeddus a chleifion yn rhoi'r mewnwelediadau canlynol i gael mynediad i fferyllfeydd:

- Dywedodd 88.5% o ymatebwyr y gallent gael mynediad i fferyllfa o fewn 20 munud. Dywedodd 3.5% fod eu taith wedi cymryd mwy nag 20 munud (dewisodd 8% beidio ag ateb y cwestiwn). Mae'r ymatebion hyn yn adlewyrchu canfyddiadau'r ymarfer mapio.
- Mae 60% yn teithio i fferyllfa mewn car, 28% ar droed ac 8% wedi dewis peidio ag ateb y cwestiwn.

5.1.2 Mynediad at wasanaethau hanfodol

Datgelodd yr holiadur ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd nad oedd gan 27% o ymatebwyr ddewis amser i ymweld â fferyllfa, gyda 52% arall yn nodi mai rhwng 09.00 a 18.00 oedd eu dewis amser. Felly, er y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymweld â fferyllfa yn ystod y cyfnod hwn, o ddydd Llun i ddydd Gwener, bydd adegau pan fydd angen i bobl gael mynediad i fferyllfa y tu allan i'r amseroedd hynny, neu ddewis gwneud hynny. Efallai y bydd presgripsiwn yn cael ei ddosbarthu ar ôl cael ymweliad â'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau, neu i gasglu eitemau a ddosberthir ar eu ffordd i'r gwaith neu oddi yno, neu efallai mai ar gyfer mynediad i un o'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan fferyllfa y tu allan i ddiwrnod gwaith arferol unigolyn.

Mae Atodiad L yn rhoi gwybodaeth am oriau agor y fferyllfeydd ym mis Awst 2021 ac ar yr adeg honno roedd:

- Deg fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- 20 fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- 57 o fferyllfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a dydd Sadwrn hyd at 13.00
- 44 o fferyllfeydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae Rotas yn gweithredu i sicrhau mynediad i fferyllfa ar nosweithiau yn ystod yr wythnos, ar ddydd Sul a gwyliau cyhoeddus a banc ac fe'u cyhoeddir ar wefan y bwrdd iechyd. Caiff posteri sy'n cadarnhau pa fferyllfeydd fydd ar agor a phryd hefyd eu harddangos yn y fferyllfeydd.

Mae practisau meddygon teulu wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau rhwng 08.00 a 18.30, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc a chyhoeddus. Yn gyffredinol, bydd mannau dosbarthu meddygon teulu ar agor ar yr un pryd â'r practis meddyg teulu ac yn dosbarthu presgripsiynau a roddir fel rhan o ymgynghoriad yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â dosbarthu presgripsiynau ailadroddus.

Os bydd oriau agor practis meddygon teulu yn newid, er enghraifft mae practis yn agor cyn 08.00 neu'n aros ar agor ar ôl 18.30, yna mae gan y bwrdd iechyd y gallu i gyfarwyddo fferyllfa neu fferyllfeydd sy'n bodoli eisoes i agor am oriau hirach yn ôl y gofyn. Gall hefyd gyfarwyddo fferyllfa bresennol i agor y tu allan i oriau agor arferol er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth, er enghraifft ar ŵyl gyhoeddus neu ŵyl banc.

Erbyn Awst 2021 mae cynlluniau adleoliadau ymarfer canlynol ac adeiladau newydd:

- Bydd Meddygfa Dixton, Trefynwy yn adleoli i safle newydd erbyn 2024.

- Mae'r bwrdd iechyd wedi datblygu dogfen gwmpasu achos busnes ar gyfer canolfan iechyd a lles sy'n gwasanaethu poblogaeth Glyn Ebwy. Mae'n cynnig adleoli'r practisau meddygon teulu sydd wedi'u lleoli ar hyn o bryd o fewn meddygfeydd Glan Rhyd a Phen y Cae i un lleoliad, a hefyd i gynnwys gwasanaethau deintyddol cymunedol, fferyllfa a gwasanaethau clinigol eraill gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i wasanaethau podiatreg, iechyd rhywiol, diogelu, therapi iaith a lleferydd, bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd, camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau asesu cof. Mae Ysbyty Tri Chwm wedi'i nodi fel lleoliad addas. Rhagwelir y bydd y ganolfan yn agor o fewn oes yr asesiad anghenion fferyllol hwn.
- Bydd Meddygfa Glan yr Afon a Chanolfan Iechyd Tredegar yn adleoli i’r Ganolfan Adnoddau Tredegar newydd, ar ôl ei chwblhau.
- Mae canolfan yn cael ei hystyried ar gyfer Cwm Aber, er nad yw cyfluniad terfynol y gwasanaethau wedi'i gwblhau eto.
- Fel rhan o'r cytundeb adran 106 ar gyfer y prosiect adfywio mawr i drawsnewid hen ofod gwaith dur Casnewydd Llanwern, mae hen waith dur Casnewydd Llanwern wedi'i nodi ar gyfer gwasanaethau iechyd.
- Mae achos busnes amlinellol ar gyfer canolfan les Ringland yn cael ei ddatblygu a rhagwelir y bydd y ganolfan yn agor o fewn oes yr asesiad anghenion fferyllol hwn.

Adleolwyd Canolfan Meddygol Aber a ‘The Village Surgery’ i Ganolfan Iechyd Llanbradach o’r 2il o Awst 2021.

5.1.3 Gwasanaeth Adolygu Mynediad at Feddyginiaethau

Yn 2018/19 darparwyd cyfanswm o 37,493 o Adolygiadau Defnydd Meddyginiaethau gan 129 o'r fferyllfeydd. Darparodd 55 o fferyllfeydd y nifer uchaf – 400.

Yn 2019/20 darparwyd cyfanswm o 32,677 o Adolygiadau Defnydd Meddyginiaethau gan 130 o'r fferyllfeydd ac mae'r graff isod yn dangos y patrwm o hawlio drwy gydol y flwyddyn ar gyfer pob fferyllfa.

Ffigur 32 - nifer yr Adolygiadau Defnydd Meddyginiaethau a hawliwyd gan bob fferyllfa yn 2019/20



Gellir darparu hyd at 400 o Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau ym mhob fferyllfa bob blwyddyn, gan roi uchafswm posibl o 52,400 y flwyddyn yn seiliedig ar y 131 fferyllfa bresennol. Fodd bynnag, gan nad oedd un fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth yn 2019/20, y nifer wirioneddol o Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau y gellid bod wedi'u cynnal yw 52,000.

Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth yn 2018/19 mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti o fewn contractwyr presennol i ddarparu mwy o Adolygiadau Defnydd Meddyginiaethau pan fydd y gwasanaeth yn ailddechrau:

- Darparodd 74 o fferyllfeydd lai na'r nifer blynyddol uchaf o Adolygiadau Defnydd Meddyginiaethau, a
- Darparodd 35 o fferyllfeydd lai na 200 o Adolygiadau o'r Defnydd o Feddyginiaethau.

O'r data a oedd ar gael ar gyfer 2019/20, pan ddarparodd 105 o fferyllfeydd lai na 400 a 45 yn darparu llai na 200, nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi casgliad gwahanol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud o fewn y penodau ardal.

Hyd at Awst 2021 mae’r gwasanaeth wedi’i atal oherwydd y pandemig Covid, serch hyn rhagwelir bydd y gwasanaeth yn ailgychwyn yn y fferyllfeydd wedi’r pandemig.

5.1.4 Mynediad i'r Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau ar Ryddhad

Yn 2018/19, darparodd 96 o fferyllfeydd y gwasanaeth hwn, gan ostwng i 86 yn 2019/20. Cynyddwyd y ffigwr yma i 91 yn 2020/21.

Dros y tair blynedd, nid oes yr un fferyllfa wedi hawlio'r nifer uchaf.

Gellir darparu hyd at 140 o Adolygiadau o Feddyginiaethau ar Ryddhad ym mhob fferyllfa bob blwyddyn, gan roi uchafswm posibl o 18,340 y flwyddyn yn seiliedig ar y 131 fferyllfa bresennol. Fodd bynnag, gan nad oedd 40 o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2020/21, nifer wirioneddol yr Adolygiadau o Feddyginiaethau ar Ryddhad y gellid eu cynnal yw 12,740.

Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth yn 2018/19 mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti o fewn contractwyr presennol i ddarparu mwy o Adolygiadau o Feddyginiaethau ar Ryddhad.

O'r data sydd ar gael ar gyfer 2019/20 a 2020/21 nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi casgliad gwahanol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud o fewn y penodau ardal.

5.1.5 Mynediad i Adolygiadau Defnyddio Offer

Ni ddarparodd unrhyw fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2018/19, 2019/20 na 2020/21 er gwaethaf dosbarthu presgripsiynau ar gyfer offer.

5.1.6 Mynediad at addasiadau offer stoma

Ni ddarparodd unrhyw fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2018/19, 2019/20 na 2020/21 er gwaethaf dosbarthu presgripsiynau ar gyfer offer.

5.1.7 Mynediad i'r gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd brys

Mae'r gwasanaeth hwn yn caniatáu i fferyllwyr o dan y GIG i gyflenwi dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys, pan fo'n briodol, i gleientiaid drwy Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion. Nod y gwasanaeth yw gwella mynediad at ddulliau atal cenhedlu brys a chyngor ar iechyd rhywiol.

Comisiynir 111 o gontractwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Mae’r ffigwr yma wedi cynyddu i 121 fferyllfa yn 2020/21.

Gan fod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti o fewn contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar

lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud o fewn y penodau ardal.

5.1.8 Mynediad i'r gwasanaeth pellach rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2

Mae'r gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 yn cysylltu fferyllfeydd â'r gwasanaeth cymorth ymddygiadol dwys a ddarperir gan Helpa Fi i Stopio. O dan y trefniant hwn, mae contractwyr fferyllol yn cyflenwi therapi disodli nicotin i ysmygwyr sy'n cael cymorth ymddygiadol rhoi'r gorau i ysmygu gan Helpa Fi i Stopio, mewn ymateb i lythyr atgyfeirio neu gerdyn apwyntiad sy'n dangos dibyniaeth y cleient ar nicotin. Mae'r gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn darparu rhaglen chwe wythnos o gymorth, lle bydd llythyr atgyfeirio yn cael ei gyhoeddi ar gyfer pob cyflenwad fferyllfa o therapi disodli nicotin. Ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, bydd Helpa Fi i Stopio yn anfon llythyr atgyfeirio rhyddhad i fferyllfa er mwyn darparu cyflenwad chwe wythnos arall o therapi disodli nicotin bob pythefnos.

Comisiynir 125 o gontractwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac 125 comisynwyd i ddarparu yn 2021/22 hyd at Awst 2021.

Gan fod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti o fewn contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud o fewn y penodau ardal.

5.1.9 Mynediad i'r gwasanaeth pellach rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3

Mae'r gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 wedi'i gynllunio i ddarparu gwasanaeth cymorth a thriniaeth gynhwysfawr i gleifion i'w helpu i roi'r gorau i ysmygu dros raglen 12 wythnos, sy'n cynnwys wyth ymgynghoriad gyda fferyllydd achrededig.

Comisiynir 83 o gontractwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, ac mae 53 wedi'i ddarparu ar yr adeg y drafftiwyd y ddogfen hon.

Gan fod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti o fewn contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud o fewn y penodau ardal.

5.1.10 Mynediad i gyfeiriad grŵp cleifion rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 y Cynllun Varenicline

Nod y gwasanaeth hwn yw cynyddu nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau i ysmygu ar draws ardal y bwrdd iechyd, a gwella cyfraddau rhoi'r gorau iddi drwy gynnwys Varenicline fel triniaeth drwy gyfarwyddeb grŵp cleifion. Bydd hyn yn gwella'r dewis i gleifion a fydd yn gallu derbyn y driniaeth hon heb weld eu meddyg teulu.

Comisiynir 40 o gontractwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Comisynwyd 40 i ddarparu yn 2021/22 hyd at Awst 2021.

Gan fod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti o fewn contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud o fewn y penodau ardal.

5.1.11 Mynediad i'r gwasanaeth gwella brechu rhag y ffliw

Mae'r gwasanaeth hwn yn caniatáu i fferyllfeydd ddarparu imiwneiddio rhag y ffliw i'r cleifion hynny mewn grwpiau sydd wedi'u cytuno'n genedlaethol ac yn lleol mewn perygl. Mae'n cefnogi'r ddarpariaeth ehangach o imiwneiddio rhag y ffliw a'i nod yw cynyddu cyfran yr unigolion sydd mewn perygl sy'n cael eu himiwneiddio gan helpu i leihau afiachusrwydd a marwolaethau.

Yn 2018/19 darparodd 96 o'r fferyllfeydd gyfanswm o 9,355 o frechiadau dros dymor y ffliw. Yn 2019/20 darparodd 101 o'r fferyllfeydd gyfanswm o 10,225 o frechiadau yn ystod tymor y ffliw.

Yn 2020/21, ddarparwyd 16,476 brechiad ar draws 113 fferyllfa.

Mae'r ffigur isod yn cymharu darpariaeth y gwasanaeth dros y tri thymor ffliw diwethaf.

Ffigur 33 - nifer y brechiadau ffliw a hawliwyd yn 2018/19, 2019/20 a 2020/21



Hyd at Awst 2021, 64 fferyllfa sydd wedi arwyddo lan i ddarparu y gwasanaeth yn 2021/22. Er bod y rhif yma yn is na yn blynyddoedd blaenorol, mae’r Bwrdd Iechyd yn rhagweld bydd mwy o fferyllfeydd yn arwyddo lan dros y flwyddyn.

Gan fod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti o fewn contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn seiliedig ar y gweithgaredd ar gyfer 2018/19, 2019/20 a 2020/21. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud o fewn y penodau ardal.

5.1.12 Mynediad i'r gwasanaeth anhwylder cyffredin

Mae'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn darparu cyngor a thriniaeth ar ystod o gyflyrau penodol fel plorynnod, brech yr ieir, llid yr amrannau, llau pen, dolur gwddf / llid y tonsiliau a dafadennau. Mae cleifion yn cofrestru gyda fferyllfa ac yn derbyn ymgynghoriad gyda fferyllydd a chyngor ar reoli a thrin lle bo angen, neu atgyfeiriad os oes angen, ac fe'i darperir fel dewis amgen i wneud apwyntiad meddyg teulu.

Yn 2018/19, darparodd 128 o fferyllfeydd gyfanswm o 10,329 o ymgynghoriadau o dan y gwasanaeth hwn. Yn 2019/20 cynyddodd hyn i 129 o fferyllfeydd gan ddarparu 13,546 o ymgynghoriadau. Yn 2020/21 comisiynir pob un o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac mae 130 wedi'i ddarparu. Yn 2021/22 mae pob fferyllfa wedi’i comisynnu i ddarparu y gwasanaeth.

Gan fod fferyllfeydd yn un o nifer o ddarparwyr y gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti o fewn contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud o fewn y penodau ardal.

5.1.13 Mynediad i'r gwasanaeth gwell cyflenwadau meddyginiaethau brys

Comisiynir y gwasanaeth cyflenwadau meddyginiaethau brys i alluogi cleifion i gael gafael ar gyflenwadau brys o feddyginiaeth drwy fferyllfeydd cymunedol gyda chost y cyflenwad yn cael ei dalu gan y GIG. Diben y gwasanaeth hwn yw lleihau'r baich ar wasanaethau y tu allan i oriau, gofal brys a gwasanaethau meddygon teulu mewn perthynas â rheoli ceisiadau cleifion am gyflenwadau brys o feddyginiaeth, y tu allan i oriau gwaith arferol meddygon teulu.

Deddf Meddyginiaethau Dynol 2012 yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol o hyd sy'n llywodraethu cyflenwi meddyginiaeth mewn argyfwng ar gais claf a rhaid gwneud pob cyflenwad o feddyginiaeth yn unol â'r rheoliadau hyn.

Yn 2018/19, darparodd 38 o fferyllfeydd gyfanswm o 680 o ymgynghoriadau a darparwyd 1,094 o feddyginiaethau. Yn 2019/20 darparodd 94 o fferyllfeydd gyfanswm o 3,125 o ymgynghoriadau a darparwyd 5,405 o feddyginiaethau.

Yn 2020/21, comisiynir 131 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth. Gafodd 4,571 o gyflenwadau ei wneud gan 109 o fferyllfeydd.

Yn 2021/22, commisynwyd 130 fferyllfa i ddarparu’r gwasanaeth.

Yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth yn 2018/19 mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod digon o gapasiti o fewn contractwyr presennol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

O'r data sydd ar gael ar gyfer 2019/20 a 2020/21 nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi casgliad gwahanol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn wir ar lefel ardal a chaiff dadansoddiad pellach ei wneud o fewn y penodau ardal.

5.1.14 Gwasanaeth gwell cartrefi gofal

Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i rannu'n ddwy lefel.

Cymorth lefel 1 - dyma yw darpariaeth yr adolygiad systematig o'r holl brosesau rheoli meddyginiaethau yn y cartref gofal a gweithio gyda'r cartref ar ddatblygu protocolau a gweithdrefnau er mwyn hwyluso'r

gwaith o archebu, cyflenwi, storio a rhoi meddyginiaethau ac offer yn ddiogel a lleihau gwastraff y gellir ei osgoi.

Cymorth lefel 2 - dyma yw’r cam amlygu ac adolygu meysydd risg therapiwtig o bresgripsiynu y dangosir eu bod yn digwydd yn rheolaidd mewn cartrefi gofal. Drwy ddefnyddio Dangosyddion Diogelwch Meddyginiaethau Canlyniadau Cleifion gall y fferyllydd sicrhau craffu fferyllol ar bresgripsiynu ar gyfer cleifion cartrefi gofal a meincnodi hyn yn erbyn safonau presgripsiynu.

Yn 2021/22 comisiynir 31 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1, cynydd o dau i gymharu a 2020/21. Mae’r gwasanaeth lefel 2 ar hyn o bryd (Awst 2021) wedi’i atal.

5.1.15 Therapi a arsylwyd yn uniongyrchol

Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi fferyllfeydd cymunedol i helpu cleifion i gydymffurfio â'u cynllun triniaeth y cytunwyd arno drwy:

- ddosbarthu mewn cyfrannau penodedig, a sicrhau bod pob dos dan oruchwyliaeth yn cael ei gymryd yn gywir gan y claf y bwriadwyd iddo, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin a'u cadw'n iach.

Comisiynir 13 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22, sydd yn cynydd i gymharu a 2020/21.

5.1.16 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

O dan y gwasanaeth hwn, efallai y bydd fferyllfeydd a gomisiynir yn sicrhau bod ystod gytûn o feddyginiaeth heparin pwysau moleciwlaidd isel ar gael yn ystod eu horiau agor arferol. Bydd fferyllfeydd yn stocio ystod a maint cytûn o feddyginiaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel a restrir, a byddant yn ymrwymo i sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth hwn yn cael mynediad prydlon i'r meddyginiaethau hyn o fewn oriau agor y fferyllfa.

Comisiynir saith fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22 yr un nifer a 2020/21.

5.1.17 Gwasanaethau presgripsiynwyr annibynnol

Mae dau wasanaeth yn gweithredu yn ardal y bwrdd iechyd, gwasanaeth tynnu meddyginiaeth yn ôl a gwasanaeth anhwylder acíwt.
Comisiynir un fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth tynnu meddyginiaeth yn ôl sy'n darparu:

- rhaglen strwythuredig o gymorth ymddygiadol a therapi lleihau dosau i gleifion er mwyn trin dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn, gan ddefnyddio fferyllydd sy'n presgripsiynu'n annibynnol, a
- chanolfan arbenigol a phwynt atgyfeirio meddygon teulu o fewn rhwydwaith gofal cymdogaeth i reoli dibyniaeth ar gyffuriau presgripsiwn mewn fferyllfa gymunedol.

Comisiynir wyth fferyllfa yn 2021/22 i ddarparu gwasanaeth cyflyrau acíwt sy'n:

- sicrhau bod cleifion sy'n mynychu fferyllfa ac sydd â chyflwr acíwt perthnasol yn gallu cael gafael ar gyngor a thriniaeth effeithiol, a ddarperir gan fferyllydd sy'n presgripsiynu'n annibynnol, ac
- yn cefnogi model gofal 'fferylliaeth gymunedol yn gyntaf', er mwyn lleihau nifer y cleifion sy'n ymgynghori â'u meddyg teulu am gyflyrau acíwt y gellir eu rheoli'n briodol yn y fferyllfa gymunedol.

Mae hwn yn cynydd o chwech i gymharu a 2020/21

5.1.18 Gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau

O dan y gwasanaeth hwn, lle mae tîm adnoddau cymunedol neu dîm nyrsio ardal neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi claf a allai elwa o gael cymorth i gymryd ei feddyginiaethau, cânt eu cyfeirio at fferyllfa y mae'n ofynnol iddi ddosbarthu a chyflenwi'r claf gyda:

1. chofnod rhoi meddyginiaethau neu system dosau wedi'i monitro, neu
2. peiriant dosbarthu pilsen awtomatig.

Y nod yw galluogi cleifion, y gellid o bosibl eu derbyn i ofal preswyl, nyrsio neu ofal ysbyty oherwydd problemau sy'n gysylltiedig â hunan-weinyddu meddyginiaeth, i dderbyn gofal yn amgylchedd eu cartref.

Yn 2021/22, comisiynir 105 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth cyntaf (cynydd o deg i gymharu a 2020/21), a 18 i ddarparu'r ail wasanaeth (lleihad o 11 i gymharu a 2020/21).

5.1.19 Gwasanaeth pecyn cyfnewid nodwyddau

Prif nod cynllun hwn yw helpu i leihau lledaeniad HIV, Hepatitis C a chlefydau eraill a gludir yn y gwaed ymhlith defnyddwyr cyffuriau sy'n chwistrellu, drwy roi mynediad cyfleus i gleientiaid at becyn o offer chwistrellu di-haint a chyfleuster diogel ar gyfer gwaredu offer a ddefnyddiwyd, gan leihau'r risg yn y gymuned.

Yn 2020/21, comisiynir 16 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac maent wedi darparu'r gwasanaeth.

5.1.20 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau agor

Nod y gwasanaeth hwn yw gwella mynediad at feddyginiaethau gofal lliniarol arbenigol os nad yw fferyllfa arferol claf yn gallu darparu meddyginiaeth mewn modd amserol. Mae'r contractwr fferyllol yn stocio ystod gytûn o feddyginiaethau arbenigol ac yn ymrwymo i sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth hwn yn cael mynediad prydlon i'r meddyginiaethau hyn o fewn amseroedd agor y fferyllfa.

Yn 2021/22, comisiynir deg fferyllfa i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar draws ardal y bwrdd iechyd.

5.1.22 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i anelu at gyflenwi meddyginiaethau gofal lliniarol arbenigol y tu allan i oriau agor arferol fferyllfa. Mae'r contractwr fferyllol yn stocio ystod gytûn o feddyginiaethau arbenigol ac yn ymrwymo i sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth hwn yn cael mynediad prydlon i'r meddyginiaethau hyn bob amser. Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i ddarparu gwasanaeth dosbarthu i gleifion o fewn dwy awr.

Yn 2021/22, comisiynir 11 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar draws ardal y bwrdd iechyd, ynghyd â naw fferyllfa mewn siopau manwerthu mwy yn aml gydag oriau agor hirach.

5.1.23 Dosbarthu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth

Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi fferyllfeydd i gynorthwyo defnyddwyr i aros yn iach ac yn rhydd o niwed. Bydd gan fferyllfeydd gytundeb gyda'r cleient iddo fynychu'r fferyllfa i gyflenwi a dosbarthu amnewidion cysgbeiriau. Mae hyn yn helpu i leihau/osgoi argaeledd y meddyginiaethau hyn yn y gymuned ac yn helpu cleientiaid sydd â materion gofal iechyd yn ymwneud â'r maes arbenigedd hwn.

Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu dwy feddyginiaeth benodol, sef methadon a Subutex/Suboxone.

Yn 2021/22, comisiynir 113 o fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth, cynydd o 2 i gymharu a 2020/21.

5.1.24 Gwasanaeth lleihau gwastraff

Nod y gwasanaeth hwn yw lleihau presgripsiynu gwastraff a gor-archebu meddyginiaeth ailadroddus drwy ddefnyddio fferyllwyr a'u staff cymorth i ganfod yn uniongyrchol gan gleifion a oes angen pob eitem a gyflwynir i'w dosbarthu ai peidio.

Comisiynir 119 o'r fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21, mae hwn yn gostyngiad o tri i gymharu a 2020/21.

5.1.25 Gwasanaeth adolygu anadlyddion

Bwriad y gwasanaeth hwn yw gwella canlyniadau cleifion, lleihau gwastraff meddyginiaethau a chefnogi presgripsiynu darbodus drwy:

- ymgymryd ag asesiad a gwella techneg anadlyddion,
- gwella dealltwriaeth cleifion a glynu wrth eu therapi anadlyddion, a
- lleihau digwyddiadau andwyol sy'n gysylltiedig â thriniaeth anadlyddion a gwneud y defnydd gorau o therapi anadlyddion.

Gellir darparu'r gwasanaeth ar ddwy lefel, ac mae adolygiad "lefel 1" yn cynnwys asesiad technegol o dechneg anadlyddion y claf. Mae adolygiad "lefel 2" yn cynnwys asesiad o reoli symptomau'r claf, defnydd anadlyddion a glynu wrth therapi.

Mae'r gwasanaeth i fod i gael ei adolygu a'i ail-lansio ar ôl pandemig Covid.

5.1.26 Profi a thrin gwddf tost

Nod cyffredinol y gwasanaeth hwn yw sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar asesiad a chyngor priodol ar gyfer rheoli dolur gwddf, a, lle y bo'n briodol, cael gwrthfiotigau neu driniaethau priodol eraill ar y GIG i drin eu cyflwr. Mae hwn yn darparu lleoliad arall lle gall cleifion geisio cyngor a thriniaeth, yn hytrach na cheisio triniaeth drwy bresgripsiwn gan eu meddyg teulu neu ddarparwr y tu allan i oriau, canolfan gerdded i mewn neu i uned Achosion Brys. Yn dilyn ymgynghoriad ac asesiad gan y fferyllydd, gellir darparu meddyginiaeth gan ddefnyddio'r fformiwlâu anhwylderau cyffredin cenedlaethol. Yn ogystal â'r cleifion hynny lle mae angen gwrthfiotig, gellir darparu hyn yn unol â'r canllaw cenedlaethol ar bresgripsiynu gwrthfiotigau.

Mae'r broses o gyflwyno'r gwasanaeth hwn wedi'i gohirio oherwydd pandemig Covid.

5.1.27 Gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu

Bydd practisau meddygon teulu sy’n dosbarthu yn darparu'r gwasanaeth dosbarthu yn ystod eu horiau craidd, sef 08.00 i 18.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc. Gellir darparu'r gwasanaeth hefyd yn ystod unrhyw oriau agor estynedig gan y practisau. O'r 74 o bractisau meddygon teulu yn ardal y bwrdd iechyd, mae 13 yn dosbarthu i gleifion cymwys o 17 safle yn ardal y bwrdd iechyd.

Fel arfer, pan fydd angen meddyginiaeth ar glaf, bydd ei feddyg teulu yn rhoi presgripsiwn iddo sydd wedyn yn cael ei ddosbarthu gan fferyllfa neu gontractwr dosbarthu offer. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall practisau roi'r feddyginiaeth ar safle'r practis yn lle hynny. Mae'r rheoliadau ynghylch darparu'r gwasanaeth hwn yn gymhleth ond yn gryno gall meddyg teulu roi meddyginiaeth i glaf:

- lle mae'r claf yn byw mewn ardal y penderfynwyd ei bod yn "ardal reoledig" h.y. ardal wledig ei chymeriad;
- lle mae'r claf yn byw mwy nag 1.6 cilomedr (wedi'i fesur mewn llinell syth) o fferyllfa;
- lle bod y practis wedi cael caniatâd i ddosbarthu i'r ardal y mae'r claf yn byw ynddi; a
- lle mae gan y practis "gymeradwyaeth safle" ar gyfer y safle lle y mae'r dosbarthu'n cael ei wneud.

Ym mis Mai 2021, dosbarthwyd y practisau meddygon teulu i 26,070 o'u cleifion cofrestredig (4.2% o gyfanswm maint y rhestr ar gyfer pob un o'r 75 practis). Roedd canran y cleifion a oedd yn cael eu dosbarthu ar lefel practis yn amrywio rhwng 6.1 a 93.5% o gleifion cofrestredig.

5.1.28 Mynediad at wasanaethau fferyllol ar wyliau cyhoeddus a banc a Sul y Pasg

Mae gan y bwrdd iechyd ddyletswydd i sicrhau bod trigolion ei ardal yn gallu cael gafael ar wasanaethau fferyllol bob dydd. Nid yw'n ofynnol i fferyllfeydd a chontractwyr dosbarthu offer agor ar wyliau cyhoeddus a banc, na Sul y Pasg, er bod rhai yn dewis gwneud hynny.

Lle bo angen, mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu rota ar y dyddiau hyn fel y gall preswylwyr gael mynediad at wasanaethau fferyllol.

5.2 Y ddarpariaeth bresennol y tu allan i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

5.2.1 Mynediad at wasanaethau hanfodol a gwasanaethau sy'n cyfateb i gontractwyr dosbarthu offer

Mae gan gleifion ddewis o ble maent yn defnyddio gwasanaethau fferyllol; gall hyn fod yn agos at eu practis meddyg teulu, eu cartref, eu man gwaith neu ble maent yn mynd am resymau siopa, hamdden neu resymau eraill. O ganlyniad, nid yw'r holl bresgripsiynau a ysgrifennwyd ar gyfer trigolion ardal y bwrdd iechyd yn cael eu dosbarthu yn yr un ardal, er fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae'r mwyafrif helaeth o'r eitemau yn cael eu dosbarthu felly. Yn 2019/20, dosbarthwyd 1.4% o eitemau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd (naill ai mewn mannau eraill yng Nghymru neu yn Lloegr) gan gyfanswm o 1,303 o gontractwyr gwahanol.

O'r 99,452 o eitemau a ddosberthir mewn mannau eraill yng Nghymru:

- Dosbarthwyd 356 gan 48 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr,
- Dosbarthwyd 39,291 gan 107 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro,
- Dosbarthwyd 55,157 gan 100 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg,
- Dosbarthwyd 2,496 gan 78 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda,
- Dosbarthwyd 400 gan 18 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, a
- Dosbarthwyd 1,752 gan 64 o gontractwyr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Fodd bynnag, cafodd y mwyafrif (80%) eu dosbarthu gan ond 14 o gontractwyr naill ai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

O'r 131,074 o eitemau a ddosberthir gan 888 o gontractwyr yn Lloegr:

- Dosbarthwyd 64,516 gan fferyllfa,
- Dosbarthwyd 58,213 gan gontractwr dosbarthu offer,
- Dosbarthwyd 8,341 gan safle gwerthu o bell (a elwir hefyd yn fferyllfa ar y rhyngrwyd), a
- Chafodd pedwar eu dosbarthu gan feddyg fferyllol.

Fodd bynnag, cafodd y mwyafrif (88%) eu dosbarthu gan ond 12 contractwr.

Yn 2020/2021, dosbarthwyd bach yn llai o presgripsiynau tu fas i ardal y Bwrdd Iechyd (1.3%) gan 1,150 o gontractwyr. Yn debyg i 2019/20 o’r rhai gafodd ei ddosbarthu rhywle arall yng Nghymru gafodd y mwyafrif ei ddosbarthu yn Bwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro neu Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

O’r 122,878 eitem dosbarthwyd yn Lloegr gan 628 o gontractwyr:

- 61,550 wedi dosbarthu gan fferyllfa
- 52,979 wedi dosbarthu gan contractwyr teclyn dosbarthu, a
- 8,349 wedi dosbarthu gan lleoliad dosbarthu pell (hefyd yn gael ei alw’n fferyllfa we).

Eto, mae’r mwyafrif (88%) wedi dosbarthu gyda 12 contractwr, wyth o rhain yn contractwyr teclyn dosbarthu, 3 yn fferyllfeydd a’r deuddegfed yn lleoliad dosbarthu pell.

Mae dadansoddiad o'r contractwyr hyn yn dangos bod tri phrif reswm dros ddosbarthu presgripsiwn y tu allan i ardal y bwrdd iechyd:

- dosbarthwyd y presgripsiwn gan gontractwr dosbarthu offer (naill ai yng Nghymru neu yn Lloegr), neu
- gan fferyllfa sydd ychydig dros y ffin o fewn ardal bwrdd iechyd arall neu yn Lloegr, neu
- cawsant eu dosbarthu tra bod y person ar wyliau, yn y gwaith neu'n siopa.

5.2.2 Mynediad at wasanaethau uwch

Nid oes gwybodaeth ar gael am y math o wasanaethau uwch a ddarperir i'w breswylwyr gan fferyllfeydd a chontractwyr dosbarthu offer y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Wrth hawlio am wasanaethau uwch, dim ond am gyfanswm y nifer a ddarperir ar gyfer pob gwasanaeth y mae contractwyr yn hawlio. Yr eithriad i hyn yw'r gwasanaeth addasu offer stoma lle gwneir taliad yn seiliedig ar y wybodaeth a gynhwysir ar y presgripsiwn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r gwasanaeth hwn, dim ond cyfanswm nifer yr eitemau offer perthnasol a nodir at ddibenion talu.

Fodd bynnag, gellir tybio y bydd trigolion ardal y bwrdd iechyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn gan gontractwyr y tu allan i'r ardal. Mae'r dybiaeth hon yn seiliedig ar y wybodaeth ganlynol.

Yn 2019/20 dosbarthwyd tua 18,860 o offer anymataliaeth a stoma gan gontractwr offer dosbarthu a leolir mewn mannau eraill yng Nghymru. Bydd y contractwyr hyn wedi darparu gwasanaeth uwch addasu offer stoma er mwyn sicrhau bod yr offer stoma yn ffitio'r claf yn gywir.

Yn 2019/20, dosbarthodd 60 o gontractwyr dosbarthu offer yn Lloegr 58,213 o offer a byddant wedi darparu'r gwasanaeth uwch addasu offer stoma lle bo angen.

5.2.3 Mynediad at wasanaethau pellach

Fel gyda gwasanaethau uwch, nid oes gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau gwell gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w thrigolion ar gael. Fodd bynnag, gellir tybio y bydd trigolion ardal y bwrdd iechyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn gan gontractwyr y tu allan i'r ardal.

5.2.4 Gwasanaeth dosbarthu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu

Bydd rhai o drigolion ardal y bwrdd iechyd yn dewis cofrestru gyda phractis meddyg teulu y tu allan i'r ardal a byddant yn defnyddio'r gwasanaeth dosbarthu a gynigir gan eu practis. Er enghraifft, gweithredir

y feddygfa gangen yng Ngilwern gan Bractis Grŵp Crughywel (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys) sy'n dosbarthu o'i brif feddygfa yng Nghrughywel i gleifion cymwys.

5.3 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 5.1 a 5.2, mae trigolion ardal y bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn arfer eu dewis o ble i gael mynediad at wasanaethau fferyllol i raddau helaeth. O fewn ardal y bwrdd iechyd mae ganddynt ddewis o 131 o fferyllfeydd, a weithredir gan 46 o gontractwyr gwahanol. Y tu allan i ardal y bwrdd iechyd dewisodd preswylwyr gael mynediad at 1,303 o gontractwyr eraill yn 2019/20, er na ddefnyddiwyd llawer ohonynt yn rheolaidd.

Pan ofynnwyd iddynt beth sy'n dylanwadu ar eu dewis o fferyllfa, yr ymatebion mwyaf cyffredin yn yr holiadur cleifion a'r cyhoedd oedd:

- Mae'n agos at fy nghartref,
- Mae'n agos at fy meddyg,
- Mae lleoliad y fferyllfa yn hawdd i'w gyrraedd,
- Rydw i’n ymddiried yn y staff sy’n gweithio yno, ac
- Fel arfer mae ganddyn nhw beth mae arna i ei angen mewn stoc.

6 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae'r bwrdd iechyd o'r farn bod gwasanaethau canlynol y GIG yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal:

- Gwasanaethau ysbytai – cynyddu'r galw am y gwasanaeth hanfodol dosbarthu fel claf allanol gan fod presgripsiynau Damwain ac Achosion Brys a ysgrifennwyd mewn ysbytai yn cael eu dosbarthu o fewn gofal sylfaenol. Maent hefyd yn lleihau'r galw am y gwasanaeth hanfodol dosbarthu gan fod presgripsiynau cleifion mewnol yn cael eu dosbarthu gan adran fferylliaeth yr ysbyty.
- Dosbarthu eitemau'n bersonol gan feddygon teulu – yn debyg i fferyllfeydd ysbytai mae hyn hefyd yn lleihau'r galw am y gwasanaeth hanfodol dosbarthu. Caiff eitemau eu defnyddio a'u gweinyddu’n bersonol gan feddygon teulu a chlinigwyr eraill yn y practis, gan arbed cleifion rhag gorfod cymryd presgripsiwn i fferyllfa, er enghraifft ar gyfer brechiad, er mwyn dychwelyd gyda'r brechlyn i'r practis fel y gellir ei weinyddu iddynt.
- Gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau – bydd p'un a yw claf yn cael cwrs llawn neu ran o driniaeth, ar ôl cael ei weld gan y gwasanaeth y tu allan i oriau, yn dibynnu ar natur ei gyflwr. Bydd y gwasanaeth hwn felly'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, yn enwedig y gwasanaeth hanfodol o ddosbarthu
- Unedau mân anafiadau – lleihau'r galw am y gwasanaeth hanfodol dosbarthu gan eu bod yn rhoi meddyginiaeth i drin yr anaf ond hefyd yn gweinyddu presgripsiynau.
- Gwasanaethau fferylliaeth carchardai - lleihau'r galw am y gwasanaeth hanfodol dosbarthu gan nad yw presgripsiynau a ysgrifennwyd yn y carchardai yn cael eu dosbarthu o dan wasanaethau fferyllol.
- Y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen – cynyddu'r galw am y gwasanaeth hanfodol dosbarthu gan fod presgripsiynau a ysgrifennir o dan y gwasanaeth hwn yn cael eu dosbarthu o dan wasanaethau fferyllol.
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol – cynyddu'r galw am y gwasanaeth hanfodol dosbarthu gan fod presgripsiynau a ysgrifennwyd o dan y gwasanaethau hyn yn cael eu dosbarthu o dan wasanaethau fferyllol.
- Mae'r gwasanaeth ymarferwyr cyflyrau hirdymor yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth hanfodol dosbarthu gan fod presgripsiynau a ysgrifennir o dan y gwasanaeth hwn yn cael eu dosbarthu o dan wasanaethau fferyllol.
- Helpa Fi i Stopio – bydd y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu a ddarperir mewn lleoliadau ar wahân i fferyllfeydd yn lleihau'r angen am wasanaethau pellach rhoi'r gorau i ysmygu.
- Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu o dan eu contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – bydd rhai gwasanaethau a ddarperir gan y practisau meddygon teulu yn lleihau'r angen i

ddarparu gwasanaethau fferyllol, yn enwedig y gwasanaethau pellach.
- Clinigau iechyd rhywiol – Mae rhain yn lleihau yr angen am y gwasanaeth argyfwng atgenhedlu hormonaidd ehangach.

6.1 Adrannau fferylliaeth ysbytai

Mae gan yr ysbytai canlynol yn ardal y bwrdd iechyd adran fferylliaeth sy'n dosbarthu presgripsiynau cleifion mewnol:

- Ysbyty Athrofaol y Faenor
- Ysbyty Brenhinol Gwent
- Ysbyty Nevill Hall
- Ysbyty Ystrad Fawr

Yn 2020/21, Gafwyd 191,078 eitem ei presgripsiynu o fewn ein ysbytai a'i dosbarthu fel rhan o'n gwasnaethau fferyllol neu yn Lloegr.

6.2 Gweinyddu eitemau'n bersonol gan feddygon teulu

O dan eu contract gwasanaethau meddygol sylfaenol gyda'r bwrdd iechyd, bydd adegau pan fydd meddyg teulu neu broffesiwn gofal iechyd arall yn y practis yn gweinyddu eitem i glaf yn bersonol.

Yn gyffredinol, pan fydd claf angen meddyginiaeth neu gyfarpar, bydd ei feddyg teulu yn rhoi presgripsiwn iddo sy'n cael ei ddosbarthu gan ei ddewis fferyllfa neu gontractwr dosbarthu offer. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, bydd y meddyg teulu neu nyrs y practis yn cyflenwi'r eitem yn erbyn presgripsiwn a chyfeirir at hyn fel dosbarthu personol gan y bydd yr eitem a gyflenwir wedyn yn cael ei weinyddu i'r claf gan y meddyg teulu neu'r nyrs. Mae hyn yn wahanol i ddosbarthu presgripsiynau ac mae ond yn berthnasol i rai eitemau penodedig, er enghraifft brechlynnau, anaesthetig, pigiadau, dyfeisiau atal cenhedlu o fewn y groth a phwythau.

Ar gyfer yr eitemau hyn bydd y practis yn cynhyrchu presgripsiwn ond nid yw'n ofynnol i'r claf fynd ag ef i fferyllfa, ei gael yno ac yna'n dychwelyd i'r practis er mwyn iddo gael ei weinyddu. Yn hytrach, bydd y practis yn cadw'r presgripsiwn ac yn ei gyflwyno i'w ad-dalu i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar ddiwedd y mis.

Nid yw'n bosibl mesur cyfanswm nifer yr eitemau a weinyddir yn bersonol gan bractisau meddygon teulu yng Nghymru gan fod y ffigurau cyhoeddedig yn cynnwys eitemau sydd naill ai wedi'u gweinyddu neu eu dosbarthu'n bersonol gan bractisau dosbarthu. Fodd bynnag, o leiaf yn 2019/20 gweinyddwyd 1.2% o eitemau yn bersonol gan bractisau nad ydynt hefyd yn dosbarthu (1.1%yn 2020/21).

6.3 Gwasanaeth y tu allan i oriau Gwent

Mae gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Gwent yn darparu gofal iechyd ar gyfer problemau meddygol brys y tu allan i oriau llawdriniaeth arferol (h.y. rhwng 18.30 a 08.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a 18.30 o ddydd Gwener i 08.00 o ddydd Llun, ac ar wyliau cyhoeddus a banc). Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ganolfannau yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr.

Cafodd cyfanswm o 22,150 o eitemau eu presgripsiynu gan y gwasanaeth yn 2019/20 a'u dosbarthu fel rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol fel a ganlyn:

- Fferyllfeydd Gorllewin Casnewydd - 30.0%
- Fferyllfeydd De Caerffili - 16.2%
- Fferyllfeydd Gogledd Sir Fynwy - 14.1%
- Fferyllfeydd Gogledd Caerffili - 7.7%
- Fferyllfeydd Dwyrain Casnewydd - 7.0%
- Fferyllfeydd De Torfaen - 6.0%
- Fferyllfeydd Dwyrain Caerffili - 5.9%
- Fferyllfeydd Gorllewin Blaenau Gwent - 3.5%
- Fferyllfeydd Gogledd Torfaen - 3.0%
- Fferyllfeydd Dwyrain Blaenau Gwent - 2.6%
- Fferyllfeydd De Sir Fynwy - 2.0%
- Fferyllfeydd yn ardal bwrdd iechyd arall - 1.9%, a
- Chontractwyr yn Lloegr - 0.2%.

14,055 eitem gafodd ei presgripsiynu yn 2020/21 gyda 98.5% wedi dosbarthu o fewn ardal y Bwrdd Iechyd, yn bennaf yn Gorllewin Casnewydd (24.9%), De Caerffili (16.5%), a Gogledd Mynwy (19.6%).

6.4 Unedau Mân Anafiadau

Mae'r unedau mân anafiadau yn cael eu rhedeg gan ymarferwyr nyrsio brys gyda chymorth tîm bach o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Nid yw'r unedau'n darparu gwasanaeth mân salwch.

Mae gan yr unedau fynediad i gyfleusterau pelydr-X ar gyfer asesu'r anafiadau a restrir yn y meini prawf cynhwysiant. Mae'r tîm nyrsio yn gallu gosod castiau plastr brys (slabiau cefn) ac ystyrir eu bod yn gymwys o ran cau clwyfau, gan gynnwys pwytho.

Mae gan yr ymarferwyr nyrsio brys fynediad at ddetholiad o feddyginiaethau gan gynnwys poenliniarwyr syml a gwrthfiotigau a ddefnyddir wrth reoli clwyfau. Gallant gyfeirio at dimau gofal iechyd eraill fel orthopedeg, y genau a'r wyneb a llosgiadau a phlastigau (Ysbyty Treforys).

Nod yr unedau yw rhoi cyfnod cyflawn o ofal a rhyddhau cartref y claf. Ar ôl cyrraedd, bydd cleifion yn cael eu hasesu gan nyrs gymwysedig a fydd yn penderfynu a ellir gweld cleifion yn yr uned.

Mae pedair uned mân anafiadau yn ardal y bwrdd iechyd ac maent wedi'u lleoli yn:

- Ysbyty Aneurin Bevan
- Ysbyty Ystrad Fawr
- Ysbyty Brenhinol Gwent
- Ysbyty Nevill Hall

6.5 Gwasanaethau fferylliaeth carchardai

Mae dau garchar o fewn ardal y bwrdd iechyd:

- Carchar dynion Categori C yw HMP Brynbyga, sydd wedi'i leoli yn Stryd Maryport ym Mrynbuga, a
- Charchar agored yw Carchar Prescoed, sy'n dal oedolion gwrywaidd categori D a gollfarnwyd, sydd wedi'u lleoli ym mhentref Coed-y-paen

Gweithredir y ddau garchar gan Wasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi, a chaiff eu rheoli ar y cyd.

Cafodd 26,483 o eitemau eu rhagnodi yn 2019/20 a'u dosbarthu o dan gontract gyda fferyllfa, nid fel rhan o wasanaethau fferyllol. Cynyddodd hyn i 27,557 eitem yn 2020/21.

6.8 Gwasanaeth gofal sylfaenol amgen

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion sydd wedi'u cymryd allan o'u practis meddyg teulu. Fe'i darperir yn Ysbyty Sant Gwynllŵg ac yn 2019/20 cafodd 2,617 o eitemau eu presgrispiynu a'u dosbarthu fel rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol fel a ganlyn:

- Fferyllfeydd Gogledd Caerffili - 37.7%
- Fferyllfeydd Gorllewin Casnewydd - 23.1%
- Fferyllfeydd De Sir Fynwy - 12.5%
- Fferyllfeydd De Caerffili - 12.2%
- Fferyllfeydd Dwyrain Casnewydd - 10.1%
- Fferyllfeydd Dwyrain Caerffili - 2.9%
- Fferyllfeydd yn ardal bwrdd iechyd arall - 0.6%
- Fferyllfeydd De Torfaen - 0.6%
- Fferyllfeydd Gorllewin Blaenau Gwent - 0.2%
- Fferyllfeydd Gogledd Sir Fynwy - 0.1%
- Fferyllfeydd Gogledd Torfaen - 0.1%

Gafodd llai o eitemau ei presgripsiynu yn 2020/21 (1,154) gyda 44.5% wedi dosbarthu gan fferyllfeydd yng Ngorllewin Casnewydd a 29.8% yn Gogledd Caerffili. Roedd y 25.7% arall wedi dosbarthu yn lleoliadau arall o fewn ardal y Bwrdd Iechyd.

6.9 Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol

Mae tair haen o wasanaethau cyffuriau ac alcohol o fewn ardal y bwrdd iechyd.

Mae gwasanaeth dan arweiniad meddygon teulu yn gweld y cleifion lleiaf cymhleth, mwyaf sefydlog gyda meddygon teulu yn gweithio mewn partneriaeth â nyrsys Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Arbenigol Gwent. Cafodd 2,479 o eitemau eu presgripsiynu o dan y gwasanaeth hwn yn 2019/20 a'u dosbarthu fel rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol fel a ganlyn:

- Fferyllfeydd Gorllewin Casnewydd – 75.1%
- Fferyllfeydd Dwyrain Casnewydd – 23.9%
- Fferyllfeydd Gogledd Torfaen – 0.9%
- Fferyllfeydd De Torfaen – 0.1%

Gafodd 2,604 eitem ei presgripsiynu gan y gwasanaeth yn 2020/21 yn bennaf wedi dosbarthu yng Ngorllewin Casnewydd (76.8%) a Dwyrain Casnewydd (22.4%).

Darperir gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent o amrywiaeth eang o ganolfannau ar draws ardal y bwrdd iechyd, mae'n gweithredu mewn lleoliadau cymunedol ac yn cynnig gwasanaeth allgymorth. Mae'n cynnig gwasanaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- Ymgysylltu,
- Triniaeth weithredol,
- Ôl-ofal ac Adfer,
- Cyfiawnder troseddol a
- Chymorth i deuluoedd a gofalwyr.

Mae'r gwasanaeth yn gweld pobl â chymhlethdod cymedrol ac fe'i darperir gan gonsortiwm o dri sefydliad – Kaleidoscope, G4S a Barod.

Roedd y gwasanaeth yn presgripsiynu 13,154 o eitemau yn 2019/20 a gafodd eu dosbarthu fel rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol fel a ganlyn:

- Fferyllfeydd Gogledd Caerffili - 20.8%
- Fferyllfeydd Gorllewin Blaenau Gwent - 12.1%
- Fferyllfeydd Dwyrain Caerffili - 10.9%
- Fferyllfeydd De Sir Fynwy - 9.3%

- Fferyllfeydd De Torfaen - 9.2%
- Fferyllfeydd Dwyrain Blaenau Gwent - 9.2%
- Fferyllfeydd Gogledd Sir Fynwy - 6.6%
- Fferyllfeydd De Caerffili - 6.2%
- Fferyllfeydd Gorllewin Casnewydd - 5.7%
- Fferyllfeydd Gogledd Torfaen - 4.7%
- Fferyllfeydd Dwyrain Casnewydd - 4.6%
- Contractwyr yn Lloegr - 0.6%
- Fferyllfeydd yn ardal bwrdd iechyd arall - 0.2%

12,126 eitem wedi presgripsiynu yn 2020/21 gyda patrwm debyg i ble gafwyd ei ddosbarthu a yn 2019/20.

Cafodd rhywfaint o ddosbarthu ar y safle ei wneud yn y ganolfan yn Powells Place, Casnewydd.

Mae Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Arbenigol Gwent yn rhan o is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'r bwrdd iechyd ac mae'n gweld y cleifion mwyaf cymhleth. Dosberthir presgripsiynau fel rhan o wasanaethau fferyllol.

6.10 Gwasanaeth ymarferwyr cyflyrau hirdymor

O dan y gwasanaeth hwn mae ymarferwyr yn rhoi cymorth a chyngor i gleifion â chyflyrau cronig. Yn 2019/20 cafodd 244 o eitemau eu rhagnodi a'u dosbarthu fel rhan o'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol fel a ganlyn:

- Fferyllfeydd Dwyrain Caerffili – 23.8%
- Fferyllfeydd Gogledd Caerffili – 23.8%
- Fferyllfeydd Gorllewin Casnewydd – 20.9%
- Fferyllfeydd De Caerffili – 13.9%
- Fferyllfeydd Dwyrain Casnewydd – 7.4%
- Fferyllfeydd Gogledd Torfaen – 3.7%
- Fferyllfeydd Gorllewin Blaenau Gwent – 2.5%
- Fferyllfeydd De Sir Fynwy – 2.5%
- Fferyllfeydd De Torfaen – 1.2%
- Fferyllfeydd yn ardal bwrdd iechyd arall - 0.4%

152 eitem wedi presgripsynu yn 2020/21 yn bennaf wedi dosbarthu yn Dwyrain Caerffili (56.3%), De Caerffili (16.0%) a Gogledd Caerffili (11.8%).

6.11 Helpa Fi i Stopio

Helpa Fi i Stopio yw’r brand unigol sy’n gyfrifol am holl wasanaethau stopio smygu'r GIG yng Nghymru. Mae’n cynnig:

- Cymorth cyfrinachol a di-feirniadol am ddim gan arbenigwr cyfeillgar am roi'r gorau i ysmygu
- Gall y cymorth fod naill ai dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.
- Cymorth sydd naill ai'n un i un neu mewn cyfarfod ag ysmygwyr eraill
- Sesiynau wythnosol wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y person
- Monitro cynnydd
- Mynediad at feddyginiaeth rhoi'r gorau i ysmygu am ddim

Darperir gwasanaethau mewn nifer o leoliadau ar draws ardal y bwrdd iechyd, gan gynnwys practisau meddygon teulu, ysbytai cyffredinol dosbarth a chanolfannau cymunedol eraill, yn ogystal â fferyllfeydd. Mae'r map isod yn dangos lleoliad gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu ym mis Awst 2021.

Ffigur 34 – lleoliad gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn 2021[58]

Map data ©2021 Google

6.12 Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu o dan eu contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Mae'r practisau meddygon teulu yn ardal y bwrdd iechyd yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n lleihau'r angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys
- Brechiad y ffliw
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer anhwylderau cyffredin.

58 Helpa Fi i Stopio

6.13 Clinigau hwb iechyd rhywiol

Mae chwech clinig hwb o fewn ardal y Bwrdd Iechyd:

- Clinig Cwmbran
- Clinig Casnewydd: Clinig Cordell, Ysbyty Brenhinol Gwent
- Clinig Bargoed
- Clinig Brynmawr
- Clinig Ysbyty Aneurin Bevan
- Clinig y Fenni, Ysbyty Nevill Hall.

Maent yn darparu y gwasanaethau canlynol:

- Pob dull o atalgynhedlu
- Profi am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol sy'n asymptomatig
- Cytoleg Ceg y Groth
- Ffurflenni HSA1, a
- Profi a trin holl heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gan gynnwys 'HIV' a syffilis

Mae'r clinigau felly yn lleihau yr angen am y gwasnaeth argyfwng atalgynhedlu hormonal.

7 Anghenion iechyd y gellir eu diwallu drwy wasanaethau fferyllol

Mae pob ymweliad â fferyllfa sy'n gysylltiedig ag iechyd yn gyfle gwerthfawr i gefnogi newid ymddygiad drwy wneud i bob un o'r cysylltiadau hyn gyfrif. Gallai gwneud dewisiadau iach fel rhoi'r gorau i ysmygu, gwella deiet a maeth, cynyddu gweithgarwch corfforol, colli pwysau a lleihau'r defnydd o alcohol wneud cyfraniad sylweddol at leihau'r risg o glefydau, gwella canlyniadau iechyd i'r rhai sydd â chyflyrau hirdymor, lleihau marwolaeth gynamserol a gwella lles meddyliol. Mae fferyllfeydd mewn sefyllfa ddelfrydol i annog a chefnogi pobl i wneud y dewisiadau iach hyn fel rhan o'r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol.

Mae'r bennod hon yn edrych ar y gwasanaethau hynny y mae'n rhaid i fferyllfeydd eu darparu (gwasanaethau hanfodol), gallant ddewis eu darparu (gwasanaethau uwch) neu gellir eu comisiynu gan y bwrdd iechyd i'w darparu (gwasanaethau pellach) a sut y gallant ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth.

7.1 Yr angen am gyffuriau a chyfarpar

Ar ryw adeg neu’i gilydd bydd angen presgripsiynau i gael eu dosbarthu i bawb, p'un a ydynt yn un o'r grwpiau a nodir yn adran pedwar ai peidio. Gall hyn fod ar gyfer cwrs untro o wrthfiotigau neu ar gyfer meddyginiaeth y bydd angen iddynt ei chymryd, neu gyfarpar y bydd angen iddynt ei ddefnyddio, am weddill eu hoes er mwyn rheoli cyflwr hirdymor. Dim ond trwy ddarparu gwasanaethau fferyllol y gellir diwallu'r angen iechyd hwn o fewn gofal sylfaenol, boed hynny gan fferyllfeydd, contractwyr dosbarthu offer neu feddygon dosbarthu.

Ynghyd â hyn mae casglu a gwaredu’n ddiogel cyffuriau diangen neu gyffuriau sydd wedi'u dosbarthu sydd nawr y tu allan i'w dyddiad. Mae gan y bwrdd iechyd a fferyllfeydd ddyletswydd i sicrhau bod pobl sy'n byw gartref neu mewn cartref gofal preswyl (h.y. sefydliad sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu llety preswyl ynghyd â gofal lletya a phersonol, ond dim gofal nyrsio) yn gallu dychwelyd cyffuriau diangen neu hen gyffuriau a ddosberthir er mwyn eu gwaredu'n ddiogel.

Mae gwasanaeth pellach a arsylwyd yn uniongyrchol gydag elfen therapi ynghlwm yn galluogi fferyllfeydd cymunedol i helpu cleifion i gydymffurfio â'u cynllun triniaeth y cytunwyd arno drwy:

- ddosbarthu meddyginiaethau mewn cyfrannau penodedig, a
- sicrhau bod pob dos dan oruchwyliaeth yn cael ei gymryd yn gywir gan y claf y bwriadwyd iddo, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin a'u cadw'n iach.

Gall gwasanaeth gwell gydag elfen lleihau gwastraff helpu i leihau presgripsiynu gwastraff a gorarchebu meddyginiaeth ailadroddol trwy ddefnyddio fferyllwyr a'u staff cymorth i ddysgu’n uniongyrchol gan gleifion a oes angen pob eitem a gyflwynir i'w dosbarthu ai peidio.

Mae mynediad at feddyginiaethau gofal lliniarol arbenigol yn hanfodol i gefnogi gofal diwedd oes a ddarperir yng nghartref unigolyn, ond oherwydd natur arbenigol y meddyginiaethau efallai na fydd fferyllfa bob amser yn eu stocio. Gall gwasanaeth pellach sicrhau bod fferyllfeydd sy'n cymryd rhan yn stocio ystod gytûn o feddyginiaethau arbenigol ac yn ymrwymo i sicrhau bod defnyddwyr yn cael mynediad prydlon i'r meddyginiaethau hynny yn ystod oriau agor craidd ac atodol.

Gall gwasanaeth gweinyddu meddyginiaethau helpu i gefnogi cleifion sy'n ei chael yn anodd hunanweinyddu eu meddyginiaeth eu hunain. Bydd dosbarthu a chyflenwi meddyginiaeth, gyda chofnod rhoi meddyginiaethau neu system dosau wedi'i monitro neu weinyddwr pils awtomatig i gleifion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y gwasanaeth, yn lleihau gwallau gweinyddol, yn cefnogi cleifion i gymryd eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd, ac yn lleihau derbyniadau i ofal preswyl, nyrsio neu ofal ysbyty.

Bydd darparu therapi disodli nicotin, i bobl sy'n cael cymorth ymddygiadol drwy wasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu, yn helpu i wella mynediad i'r therapi hwn i'r rhai sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu, a chyfrannu hefyd at wella cyfraddau llwyddo.

Efallai y bydd adegau pan fydd rhywun yn rhedeg allan o'i feddyginiaethau rheolaidd dros y penwythnos neu ar ŵyl gyhoeddus neu wyliau’r banc pan fydd ei bractis meddyg teulu ar gau ac na all gael presgripsiwn am gyflenwad pellach. Fel dewis arall yn lle'r sawl sy'n ffonio'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau, gall cyflenwad brys o wasanaeth meddyginiaeth pellach a ragnodwyd ganiatáu i fferyllfeydd ddarparu cyflenwad brys o feddyginiaeth reolaidd a ragnodwyd i unigolyn o dan y GIG, yn hytrach nag yn breifat o dan Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012. Felly, bydd gwasanaeth o'r fath yn lleihau'r galw ar y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ac yn darparu gwasanaeth mwy effeithlon i bobl.

7.2 Camddefnyddio sylweddau

Gall fferyllwyr ddarparu gwasanaeth meddyginiaethau gwell dan oruchwyliaeth:

- Cynorthwyo clinigwyr sy'n presgripsiynu i ddarparu presgripsiynu yn y gymuned;
- Sicrhau bod y claf yn cymryd y dosau cywir o feddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd;

- Atal meddyginiaeth wedi’u presgripsiynu rhag cael ei dargyfeirio i'r farchnad anghyfreithlon;
- Lleihau'r posibilrwydd o wenwyno damweiniol, yn enwedig o ran plant; a
- Lleihau achosion o farwolaeth ddamweiniol drwy orddosio.

Bydd pecyn cyfnewid nodwyddau yn helpu i leihau'r broses o rannu nodwyddau (ac offer) a all, o ganlyniad i rannu, arwain at feirysau a gludir yn y gwaed a heintiau eraill (fel Feirws Imiwnoddiffygiol Dynol, hepatitis C) yn cael eu trosglwyddo, drwy roi mynediad cyfleus i gleientiaid at becyn o offer chwistrellu di-haint a chyfleuster ar gyfer gwaredu’n ddiogel offer a ddefnyddiwyd. Yn ei dro, gallai hyn arwain at leihad yn nifer yr achosion o feirysau a gludir yn y gwaed, ac felly hefyd fod o fudd i gymdeithas ehangach.

Mae elfennau hefyd o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwe ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Gallai ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus gynnwys codi ymwybyddiaeth o beryglon yfed alcohol drwy drafod risgiau yfed alcohol dros y symiau a argymhellir, arddangos posteri a dosbarthu taflenni, cardiau crafu a deunyddiau perthnasol eraill
- Lle nad yw'r fferyllfa'n darparu gwasanaethau pellach cyfnewid nodwyddau a chwistrellau a'r defnydd dan oruchwyliaeth o feddyginiaethau camddefnyddio sylweddau, dylid cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaethau.
- Cyfeirio pobl a allai ddibynnu ar alcohol at ddarparwyr triniaeth alcohol arbenigol lleol.
- Defnyddio'r cyfle a gyflwynir gan adolygiadau defnyddio meddyginiaethau, e.e. ar gyfer meddyginiaethau gwrth-bwysedd gwaed uchel a meddyginiaethau ar gyfer trin diabetes, i drafod risgiau yfed alcohol ac yn benodol, yn ystod ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus neu mewn trafodaeth â chwsmeriaid yn gofyn am feddyginiaethau penodol dros y cownter, i godi ymwybyddiaeth o beryglon camddefnyddio alcohol.
- Mae rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau adolygu’r defnydd o feddyginiaeth.

7.3 Canser

Yn ogystal â gweinyddu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o'r materion iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â gofal canser fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol y maent yn eu darparu:

- Gwaredu cyffuriau diangen, gan gynnwys cyffuriau rheoledig.
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwe ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys ymwybyddiaeth o ganser a/neu sgrinio.
- Rhoi cyngor priodol i bobl sy'n defnyddio'r fferyllfa ac sy'n ymddangos fel pe bai'n ysmygu neu'n ymddangos ei fod dros bwysau gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y person hwnnw o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau personol.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth eraill.

Bydd cymorth i bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu, boed hynny o dan y gwasanaethau lefel 2 neu lefel 3, hefyd yn helpu i leihau nifer yr achosion o ganserau.

7.4 Cyflyrau hirdymor

Yn ogystal â gweinyddu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o'r materion iechyd cyhoeddus sy'n ymwneud â chyflyrau hirdymor fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol y maent yn eu darparu:

- Os yw person yn cyflwyno presgripsiwn, a'i bod yn ymddangos bod ganddo ddiabetes, mewn perygl o gael clefyd coronaidd y galon (yn enwedig y rhai â phwysedd gwaed uchel), yn ysmygu neu dros bwysau, mae'n ofynnol i'r fferyllfa roi cyngor priodol gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y person hwnnw o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau.
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwe ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys cyflyrau hirdymor.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth eraill.
- Mae rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau adolygu'r defnydd o feddyginiaeth.

Bydd darparu'r adolygiad o'r defnydd o feddyginiaethau, adolygu'r defnydd o gyfarpar, addasu cyfarpar stoma a'r gwasanaethau adolygu meddyginiaethau ar ryddhad, a'r gwasanaeth gwella brechu rhag y ffliw hefyd yn helpu pobl i reoli eu cyflyrau hirdymor er mwyn sicrhau'r ansawdd bywyd gorau posibl.

Bydd cymorth i bobl sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu, boed hynny o dan wasanaethau lefel 2 neu lefel 3, hefyd yn helpu i leihau nifer yr achosion o glefydau cylchrediad y gwaed a chlefydau cardiofasgwlaidd.

7.5 Gordewdra

Bydd pedair elfen o'r gwasanaethau hanfodol yn mynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Os yw person yn cyflwyno presgripsiwn, a'i fod dros bwysau, mae'n ofynnol i'r fferyllfa roi cyngor priodol gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth yr unigolyn o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwe ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys gordewdra
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth eraill
- Mae rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau adolygu’r defnydd o feddyginiaeth.

7.6 Iechyd rhywiol

Ochr yn ochr â sgrinio clamydia a gwasanaethau pellach atal cenhedlu hormonaidd brys, mae elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwe ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a HIV
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau sgrinio heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Mae rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau adolygu’r defnydd o feddyginiaeth.

Bydd sicrhau bod dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys yn cael eu darparu drwy fferyllfeydd yn gwella mynediad i'r gwasanaeth, yn enwedig ar adegau pan fydd practisau meddygon teulu ar gau.

7.7 Beichiogrwydd yn yr arddegau

Bydd gwasanaeth atal cenhedlu hormonaidd brys ynghyd ag elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwe ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau
- Lle nad yw'r fferyllfa'n darparu gwasanaeth gwell atal cenhedlu hormonaidd brys, gan gyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaeth.

7.8 Ysmygu

Yn ogystal â gwasanaethau pellach rhoi'r gorau i ysmygu, mae elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Os yw person yn cyflwyno presgripsiwn, a'i bod yn ymddangos bod ganddo ddiabetes, mewn perygl o gael clefyd coronaidd y galon (yn enwedig y rhai â phwysedd gwaed uchel), yn ysmygu neu dros bwysau, mae'n ofynnol i'r fferyllfa roi cyngor priodol gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y person hwnnw o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau.
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at chwe ymgyrch iechyd cyhoeddus bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys ysmygu.
- Lle nad yw'r fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth gwella rhoi'r gorau i ysmygu, dylid cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaeth.
- Trafod rhoi'r gorau i ysmygu fel mater o drefn wrth werthu meddyginiaethau perthnasol dros y cownter.
- Mae rhoi cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau adolygu’r defnydd o feddyginiaeth.

Gall gwasanaethau pellach rhoi'r gorau i ysmygu gysylltu fferyllfeydd â'r gwasanaeth cymorth ymddygiadol dwys a ddarperir gan Dim Smygu Cymru, a'i wella, naill ai drwy gyflenwi therapi disodli nicotin i ysmygwyr sy'n cael cymorth ymddygiadol dwys i roi'r gorau i ysmygu oddi wrth Dim Smygu Cymru, neu drwy ddarparu triniaethau fel Varenicline drwy gyfarwyddyd grŵp cleifion. Bydd hyn hefyd yn gwella'r dewis i gleifion a fydd yn gallu derbyn y driniaeth hon heb weld eu meddyg teulu.

7.9 Cymorth ar gyfer hunanofal

Mae cymorth ar gyfer hunanofal yn wasanaeth hanfodol a gall helpu person i reoli cyflwr meddygol, gan gynnwys yn achos gofalwr, i helpu'r gofalwr i helpu i reoli cyflwr meddygol person arall. Mae'r gwasanaeth yn

ei gwneud yn ofynnol i fferyllfeydd roi cyngor priodol ar opsiynau triniaeth a newidiadau i ffordd o fyw'r unigolyn.

Mae gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn caniatáu i bobl siarad â fferyllydd, yn hytrach na'u meddyg teulu, am restr ddiffiniedig o anhwylderau cyffredin. Bydd y fferyllydd yn rhoi meddyginiaeth o fformiwlâu y cytunwyd arnynt, yn rhoi cyngor neu'n cyfeirio'r claf at y meddyg teulu os bydd angen. Cyflenwir meddyginiaethau yn rhad ac am ddim a thrwy hynny ddileu'r rhwystr talu, a all atal cleifion rhag dewis gweld fferyllydd yn lle eu meddyg teulu.

Fel arall, lle mae'r fferyllydd yn bresgripsiynydd annibynnol, gallai'r fferyllydd weld pobl sydd â chyflwr acíwt perthnasol, sydd wedi'u cynnwys mewn rhestr o gyflyrau a gwmpesir gan wasanaeth gwell, a bydd yn gallu asesu, gwneud diagnosis a phresgripsiynu meddyginiaeth fel sy'n briodol.

Gall profi a thrin gwasanaethau pellach hefyd helpu i leihau'r pwysau ar bractisau meddygon teulu a gwasanaethau y tu allan i oriau, drwy ganiatáu i fferyllwyr asesu a diagnosio a naill ai presgripsiynu triniaeth neu ei chyflenwi o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion.

7.10 Brechiad y ffliw

Mae fferyllfeydd wedi darparu brechiadau rhag y ffliw ers nifer o flynyddoedd, gan wella'r gwasanaeth a ddarperir gan bractisau meddygon teulu drwy gynyddu nifer y lleoliadau, yr amseroedd a'r diwrnodau y gellir rhoi brechlynnau.

8 Ardal Dwyrain Blaenau Gwent

8.1 Ffeithiau allweddol am ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

- Yn 2019, arhosodd yn is na chyfartaledd Cymru ym mron pob dangosydd economaidd-gymdeithasol – gweithgarwch economaidd, cyflogaeth a menter fusnes
- Lefelau uchel o ddiweithdra a chanran uchel o bobl sy'n ddibynnol ar fudd-daliadau
- Amcangyfrifir y bydd gostyngiad o 6.6% yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2036, y gostyngiad mwyaf yng Nghymru ar amcangyfrif
- Hon yw’r boblogaeth sy’n lleiaf tebygol o fod ag unrhyw sgiliau Cymraeg
- Y ganran uchaf o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (85.1%)
- Disgwyliad oes isaf ar gyfer dynion (76.2 oed) a menywod (80.6 oed)
- Ym Mlaenau Gwent mae'r disgwyliad oes iach isaf adeg geni ar gyfer dynion a menywod (54.1 a 54.5 mlynedd yn y drefn honno), nid yn unig yn ardal y bwrdd iechyd ond yng Nghymru gyfan.
- Dyma’r unig awdurdod lleol lle bu cynnydd yn nifer y marwolaethau cynamserol yn sgil clefydau anhrosglwyddadwy allweddol 2014-2016
- Y gyfradd uchaf o farwolaethau cynamserol yn sgil clefydau anhrosglwyddadwy allweddol 2016-2018 (yr uchaf yng Nghymru)
- Y gyfradd uchaf o salwch cyfyngus hirdymor fesul 10,000 o'r boblogaeth, 2011
- Y ganran uchaf o bobl sy'n dweud bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn (16%)
- Y ganran uchaf o aelwydydd un person, sef 13.9% o'r holl aelwydydd
- Mwy o aelwydydd heb gar na fan, neu ddim ond un (72.8%) nag mewn mannau eraill yn ardal y bwrdd iechyd
- Lefel gyflogaeth isaf, sef 53.1% yn 2011
- Mae 9.6% o'r boblogaeth yn sâl neu'n anabl yn hirdymor ac yn economaidd anweithgar
- Canran uchaf o lwyr ymwrthodwyr (26.6%)
- Cyfran uchaf y bobl 16 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn ysmygu’n ddyddiol neu'n achlysurol (20.8%)
- Mae 22% o boblogaeth Blaenau Gwent yn ysmygu
- Mae 33% yn ordew ac mae 68% dros eu pwysau neu'n ordew (sy'n sylweddol waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Nid yw 82% yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd (sy'n sylweddol waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Mae 38% yn actif am lai na 30 munud yr wythnos (sy’n sylweddol waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)

- Mae 16% yn yfed mwy na'r hyn sy'n cael ei argymell (dros 14 uned o alcohol yr wythnos)
- Mae'r cyfraddau cwblhau tai'n sylweddol is na tharged y cynllun datblygu lleol, sef 140 y flwyddyn. Y rheswm am hyn yw bod datblygwyr yn amharod i adeiladu oherwydd pryderon ynghylch hyfywedd a diffyg hyder yn y farchnad, yn hytrach na diffyg tir.

Ffigur 35 – tai wedi eu cwblhau ar gyfer Blaenau Gwent 2006-2019[59]



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

- Mae'r prisiau tai cyfartalog yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

8.2 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol yn yr ardal

Mae saith fferyllfa yn yr ardal sy'n cael eu gweithredu gan bum contractwr gwahanol. Mae pum practis meddyg teulu yn yr ardal, ond nid oes yr un ohonynt yn cynnig gwasanaeth darparu meddyginiaethau.

Fel y gwelir yn y map isod, mae'r fferyllfeydd yn gyffredinol mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uchel.

[59] Cynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent: Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-19

Map 8 – lleoliad y fferyllfeydd o'i gymharu â'r dwysedd poblogaeth



© Trwydded Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Fel y gwelir yn y map isod, mae fferyllfeydd hefyd yn gyffredinol mewn ardaloedd o amddifadedd uwch.

Map 9 – lleoliad fferyllfeydd o'i gymharu â lefel yr amddifadedd



© Trwydded Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Yn 2019/20, cafodd 88.3% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddyg teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal. Mae’r ffigwr yma wedi cynyddu i 90.7% yn 2020/21.

Mae'r map isod yn dangos yr amser gyrru i fferyllfa; mae’r tywyllaf yn cynrychioli’r amser byrraf. Fel y gwelir, mae rhan fwyaf yr ardal o fewn 20 munud o daith mewn car i fferyllfa. Yr un eithriad yw'r cylch coch ar y map, ond mae mapiau Google yn datgelu nad oes tai nac eiddo arall yma.

Map10 – mynediad i fferyllfeydd yn yr ardal



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

O ran pryd mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- Mae pedair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a hefyd ar ddydd Sadwrn rhwng 09:00 a 13:00, ac
- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 09:00 a 17:30 ac ar gau amser cinio.

Mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu fferyllfeydd ar draws Blaenau Gwent i agor ar nosweithiau'r wythnos, ar ddydd Sul ac ar wyliau cyhoeddus a gwyliau’r banc.

O ran yr amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Maent i gyd yn agor am 09:00,
- Mae dwy yn cau am 17:30, tair yn cau am 18:00 ac un yn cau am 18:30, ond mae pedair yn cau am 17:00 ar ddydd Iau.

Mae un fferyllfa ar agor drwy'r dydd, ac mae'r lleill yn cau amser cinio naill ai rhwng 13.00 a 14.00 neu rhwng 13:00 a 14:15.

Cafwyd y wybodaeth yng ngweddill yr adran hon drwy holiadur y contractwr.

Mae modd mynd i mewn i chwech o’r saith fferyllfa mewn cadair olwyn; mae gan bob un ardal ymgynghori ac mae pump yn hygyrch i gadair olwyn. Mae’r holl ardaloedd ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb fod eraill yn clywed, ac sydd
- wedi'i dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgyngoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Ni ddarparodd yr un fferyllfa wybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Saesneg. Fodd bynnag, nid oedd gan 88.5% o’r preswylwyr unrhyw sgiliau Cymraeg ac mae 98.7% yn defnyddio’r Saesneg fel eu prif iaith (data lefel awdurdod lleol, Cyfrifiad 2011). Mae hyn, ynghyd ag argaeledd Llinell Iaith, yn golygu nad yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw broblemau i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad at wasanaethau mewn iaith heblaw Saesneg.

Mae pob un o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Mae’r saith fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu. Mewn perthynas â danfon eitemau a ddosberthir:

- mae un yn cynnig gwasanaeth danfon i bawb ar gais,
- mae un yn darparu gwasanaeth danfon am ffi, ac
- er mai dim ond dwy fferyllfa a ddywedodd eu bod yn darparu gwasanaeth danfon, dywedodd pump eu bod yn cyfyngu eu gwasanaeth i grwpiau cleifion penodol, sef y rhai sy'n hen a gwan (pedair), pobl dros 65 oed, cleifion sy'n gaeth i'r tŷ, pobl anabl a'r rhai sy'n hunanynysu oherwydd Covid.

Nid oedd yr un fferyllfa o'r farn bod angen ehangu gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli presennol mewn modd nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Yn ogystal, nid oedd unrhyw un o'r farn bod gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd y saith fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu.

Mae cynlluniau ar y gweill mewn dwy fferyllfa i ddatblygu neu ehangu eu gwasanaethau:

- Mae un yn bwriadu cynnig y gwasanaeth profi a thrin dolur gwddf a'r gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3, ac
- Mae fferyllfa arall yn bwriadu datblygu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwell ac uwch wrth i gyfyngiadau Covid godi a hefyd cyflwyno gwasanaeth danfon am dâl i gleifion nad ydynt yn anabl ac sy'n gofyn am y gwasanaeth er cyfleustra yn unig.

8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Roedd pob un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gyda dim ond un yn darparu'r nifer uchaf posibl, sef 400. Roedd y saith fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth yn 2019/20, ond nid oedd yr un ohonynt wedi darparu'r nifer uchaf. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, mae'r gwasanaeth wedi'i atal tan fis Ebrill 2022 oherwydd pandemig Covid. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y fferyllfeydd yn ailddechrau'r ddarpariaeth ar ôl ailgychwyn y gwasanaeth.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r cylchoedd glas sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 11 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

8.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Roedd chwech o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, ond ni ddarparodd yr un ohonynt y nifer uchaf posibl, sef 140 o adolygiadau. Roedd pum fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth yn 2019/20, ond eto, ni ddarparodd yr un ohonynt y nifer uchaf posibl. Mae pedair fferyllfa wedi darparu 103 adolygiad yn 2020/21.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau pinc sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 12 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau o feddyginiaethau wrth ryddhau yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

8.2.3 Adolygiadau defnyddio offer

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer.

8.2.4 Teilwra offer stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer.

8.2.5 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Roedd chwe fferyllfa yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a 2019/20. Yn 2020/21, roedd chwe fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth i tyfu i saith yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau pinc sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 13 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

8.2.6 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Roedd yr holl fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a 2019/20. Yn 2020/21, mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i

ddarparu'r gwasanaeth ac mae pob un wedi'i comisynnu i ddarparu hyn yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd marŵn sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 14 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2 yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

8.2.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Roedd pum fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, a saith yn 2019/20. Yn 2020/21, mae pum fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn cynyddu i chwech fferyllfa yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 15 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3 yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

8.2.8 Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3, Cynllun Varenicline

Roedd un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, a dwy yn 2019/20. Mae tair fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 a tri wedi comisiynu i ddarparu hyn yn 2021/22.

8.2.9 Brechiad rhag y ffliw

Darparodd ddwy fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, a thair yn 2019/20. Yn 2020/21 roedd pedair wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac maent wedi darparu 251 brechiad.

Erbyn Awst 2021, does dim un fferyllfa wedi arwyddo lan i ddarparu'r gwasanaeth yma yn 2021/22, serch hyn rhagwelir bydd nifer cyfateb i llynedd yn gwneud.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 16 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau rhag y ffliw yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

8.2.10 Gwasanaeth mân anhwylderau

Roedd chwe fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, a'r saith yn 2019/20. Yn 2020/21, mae'r holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth a comisynwyd y saith i ddarparu eto yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 17 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth mân anhwylderau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

8.2.11 Cyflenwad meddyginiaeth frys

Roedd dwy fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Yn 2020/21, mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i

ddarparu'r gwasanaeth ac mae’r saith wedi comisynnu i wneud am 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 18 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwad o feddyginiaeth frys yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

8.2.12 Gwasanaethau cartrefi gofal

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth lefel 1 yn yn 2020/21.

8.2.13 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

8.2.14 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

8.2.15 Gwasanaethau darparu presgripsiwn annibynnol

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu y naill na’r llall o’r gwasanaethau hyn yn 2021/22.

8.2.16 Gwasanaethau rhoi meddyginiaethau

Yn 2020/21, mae pedair fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth sy’n cynnwys darparu cofnod rhoi meddyginiaethau neu system ddognau a fonitrir, yn cynyddu i pump yn 2021/22.

Mae un fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu dosbarthwyr tabledi awtomatig yn 2020/21, does dim un wedi comisynnu i ddarparu nhw yn 2021/22.

8.2.17 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Gafodd dwy fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 mae dau wedi comisynnu i ddarparu yn 2021/22.

8.2.18 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

8.2.19 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

8.2.20 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae'r saith fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae'r saith wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22

8.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai preswylwyr yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael hyd i wasanaethau:

- a gynigir gan gontractwyr cyfarpar dosbarthu
- sy'n agos at yr ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddyg teulu yn 2019/20 wedi'u dosbarthu gan y saith fferyllfa yn yr ardal, cafodd 10.4% eu dosbarthu y tu allan i'r ardal:

- 5.5% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Caerffili,
- 2.5% yng Ngorllewin Blaenau Gwent
- 1.3% yn Nwyrain Casnewydd,
- 0.8% yng Ngogledd Torfaen,
- 0.3% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.2% yng Ngogledd Sir Fynwy,
- 0.1% yn ardaloedd Byrddau Iechyd Prifysgol De Torfaen a Chwm Taf Morgannwg fel ei gilydd.

Yn 2020/21 gafodd nifer bach o presgripsiynau ei dosbarthu tu allan i'r lleoliad (9.5%) gyda'r mwyafrif wedi dosbarthu o Dwyrain Caerffili (4.9%) a Gorllewin Blaenau Gwent (2.5%).

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

8.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae'r practisau meddyg teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys
- Brechiadau rhag y ffliw
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer mân anhwylderau

Roedd 1.3% o'r eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn gan y practisau meddyg teulu yn cael eu gweinyddu'n bersonol gan y practisau yn 2019/20 gyda cwymp bach i 1.2% yn 2020/21.

Bydd preswylwyr yn defnyddio gwasanaethau eraill y GIG sydd wedi'u lleoli yn yr ardal hon neu rywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen,
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol,
- Y gwasanaeth ymarferwyr anhwylderau hirdymor, a
- Helpa Fi i Stopio.

Ceir manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Nid oes unrhyw wasanaethau eraill y GIG wedi'u nodi sydd yn yr ardal ac yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

8.5 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o'r adrannau blaenorol, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r pum practis meddyg teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn yr ardal i ddosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae rhai yn dewis edrych y tu allan i'r ardal, fel arfer i gael mynediad i fferyllfa gyfagos neu gontractwr offer dosbarthu yn agos at eu gweithle neu’r lle maent yn siopa neu’n treulio eu hamser hamdden.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 210 o gontractwyr eitemau a ragnodwyd gan un o bractisau meddygon teulu yr ardal hon, ac o’r rheiny:

- roedd saith yn yr ardal,
- roedd 101 yn rhywle arall o fewn ardal y bwrdd iechyd,
- roedd 100 yn rhywle arall yng Nghymru,
- cafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr.

Syrthiodd hyn i 160 yn 2020/21:

- Saith wedi lleoli o fewn yr ardal,
- 91 wedi lleoli rhywle arall o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- 100 wedi lleoli rhywle arall yng Nghymru, a
- Nifer o presgripsiynau wedi dosbarthu yn Lloegr

8.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

8.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd i’w cael ar draws yr ardal ac yn gyffredinol maent mewn ardaloedd lle ceir dwysedd poblogaeth uwch a lefelau amddifadedd uwch.
- Mae pob rhan fach ond un o'r ardal o fewn amser gyrru 15 munud i fferyllfa, ond nid oes poblogaeth breswyl yn yr ardal honno.
- Rhagwelir y bydd maint poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn lleihau.
- Ni wyddys am unrhyw ddatblygiadau tai ar y gweill o fewn oes y ddogfen hon.
- Cadarnhaodd y saith fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

8.6.2 Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Cyn atal y gwasanaeth hwn, roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Dim ond un fferyllfa a ddarparodd uchafswm nifer yr adolygiadau defnyddio meddyginiaethau yn 2018/19. Ni ddarparodd unrhyw un yr uchafswm yn 2019/20.
- Cadarnhaodd y saith fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

8.6.3 Adolygu dosbarthu meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae nifer y fferyllfeydd sydd wedi darparu’r gwasanaeth hwn yn ystod y tair blynedd diwethaf yn amrywio. Mae pedair fferyllfa wedi darparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r sgiliau sydd eu hangen ar fferyllwyr i ddarparu’r gwasanaeth hwn yr un fath ag ar gyfer y gwasanaeth adolygu’r defnydd o

feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn gallu darparu’r gwasanaeth hwn.

- Ni all y systemau TG yn yr ysbytai drosglwyddo gwybodaeth am gleifion wedi’u rhyddhau i’r systemau TG yn y fferyllfeydd ar hyn o bryd. Felly, os nad aiff claf â’i lythyr rhyddhau i’r fferyllfa, mae’n bosibl na fydd modd i’r fferyllydd ddweud p’un a yw’n gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei adolygu a gall y sefyllfa wella yn ystod oes y ddogfen hon.
Map 57 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

12.2.6 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Darparodd saith fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac wyth yn 2019/20. Mae 13 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae wyth wedi'i ddarparu ar adeg llunio'r ddogfen hon.

Mae'r map isod yn dangos lle cafodd y gwasanaeth ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r sgwariau porffor sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 58 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2 yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

12.2.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Roedd chwe fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a 2019/20. Mae wyth fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae pedair wedi'i ddarparu ar adeg llunio'r ddogfen hon.

Mae'r map isod yn dangos lle cafodd y gwasanaeth ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 59 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3 yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

12.2.8 Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3, Cynllun Varenicline

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac 2019/20. Mae dwy fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21, ond nid yw'r un ohonynt wedi'i ddarparu ar adeg llunio'r ddogfen hon.

12.2.9 Brechiad rhag y ffliw

Darparodd deg fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Mae 12 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae 11 wedi darparu'r gwasanaeth ar adeg llunio'r ddogfen hon.

Mae'r map isod yn dangos lle cafodd y gwasanaeth ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 60 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau rhag y ffliw yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

12.2.10 Gwasanaeth mân anhwylderau

Darparodd 711 fferyllfa’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i bob un o’r 14 yn 2019/20. Mae pob un o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac maent wedi'i ddarparu ar adeg llunio’r ddogfen hon.

Mae’r map isod yn dangos lle cafodd y gwasanaeth ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 61 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth mân anhwylderau yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

12.2.11 Cyflenwad o feddyginiaeth frys

Darparodd tair fferyllfa’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i saith yn 2019/20. Mae pob un o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae saith wedi'i ddarparu ar adeg llunio’r ddogfen hon.

Mae’r map isod yn dangos lle cafodd y gwasanaeth ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 62 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwad o feddyginiaeth frys yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

12.2.12 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae tair fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn 2020/21 er nad yw'r un ohonynt wedi'u darparu ar adeg llunio'r ddogfen hon.

12.2.13 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Mae dwy fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 er nid yw'r un ohonynt wedi'i ddarparu ar adeg llunio'r ddogfen hon.

12.2.14 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae wedi'i ddarparu ar adeg llunio'r ddogfen hon.

12.2.15 Gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol

Nid yw’r un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21; fodd bynnag, mae un fferyllfa wedi cadarnhau ei bod yn fodlon darparu gwasanaeth rhagnodi annibynnol.

12.2.16 Gwasanaeth rhoi meddyginiaethau

Mae deg fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth yn 2020/21, sy’n cynnwys darparu cofnod rhoi meddyginiaethau neu system ddognau wedi’i monitro, ac mae chwech wedi’i ddarparu.

Mae pedair fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu dosbarthwyr tabledi awtomatig yn 2020/21, ond doedden nhw ddim wedi’u darparu ar adeg llunio’r ddogfen hon.

12.2.17 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.

12.2.18 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Yn 2020/21 mae un fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.

12.2.19 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Darparodd tair fferyllfa yn yr ardal y gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Mae pedair fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae tair wedi’i ddarparu yn 2020/21.

12.2.20 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae wyth fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae chwech wedi'i ddarparu ar adeg llunio’r ddogfen hon.

12.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i’r ardal

Mae rhai preswylwyr yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i’r ardal leol yn ogystal â thu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- a gynigir gan gontractwyr cyfarpar dosbarthu
- sy’n agos i’r ardal lle maen nhw’n gweithio, yn siopa neu’n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod y rhan fwyaf o’r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2019/20 wedi’u dosbarthu gan y 14 fferyllfa yn yr ardal leol, cafodd 4.3% eu dosbarthu y tu allan i’r ardal leol:

- 1.5% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Caerffili,
- 1.0% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- 0.8% yr un yn ardaloedd Gogledd Caerffili a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg,
- 0.3% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.1% yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a
- 0.1% mewn mannau eraill yng Nghymru.

Yn ogystal, mae’n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu’n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i’r ardal leol yn ogystal â thu allan i ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw’n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o’r data a gofnodwyd.

12.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae’r practisau meddygon teulu yn yr ardal yn darparu’r gwasanaethau canlynol sy’n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys
- Brechiad rhag y ffliw
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer mân anhwylderau

Roedd 1.6% o'r eitemau a ragnodwyd gan y practisau meddygon teulu yn cael eu dosbarthu'n bersonol gan y practisau.

Ar adeg llunio’r ddogfen hon, mae gan bedair phractis meddyg teulu yn yr ardal oriau agor estynedig:

- Mae un yn cynnig apwyntiadau rhwng 18.30 a 19.00 ar ddydd Mawrth,
- Mae un yn cynnig apwyntiadau rhwng 18.30 a 19.30 ar ddydd Llun a dydd Mawrth, ac
- Mae dwy yn cynnig apwyntiadau rhwng 18.30 a 20.00 ar ddydd Mawrth.

Bydd Canolfan Feddygol Aber a Meddygfa'r Pentref yn adleoli i Ganolfan Iechyd Llanbradach. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd yn ystod haf 2021.

Mae canolfan yn cael ei hystyried ar gyfer Cwm Aber, er nad yw cyfluniad terfynol y gwasanaethau wedi'i gwblhau eto.

Bydd preswylwyr yn defnyddio gwasanaethau eraill y GIG sydd wedi'u lleoli yn yr ardal hon neu rywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Gwasanaethau y tu allan i oriau y meddyg teulu
- Unedau mân anafiadau,
- Y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen,
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol,
- Y gwasanaeth ymarferwyr anhwylderau hirdymor, a
- Helpa Fi i Stopio.

Ceir manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Nid oes unrhyw wasanaethau eraill y GIG wedi'u nodi sydd wedi'u lleoli yn yr ardal ac sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

12.5 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Yn gyffredinol, fel y gwelir o'r adrannau blaenorol, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r chwe phractis meddyg teulu yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn yr ardal i ddosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae rhai yn dewis edrych y tu allan i'r ardal, fel arfer i gael mynediad i fferyllfa gyfagos neu gontractwr cyfarpar dosbarthu yn agos at eu gweithle neu siop, neu’n agos at safle y byddent yn ymweld ag e am hamdden neu reswm arall.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 310 o gontractwyr eitemau a ragnodwyd gan un o bractisau meddygon teulu’r ardal hon, ac o’r rheiny:

- roedd 14 o fewn yr ardal leol,
- roedd 82 yn rhywle arall o fewn ardal y bwrdd iechyd,
- roedd 214 yn rhywle arall yng Nghymru,
- a chafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr.

12.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

12.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal leol ac yn gyffredinol maent mewn ardaloedd lle ceir dwysedd poblogaeth uwch a lefelau uwch o amddifadedd.
- Mae’r ardal gyfan o fewn taith 20 munud mewn car i fferyllfa.
- Rhagwelir y bydd poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cynyddu 2% rhwng 2011 a 2036.
- Mae gan bedair practis meddyg teulu oriau agor estynedig, ond nid yw'r bwrdd iechyd yn ymwybodol o unrhyw anawsterau mewn dosbarthu presgripsiynau a roddir yn ystod yr oriau hyn.

- Bydd Canolfan Feddygol Aber a Meddygfa'r Pentref yn adleoli i Ganolfan Iechyd Llanbradach yn 2021. Ni ragwelir y bydd hyn yn effeithio ar y galw am wasanaethau fferyllol.
- Mae canolfan yn cael ei hystyried ar gyfer Cwm Aber. Er nad yw cyfluniad terfynol y gwasanaethau wedi'i gwblhau eto, ni ragwelir y bydd angen cynnwys fferyllfa.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a'r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.2 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Cyn atal y gwasanaeth hwn, fe'i darparwyd gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Darparodd saith fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau o'r defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth dwy hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a'r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.3 Adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae nifer y fferyllfeydd sydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn ystod y tair blynedd diwethaf yn amrywio. Roedd deg o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ar adeg llunio'r ddogfen hon.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen ar fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath ag ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, gall yr holl fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Ni all y systemau TG yn yr ysbytai drosglwyddo gwybodaeth am gleifion sy'n cael eu rhyddhau i'r systemau TG yn y fferyllfeydd ar hyn o bryd. Felly os nad yw'r claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa mae'n bosibl na fydd modd i'r fferyllydd nodi ei fod yn

gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei adolygu a gall y sefyllfa wella yn ystod oes y ddogfen hon.

- Oherwydd yr ystod o feddyginiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth, dim ond cyfran fach o gleifion sy'n cael eu rhyddhau fydd yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth hwn.
- Gan fod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig i'r practisau meddygon teulu, mae llai o risg o gamgymeriadau trawsgrifio mewn perthynas â meddyginiaethau. Yn ogystal, gall practisau meddygon teulu gysoni meddyginiaethau ar ôl rhyddhau cleifion.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a'r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Felly, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon mai'r rheswm mwyaf tebygol y tu ôl i lefel gymharol isel y ddarpariaeth o'r gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy'n amlygu ei hunain i'r fferyllfa, ac nid anallu nac amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.4 Adolygiadau defnyddio cyfarpar

Er nad yw'r un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar a bod gan bob un ohonynt ddigon o le a lefelau staffio ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu, neu y gallent wneud addasiadau i'r perwyl hwnnw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.5 Addasu cyfarpar Stoma

Er nad yw'r un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod 12 o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar a bod gan bob un ohonynt ddigon o le a lefelau staffio ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu, neu y gallent wneud addasiadau i'r perwyl hwnnw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.6 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r holl fferyllfeydd ond un wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Mae dosbarthiad da o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth ar draws yr ardal.
- Bydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractisau meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae ffocws cynyddol ar ddulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor ar gyfer menywod cymwys.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a'r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae pob fferyllfa ond un wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn gan sicrhau dosbarthiad da o leoliadau ar draws yr ardal.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a'r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.8 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae dosbarthiad da o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth ar draws yr ardal heblaw am yng ngogledd yr ardal.
- Nid oes unrhyw ddarparwyr Helpa Fi i Stopio yng ngogledd yr ardal hon.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a'r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod angen y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yng ngogledd yr ardal yn Senghennydd a Llanbradach. Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

12.6.9 Cyfarwyddyd grŵp cleifion rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae dwy fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn fel rhan o'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3.
- Gall practisau meddygon teulu roi presgripsiynau ar gyfer Varenicline, felly gall trigolion yr ardal fanteisio ar y gwasanaeth yn y ffordd honno yn hytrach na thrwy'r gwasanaeth hwn.
- Gwasanaeth cymharol newydd yw hwn ac mae'n bosibl felly nad yw fferyllfeydd wedi dod ymlaen eto i'w ddarparu.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a'r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod angen i bob fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth hwn erbyn 1 Ebrill 2022. Os na fydd hynny'n digwydd, o 1 Ebrill 2022 bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn mewn 14 lleoliad wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir dwysedd poblogaeth uwch.

12.6.10 Brechiad rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae 12 o'r 14 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Mae'r practisau meddygon teulu hefyd yn darparu'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a'r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.11 Gwasanaeth mân anhwylderau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Un o amcanion y gwasanaeth yw lleihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu ac felly byddai'n fuddiol pe bai mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.12 Cyflenwad o feddyginiaeth frys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.13 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae tair o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mater i'r cartref gofal yw dewis pa fferyllfa, os o gwbl, y mae'n dymuno gweithio gyda hi mewn perthynas â meddyginiaethau.
- Bydd cartrefi gofal wedi dewis gweithio gyda darparwyr y tu allan i'r ardal.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd oherwydd y nifer isel sy'n manteisio arno.

- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.14 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail rhoi presgripsiynau i gleifion ar gyfer meddyginiaeth y mae angen ei harsylwi.
- Comisiynir dwy fferyllfa ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaeth.
- Pan fu angen ei gomisiynu yn y gorffennol, nid oedd y bwrdd iechyd yn cael unrhyw anhawster wrth ddod o hyd i fferyllfa a oedd yn fodlon darparu'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.15 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail anghenion cleifion. Prin y bu ei angen ers ei sefydlu.
- Comisiynir un fferyllfa ar hyn o bryd i ddarparu’r gwasanaeth i ateb angen presennol.
- Comisiynir y gwasanaeth ledled Gwent ac fe'i darperir gan saith fferyllfa ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.16 Gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Gwasanaeth newydd yw hwn sy'n dibynnu ar sicrhau bod cyrsiau hyfforddi ar gael a fferyllwyr yn gallu eu cwblhau.
- Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld rhagnodwr annibynnol ym mhob un o’r fferyllfeydd presennol. Fodd bynnag, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.17 Gwasanaethau rhoi meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Y sector gofal cymdeithasol sy'n gyrru'r galw am y gwasanaethau hyn.
- Mae deg fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu cofnodion rhoi meddyginiaethau neu systemau dognau wedi'u monitro a phedair i ddarparu peiriannau dosbarthu tabledi awtomatig.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.18 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i ddarganfod ble yr hoffent gael mynediad i'r gwasanaeth hwn ac yna'n cysylltu â'r bwrdd iechyd i gomisiynu'r gwasanaeth yn y lleoliad neu'r lleoliadau gofynnol.
- Adroddir bod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno teithio y tu allan i’w hardal leol i gael mynediad i'r gwasanaeth.
- Mae darparwyr eraill ar gyfer y gwasanaeth hwn.

- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.19 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau agor

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau dosbarthiad daearyddol o fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae un fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.20 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau dosbarthiad daearyddol o fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae tair o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.6.21 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae wyth fferyllfa o’r 14 wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn gan sicrhau dosbarthiad da o leoliadau ar draws yr ardal leol.

- Cadarnhaodd 11 fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd presennol a’r lefelau staffio i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd ganddynt y capasiti, ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13 Ardal leol Gogledd Sir Fynwy

13.1 Ffeithiau allweddol ar gyfer ardal Cyngor Sir Fynwy

- Sir wledig yn bennaf gyda 53% o’r boblogaeth gyfan yn byw mewn wardiau a ddiffinnir fel rhai mewn ardaloedd trefol.
- Yn gyffredinol mae Sir Fynwy yn ardal ffyniannus sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel i'w thrigolion.
- Mae disgwyl i’r boblogaeth gynyddu gan 1.3% rhwng 2011 a 2036
- Dwysedd poblogaeth isaf yn ardal y bwrdd iechyd, a hefyd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Dim ardaloedd cynnyrch ehangach is o fewn y 10% mwyaf difreintiedig a dim ond pedwar yn y 50% mwyaf difreintiedig
- Y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol isaf yn ardal y bwrdd iechyd a hefyd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Disgwyliad oes gwrywaidd a benywaidd uchaf (80.3 ac 84.0 mlynedd yn y drefn honno)
- Disgwyliad oes iach uchaf adeg geni ar gyfer dynion a menywod (65.7 a 64.3 blynedd yn y drefn honno
- Cyfradd isaf y marwolaethau cynamserol o glefydau allweddol nad ydynt yn drosglwyddadwy ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Cyfradd isaf o salwch cyfyngus hirdymor fesul 10,000 o'r boblogaeth, ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Y ganran uchaf o bobl sy'n dweud bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedu eu cyfyngu llawer
- Cyfran uchaf o aelwydydd un person a feddiannir gan rywun 65 oed a throsodd
- Canran uchaf o aelwydydd un teulu yn unig gyda phob aelod yn 65 oed a throsodd
- Mae gan 44.6% o aelwydydd ddau gar neu fwy (y ganran uchaf yn ardal y bwrdd iechyd a hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- mae 62.9% o'r boblogaeth mewn cyflogaeth ac mae 17.6% wedi ymddeol (canrannau uchaf yn ardal y bwrdd iechyd)
- Canran isaf y bobl sy'n gofalu am gartref neu deulu (3.75%)
- Canran isaf y bobl sy'n sâl neu'n anabl yn y tymor hir ac sy'n economaidd anweithgar
- Canran isaf y rhai nad ydynt yn yfed (12.6%) a'r ganran uchaf o yfwyr peryglus (21.7%)
- Canran isaf y bobl 16 oed neu drosodd sy'n ysmygu (16.5%)
- Mae 17% yn ordew (sy'n sylweddol well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru) ac mae 54% dros eu pwysau neu'n ordew
- Nid yw 70% yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd (sy'n sylweddol well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Mae 23% yn actif am lai na 30 munud yr wythnos (yn sylweddol well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)

Mae dau safle tai strategol yn yr ardal leol:

- ‘Deri Farm’ yn y Fenni, a
- ‘Wonastow Road’ yn Nhrefynwy.

O ran Fferm y Deri, cyflwynwyd cais llawn (DC/2014/01360) ar gyfer 250 o unedau preswyl (201 uned marchnad a 49 o unedau fforddiadwy) ym mis Tachwedd 2014, a gymeradwywyd yn 2017-18 ac roedd 100 o unedau wedi'u cwblhau erbyn 31 Mawrth 2019.

O ran Wonastow Road, rhoddwyd caniatâd amlinellol ar gyfer hyd at 370 o anheddau a 6.5 hectar o dir cyflogaeth ym mis Rhagfyr 2014. Rhoddwyd caniatâd i gais materion a gadwyd yn ôl (DC/2015/00392) ar gyfer 340 o unedau (238 o unedau marchnad a 102 o unedau fforddiadwy) ym mis Tachwedd 2015. Mae'r safle bellach bron â'i gwblhau gyda 327 o anheddau wedi'u cwblhau ar 31 Mawrth 2019. Cyfanswm o 450 o unedau yw’r dynodiad safle cyffredinol. Bydd yr unedau ychwanegol sy'n ymwneud â'r dynodiad hwn yn cael eu darparu fel estyniad i'r safle ar Fferm Drewen. Nid oedd cais ar gyfer yr elfen hon o'r safle hwn wedi'i gyflwyno erbyn 31 Mawrth 2019.

13.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol o fewn yr ardal

Mae 11 o fferyllfeydd yn yr ardal leol a gaiff eu gweithredu gan naw contractwr gwahanol, ac mae pob un o'r wyth practis meddygol yn dosbarthu allan o gyfanswm o ddeg safle. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 20% o boblogaeth gofrestredig y practis i 84%.

Fel y gwelir yn y map isod, gydag un eithriad, mae fferyllfeydd wedi'u lleoli'n gyffredinol mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uchel.

Map 63 – lleoliad y fferyllfeydd o'i gymharu â dwysedd poblogaeth



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Fel y gwelir o'r map isod nid oes llawer o gydberthynas rhwng lleoliad safleoedd a'r ardaloedd lle ceir mwy o amddifadedd.

Map 64 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygfeydd fferyllol o'i gymharu â lefel yr amddifadedd



© Trwydded Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Yn 2019/20, cafodd 63.0% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan feddygfeydd teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa oddi fewn i’r ardal (64.6% yn 2020/21), ac fe gyflenwyd 32.4% o bresgripsiynau, neu gael eu rhoi yn bersonol, gan bractis meddygol (31.4% yn 2020/21). Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac a roddwyd yn bersonol, ar sail nifer yr eitemau a roddwyd yn bersonol yn yr ardaloedd eraill, gellir tybio bod llai na 2% o eitemau wedi'u rhoi'n bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser gyrru i fferyllfa; y gwyrdd tywyllaf yw’r amser gyrru byrraf. Fel y gwelir, mae nifer o fannau yng ngogledd yr ardal nad ydynt o fewn 20 munud i fferyllfa mewn car, ac nid oes fferyllfeydd dros y ffin yn Lloegr y byddai’r boblogaeth yn debygol o'u defnyddio. Ardaloedd gwledig â dwysedd poblogaeth isel yw'r rhain

(gweler map 65), ac mae'n debygol mai eu practis meddygol fyddai'n eu cyflenwi nhw.

Map 65 – mynediad i fferyllfeydd yn yr ardal

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829



Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

O ran pryd mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae chwech ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, a rhan o Ddydd Sadwrn tan 12.00, 12.30 neu 13.00,
- Tair ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn, a
- Dwy ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn, a
- Dwy ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Sul.

Mae rota Dydd Sul ar waith fel bod un fferyllfa yn sir Fynwy ar agor rhwng 18.00 ac 20.00, ond nid o reidrwydd o fewn yr ardal leol hon.

O ran yr amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener:

- Mae pedwar yn agor am 08.30, un yn agor am 08.45, ac mae'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae saith yn cau am 17.30, dau yn cau am 18.00, un yn cau am 18.30 ac un yn cau am 20.00.

Mae pump fferyllfa ar agor drwy'r dydd; mae'r lleill yn cau amser cinio ar amserau amrywiol rhwng 13.00 a 14.15.

Ar ddyddiau Sadwrn, mae tair fferyllfa’n agor am 08.30 a wyth yn agor am 09.00. Mae tair o’r pum fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd yn cau amser cinio rhwng 13.00 a 14.00 ac yn cau am 17.30.

Ar Ddydd Sul, sicrheir oriau agor rhwng 10.00 a 16.00.

Cafwyd y wybodaeth yng ngweddill yr adran hon drwy holiadur y contractwr.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i naw o’r fferyllfeydd hyn sydd â man ymgynghori ynddynt sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae’r holl fannau ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb fod eraill yn clywed, ac sydd
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Dim ond un fferyllfa a gadarnhaodd fod staff yn gallu siarad iaith ar wahân i'r Saesneg (Ffrangeg). Fodd bynnag, nid oes gan 86.5% o breswylwyr unrhyw sgiliau Cymraeg ac mae’r Saesneg yn brif iaith i 98.7% (data lefel awdurdod lleol, Cyfrifiad 2011). mae hyn, ynghyd ag argaeledd Llinell Iaith, yn golygu nad yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw broblemau i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad at wasanaethau mewn iaith heblaw Saesneg.

Mae pob un o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Mae’r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu. O ran dosbarthu eitemau a gyflenwir:

- mae pedwar yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais,
- mae dwy yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi,
- mae tri yn cyfyngu'r gwasanaeth i gleifion sydd wedi eu galluogi/anabl (dwy fferyllfa), cleifion sy'n gaeth i'r tŷ, cleifion anabl, cleifion sy’n hunan-warchod neu’n oedrannus, a'r rhai ag angen clinigol neu broblemau symudedd, a
- mae dwy yn cyfyngu'r gwasanaeth i filltir o Drefynwy, yr Eglwys Newydd ar y Cefn a Rhaglan ac un arall i ardal Trefynwy.

Dim ond un fferyllfa a oedd o'r farn bod angen am wasanaeth uwch nad yw eisoes yn cael ei darparu ar hyn o bryd - gwasanaeth prawf a thriniaeth haint ar y glust.

Ynghylch y gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, cynigiodd un fferyllfa wasanaeth cyflenwi ar gyfer cleifion dethol a ffi am wneud blychau dos.

Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd pump nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Mae cynlluniau ar y gweill mewn tair fferyllfa i ddatblygu neu ehangu’r gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu:

- Mae un yn edrych ar awtomeiddio i wella effeithlonrwydd a chaniatáu iddynt gynyddu eu llwyth gwaith,
- Mae un yn ceisio darparu'r prawf a thriniaeth llwnc tost, a

- Bydd un yn cynnig brechiadau rhag y ffliw y gaeaf nesaf.

Ymatebodd tri o'r wyth practis dosbarthu i'r holiadur meddygon fferyllol a daw'r wybodaeth ganlynol o'r ymatebion hynny. Maent yn darparu gwasanaethau dros dri safle.

Mae pob un o'r tri practis dosbarthu ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener:

- Un yn agor 08.30 tan 14.30 o Ddydd Llun i Ddydd Gwener,
- Un yn agor 08.00 i 18.00, a
- Un yn agor 08.30 i 13.00 a 14.00 i 18.30.

O ran dosbarthu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar:

- Nid yw un yn dosbarthu cyfarpar, ac
- Mae dau ond yn dosbarthu dresin.

Mae un practis wedi cynnig gwasanaeth dosbarthu ers pandemig Covid ac mae ganddo wirfoddolwr a fydd yn cyflenwi ar gyfer pob grŵp cleifion os oes angen.

Nid oes gan yr un o'r practisau staff sy'n gallu siarad Cymraeg.

Nid oes gan ddau bractis ddigon o le na chapasiti staffio a byddai'n anodd rheoli cynnydd yn y galw am wasanaeth dosbarthu. Mae gan y trydydd ddigon o gapasiti.

O ran dosbarthu gwasanaethau cysylltiedig a ddarperir, mae un practis yn darparu siartiau cofnodi rhoi meddyginiaethau.

Dywedodd un practis eu bod wedi gwneud un newid i'w gwasanaeth dosbarthu y byddant yn ei gymryd i'r "normal newydd", sef mwy o ddefnydd o Fy Iechyd Ar-lein.

13.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd ar feddyginiaethau

Roedd pob un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gyda thair yn darparu'r nifer uchaf posibl, sef 400 a dau yn 2019/20.. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae'r gwasanaeth wedi'i atal tan fis Ebrill 2022 oherwydd pandemig Covid, fodd bynnag, rhagwelir y unwaith y bydd y gwasanaeth yn ailgychwyn y bydd y fferyllfeydd yn ailddechrau'r ddarpariaeth.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r cylchoedd glas sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 66 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu’r defnydd ar feddyginiaethau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

13.2.2 Adolygiad ar feddyginiaethau wrth ryddhau

Roedd saith fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth yn 2018/19 a 2019/20, ond nid oedd yr un ohonynt wedi darparu'r nifer fwyaf yn y naill flwyddy na'r llall. Roedd saitho'r fferyllfeydd wedi darparu Cyfanswm o 102 adolygiad.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau pinc sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 67 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau ar feddyginiaethau wrth ryddhau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

13.2.3 Adolygiadau defnyddio cyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

13.2.4 Teilwra cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

13.2.5 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Roedd wyth fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth yma yn 2018/19 a 2019/20. Yn 2020/21, mae roedd naw fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth a naw wedi comisynu am 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 68 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

13.2.6 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i bump yn 2019/20. Mae deg fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 gan gynyddu i'r 11 yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd marŵn sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 69 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2 yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

13.2.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Roedd chwe fferyllfa yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a 2019/20. Mae saith fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae saith wedi comisynu i ddarparu’r gwasanaeth yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 70 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3 yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

13.2.8 Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3, Cynllun Varenicline

Roedd un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, a dwy yn 2019/20. Mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 gan gynyddu i dwy fferyllfa yn 2021/22.

13.2.9 Brechiad rhag y ffliw

Roedd wyth fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth yma yn 2018/19 a 2019/20. Mae naw fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 gan darparu 1,912 brechiad.

Erbyn Awst 2021, mae chwech fferyllfa wedi arwyddo lan i ddarparu'r gwasnaeth yn 2021/22, ac yn rhagweld bydd mwyafrif o'r gweddill wedi gwneud.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 71 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau rhag y ffliw yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

13.2.10 Gwasanaeth mân anhwylderau

Roedd chwe fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i ddeg yn 2019/20. Yn 2020/21, mae'r holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac wedi'i comisynu i ddarparu yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 72 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth mân anhwylderau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

13.2.11 Cyflenwad meddyginiaeth frys

Doed dim un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i bump yn 2019/20. Yn 2020/21, mae deg fferyllfa wedi'u comisiynu i'w ddarparu yn cynyddu i'r 11 cyfan yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 73 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwad meddyginiaeth frys yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

13.2.12 Gwasanaethau cartrefi gofal

Un fferyllfa wedi comisynu i ddarparu gwasanaeth lefel 1 yn 2021/22.

13.2.13 Gwasanaeth therapi arsylwi yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

13.2.14 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Mae un fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

13.2.15 Gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r naill neu’r llall o gwasanaethau yma yn 2021/22.

13.2.16 Gwasanaeth rhoi meddyginiaethau

Yn 2020/21, mae pob un o’r fferylleydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth sy’n golygu darparu cofnod rhoi meddyginiaethau neu system ddognau wedi’i monitro, ac mae wyth wedi’i comisynu i ddarparu yn 2021/22.

Mae tair fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu dosbarthwyr tabledi awtomatig yn 2020/21, yn cwympo i dwy fferyllfa yn 2021/22.

13.2.17 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae dwy o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.

13.2.18 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

13.2.19 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Yn 2020/21 mae pum fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn gollwng i dwy yn 2021/22.

13.2.20 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae wyth fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 yn cynyddu i naw yn 2021/22.

13.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai preswylwyr yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- A gynigir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Sy'n agos at yr ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y meddygfeydd teulu yn 2019/20 wedi'u dosbarthu un ai gan'r fferyllfeydd neu'r meddygfeydd fferyllol yn yr ardal leol, (63.0% a 32.4% yn y drefn honno), dosbarthwyd 4.6% y tu allan i'r ardal leol:

- 1.8% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 1.4% gan fferyllfeydd yng ngorllewin Blaenau Gwent,
- 0.6% gan fferyllfeydd yng ngogledd Torfaen,
- 0.4% gan fferyllfeydd yn nwyrain Casnewydd,
- 0.1% gan fferyllfeydd yn ne Sir Fynwy, gorllewin Casnewydd a de Torfaen, a
- Dosbarthwyd 0.1% mewn mannau eraill yng Nghymru.

Yn 2020/21 roedd y nifer o prespripsiynau wedi dosbarthu tu allan i'r ardal lleol (4.0%) gyda'r mwyafrif wedi dosbarthu yn Lloegr (1.6%), Gorllewin Blaenau Gwent (1.1%) a Gogledd Torfaen (0.7%).

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

13.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae'r practisau meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys
- Brechiadau rhag y ffliw
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer mân anhwylderau

- Mae un practis dosbarthu yn darparu siartiau cofnodi rhoi meddyginiaethau.

Mae Medygfa Dixton i fod i adleoli i safle newydd sydd ychydig bellter o'i safle presennol o fewn oes y ddogfen hon.

Lleolir CEM Brynbuga a'i garchar lloeren, CEM Presgoed, yn yr ardal hon. Darperir gwasanaethau fferyllol i'r ddau safle o dan gontract gyda'r bwrdd iechyd a rhagnodir tua 26,000 to 28,000 o eitemau bob blwyddyn. Mae'r contract o’r herwydd yn lleihau'r angen am wasanaethau fferyllol ar gyfer y grŵp cleifion hwn.

Bydd preswylwyr yn defnyddio gwasanaethau eraill y GIG sydd wedi'u lleoli yn yr ardal hon neu rywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen,
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol,
- Y gwasanaeth ymarferwyr anhwylderau hirdymor, a
- Helpa Fi i Stopio.

Ceir manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Nid oes unrhyw wasanaethau eraill y GIG wedi'u nodi sydd wedi eu lleoli yn yr ardal ac yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

13.5 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Yn gyffredinol, fel y gwelir o'r adrannau blaenorol, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r wyth practis meddyg teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn yr ardal leol ar gyfer dosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae rhai yn dewis edrych y tu allan i'r ardal, fel arfer i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar yn agos at eu gweithle neu siop, neu y byddent yn mynd iddo ar gyfer hamdden neu reswm arall.

Yn 2019/20 dosbarthodd contractwyr dros 210 o eitemau a ragnodwyd gan un o bractisau meddygon teulu yr ardal hon, ac o’r rheiny:

- roedd 11 o fewn yr ardal leol,
- roedd 98 yn rhywle arall o fewn ardal y bwrdd iechyd,
- roedd 108 yn rhywle arall yng Nghymru,
- cafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr.

Gostyngwyd hyn i 181 yn 2020/21:

- 11 wedi lleoli o fewn yr ardal
- 80 wedi lleoli rhywle arall o fewn ardal y Bwrdd Iechyd
- 88 wedi lleoli rhywle arall yng Nghymru, a
- Nifer o presgripsiynau wedi dosbarthu yn Lloegr.

13.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

13.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal leol ac yn gyffredinol maent mewn ardaloedd lle ceir dwysedd poblogaeth uwch a lefelau uwch o amddifadedd.
- Mae nifer o ardaloedd yng ngogledd y parth nad ydynt o fewn 20 munud i fferyllfa mewn car, ac nid oes fferyllfeydd dros y ffin yn Lloegr y mae'r boblogaeth yn debygol o'u defnyddio. Ardaloedd gwledig â dwysedd poblogaeth isel yw'r rhain ac mae'n debygol mai eu practis meddyg teulu fyddai’n dosbarthu i’r bobl sy'n byw yno.
- Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Fynwy yn gostwng 1.3% rhwng 2011 a 2036.
- Mae dau safle tai strategol yn yr ardal (Y Fenni a Threfynwy) a fydd yn arwain at adeiladu 620 eiddo, y mae rhai ohonynt eisoes wedi'u cwblhau.
- Mae disgwyl i Feddygfa Dixton Road yn Sir Fynwy symud i safle newydd sydd ond ychydig bellter o'i safle presennol. Ni fydd hyn yn effeithio ar y galw am wasanaethau fferyllol.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon nad oes angen gwasanaethau hanfodol ar hyn o bryd nac yn y dyfodol yn y naill safle tai strategol na’r llall oherwydd y gallu i ddiwallu unrhyw gynnydd yn y galw io fewn yr ystâd bresennol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried a oes angen fferyllfa yng ngogledd yr ardal ar hyn o bryd lle mae'n cymryd mwy nag 20 munud i yrru i fferyllfa. Mae wedi nodi fod:

- dwysedd y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn yn isel (sir wledig yw Sir Fynwy yn bennaf gyda 47% o'r boblogaeth yn byw mewn wardiau a ddiffinnir fel rhai sydd mewn ardaloedd gwledig),
- Sir Fynwy sydd â'r disgwyliad oes gwrywaidd a benywaidd uchaf a'r disgwyliad oes iach uchaf yn ardal y bwrdd iechyd,

- Y gyfradd salwch cyfyngus hirdymor fesul 10,000 o'r boblogaeth yw'r isaf yng Nghymru, a
- Mae gan 44.6% o aelwydydd ddau gar neu fwy (y ganran uchaf yn ardal y bwrdd iechyd a hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru).

Gan ystyried maint y boblogaeth sy'n byw yn y rhannau hyn o'r ardal leol, pe bai cais yn cael ei dderbyn ar gyfer fferyllfa newydd, mae'n debygol iawn y byddai lleoliad neilltuedig yn cael ei benderfynu ynghlwm ag ef. Fel arfer, pan fydd fferyllfa'n agor mewn ardal y penderfynwyd ei bod yn wledig ei chymeriad (y cyfeirir ati fel ardal reoledig) ni all unrhyw un sy'n byw o fewn 1.6km iddi mewn llinell syth ddisgwyl i'w practis meddyg teulu ddosbarthu ar eu cyfer mwyach. Fodd bynnag, pan benderfynir ar leoliad neilltuedig yng nghyswllt fferyllfa, mae'n golygu bod y bobl hynny sy'n byw o fewn 1.6km iddo yn parhau i fod yn gleifion y dosberthir iddynt yn eu practis a gallant ddewis yn lle y dosberthir eu presgripsiynau bob tro y rhoddir un.

O ganlyniad i hyn, pe bai fferyllfa'n gwneud cais llwyddiannus i agor yn y rhan hon o'r ardal leol, mae'n annhebygol o fod yn ddichonadwy yn ariannol oherwydd y nifer isel o eitemau y byddai'n eu derbyn a'r diffyg galw am wasanaethau uwch a gwell.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.2 Gwasanaeth adolygu'r defnydd ar feddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Cyn atal y gwasanaeth hwn, roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Darparodd tair fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau defnydd ar feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth dau hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.3 Adolygiad meddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae saith o’r fferyllfeydd wedi darparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r sgiliau sydd eu hangen ar fferyllwyr i ddarparu’r gwasanaeth hwn yr un fath ag ar gyfer y gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn gallu darparu’r gwasanaeth hwn.
- Ni all y systemau TG yn yr ysbytai drosglwyddo gwybodaeth am gleifion wedi’u rhyddhau i’r systemau TG yn y fferyllfeydd ar hyn o bryd. Felly, os na fydd y claf yn mynd â’i lythyr rhyddhau i’r fferyllfa, mae’n bosibl na fydd modd i’r fferyllydd ddweud a yw yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei adolygu a gall y sefyllfa wella yn ystod oes y ddogfen hon.
- Oherwydd yr ystod o feddyginiaethau sydd wedi’u cynnwys yn y gwasanaeth, dim ond cyfran fach o gleifion sy’n cael eu rhyddhau fydd yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth hwn.
- Gan fod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig i’r practisau meddygon teulu, mae llai o risg o gamgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Yn ogystal, gall practisau meddygon teulu gysoni meddyginiaethau ar ôl i gleifion gael eu rhyddhau.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Felly, mae’r bwrdd iechyd yn fodlon mai’r rheswm mwyaf tebygol y tu ôl i lefel gymharol isel darpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy’n amlygu eu hunain i fferyllfa, ac nid anallu nac amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.4 Adolygiadau defnyddio cyfarpar

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar a bod gan bob un ohonynt un ai ddigon o le a lefelau staffio o fewn eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu, neu y gallent wneud addasiadau i’r perwyl hwnnw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.5 Teilwra cyfarpar stoma

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar a bod gan bob un ohonynt ddigon o le a lefelau staffio ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu, neu y gallent wneud addasiadau i’r perwyl hwnnw.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.6 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae naw o’r 11 fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mae dosbarthiad da o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth ar draws yr ardal.
- Bydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractisau meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae ffocws cynyddol ar ddulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor ar gyfer menywod cymwys.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.7 Rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae pob fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn gyda lleoliadau wedi eu gwasgaru’n dda ar draws yr ardal leol.

- Sir Fynwy sydd â'r ganran isaf o bobl 16 oed neu hŷn sy'n ysmygu (16.5%)
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd pump nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.8 Rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae saith o'r 11 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Sir Fynwy sydd â'r ganran isaf o bobl 16 oed neu hŷn sy'n ysmygu (16.5%).
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.9 Cyfarwyddyd grŵp cleifion rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae dwy fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn fel rhan o'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3.
- Gall practisau meddygon teulu roi presgripsiynau ar gyfer Varenicline, felly gall trigolion yr ardal fanteisio ar y gwasanaeth yn y ffordd honno yn hytrach na thrwy'r gwasanaeth hwn. Serch hyn, fferyllfeydd yw'r unig darparwyro cymorth ysbrodoli un i una gwasanaeth ffarmatolegol trwy gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3.
- Sir Fynwy sydd â'r ganran isaf o bobl 16 oed neu hŷn sy'n ysmygu (16.5%).
- Gwasanaeth cymharol newydd yw hwn ac mae'n bosibl felly nad yw fferyllfeydd wedi dod ymlaen eto i'w ddarparu.
- O mis Mehefin 2021 mae'r dosbarthwyr Champix® (Varenicline) wedi stopio gan Pfizer, yr unig cynhyrchwyr. Nid oes dyddiad wedi nod i hyn ailgychwyn.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw

ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd pump nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Gan bod Varenicline ar hyn o bryd ddim ar gael mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gweithio gyda’r fferyllfeydd sydd heb hyd yn hyn arwyddo lan i deall pam.

Ar sail yr uchod, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod angen i’rfferyllfeydd i ddarparu'r gwasanaeth lefel 3 i hefyd darparu’r gwasanaeth dim yn hwyrach na 12 mis wedi i’r cynyrch i ddod ar gael.. Os na fydd hynny'n digwydd yna, 12 mis wedi i’r cynyrch ddod ar gael bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn mewn saith lleoliad wedi'u dosbarthu’n gyfartal ar draws yr ardal, yn yr ardaloedd lle ceir y dwysedd poblogaeth uwch.

13.6.10 Brechiad rhag y ffliw

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae naw o’r 11 fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Erbyn Awst 2021, chwech o’r fferyllfeydd hyn sydd wedi arwyddo lan i ddarparu’r gwasnaeth yn 2021/22 ac rydym yn rhagweld bydd mwyafrif o’r gweddill yn arwyddo lan. O ran un o'r fferyllfeydd nad yw wedi ei gomisiynu i darparu’r gwasanaeth yn 2020/21, mae fferyllfeydd eraill yn y dref yn darparu'r gwasanaeth. O ran yr ail fferyllfa nad yw wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth nid oes angen gan fod practis meddygon teulu yn y dref yn cyflawni lefelau brechu uchel o'r grwpiau sydd mewn perygl, ac mae'r lefelau hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.11 Gwasanaeth mân anhwylderau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Un o amcanion y gwasanaeth yw lleihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu ac felly byddai'n fuddiol pe bai mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw

ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.12 Cyflenwad meddyginiaeth frys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae deg o’r 11 fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn. Caiff yr unfed ar ddeg ei chomisiynu yn 2021/22.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.13 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae un o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth lefel 1 hwn.
- Mater i'r cartref gofal yw dewis pa fferyllfa, os o gwbl, y mae'n dymuno gweithio gyda hi ynghylch meddyginiaethau.
- Bydd cartrefi gofal wedi dewis gweithio gyda darparwyr y tu allan i'r ardal.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd oherwydd y nifer isel sy'n manteisio ar y gwasanaeth.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.14 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail rhoi presgripsiynau i gleifion am feddyginiaeth y mae angen ei harsylwi.

- Nid oes yr un fferyllfa wedi'i chomisiynu ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaeth hwn gan nad oes angen gwneud hynny.
- Pan fu angen comisiynu yn y gorffennol, nid yw'r bwrdd iechyd wedi cael unrhyw anhawster i ddod o hyd i fferyllfa sy'n fodlon darparu'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.15 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail anghenion cleifion. Prin y bu ei angen ers ei sefydlu.
- Mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaeth.
- Comisiynir y gwasanaeth ledled Gwent ac fe'i darperir gan saith fferyllfa ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.16 Gwasanaethau rhagnodi annibynnol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Gwasanaeth newydd yw hwn sy'n dibynnu ar sicrhau bod cyrsiau hyfforddi ar gael a fferyllwyr sydd yn gallu eu cwblhau.
- Nid oes yr un fferyllfa wedi'i chomisiynu ar hyn o bryd i ddarparu'r un o'r gwasanaethau yma, er bod dwy fferyllydd yn ymgymryd â'r hyfforddiant.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Yn unol â Fferylliaeth: Darparu Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol gyda rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag,

nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.17 Gwasanaethau rhoi meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Y sector gofal cymdeithasol sy'n gyrru'r galw am y gwasanaethau hyn.
- Mae wyth fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu cofnodion rhoi meddyginiaethau neu systemau dognau wedi'u monitro a dwy i ddarparu peiriannau dosbarthu tabledi awtomatig.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.18 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae dwy o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i ddarganfod ble yr hoffent gael mynediad i'r gwasanaeth hwn ac yna'n cysylltu â'r bwrdd iechyd i gomisiynu'r gwasanaeth yn y lleoliad neu'r lleoliadau gofynnol.
- Adroddir bod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno teithio y tu allan i’w hardal leol i gael mynediad i'r gwasanaeth.
- Mae darparwyr eraill ar gyfer y gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.19 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau bod amrywiaeth o fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.

- Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.20 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau bod amrywiaeth o fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae pump o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.6.21 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae naw fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn gyda’r lleoliadau wedi eu gwasgaru’n dda ar draws yr ardal leol.
- Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o gapasiti o fewn eu safleoedd a’u lefelau staffio presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd tair nad oedd y capasiti ganddynt ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14 Ardal de Sir Fynwy

14.1 Ffeithiau allweddol ar gyfer ardal Cyngor Sir Fynwy

- Sir wledig yn bennaf gyda 53% o gyfanswm y boblogaeth yn byw mewn wardiau a ddiffinnir fel rhai mewn ardaloedd trefol.
- Ardal ffyniannus yn gyffredinol sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel i'w thrigolion.
- Mae disgwyl i’r boblogaeth leihau 1.3% rhwng 2011 a 2036
- Y dwysedd poblogaeth isaf yn ardal y bwrdd iechyd, a hefyd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Dim ardaloedd cynnyrch ehangach is o fewn y 10% mwyaf difreintiedig a dim ond pedwar yn y 50% mwyaf difreintiedig
- Y gyfradd ffrwythlondeb gyffredinol isaf yn ardal y bwrdd iechyd a hefyd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Disgwyliad oes gwrywaidd a benywaidd uchaf (80.3 ac 84.0 mlynedd yn y drefn honno)
- Disgwyliad oes iach uchaf adeg geni ar gyfer dynion a menywod (65.7 a 64.3 blynedd yn y drefn honno)
- Cyfradd isaf y marwolaethau cynamserol o glefydau allweddol nad ydynt yn drosglwyddadwy ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Cyfradd isaf o salwch cyfyngus hirdymor fesul 10,000 o'r boblogaeth, ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Y ganran uchaf o bobl sy'n dweud bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi eu cyfyngu llawer
- Cyfran uchaf o aelwydydd un person a feddiennir gan rywun 65 oed a throsodd
- Canran uchaf o aelwydydd un teulu yn unig gyda phob aelod 65 oed a throsodd
- Mae gan 44.6% o aelwydydd ddau gar neu fwy (y ganran uchaf yn ardal y bwrdd iechyd a hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- mae 62.9% o'r boblogaeth mewn cyflogaeth ac mae 17.6% wedi ymddeol (canrannau uchaf yn ardal y bwrdd iechyd)
- Canran isaf y bobl sy'n gofalu am gartref neu deulu (3.75%)
- Canran isaf y bobl sy'n sâl neu'n anabl yn y tymor hir ac sy'n economaidd anweithgar
- Canran isaf y rhai nad ydynt yn yfed (12.6%) a'r ganran uchaf o yfwyr peryglus (21.7%)
- Canran isaf y bobl 16 oed neu drosodd sy'n ysmygu (16.5%)
- Mae 17% yn ordew (sy'n sylweddol well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru) ac mae 54% dros eu pwysau neu'n ordew
- Nid yw 70% yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd (sy'n sylweddol well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Mae 23% yn actif am lai na 30 munud yr wythnos (yn sylweddol well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)

Mae pum safle tai strategol yn yr ardal.

- Crick Road, Porthsgiwed
- Fairfield Mabey, Cas-gwent
- Fferm Rockfield, Gwndy
- Tir yn Vinegar Hill, Gwndy, a
- Cyn felin bapur, Sudbrook.

Cais amlinellol ar y cyd (DM/2018/00696) ar gyfer 291 o unedau preswyl (218 uned farchnad a 73 uned fforddiadwy) yn **Crick Road** gafodd ganiatâd ym mis Mawrth 2019. Yn 2019/20 cymeradwywyd cais materion a gadwyd yn ôl (DM/2019/01041) ar gyfer 269 o unedau preswyl (201 uned farchnad a 68 uned fforddiadwy). Mae hyn yn is na'r nifer targed o unedau ar gyfer y safle (285) gyda cwymp yn nwysedd y safle yn cael ei yrru gan newidiadau i'r mathau arfaethedig o dai a thrwy welliannau cadarnhaol i ddyluniad y safle.

Bydd y datblygiad hefyd yn cynnwys cartref gofal 32 gwely a oedd yn destun cais cynllunio ar wahân, DM/2019/01629, a roddwyd ar 26 Chwefror 2020. Mae derbyn y golled hon wedi'i gyfiawnhau'n flaenorol ynghlwm a chaniatâd amlinellol a gymeradwywyd mewn cyfnod monitro cynharach. Disgwylir i’r unedau cyntaf gael eu cwblhau yn 2021/22.

Cafodd cais amlinellol (DC/2014/01290) ar gyfer **Fairfield Mabey** ei gyflwyno ym mis Hydref 2014 ar gyfer hyd at 600 o unedau preswyl, gofod masnachol gan gynnwys swyddfeydd a gweithdai, gofod llawr manwerthu/bwyd a diod ar raddfa fach a mannau agored gwyrdd a glas amlswyddogaethol. Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 450 o unedau (432 uned marchnad a thua 18 uned fforddiadwy ar 1.5 erw o'r safle) ym mis Tachwedd 2017. Mae'r gwaith ar y safle bellach wedi dechrau.

Fferm Rockfield wedi'i neilltuo ar gyfer 270 o unedau preswyl a 2 hectar o dir â gwasanaeth at ddefnydd busnes a diwydiannol. Cyflwynwyd cais cynllunio amlinellol ym mis Gorffennaf 2016 (DC/2016/00883) ar gyfer 266 o unedau a 5,575m² o dir cyflogaeth. Cymeradwywyd cais amlinellol ym mis Mawrth 2018. Mae cais materion a gadwyd yn ôl (DM/2018/01606) wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer cam 1 y safle - 144 o unedau preswyl. Mae'r safle wrthi'n cael ei adeiladu gydag 16 o anheddau wedi'u cwblhau ar 31 Mawrth 2019.

Mae'r safle ar gyfer 225 o unedau preswyl ar **dir yn Vinegar Hill** yn gysylltiedig â safle cyfagos Fferm Rockfield ac roedd disgwyl iddo symud ymlaen ar y cyd. Fodd bynnag, er bod y cynnydd cychwynnol wedi bod yn araf, cyflwynodd y datblygwr gais hybrid (DM/2019/01937) ym mis Tachwedd 2019. Mae'r cais ar gyfer 155 o anheddau, 72 o anheddau fel cais llawn ac 83 o anheddau fel cais amlinellol. Disgwylir i’r unedau cyntaf gael eu cwblhau yn 2021/22.

Cyflwynwyd cais cynllunio llawn (DC/2015/01184) ar gyfer y **hen Felin Bapur** ym mis Hydref 2015 ar gyfer 212 o unedau preswyl (192 o unedau marchnad ac 20 uned fforddiadwy) ac fe'i cymeradwywyd ym mis Tachwedd 2016. Yn dilyn ail-gynllunio rhan o'r safle mae nifer yr unedau preswyl ar y safle wedi gostwng i 210. Mae'r safle wrthi'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd, gyda 96 o anheddau ar 31 Mawrth 2019.

14.2 Darpariaeth gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal leol

Mae saith fferyllfa yn yr ardal a weithredir gan dri chontractwr gwahanol, ac mae pedwar o'r pum practis meddyg teulu yn dosbarthu o gyfanswm o chwe safle gyda dau ohonynt wedi'u lleoli yn Lloegr. Mae lefel y dosbarthu yn amrywio o 6.1% o boblogaeth gofrestredig y practis i 93.5%.

Fel y gwelir yn y map isod, mae fferyllfeydd wedi'u lleoli'n gyffredinol mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uwch. Nid oes cydberthynas rhwng lleoliad safleoedd practisau dosbarthu ac un ai ddwysedd poblogaeth is neu fwy.

Map 74 – lleoliad y fferyllfeydd o'u cymharu â dwysedd poblogaeth



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Fel y gwelir o'r map isod nid oes llawer o gydberthynas rhwng lleoliad safleoedd a'r ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd.

Map 75 – lleoliad fferyllfeydd a safleoedd meddygon fferyllol o'i gymharu â lefel yr amddifadedd



© Trwydded Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Yn 2019/20, cafodd 70.9% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn yr ardal leol eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal. Codwyd hyn i 81.9% yn 2020/21. Dosbarthwyd 13.5% gan bractisau fferyllol, 11.6% yn 2020/21.

Mae'r map isod yn dangos yr amser gyrru i fferyllfa gyda’r gwyrdd tywyllaf yn cynrychioli’r amser byrraf. Fel y gwelir, mae pedair ardal (cylchoedd coch) nad ydyn nhw o fewn taith yrru 20 munud i fferyllfa. Mae Google Maps yn datgelu bod y pedair ardal hon yn brin iawn eu poblogaeth gydag ychydig o dai a ffermydd gwasgaredig, ac mae eu meddygfeydd teulu sydd yn debygol o ddosbarthu i’r bobl sy'n byw yno.

Map 76 – mynediad i fferyllfeydd yn yr ardal



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

O ran pryd mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae un ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener,
- Mae pedair ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, a rhan o Ddydd Sadwrn,
- Mae un ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn, a
- Mae un ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Sul.

Mae rota Dydd Sul ar waith fel bod un fferyllfa yng Nghasnewydd ar agor rhwng 18.00 ac 20.00, ond nid o reidrwydd o fewn yr ardal leol hon.

O ran yr amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener:

- Mae un yn agor am 08.30, un yn agor am 08.45 ac mae'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae pedwar yn cau am 17.30, mae un yn cau am 17.45 (ac eithrio ar Ddydd Mercher pan fydd yn cau am 17:00) a dau yn cau am 18.00.

Mae dau fferyllfa yn aros ar agor trwy'r dydd; mae’r gweddill yn cau amser cinio rhwng 13.00 a 14.00.

Ar Ddydd Sadwrn, mae un fferyllfa yn agor am 08.30 gyda'r gweddill yn agor am 09.00. Mae un o'r ddau sydd ar agor drwy'r dydd yn cau am ginio; maent yn cau naill ai am 17.00 neu 17.30

Cafwyd y wybodaeth yng ngweddill yr adran hon drwy holiadur y contractwr.

Mae modd cyrchu pob un o’r fferyllfeydd mewn cadair olwyn, ac mae gan chwech ohonynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae’r holl fannau ymgynghori yn:

- ystafelloedd caeedig,
- ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb fod eraill yn clywed, ac sydd
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Dim ond un fferyllfa a ddarparodd wybodaeth am ieithoedd a siaredir ar wahân i'n Saesneg – Ffrangeg ac Arabeg. Fodd bynnag, gan nad oes gan 86.0% o breswylwyr unrhyw sgiliau Cymraeg a bod gan 98.2% y Saesneg fel eu prif iaith (data lefel awdurdod lleol, Cyfrifiad 2011), mae hyn, ynghyd ag argaeledd Llinell Iaith, yn golygu nad yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw broblemau i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad at wasanaethau mewn iaith heblaw Saesneg.

Mae chwech o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar ac mae un nad yw’n dosbarthu unrhyw gyfarpar.

Mae’r saith fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu. O ran danfon eitemau dosbarthu:

- mae un yn cynnig gwasanaeth danfon am ddim i bawb ar gais,

- mae pump yn cynnig gwasanaeth danfon am ffi,
- mae un yn cynnig gwasanaeth danfon am ddim ac y gellir codi tâl amdano.
- mae un fferyllfa yn cyfyngu ei gwasanaeth i bobl sy'n lleol i Gas-gwent ac ardaloedd cyfagos.

Roedd un fferyllfa o'r farn bod angen gwasanaeth presennol gwell nad yw eisoes yn cael ei gynnig ar hyn o bryd. Gwasanaeth blychau miniog yw hwn i dderbyn a ddychwelir gan gleifion oherwydd bod llawer o bobl yn ymholi ac mae'r fferyllfa'n trosglwyddo rhif ffôn i'w ffonio ond mae'n amau bod rhai pobl yn eu taflu i ffwrdd â'u sbwriel.

O ran gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, awgrymodd un fferyllfa y dylid darparu brechiadau Covid.

Cadarnhaodd chwech fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, ond nododd un nad ydoedd ond y gallent wneud addasiadau.

O ran cynlluniau ar y gweill i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cynnig:

- Dywedodd dau eu bod yn hapus i gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir, a
- Dywedodd un ei fod yn gobeithio darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu.

Ymatebodd un o'r pum practis dosbarthu i'r holiadur meddygon fferyllol ac mae'n darparu gwasanaethau o un safle. Roedd ei ymatebion fel a ganlyn:

- Mae ei fferyllfa yn agor rhwng 08.30 a 18.30, o Ddydd Llun i Ddydd Gwener.
- Mae'n dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.
- Nid yw'n cynnig gwasanaeth danfon.
- Nid oes unrhyw staff yn siarad Cymraeg.
- Mae digon o gapasiti yn ei safle presennol ac o ran ei lefelau staffio i reoli cynnydd yn y galw.
- Mae'n darparu siartiau cofnodi rhoi meddyginiaethau, blychau dos a siartiau meddyginiaethau. Defnyddio dosbarthu awtomatig.

14.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Roedd pob un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gydag un yn darparu'r nifer uchaf posibl, sef 400. Roedd chwech o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2019/20, gydag un yn darparu'r nifer uchaf posibl. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae'r gwasanaeth wedi'i atal

tan fis Ebrill 2022 oherwydd pandemig Covid, fodd bynnag, rhagwelir y unwaith y bydd y gwasanaeth yn ailgychwyn y bydd y fferyllfeydd yn ailddechrau’r ddarpariaeth.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r cylchoedd glas sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 77 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd ar feddyginiaethau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

14.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Roedd chwech o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, ond ni ddarparodd yr un ohonynt y nifer uchaf posibl, sef 140 o adolygiadau. Roedd tair fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth yn 2019/20, ond eto, ni ddarparodd yr un ohonynt y nifer uchaf posibl. Mae dau o’r fferyllfeydd wedi darparucyfanswm o 37 adolygiad.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau pinc sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 78 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau ar feddyginiaethau wrth ryddhau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

14.2.3 Adolygiadau defnyddio cyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn er bod chwech yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o cyfarpar.

14.2.4 Teilwra cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal leol yn darparu'r gwasanaeth hwn er bod chwech yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

14.2.5 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Roedd chwe fferyllfa yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a 2019/20. Mae chwech fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth a chwech wedi comisynu yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 79 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

14.2.6 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Darparodd pedair fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a phump yn 2019/20. Mae chwe fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn gostwng i pump yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd marŵn sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 80 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2 yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

14.2.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Darparodd pump o’r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Yn 2020/21, mae pedair fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth yn gostwng i tair yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 81 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3 yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

14.2.8 Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3, Cynllun Varenicline

Roedd un fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, a dim un erbyn 2019/20. Mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn gostwng i dim yn 2021/22.

14.2.9 Brechiad rhag y ffliw

Roedd tair o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Yn 2020/21, mae chwe fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth ac wedi rhoi cyfanswm o 318 brchiad.

Erbyn Awst 2021, mae un fferyllfa wedi arwyddo i fyny i ddarparu y gwasanaeth yma yn 2021/22 er rhagdybir bydd mwyafrif o’r gweddill yn arwyddo lan.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 82 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau rhag y ffliw yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

14.2.10 Gwasanaeth mân anhwylderau

Roedd dwy fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i chwech yn 2019/20. Yn 2021/21 mae saith fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae’r saith wedi comisynu i ddarparu yn 2020/21.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 83 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth mân anhwylderau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

14.2.11 Cyflenwad meddyginiaeth frys

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i bump yn 2019/20. Yn 2020/21, mae'r holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac hefyd wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 84 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwad meddyginiaeth frys yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

14.2.12 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae un fferyllfa wedi comisynu i ddarparu y gwasanaeth lefel 1 yn 2021/22.

14.2.13 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

14.2.14 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

14.2.15 Gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r un o’r gwasnaethau yma yn 2021/22.

14.2.16 Gwasanaeth rhoi meddyginiaethau

Yn 2020/21, mae tair fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth sy’n cynnwys darparu cofnod rhoi meddyginiaethau neu system ddognau wedi ei monitro, ac mae tair wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu dosbarthwyr tabledi awtomatig yn 2021/22.

14.2.17 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae dwy fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 sc mse dwy wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

14.2.18 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Mae dwy fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

14.2.19 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Nid oes un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

14.2.20 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae pob un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac maent i gyd wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

14.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai preswylwyr yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cyrchu gwasanaethau:

- A gynigir gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar
- Sy'n agos at yr ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2019/20 wedi'u dosbarthu gan unrhyw un o'r saith fferyllfa yn yr ardal leol, cafodd 9.6% eu dosbarthu y tu allan i'r ardal leol:

- 5.5% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 1.6% gan fferyllfeydd yn nwyrain Casnewydd,
- 1.5% gan fferyllfeydd yng ngogledd Sir Fynwy
- 0.5% gan fferyllfeydd yng ngorllewin Casnewydd
- 0.2% yr un gan fferyllfeydd yng ngogledd a
- 0.1% mewn mannau eraill yng Nghymru.

Yn 2020/21 gafwyd llai o presgripsiynau ei dosbarthu tu allan i'r ardal lleol (7.9%) gyda'r mwyafrif o rhain wedi dosbarthu yn Lloegr (5.7%) a dwyrain Casnewydd (1.4%)

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu ragor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

14.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae'r practisau meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

- Brechiadau rhag y ffliw
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer mân anhwylderau
- Mae un practis dosbarthu yn darparu siartiau cofnodi rhoi meddyginiaethau, blychau dos a siartiau meddyginiaethau.

Dosbarthwyd 0.9% o’r eitemau a ragnodwyd gan y practisau yn bersonol gan y practisau meddygon teulu nad ydynt yn dosbarthu yn 2019/20, yn gostwng bach i 0.8% yn 2020/21.

Bydd preswylwyr yn defnyddio gwasanaethau eraill y GIG sydd wedi'u lleoli yn yr ardal hon neu rywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen,
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol,
- Y gwasanaeth ymarferwyr anhwylderau hirdymor, a
- Helpa Fi i Stopio.

Ceir manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Nid oes unrhyw wasanaethau eraill y GIG wedi'u nodi sydd wedi eu lleoli yn yr ardal ac yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

14.5 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o'r adrannau blaenorol, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r pum practis meddyg teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn yr ardal i gael dosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae rhai yn dewis edrych y tu allan i'r ardal, fel arfer i gyrchu fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar yn agos at eu gweithle neu siop, neu y byddent yn mynd iddo ar gyfer hamdden neu reswm arall.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 180 o gontractwyr eitemau a ragnodwyd gan un o bractisau meddygon teulu yr ardal hon, ac o’r rheiny:

- roedd saith o fewn yr ardal leol,
- roedd 79 yn rhywle arall o fewn ardal y bwrdd iechyd,
- roedd 97 yn rhywle arall yng Nghymru,
- cafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr.

Gostyngwyd hyn i 123 yn 2020/21:

- Saith wedi lleoli o fewn yr ardal lleol,
- 60 wedi lleoli rhywle arall o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,

- 49 wedi lleoli rhywle arall yng Nghymru, a
- Nifer o presgripsiynau wedi dosbarthu yn Lloegr.

14.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

14.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd yn bennaf yn rhan ddeheuol yr ardal leol ac yn gyffredinol wedi eu lleoli mewn ardaloedd lle ceir dwysedd poblogaeth uwch a lefelau uwch o amddifadedd. Yn ardaloedd llai poblog canol a gogledd yr ardal leol, eu meddugfa sy’n dosbarthu i’r trigolion.
- Mae pedair ardal nad ydynt o fewn 20 munud o yrru i fferyllfa. Mae Google Maps yn datgelu mai poblogaeth brin iawn sydd yn yr ardaloedd hyn gydag ychydig o dai a ffermydd gwasgaredig. Eu practis meddyg teulu fydd yn dosbarthu i bobl yn byw yno.
- Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Fynwy yn gostwng 1.3% rhwng 2011 a 2036.
- Mae pum safle tai strategol yn yr ardal a fydd yn creu tua 1,590 o unedau tai. Lleolir pob un ohonynt yn ne'r ardal, o Gasgwent yn symud tua'r gorllewin tuag at Gasnewydd.
- Cadarnhaodd chwech fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dwedodd un nad oedd ond y gallai wneud addasiadau.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y pum safle tai strategol ac a oes angen darparu gwasanaeth neu wasanaethau fferyllol yn unrhyw un ohonynt ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.

O ran y datblygiad yng Nghas-gwent a elwir yn Fairfield Mabey, nodir bod hyn yn y dref a bod y tair fferyllfa i gyd wedi dweud bod ganddynt y gallu i reoli cynnydd yn y galw. Bydd y datblygiad yn creu hyd at 600 o unedau preswyl. Nid yw Cas-gwent yn ardal reoledig ac felly ni all meddyg fferyllol ddosbarthu i breswylwyr. Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon y gall yr ystâd bresennol fodloni'r galw ychwanegol am wasanaethau fferyllol a gaiff ei greu. Felly nid yw wedi nodi angen ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am wasanaethau hanfodol yn y datblygiad hwn.

Mae'r pedair safle arall yn ymledu tua'r gorllewin o Gas-gwent a gyda'i gilydd byddant yn creu:

- 291 o unedau tai yn Porthsgiwed,
- 210 yn Sudbrook, a
- 495 yn y Gwndy.

Mae'r rhan hon o'r ardal yn cael ei gwasanaethu gan fferyllfeydd a meddygon fferyllol. Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon y gall yr ystâd bresennol fodloni'r galw ychwanegol am wasanaethau fferyllol a gaiff ei greu. Felly nid yw wedi nodi angen ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am wasanaethau hanfodol yn y datblygiad hwn.

14.6.2 Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Cyn atal y gwasanaeth hwn, roedd yn cael ei ddarparu gan bob un namyn un o'r fferyllfeydd.
- Darparodd un fferyllfa yr uchafswm nifer o adolygiadau defnyddio meddyginiaethau yn 2018/1 a 2019/209.
- Cadarnhaodd chwech fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dwedodd un nad yw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.3 Adolygu dosbarthu meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae dwy o’r saith fferyllfa wedi darparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r sgiliau sydd eu hangen ar fferyllwyr i ddarparu’r gwasanaeth hwn yr un fath ag ar gyfer y gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn gallu darparu’r gwasanaeth hwn.
- Ni all y systemau TG yn yr ysbytai drosglwyddo gwybodaeth am gleifion wedi’u rhyddhau i’r systemau TG yn y fferyllfeydd ar hyn o bryd. Felly, os na fydd y claf yn mynd â’i lythyr rhyddhau i’r fferyllfa, mae’n bosibl na fydd modd i’r fferyllydd ddweud a yw yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei adolygu a gall y sefyllfa wella yn ystod oes y ddogfen hon.
- Oherwydd yr ystod o feddyginiaethau sydd wedi’u cynnwys yn y gwasanaeth, dim ond cyfran fach o gleifion sy’n cael eu rhyddhau fydd yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth hwn.
- Gan fod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig i’r practisau meddygon teulu, mae llai o risg o gamgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Yn ogystal, gall practisau meddygon teulu gysoni meddyginiaethau ar ôl i gleifion gael eu rhyddhau.
- Cadarnhaodd chwech fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y

gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dwedodd un nad yw ond y gallai wneud addasiadau.

Felly, mae’r bwrdd iechyd yn fodlon mai’r rheswm mwyaf tebygol y tu ôl i lefel gymharol isel darpariaeth y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy’n amlygu eu hunain i fferyllfa, ac nid anallu nac amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.4 Adolygiadau defnyddio cyfarpar

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar a bod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.5 Teilwra cyfarpar stoma

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwech o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar a bod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.6 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae chwech o’r saith fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mae dosbarthiad da o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth ar draws yr ardal.
- Bydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractisau meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae ffocws cynyddol ar ddulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor ar gyfer menywod cymwys.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae pump o’r saith fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn gyda dosbarthiad da o leoliadau ar draws yr ardal.
- Sir Fynwy sydd â'r ganran isaf o bobl 16 oed neu hŷn sy'n ysmygu (16.5%)
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.8 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- mae tair o’r saith fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.
- Sir Fynwy sydd â'r ganran isaf o bobl 16 oed neu hŷn sy'n ysmygu (16.5%)
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.9 Cyfarwyddyd grŵp cleifion rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Does dim un fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn fel rhan o'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3.
- Gall practisau meddygon teulu roi presgripsiynau ar gyfer Varenicline, felly gall trigolion yr ardal fanteisio ar y gwasanaeth yn y ffordd honno yn hytrach na thrwy’r gwasanaeth hwn. Serch hyn, fferyllfeydd yw’r unig darparwyr of gwasnaeth un i un ysgogol a cymorth ffarmacotherapi trwy’r gwasnaeth rhoi’r gorau i ysmygu lefel 3.
- Sir Fynwy sydd â'r ganran isaf o bobl 16 oed neu hŷn sy'n ysmygu (16.5%)
- Gwasanaeth cymharol newydd yw hwn ac mae’n bosibl felly nad yw fferyllfeydd wedi dod ymlaen eto i'w ddarparu.
- O Mehefin 2021 mae dosbarthwyr Champix® (Varenicline) wedi stopio gan Pfizer, yr unig cynhyrchwyr o’r cynyrch yma. Nid ydym ar hyn o bryd yn ymwybodol o pryd fydd ar gael eto.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Gan bod Varenicline ddim ar gael ar hyn o bryd mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfeydd yna sydd heb arwyddo lan i darparu’r gwasanaeth i deall pam.

14.6.10 Brechiad rhag y ffliw

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae chwech o’r saith fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. O Awst 2021, mae un o’r fferyllfeydd wedi arwyddo i ddarparu’r gwasanaeth yn 2021/22, serch hyn rydym yn rhagweld bydd mwyafrif o’r gweddill yn arwyddo lan.
- Mae darparwyr eraill y gwasanaeth yn yr ardal.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.11 Gwasanaeth mân anhwylderau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Un o amcanion y gwasanaeth yw lleihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu ac felly byddai'n fuddiol pe bai mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dwedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.12 Cyflenwad meddyginiaeth frys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.13 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth lefel 1 yma.
- Mater i'r cartref gofal yw dewis pa fferyllfa, os o gwbl, y mae'n dymuno gweithio gyda hi ynghylch meddyginiaethau.
- Bydd cartrefi gofal wedi dewis gweithio gyda darparwyr y tu allan i'r ardal.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd oherwydd y nifer isel sy'n manteisio ar y gwasanaeth.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.14 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail rhoi presgripsiynau i gleifion am feddyginiaeth y mae angen ei harsylwi.
- Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd.
- Pan fu angen comisiynu yn y gorffennol, nid yw'r bwrdd iechyd wedi cael unrhyw anhawster i ddod o hyd i fferyllfa sy'n fodlon darparu'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.15 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail anghenion cleifion. Prin y bu ei angen ers ei sefydlu.
- Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd.
- Comisiynir y gwasanaeth ledled Gwent ac fe'i darperir gan saith fferyllfa ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.16 Gwasanaethau darparu presgripsiwn annibynnol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Gwasanaeth newydd yw hwn sy'n dibynnu ar sicrhau bod cyrsiau hyfforddi ar gael a fferyllwyr sydd yn gallu eu cwblhau.

- Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r un o’r gwasanaethau yma.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Yn unol â Fferylliaeth: Darparu Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld yr holl fferyllfeydd presennol gyda rhagnodydd annibynnol. Fodd bynnag, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.17 Gwasanaethau rhoi meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Y sector gofal cymdeithasol sy'n gyrru'r galw am y gwasanaethau hyn.
- Mae tair fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu cofnodion rhoi meddyginiaethau neu systemau dognau wedi'u monitro a thair i ddarparu peiriannau dosbarthu tabledi awtomatig.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dwedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.18 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae dwy fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i ddarganfod ble yr hoffent gael mynediad i'r gwasanaeth hwn ac yna'n cysylltu â'r bwrdd iechyd i gomisiynu'r gwasanaeth yn y lleoliad neu'r lleoliadau gofynnol.
- Adroddir bod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno teithio y tu allan i’w hardal leol i gael mynediad i'r gwasanaeth.
- Mae darparwyr eraill ar gyfer y gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dwedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.19 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau bod amrywiaeth o fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae dwy fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.20 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau bod amrywiaeth o fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Does dim un fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.6.21 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd un nad ydyw ond y gallai wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

15 Ardal Dwyrain Casnewydd

15.1 Ffeithiau allweddol am ardal Cyngor Dinas Casnewydd

- Y drydedd ganolfan drefol fwyaf yng Nghymru gyda phoblogaeth o 154,676.
- Y nifer fwyaf ond un o bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig o holl siroedd Cymru (ar ôl Caerdydd)
- Amcenir y byd y boblogaeth yn cynyddu 17.3% rhwng 2011 a 2036
- Yr ardal fwyaf poblog yng Ngwent, a phum gwaith yn fwy poblog na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Poblogaeth fwy amrywiol o ran ethnigrwydd nag ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill
- Mae gan lai o bobl y Saesneg fel eu prif iaith yng Nghasnewydd o gymharu ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill (95% o gymharu â 99%)
- Cartref i boblogaeth Fwslimaidd sylweddol, yr ail uchaf yng Nghymru ar ôl Caerdydd
- Canran uchaf yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn y 10% mwyaf difreintiedig (23 neu 24.2%)
- Cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol uchaf a hefyd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru
- Mae'r bwlch mewn blynyddoedd o ran disgwyliad oes adeg geni dynion rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig yn dal i fod yn sylweddol ond gostyngodd o 10.6 blwyddyn yn 2005-2009 i 9.9 mlynedd yn 2010-2014
- Yn groes i hynny, mae'r bwlch mewn blynyddoedd yn y disgwyliad oes adeg geni menywod rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig wedi cynyddu o 5.7 mlynedd yn 2005-2009 i 7.2 mlynedd yn 2010-2014
- Y cynnydd mwyaf a ragwelir yn nifer y bobl 18 oed neu'n hŷn sydd â salwch cyfyngus hirdymor dros y cyfnod 2013 i 2035 – 25.1%
- Cyfran uchaf y myfyrwyr sy'n economaidd weithgar (3.6%) a hefyd y rhai nad ydynt yn economaidd weithgar (5.3%)
- Cyfran isaf y preswylwyr sydd wedi ymddeol – 14.6%
- Poblogaeth Sipsi a Theithwyr sylweddol mewn safleoedd answyddogol o amgylch cyrion canol y ddinas ac yn aml iawn dyma'r safle heb ei awdurdodi answyddogol i deithwyr sy’n symud tua’r dwyrain/gorllewin rhwng Iwerddon a Lloegr.
- Yn y tair blynedd ariannol 2015-16, 2016-2017 a 2017-2018 roedd y galw mwyaf am wasanaethau i'r digartref (1,707 o aelwydydd)
- Canran uchaf y rhai nad ydynt yn yfed (20.7%), canran isaf yr yfwyr mewn perygl (11.2%) ond y ganran uchaf o yfwyr a niweidir (3.2%)
- Mae 20% o boblogaeth Casnewydd yn ysmygu
- Mae 26% yn ordew ac mae 63% dros bwysau neu'n ordew
- Nid yw 81% yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd (sy'n sylweddol waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)

- Mae 33% yn actif am lai na 30 munud yr wythnos (yn sylweddol well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)

Mae un cais cynllunio o arwyddocâd yn yr ardal:

- Canolfan Ringland – adfywio ystâd. Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ym mis Hydref 2019 ar gyfer ailddatblygu ac adfywio Canolfan Ringland. Mae'r caniatâd yn caniatáu hyd at 165 o anheddau newydd a 1,500m² o ofod masnachol a mannau agored. Cytunwyd ar uwchgynllun ar gyfer adfywio Ringland yn ehangach ac mae'r cais hwn yn rhan allweddol o'r gwaith hwnnw.

Mae dau safle strategol yn yr ardal – Glan Llyn a Llanwern Village.

Mae Glan Llyn yn brosiect adfywio mawr yn gweddnewid hen safle 600 erw Gwaith Dur Llanwern yng Nghasnewydd yn gymuned newydd sylweddol ar gyfer y De. Bydd y prosiect yn cynnwys:

- 4,000 o gartrefi newydd o ansawdd uchel wedi'u hadeiladu i bawb, gan gynnwys prynwyr tro cyntaf a theuluoedd.
- Amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon a digonedd o barcdir agored, cynefinoedd bywyd gwyllt a llynnoedd newydd.
- Ysgolion cynradd, meithrinfeydd a gweithgareddau ar ôl ysgol.
- Parc Busnes Celtaidd 100 erw gyda chynllunio ar gyfer swyddfeydd, gweithgynhyrchu a warysau yn creu tua 2,000 allan o tua 6,000 o swyddi.
- Canolfan leol yn cynnwys tafarn, siopau, hamdden a chyfleusterau cymunedol.
- Strategaeth drafnidiaeth integredig yn cynnwys cysylltiadau ffyrdd newydd, llwybrau beicio, llwybrau troed a gwasanaethau bysiau.

Mae dau ddatblygwr ar y safle ar hyn o bryd a chyflwynwyd cais gan drydydd datblygwr ym mis Rhagfyr 2019. Agorodd yr ysgol gynradd ym mis Medi 2019. Ar 31 Mawrth 2020 doedd dim unrhyw gynlluniau i greu ail ysgol gynradd. Rhagwelwyd y byddai 185 o dai yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn dros oes y ddogfen hon; fodd bynnag, mae'r gyfradd gyflenwi yn llithro gyda dim ond 67 o dai wedi'u cwblhau yn 2019/20. Ar 31 Mawrth 2019 roedd 780 o dai wedi'u cwblhau yn erbyn ffigur rhagamcanol o 1,152 (diffyg o 372).

Mae gan Llanwern Village ganiatâd cynllunio ar gyfer 1,100 o unedau tai. Mae'n ddatblygiad maes glas sy'n cynnwys datblygiad preswyl gyda chyfleusterau cymunedol cysylltiedig fel ysgol. Nid yw wedi darparu'r nifer disgwyliedig o unedau, ond ym mis Mawrth 2020 cwblhawyd 31 yng Ngham 1 gyda'r rhan fwyaf o'r cam hwnnw bellach yn cael ei adeiladu. Mae'r gwaith adeiladu hefyd wedi dechrau ar Gam 2. Er bod y gwaith ar y safle gryn dipyn ar ei hôl hi o ran yr amserlen, mae cynnydd yn cael ei

wneud ar hyn o bryd ac amcangyfrifir y bydd yn cyfrannu tua 480 o unedau rhwng 2020 a 2025.

15.2 Gwasanaethau fferyllol presennol yn yr ardal

Mae 15 o fferyllfeydd yn yr ardal sy'n cael eu gweithredu gan wyth contractwr gwahanol. Nid oes yr un o'r naw practis meddyg teulu yn rai fferyllol. Fel y gellir gweld yn y map isod, ac eithrio un fferyllfa, mae'r holl fferyllfeydd mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uchel.

Map 85 – lleoliad fferyllfeydd o'i gymharu â'r dwysedd poblogaeth



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Fel y gellir gweld yn y map isod, mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd.

Map 86 – lleoliad fferyllfeydd o'i gymharu â lefel yr amddifadedd



© Trwydded Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Yn 2019/20, cafodd 84.3% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn yr ardal leol eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal, yn cynyddu rhywfaint i 85.2% yn 2020/21.

Mae'r map isod yn dangos yr amser gyrru i fferyllfa; y tywyllaf yw'r gwyrdd, yna byrraf y bo'r daith. Fel y gwelir, dim ond un ardal sydd nad yw o fewn 20 munud o daith mewn cerbyd i fferyllfa. Fodd bynnag, mae Google Maps yn datgelu nad oes tai yn yr ardal honno.

Map 87 – defnyddio fferyllfeydd yn yr ardal



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

O ran pryd mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae saith ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener,
- Mae pump ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, a rhan o Ddydd Sadwrn,
- Mae dau ar agor o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn, ac
- Mae un ar agor ar ddyddiau Sul

Mae rota ar ddyddiau Sul yn gweithredu fel bod un fferyllfa yng Nghasnewydd ar agor rhwng 18.00 a 20.00, ond nid o reidrwydd o fewn yr ardal hon.

O ran yr amseroedd y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener:

- Mae un yn agor am 08.00, tri am 08.30, un am 08.45 a'r gweddill am 09.00,
- Mae tri yn cau am 17.30, 11 yn cau am 18.00 (er bod un yn cau am 17.30 ar ddyddiau Iau) ac un yn cau am 20.00.

Mae saith fferyllfa ar agor drwy'r dydd, ac mae'r lleill yn cau amser cinio rhwng 13.00 a 14.00.

Ar ddyddiau Sadwrn, mae un fferyllfa yn agor am 08.30 gyda'r gweddill yn agor am 09.00. Mae dau o’r tair fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd yn cau amser cinio rhwng 13.00 a 14.00. Mae dau yn cau am 17.30 a'r trydydd am 19.00.

Mae'r un fferyllfa sy'n agor ar Ddydd Sul yn gwneud hynny rhwng 10.30 a 16.30.

Derbyniwyd y wybodaeth yng ngweddill yr adran hon drwy holiadur y contractwr.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i bob un o'r fferyllfeydd, ac mae gan 13 ohonynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadair olwyn. Mae’r holl ardaloedd ymgynghori:

- yn ystafelloedd caeedig,
- yn ardaloedd dynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardaloedd ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Rhoddodd tair o'r fferyllfeydd wybodaeth mewn ieithoedd a siaredir ar wahân i'r Saesneg. Siaredir Cymraeg mewn un, Punjabi mewn un arall, ac Urdu a Punjabi mewn un arall. Mae hyn, ynghyd ag argaeledd Llinell Iaith, yn golygu nad yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw broblemau i'r rhai sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau mewn iaith heblaw Saesneg.

Mae pob un o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Mae 14 fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu. O ran dosbarthu eitemau a roddir ar bresgripsiwn:

- mae chwech yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais,
- mae tri yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi,

- mae dau ond yn dosbarthu i'r rhai sydd ag angen clinigol neu broblemau symudedd, dim ond un sy'n dosbarthu i'r rhai ag angen clinigol, mae pedwar yn dosbarthu i bobl abl/anabl,
- mae dau ond yn dosbarthu i god post NP19, ac mae un yn dosbarthu i bob ardal leol.

Mae un fferyllfa o'r farn bod angen gwasanaeth cyfnewid nodwyddau ac mae un arall yn rhagweld dechrau darparu gwasanaeth rhagnodi annibynnol ar gyfer cyflyrau acíwt.

Mae un fferyllfa o'r farn bod angen gwasanaeth gwirio pwysedd gwaed gan nad yw ar gael yn rhwydd yn rhai o'r practisau meddygon teulu lleol. Mae un arall yn credu bod angen gwasanaeth rhagnodi annibynnol gan fod y sefyllfa bresennol wedi gadael llawer o bractisau meddygon teulu yn gweld llai o gleifion nag arfer sy'n golygu bod fferyllwyr wedi gorfod camu i'r adwy i ateb gofynion cleifion. Bydd y gwasanaeth rhagnodi annibynnol yn ychwanegu nifer o fanteision i'r gymuned.

Cadarnhaodd 15 fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu.

Mae cynlluniau ar y gweill mewn wyth fferyllfa i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu:

- Mae dau â fferyllyddion sydd wrthi yn ennill cymhwyster rhagnodi
- Maent ar hyn o bryd yn adolygu eu hopsiynau o ran eu hystâd i ganiatáu i'r fferyllfa ddatblygu ymhellach ei rôl glinigol yn unol â datblygiad y contract fferyllol gan Lywodraeth Cymru
- Adolygu opsiynau i wella effeithlonrwydd y broses rhoi cyffuriau drwy ddefnyddio technoleg
- Gosod peiriant casglu presgripsiynau
- Dim cynlluniau i ehangu safleoedd ond yn hapus i ddarparu gwasanaethau eraill e.e. trin a phrofi dolur gwddf. Hyfforddiant wedi'i gwblhau ac yn barod i ddechrau pan ganiateir hynny.
- Mae ganddynt ragnodydd annibynnol cymwys ac yn bwriadu rhagnodi drwy'r platfform dewis fferyllfa ar ôl ei sefydlu.
- Bydd y fferyllfa'n cael ei hadleoli i safle mwy yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Bydd gwasanaethau rhagnodi annibynnol yn dechrau yn y fferyllfa o fewn y ddau fis nesaf.

15.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Roedd pob un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gydag wyth yn darparu'r nifer uchaf posibl, sef 400. Roedd pob un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2019/20, gyda phedwar yn darparu'r nifer uchaf posibl. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae'r gwasanaeth wedi'i atal tan fis Ebrill 2022 oherwydd pandemig Covid. Fodd bynnag,

rhagwelir y bydd y fferyllfeydd yn ailddechrau’r ddarpariaeth ar ôl i’r gwasanaeth gael ei ailgychwyn.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r cylchoedd glas sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 88 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

15.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Yn 2018/19, roedd 13 o'r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn ac nid oedd yr un ohonynt yn darparu'r nifer uchaf o 140 o adolygiadau. Darparodd 13 o fferyllfeydd y gwasanaeth yn 2019/20, ac unwaith eto nid oedd yr un ohonynt yn darparu'r nifer uchaf. Yn 2020/21, darparwyd 481 adolygiad gan 15 fferyllfa.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau pinc sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos i’w gilydd.

Map 89 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu adolygiadau o feddyginiaethau wrth ryddhau yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

15.2.3 Adolygiadau defnyddio cyfarpar

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

15.2.4 Addasu cyfarpar stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

15.2.5 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Darparodd 14 fferyllfa’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac 2019/20. Mae 15 fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac wedi comisynu i darparu yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau llwyd sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 90 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

15.2.6 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Darparodd 11 fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a deg yn 2019/20. Mae pob un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae pob un wedi comisynu i darparu yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r sgwariau porffor sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 91 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2 yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

15.2.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Darparodd saith fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a naw yn 2019/20. Mae naw fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 yn cynyddu i 12 yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r sgwariau glas sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 92 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3 yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

15.2.8 Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion Rhoi'r Gorau i Smygu Lefel 3, Cynllun Varenicline

Darparodd tair fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i bump yn 2019/20. Mae saith fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac saith wedi comisynu i darparu yn 2021/22.

15.2.9 Brechiad rhag y ffliw

Darparodd 13 fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac 14 yn 2019/20. Mae 14 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac wedi rhoi cyfanswm o 1,832 brechiad.

Erbyn Awst 2021, mae pump o'r fferyllfeydd wedi arwyddo lan i ddarparu'r gwasanaeth yn 2021/22, a rhagdybir bydd mwyafrif o'r gweddill yn arwyddo lan.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r cylchoedd gwyrddlas sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 93 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau rhag y ffliw yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

15.2.10 Gwasanaeth mân anhwylderau

Darparodd 12 fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i bob un o'r 15 yn 2019/20. Mae pob un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae pob un wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r diemwntau gwyrdd sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 94 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth mân anhwylderau yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

15.2.11 Cyflenwad o feddyginiaeth frys

Darparodd dwy fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i 11 yn 2019/20. Mae pob un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 yn gostwng i 14 yn 2021/22

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r diemwntau glas sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 95 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwad o feddyginiaeth frys yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

15.2.12 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae pedair fferyllfa wedi comisynu i darparu gwasnaeth lefel 1 yn 2021/22.

15.2.13 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â meddyginiaethau

Yn 2020/21 mae dwy fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac roedd dwy wedi comisynu i darparu yn 2021/22

15.2.14 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal leol wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

15.2.15 Gwasanaethau rhagnodi annibynnol

Yn 2021/22, mae un fferyllfa wedi comisynu i darparu gwasanaeth atal meddygyniaeth a un arall wedi comisynu i darparu y gwasanaeth cyflyrau aciwt.

15.2.16 Gwasanaeth rhoi meddyginiaethau

Yn 2020/21, mae naw fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth sy'n cynnwys gweithredu cofnod o roi meddyginiaethau neu system ddognau wedi'i monitro, yn cynyddu i deg yn 2021/22.

Mae dwy fferyllfa wedi'u comisiynu i roi dosbarthwyr tabledi awtomatig yn 2020/21, yn gostwng i un yn 2021/22.

15.2.17 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

15.2.18 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Nid oes unrhyw fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

15.2.19 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Darparodd un fferyllfa'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac 2019/20. Yn 2020/21, mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i'w ddarparu yn cynyddu i dwy yn 2021/22

15.2.20 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae pob un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 gyda pob un wedi comisynu i darparu yn 2021/22.

15.3 Gwasanaethau fferyllol presennol y tu allan i ardal yr ardal leol

Mae rhai preswylwyr yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â thu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- A gynigir gan gontractwyr cyfarpar gweinyddu
- Sydd wedi'u lleoli ger lle maent yn gweithio, siopa neu ymweld at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2019/20 wedi'u dosbarthu gan y 15 fferyllfa yn yr ardal leol, cafodd 14.3% eu dosbarthu y tu allan i'r ardal leol:

- 9.0% gan fferyllfeydd yng ngorllewin Casnewydd
- 4.4% gan fferyllfeydd yn ne Torfaen,
- 0.4% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.2% gan fferyllfeydd yng ngogledd Torfaen,
- 0.1% gan fferyllfeydd ym mhob un o'r canlynol: dwyrain Caerffili, ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a de Sir Fynwy.
- 0.1% mewn mannau eraill yng Nghymru.

Gostyngwyd hyn rhywfaint i 13.7% yn 2020/21 gyda'r mwyafrif o presgripsiynau wedi dosbarthu yng ngorllewin Casnewydd (8.0%) a de Torfaen (4.9%).

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â thu allan i ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

15.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae’r practisau meddygon teulu yn yr ardal yn darparu’r gwasanaethau canlynol sy’n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys
- Brechiad rhag y ffliw
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer mân anhwylderau

Roedd 1.4% o'r eitemau a ragnodwyd gan y practisau meddygon teulu yn cael eu gweinyddu'n bersonol gan y practisau yn 2019/20, yn gostwng rhywfaint i 1.1% yn 2020/21.

Mae lle wedi'i nodi ar gyfer gwasanaethau iechyd fel rhan o Gytundeb Adran 106 ar gyfer datblygiad Glan Llyn. Rhagwelir y bydd gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cael eu darparu o safleoedd o fewn y datblygiad hwnnw.

Mae achos busnes amlinellol ar gyfer canolfan lesiant Ringland yn cael ei ddatblygu a rhagwelir y bydd y ganolfan yn agor o fewn oes y ddogfen hon.

Bydd preswylwyr yn defnyddio gwasanaethau eraill y GIG sydd wedi'u lleoli yn yr ardal hon neu rywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Gwasanaeth y tu allan i oriau meddygon teulu
- Unedau mân anafiadau,
- Y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen,
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol,
- Y gwasanaeth ymarferwyr anhwylderau hirdymor, a
- Helpa Fi i Stopio.

Ceir manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Nid oes unrhyw wasanaethau eraill gan y GIG wedi'u nodi fel rhai sy’n bodoli yn yr ardal ac yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

15.5 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o'r adrannau blaenorol, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r naw practis meddyg teulu yn gyffredinol yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn yr ardal i ddosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae rhai yn dewis edrych y tu allan i'r ardal, fel arfer i ddefnyddio fferyllfa gyfagos neu gontractwr dosbarthu cyfarpar yn agos at eu gweithle neu siop, neu’n agos at safle y byddent yn ymweld ag e at ddibenion hamdden neu am reswm arall.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 250 o gontractwyr eitemau a ragnodwyd gan un o bractisau meddygon teulu yr ardal hon, ac o’r rheiny:

- roedd 15 o fewn yr ardal leol,
- roedd 94 rhywle arall o fewn ardal y bwrdd iechyd,
- roedd 139 rhywle arall yng Nghymru,
- a chafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr.

Gostyngwyd hyn i 197 yn 2020/21:

- 15 wedi lleoli o fewn yr ardal lleol
- 81 wedi lleoli rhywle arall o fewn ardal y Bwrdd Iechyd
- 99 wedi lleoli rhywle arall yng Nghymru, a
- Nifer o presgripsiynau wedi dosbarthu yn Lloegr.

15.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

15.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd wedi'u lleoli yn ardal adeiledig Casnewydd gydag un wedi'i lleoli mewn ardal o ddwysedd poblogaeth is i'r dwyrain o'r ddinas.
- Nid yw un rhan o'r ardal o fewn taith 20 munud mewn car o fferyllfa. Fodd bynnag, yn ôl Google Maps nid oes tai yn yr ardal honno.
- Mae disgwyl i boblogaeth Casnewydd gynyddu 17.3% rhwng 2011 a 2036.
- Mae dau safle tai strategol yn yr ardal. Bydd Glan Llyn yn darparu 4,000 o gartrefi newydd, a rhagwelir y bydd 930 ohonynt yn cael eu darparu o fewn oes y ddogfen hon yn ogystal â'r 780 o dai a oedd wedi’u hadeiladu erbyn 31 Mawrth 2019. Bydd Llanwern Village yn darparu 1,100 o unedau tai ond mae ymhell ar ei hôl hi o ran yr amserlen. Amcangyfrifir y bydd 480 o dai yn cael eu darparu rhwng 2020 a 2025.
- Disgwylir 165 o dai newydd eraill fel rhan o adfywiad canolfan Ringland.
- Cadarnhaodd 15 fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw am y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried a oes angen darparu gwasanaethau hanfodol yn natblygiad Glan Llyn ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Mae wedi nodi, yn ogystal â'r 4,000 o unedau tai, y bydd hefyd amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon, ysgolion cynradd (y mae un ohonynt wedi agor), parc busnes 100 erw a chanolfan leol gydag amrywiaeth o gyfleusterau.

Bydd y datblygiad felly yn denu nifer o ymwelwyr a fydd yn chwyddo maint y boblogaeth breswyl. Yn ogystal, bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau fferyllol o ddatblygiad Llanwern a datblygiadau tai i'r dwyrain yn Ne Sir Fynwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd felly wedi nodi bod angen fferyllfa yn y dyfodol o fewn naill ai canolfan leol Glan Llyn neu o fewn y Parc Busnes Celtaidd ym mhen dwyreiniol datblygiad Glan Llyn ar ôl cwblhau 2,000 o dai sydd fel lleiafswm, ag oriau agor craidd o:

- 9.00am tan 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a
- 9:00am tan 1:00pm ar ddydd Sadwrn.

Yn y dyfodol, bydd angen i'r fferyllfa hon ddarparu'r gwasanaethau canlynol o'r pwynt y mae wedi'i chynnwys yn y rhestr fferyllol:

- Yr holl wasanaethau hanfodol,
- Y gwasanaethau adolygu’r defnydd o feddyginiaethau ac adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau,
- Gwasanaethau pellach ar gyfer atal cenhedlu hormonaidd brys, rhoi’r gorau i smygu lefelau 2 a 3, rhoi dan oruchwyliaeth, anhwylderau cyffredin, cyflenwi meddyginiaethau brys, brechiadau rhag y ffliw, lleihau gwastraff a rhoi meddyginiaethau.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod datblygiad Pentref Llanwern yn sylweddol ar ei hôl hi o ran yr amserlen. Felly, nid yw wedi nodi angen ar hyn o bryd nac yn y dyfodol am wasanaethau hanfodol yn y datblygiad hwn.

15.6.2 Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Cyn atal y gwasanaeth hwn, roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Cynhaliodd wyth fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau o’r defnydd o feddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth pedwar hynny yn 2019/20.
- Cadarnhaodd y 15 fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw am y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw yn ymwneud â datblygiad Glan Llyn (gweler adran 15.6.1 uchod).

15.6.3 Adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae pob un o’r fferyllfeydd wedi darparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r sgiliau sydd eu hangen ar fferyllwyr i ddarparu’r gwasanaeth hwn yr un fath ag ar gyfer y gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn gallu darparu’r gwasanaeth hwn.
- Ni all y systemau TG yn yr ysbytai drosglwyddo gwybodaeth am gleifion wedi’u rhyddhau i’r systemau TG yn y fferyllfeydd ar hyn o bryd. Felly, os na fydd y claf yn mynd â’i lythyr rhyddhau i’r fferyllfa, mae’n bosibl na fydd modd i’r fferyllydd ddweud a yw’n gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei adolygu a gall y sefyllfa wella yn ystod oes y ddogfen hon.
- Oherwydd yr ystod o feddyginiaethau sydd wedi’u cynnwys yn y gwasanaeth, dim ond cyfran fach o gleifion sy’n cael eu rhyddhau fydd yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth hwn.
- Gan fod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig i’r practisau meddygon teulu, mae llai o risg o gamgymeriadau trawsgrifio o ran meddyginiaethau. Yn ogystal, gall practisau meddygon teulu gysoni meddyginiaethau ar ôl rhyddhau cleifion.
- Cadarnhaodd y 15 fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw am y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu.

Felly, mae’r bwrdd iechyd yn fodlon mai’r rheswm mwyaf tebygol y tu ôl i’r lefel gymharol isel o ran darparu’r gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy’n amlygu eu hunain i’r fferyllfa, ac nid anallu na amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw yn ymwneud â datblygiad Glan Llyn (gweler adran 15.6.1 uchod).

15.6.4 Adolygiadau defnyddio cyfarpar

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar a bod gan bob un ohonynt ddigon o le a lefelau staffio ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

15.6.5 Addasu cyfarpar stoma

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr dosbarthu cyfarpar mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar a bod gan bob un ohonynt ddigon o le a lefelau staffio ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

15.6.6 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mae dosbarthiad da o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth ar draws yr ardal.
- Bydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractisau meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae ffocws cynyddol ar ddulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor ar gyfer menywod cymwys.
- Cadarnhaodd y 15 fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i reoli cynnydd mewn galw am y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu.

- Adroddir bod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno teithio y tu allan i’w hardal leol i gael mynediad i'r gwasanaeth.
- Mae darparwyr eraill ar gyfer y gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd 15 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd hynny’n wir amdanynt hwy ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

16.6.19 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau bod amrywiaeth o fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae tair o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd 15 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd hynny’n wir amdanynt hwy ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

16.6.20 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau bod amrywiaeth o fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd 15 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y

gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oeddynt hwy ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

16.6.21 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae 16 o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd 15 o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd tair nad oedd hynny’n wir amdanynt hwy ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion am y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17 Ardal Gogledd Torfaen

17.1 Ffeithiau allweddol ar gyfer ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

- Cynnydd a amcanestynnir o 1.1% yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2036
- Gall pobl sy'n cael eu geni yn y bumed ran fwyaf difreintiedig o ardaloedd ddisgwyl byw tua 15 mlynedd yn llai ag iechyd da (14.8 mlynedd i ddynion ac 16.5 mlynedd i fenywod) o gymharu â'r bumed ran leiaf difreintiedig
- Y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr fwyaf (0.17% o'r boblogaeth)
- Canran uchaf o yfwyr cymedrol (67.9%)
- Mae 18% o'r boblogaeth yn ysmygu
- Mae 28% yn ordew ac mae 70% dros bwysau neu'n ordew (sy'n sylweddol waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Nid yw 80% yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd
- Mae 37% yn actif am lai na 30 munud yr wythnos
- Mae 17% yn yfed mwy na’r hyn sy’n cael ei argymell (yn yfed dros 14 uned o alcohol yr wythnos)

Mae dau ddatblygiad tai sylweddol yn yr ardal:

- De Sebastopol – prosiect ehangu trefol preswyl sy'n cynnwys hyd at 1,200 o gartrefi newydd, datblygiadau manwerthu a chymunedol ategol, rhandiroedd, caeau chwarae a gwaith tirlunio strategol. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau.
- Pentref trefol Mamheilad – cynllun defnydd cymysg sy'n cynnwys 900 o anheddau, ysgol gynradd, canolfan gymdogaeth aml-ddefnydd a chyfleusterau chwarae a hamdden ffurfiol ac anffurfiol sylweddol. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Gorffennaf 2020.

17.2 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol yn yr ardal

Mae 11 o fferyllfeydd yn yr ardal yn cael eu gweithredu gan wyth contractwr gwahanol, ac mae un o'r chwe phractis meddyg teulu yn dosbarthu i 16% o'i phoblogaeth gofrestredig.

Fel y gwelir yn y map isod, mae fferyllfeydd wedi'u lleoli'n gyffredinol mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uchel. Mae'r fferyllfa ddosbarthu yn dosbarthu o safleoedd yn ardal Gogledd Sir Fynwy ac felly nid yw wedi’i dangos ar y map hwn.

Map 107 – lleoliad y fferyllfeydd o'i gymharu â'r dwysedd poblogaeth



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Fel y gwelir yn y map isod, mae fferyllfeydd yn gyffredinol mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uchel.

Map 108 – lleoliad y fferyllfeydd o'i gymharu â lefel yr amddifadedd



© Trwydded Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Yn 2019/20, cafodd 81.4% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal (82.4% yn 2020/21), ac roedd y fferyllfa'n dosbarthu neu’n rhoi yn bersonol 1.9% o’r eitemau presgripsiwn (2.0)% yn 2020/21). Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos y rhaniad canrannol rhwng eitemau a ddosbarthwyd ac a roddwyd yn bersonol, ar sail nifer yr eitemau a roddwyd yn bersonol yn yr ardaloedd eraill, gellir tybio bod llai na 2% o eitemau wedi'u rhoi'n bersonol.

Mae'r map isod yn dangos yr amser gyrru i fferyllfa; y tywyllaf yw’r gwyrdd, y byrraf yw’r daith. Fel y gwelir, mae'r ardal gyfan o fewn 20 munud mewn car i fferyllfa. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd porffor sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 109 – mynediad i'r fferyllfeydd yn yr ardal



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

O ran pryd mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Chwech ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener,
- Pedair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn, ac
- Un ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Mae rota dydd Sul ar waith fel bod un fferyllfa yn Nhorfaen ar agor rhwng 18.00 ac 20.00, ond nid o reidrwydd o fewn yr ardal hon.

O ran yr amserau y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae dwy ar agor am 08.30 gyda'r gweddill yn agor am 09.00,
- Mae pedair yn cau am 17.30 (er mae un yn cau am 17.00 ar ddydd Iau), mae chwech yn cau am 18.00 (er bod un yn cau am 13.00 ar ddydd Iau) ac mae un yn cau am 18.30 .

Mae wyth fferyllfa ar agor drwy'r dydd, ac mae'r lleill yn cau amser cinio ar amserau amrywiol rhwng 13.00 a 14.30.

Ar ddydd Sadwrn, mae un fferyllfa yn agor am 08.30 gyda'r gweddill yn agor am 09.00. Mae'r fferyllfa sydd ar agor drwy'r dydd yn cau i ginio rhwng 13.30 a 14.30 ac yn cau ar ddiwedd y dydd am 17.30.

Derbyniwyd yr wybodaeth yng ngweddill yr adran hon trwy holiadur y contractwr.

Mae modd cael mynediad i bob un o’r fferyllfeydd mewn cadair olwyn, ac mae gan 13 ohonynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae’r holl ardaloedd ymgynghori:

- yn ystafelloedd caeëdig,
- yn ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan eraill, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd un fferyllfa fod y staff yn siarad Rwsieg a Ffrangeg. Nid oes gan unrhyw fferyllfeydd staff sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes gan 86.5% o breswylwyr unrhyw sgiliau iaith Gymraeg ac mae gan 98.7% Saesneg fel eu prif iaith (data lefel awdurdod lleol, Cyfrifiad 2011). Mae hyn, ynghyd ag argaeledd Llinell Iaith, yn golygu nad yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw broblemau i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad i wasanaethau mewn iaith heblaw Saesneg.

Mae deg o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar ac mae un nad yw’n dosbarthu stoma nac offer anymataliaeth.

Mae’r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu. O ran danfon eitemau a ddosberthir:

- mae chwech yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais,
- mae tair yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi,
- mae pedair yn cyfyngu’r gwasanaeth i:
    - y rhai ag angen clinigol o ran materion symudedd (dwy fferyllfa),
    - cleifion sy'n gaeth i'r tŷ, ac

    - yr henoed, y rhai eiddil, pobl anabl, y rhai sy'n derbyn gofal cymdeithasol neu nyrsio gartref, y rhai ag anghenion fferylliaeth cymhleth, a lle gofynnir amdano gan y meddyg teulu mewn sefyllfa/argyfwng brys, ac
- mae un ond yn darparu gwasanaeth dosbarthu i Bont-y-pŵl, Blaenafon a Gogledd Cwmbrân.

Mae awgrymiadau gan fferyllfeydd ar gyfer gwasanaethau presennol nad ydynt yn cael eu darparu yn yr ardal ar hyn o bryd yn cynnwys:

- gwasanaeth profi a thrin gwddf tost,
- anhwylder cyffredin yn ogystal ag ar gyfer rhagnodwyr nad ydynt yn annibynnol, gan gynnwys cwrs tri diwrnod ar gyfer heintiau’r llwybr wrinol gyda Trimethoprim,
- dychwelyd blychau eitemau miniog cleifion a fyddai’n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y gymuned,
- cyfnewid nodwyddau.

Roedd un fferyllfa o'r farn bod angen gwasanaeth pellach presennol nad yw’n cael ei ddarparu ar hyn o bryd. Gwasanaeth dosbarthu a anogir gan feddyg teulu yw hwn mewn achosion brys/argyfyngau. Gydag ymgynghoriadau fideo a ffôn â meddygon teulu yn dod yn arferol, ceir nifer cynyddol o geisiadau gan feddygon teulu i ddarparu meddyginiaeth ar fyr rybudd. Byddai gwasanaeth a anogir gan feddygon teulu yn helpu i reoli'r galw ac yn talu'r costau cyflenwi cynyddol sydd ynghlwm.

Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd pump nad oedd ganddynt ddigon o le/staff ond y gallent wneud addasiadau.

Mae cynlluniau ar y gweill mewn tair fferyllfa i ddatblygu neu ehangu’r gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu:

- Cynyddu lle dosbarthu meddyginiaeth ac ymgynghori trwy leihau lle manwerthu. Defnyddio'r llawr cyntaf uwchben yr ardal dosbarthu meddyginiaeth i wahanu a rheoli ffrydiau gwaith yn fwy effeithlon.
- Wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am grant i helpu i ariannu'r gwaith o osod man casglu meddyginiaethau 24/7.
- Mae un fferyllfa wedi'i hachredu'n ddiweddar i gynnal gwasanaeth cymryd meddyginiaeth dan oruchwyliaeth. Mae'n bwriadu ehangu'r gwasanaeth hwn i fodloni gofynion y gymuned gyfagos trwy roi gwybod i feddygfeydd ac Ysbyty Brenhinol Gwent am eu hachrediad diweddar a fydd, gobeithio, yn cynyddu nifer y cleifion y maent yn delio â nhw.

17.2.1 Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau

Roedd pob un o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gyda phump yn darparu’r nifer uchaf posibl, sef 400. Roedd pob un o’r 11 fferyllfa yn darparu’r gwasanaeth yn 2019/20, gyda thair yn darparu’r nifer uchaf posibl. Ar yr adeg ysgrifennu, mae’r gwasanaeth wedi’i atal tan fis Ebrill 2022 oherwydd pandemig Covid. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y fferyllfeydd yn ailddechrau’r ddarpariaeth ar ôl i’r gwasanaeth gael ei ailgychwyn.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r cylchoedd glas sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 110 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

17.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Roedd pob un o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, ond nid oedd yr un ohonynt wedi darparu’r nifer uchaf posibl, sef 140 o adolygiadau. Roedd pob un o’r fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth yn 2019/20, ond eto, nid oedd yr un ohonynt wedi darparu’r nifer uchaf posibl. Roedd saith fferyllfa wedi darparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21 gyda cyfanswm o 193 adolygiad.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau pinc sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 111 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

17.2.3 Adolygiadau defnyddio offer

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer offer.

17.2.4 Addasu offer stoma

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer offer.

17.2.5 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Roedd wyth fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a 2019/20. Yn 2020/21, mae wyth fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac mae'r wyth wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 112 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

17.2.6 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Roedd saith fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Yn 2020/21, mae deg fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac mae’r deg wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r sgwariau marŵn sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 113 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2 yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

17.2.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Roedd wyth fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i ddeg yn 2019/20. Yn 2020/21, mae deg fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn gostwng i naw yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 114 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3 yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

17.2.8 Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion Rhoi'r Gorau i Smygu Lefel 3, Cynllun Varenicline

Roedd dwy fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i bump yn 2019/20. Yn 2021/21 mae saith fferyllfa wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac mae pump wedi'i ddarparu ar adeg llunio’r ddogfen hon.

17.2.9 Brechiad rhag y ffliw

Roedd naw fferyllfa’r darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Yn 2020/21 mae 11 fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac wedi rhoi 1,339 brechiad.

Erbyn Awst 2021 mae chwech fferyllfa wedi arwyddo lan i ddarparu’r gwasanaeth yn 2021/22 a rhagdybir bydd mwyafrif o’r gweddill yn arwyddo lan i wneud.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r cylchoedd gwyrddlas sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae’r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 115 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau rhag y ffliw yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

17.2.10 Gwasanaeth mân anhwylderau

Roedd yr holl fferyllfeydd yn darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a 2019/20. Yn 2020/21, mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac mae pob un wedi'i comisynu i ddarparu hyn yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 116 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth mân anhwylderau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

17.2.11 Cyflenwad meddyginiaeth frys

Roedd dwy fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i chwech yn 2019/20. Yn 2020/21, mae 11 fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac mae pob un wedi comisynu i ddarparu hyn yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 117 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwad o feddyginiaeth frys yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

17.2.12 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae tair fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1 yn 2021/22.

17.2.13 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

17.2.14 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Nid oes yr un o'r fferyllfeydd yn yr ardal wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2010/22.

17.2.15 Gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol

Deos dim un fferyllfa yn yr ardal wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

17.2.16 Gwasanaeth rhoi meddyginiaethau

Yn 2020/21, roedd deg fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth sy'n cynnwys darparu cofnod rhoi meddyginiaethau neu system ddogn wedi'i monitro, yn cynyddu i bob un yn 2021/22.

Roedd tair fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu dosbarthwyr tabledi awtomatig yn 2020/21, gyda'r tair wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

17.2.17 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae dwy fferyllfa yn yr ardal wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 yn cynyddu i tair yn 2021/22.

17.2.18 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Yn 2021/22 mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

17.2.19 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 a 2019/20. Yn 2020/21 roedd dwy fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac mae dwy wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

17.2.20 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Roedd deg fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 ac mae'r deg wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

17.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai preswylwyr yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael hyd i wasanaethau:

- a gynigir gan gontractwyr cyfarpar dosbarthu
- sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2019/20 wedi'u dosbarthu gan yr 11 fferyllfa yn yr ardal leol, cafodd 15.7% eu dosbarthu y tu allan i'r ardal leol:

- Dosbarthwyd 13.0% yn Ne Torfaen,
- 0.9% yng Ngorllewin Casnewydd,
- 0.6% yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Dwyrain Casnewydd a Chaerdydd a'r Fro,
- 0.3% yn Lloegr,
- 0.2% yng Ngogledd Sir Fynwy, a
- 0.1% mewn mannau eraill yng Nghymru.

Gostyngwyd hyn rhywafaint yn 2020/21 (14.6%) gyda'r mwyafrif wedi dosbarthu yn Ne Torfaen (12.6%).

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

17.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae'r practisau meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

- Brechiadau rhag y ffliw
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer anhwylderau cyffredin

Roedd 1.0% o'r eitemau a ragnodwyd gan y practisau meddygon teulu nad ydynt yn dosbarthu yn cael eu rhoi'n bersonol gan y practisau ym 2019/20 a 2020/21.

Bydd preswylwyr yn defnyddio gwasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal hon neu rywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen,
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol,
- Y gwasanaeth ymarferwyr anhwylderau hirdymor, a
- Helpa Fi i Stopio.

Ceir manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Nid oes unrhyw wasanaethau GIG eraill wedi'u nodi sydd yn yr ardal ac yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

17.5 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Yn gyffredinol, fel y gwelir o'r adrannau blaenorol, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o practisau meddyg teulu yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn yr ardal i ddosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae rhai yn dewis edrych y tu allan i'r ardal, fel arfer i gael mynediad i fferyllfa gyfagos neu gontractwr offer dosbarthu yn agos i le maen nhw’n gweithio, yn siopa neu’n mynd am resymau hamdden neu eraill.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 250 o gontractwyr eitemau a ragnodwyd gan un o bractisau meddygon teulu’r ardal hon, ac o’r rheiny:

- roedd 11 o fewn yr ardal leol,
- roedd 111 yn rhywle arall o fewn ardal y bwrdd iechyd,
- roedd 128 yn rhywle arall yng Nghymru,
- cafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr.

Aeth hwn i lawr i 215 yn 2020/21

- 11 wedi lleoli o fewn yr ardal lleol
- 104 wedi lleoli rhywle arall o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- 97 wedi lleoli rhywle arall yng Nghymru, a
- Nifer wedi dosbarthu yn Lloegr.

17.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

17.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae'r fferyllfeydd i’w cael ar draws yr ardal leol ac yn gyffredinol maent mewn ardaloedd lle ceir dwysedd poblogaeth uwch a lefelau uwch o amddifadedd.
- Mae’r ardal gyfan o fewn 20 munud mewn car i fferyllfa.
- Rhagwelir y bydd poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynyddu 1.1% rhwng 2011 a 2036.
- Mae dau ddatblygiad tai sylweddol yn yr ardal. Bydd datblygiad yn Ne Sebastopol yn darparu hyd at 1,200 o unedau tai ac mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau. Bydd pentref trefol Mamheilad yn darparu 900 o unedau tai.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried a oes angen darparu gwasanaethau hanfodol yn natblygiad De Sebastopol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Mae wedi nodi bod y fferyllfeydd agosaf o fewn 10 munud mewn car, ac mae fferyllfa hefyd i'r de o'r datblygiad yn ardal De Torfaen. Yn seiliedig ar hyn a chapasiti'r ystâd bresennol, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon nad oes angen gwasanaethau hanfodol yn y datblygiad ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried a oes angen darparu gwasanaethau hanfodol ym Mhentref Trefol Mamheilad ar hyn o bryd neu yn y dyfodol. Gorwedd y datblygiad i'r gogledd-ddwyrain o Bont-y-pŵl, ychydig oddi ar Ffordd Brynbuga, yn agos i’r ffin â Sir Fynwy. Mae o fewn ardal reoledig a bydd yn ddatblygiad ar wahân wedi'i amgylchynu gan ardaloedd gwledig. Mae’r bwrdd iechyd wedi asesu y bydd angen fferyllfa yn y datblygiad, unwaith y bydd wedi'i gwblhau a’r cwmniau adeiladu wedi gadael y safle, ag o leiaf yr oriau agor craidd canlynol:

- 09.00 tan 18.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a
- 09:00 tan 13:00 ar ddydd Sadwrn.

Yn y dyfodol, bydd angen i'r fferyllfa hon ddarparu'r gwasanaethau canlynol o'r pwynt y mae wedi'i chynnwys yn y rhestr fferyllol:

- Yr holl wasanaethau hanfodol,
- Y gwasanaethau adolygu’r defnydd o feddyginiaethau ac adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau,

- Gwasanaethau pellach ar gyfer atal cenhedlu hormonaidd brys, rhoi'r gorau i smygu lefelau 2 a 3, rhoi dan oruchwyliaeth, anhwylderau cyffredin, cyflenwi meddyginiaethau brys, brechiadau rhag y ffliw, lleihau gwastraff a rhoi meddyginiaethau.

17.6.2 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Cyn atal y gwasanaeth hwn, roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Darparodd pum fferyllfa uchafswm nifer yr adolygiadau defnyddio meddyginiaethau yn 2018/19. Gwnaeth tair hyn yn 2019/20.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw o ran Pentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

17.6.3 Adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae naw fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae'r sgiliau sydd eu hangen ar fferyllwyr i ddarparu'r gwasanaeth hwn yr un fath ag ar gyfer y gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn.
- Ni all y systemau TG yn yr ysbytai drosglwyddo gwybodaeth am gleifion wedi'u rhyddhau i'r systemau TG yn y fferyllfeydd ar hyn o bryd. Felly, os na fydd y claf yn mynd â'i lythyr rhyddhau i'r fferyllfa, mae'n bosibl na fydd modd i'r fferyllydd nodi ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei adolygu a gall y sefyllfa wella yn ystod oes y ddogfen hon.
- Oherwydd yr ystod o feddyginiaethau sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth, dim ond cyfran fach o gleifion sy'n cael eu rhyddhau fydd yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth hwn.
- Gan fod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig i'r practisau meddygon teulu, mae llai o risg o gamgymeriadau trawsgrifio mewn perthynas â meddyginiaethau. Yn ogystal, gall practisau meddygon teulu gysoni meddyginiaethau ar ôl rhyddhau cleifion.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer

y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Felly, mae’r bwrdd iechyd yn fodlon mai’r rheswm mwyaf tebygol am lefel gymharol isel y ddarpariaeth o’r gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy’n dod i’r fferyllfa, ac nid anallu nac amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw o ran Pentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

17.6.4 Adolygiadau defnyddio offer

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer offer yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer a bod gan bob un ohonynt ddigon o le a lefelau staffio ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17.6.5 Addasu offer stoma

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer offer yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer a bod gan bob un ohonynt ddigon o le a lefelau staffio ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17.6.6 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae pob fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mae dosbarthiad da o fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth ar draws yr ardal.
- Bydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractisau meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae ffocws cynyddol ar ddulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor ar gyfer menywod cymwys.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw o ran Pentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

17.2.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae deg fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn gyda dosbarthiad da o leoliadau ar draws yr ardal.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod nid yw’r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen yn bresenol neu yn y dyfodol ar gyfer y darpariaeth yma o fewn yr ardal lleol heblaw am ardal Pentref Trefol Mamhilad (gweler ardal 17.6.1 uchod).

17.6.8 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae naw fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw o ran Pentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

17.6.9 Cyfarwyddyd grŵp cleifion rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae chwech fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn fel rhan o'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3.
- Gall practisau meddygon teulu roi presgripsiynau ar gyfer Varenicline, felly gall trigolion yr ardal fanteisio ar y gwasanaeth yn y ffordd honno yn hytrach na thrwy’r gwasanaeth hwn. Serch hyn fferyllfeydd yw’r unig darparwyr o cymorth ysgogol un i un a gwasanaeth ffamarcotherapi rhoi’r gorau i ysmygu lefel 3 yma.
- Gwasanaeth cymharol newydd yw hwn ac mae’n bosibl felly nad yw fferyllfeydd wedi dod ymlaen eto i'w ddarparu.
- O Mehefin 2021, mae dosbarthwyr o Champix® (Varenicline) wedi gorfod stopi am cyfnod gan Pfizer, yr unig darparwyr o’r cynyrch yma. Nid oes dyddiad hyd yn hyn o pryd bydd rhain nol ar gael.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Gan nad yw Varenicline ar gael ar hyn o bryd mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda’r fferyllfeydd sydd heb arwyddo lan i ddarparu’r gwasnaeth yma i ddeall pam nad ydynt wedi gwneud.

Ar sail yr uchod, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod angen i’r fferyllfeydd sydd yn darparu’r gwasanaeth lefel 3 yma i hefyd ddarparu'r gwasanaeth hwn o fewn 12 mis iddo ddod ar gael. Bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn mewn deg lleoliad wedi'u dosbarthu’n gyfartal ar draws yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth. Bydd angen y gwasanaeth yn y dyfodol hefyd mewn perthynas â Phentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

17.6.10 Brechiad rhag y ffliw

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Roedd yr holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21. Erbyn Awst 2021, chwech o’r fferyllfeydd yma sydd wedi arwyddo lan i ddarparu’r gwasanaeth yn 2021/22, ac rhgdybir bydd mwyafrif o’r gweddill yn arwyddo i wneud.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw o ran Pentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

17.6.11 Gwasanaeth mân anhwylderau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Un o amcanion y gwasanaeth yw lleihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu ac felly byddai'n fuddiol pe bai mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw o ran Pentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

17.6.12 Cyflenwad meddyginiaeth frys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw o ran Pentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

17.6.13 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae tair fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth lefel 1.
- Mater i'r cartref gofal yw dewis pa fferyllfa, os o gwbl, y mae'n dymuno gweithio gyda hi mewn perthynas â meddyginiaethau.
- Bydd cartrefi gofal wedi dewis gweithio gyda darparwyr y tu allan i'r ardal.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd oherwydd y nifer isel sy'n manteisio ar y gwasanaeth.

- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17.6.14 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail rhoi presgripsiynau i gleifion ar gyfer meddyginiaeth y mae angen ei harsylwi.
- Nid oes yr un fferyllfa wedi'i chomisiynu ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaeth hwn gan nad oes angen gwneud hynny.
- Pan fu angen ei gomisiynu yn y gorffennol, nid yw'r bwrdd iechyd wedi cael unrhyw anhawster i ddod o hyd i fferyllfa sy'n fodlon darparu'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17.6.15 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail anghenion cleifion. Prin y bu ei angen ers ei sefydlu.
- Nid oes yr un fferyllfa wedi'i chomisiynu ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaeth hwn gan nad oes angen gwneud hynny.
- Comisiynir y gwasanaeth ledled Gwent ac fe'i darperir gan saith fferyllfa ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17.6.16 Gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Gwasanaeth newydd yw hwn sy'n dibynnu ar sicrhau bod cyrsiau hyfforddi ar gael a fferyllwyr yn gallu eu cwblhau.
- Does dim un fferyllfa ar hyn o bryd wedi comisynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld rhagnodwr annibynnol ym mhob un o’r fferyllfeydd presennol. Fodd bynnag, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17.6.17 Gwasanaeth rhoi meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Y sector gofal cymdeithasol sy'n gyrru'r galw am y gwasanaethau hyn.
- Mae pob fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu cofnodion rhoi meddyginiaethau neu systemau dogn wedi'u monitro a thair i ddarparu peiriannau dosbarthu pils awtomatig.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw o ran Pentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

17.6.18 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae tair fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i ddarganfod ble yr hoffent gael mynediad i'r gwasanaeth hwn ac yna'n cysylltu â'r bwrdd iechyd i gomisiynu'r gwasanaeth yn y lleoliad neu'r lleoliadau gofynnol.
- Adroddir bod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno teithio y tu allan i’w hardal leol i gael mynediad i'r gwasanaeth.
- Mae darparwyr eraill ar gyfer y gwasanaeth hwn.

- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17.6.19 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau dosbarthiad daearyddol o fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17.6.20 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau dosbarthiad daearyddol o fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae dwy fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

17.6.21 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae deg fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn gyda dosbarthiad da o leoliadau ar draws yr ardal.
- Cadarnhaodd naw fferyllfa fod ganddynt ddigon o le a lefelau staffio yn eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer

y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu, a nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/lefelau staffio ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, heblaw o ran Pentref Trefol Mamheilad (gweler adran 17.6.1 uchod).

18 Ardal De Torfaen

18.1 Ffeithiau allweddol am ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

- Amcanestynnir y bydd cynnydd 1.1% yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2036
- Gall pobl sy'n cael eu geni yn y bumed ran fwyaf difreintiedig o ardaloedd ddisgwyl byw tua 15 mlynedd yn llai ag iechyd da (14.8 mlynedd i ddynion ac 16.5 mlynedd i fenywod) o gymharu â'r bumed ran leiaf difreintiedig
- Y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr fwyaf (0.17% o'r boblogaeth)
- Canran uchaf o yfwyr cymedrol (67.9%)
- Mae 18% o'r boblogaeth yn ysmygu
- Mae 28% yn ordew ac mae 70% dros bwysau neu'n ordew (sy'n sylweddol waeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru)
- Nid yw 80% yn bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y dydd
- Mae 37% yn actif am lai na 30 munud yr wythnos
- Mae 17% yn yfed mwy na’r hyn sy’n cael ei argymell (yn yfed dros 14 uned o alcohol yr wythnos)

Mae pedwar datblygiad tai sylweddol yn yr ardal:

- Llantarnam – datblygiad defnydd cymysg o 450 o anheddau, wyth hectar o dir cyflogaeth (Dosbarth B1), canolfan gymdogaeth a darpariaeth hamdden anffurfiol.
- Hen Goleg yr Heddlu, Cwmbrân – 350 o anheddau. Mae cam un (219 o anheddau) wedi'i gwblhau. Mae cam dau yn cynnwys 108 o anheddau ac mae'n cael ei adeiladu. Mae cam tri heb ei ddatblygu o hyd.
- Hen Neuadd y Sir a Phencadlys yr Heddlu, Llanyrafon – 220 o anheddau. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 140 o anheddau ym mis Awst 2019.
- Hen Ysgol Gyfun Llantarnam – 226 o anheddau. Rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo ym mis Tachwedd 2016.

18.2 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol yn yr ardal

Mae deg fferyllfa yn yr ardal sy’n cael eu gweithredu gan bum contractwr gwahanol. Nid oes yr un o'r chwe phractis meddyg teulu yn dosbarthu meddyginiaethau. Fel y gwelir yn y map isod, mae’r fferyllfeydd yn gyffredinol wedi'u lleoli mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth uchel.

Map 118 – lleoliad y fferyllfeydd o'i gymharu â'r dwysedd poblogaeth



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Fel y gwelir yn y map isod, mae fferyllfeydd yn gyffredinol mewn ardaloedd o amddifadedd mwy.

Map 119 – lleoliad y fferyllfeydd o'i gymharu â lefel yr amddifadedd



© Trwydded Arolwg Ordnans Hawlfraint 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

Yn 2019/20, cafodd 90.4% o bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn yr ardal eu dosbarthu gan fferyllfa yn yr ardal. Codwyd hyn rhywfaint i 91.4% yn 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos yr amser gyrru i fferyllfa; y tywyllaf yw’r gwyrdd, y byrraf yw’r daith. Fel y gwelir, mae'r ardal gyfan o fewn 20 munud mewn car i fferyllfa. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd porffor sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 120 – mynediad i'r fferyllfeydd yn yr ardal



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

O ran pryd mae'r fferyllfeydd ar agor:

- Mae tair ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Mae pump ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn,
- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae un ar agor o ddydd Llun i ddydd Sul.

Mae rota dydd Sul ar waith fel bod un fferyllfa yn Nhorfaen ar agor rhwng 18.00 ac 20.00, ond nid o reidrwydd o fewn yr ardal hon.

O ran yr amserau y mae'r fferyllfeydd hyn ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener:

- Mae un yn agor am 08.00, mae dwy'n agor am 08.30, mae un yn agor am 08.45 ac mae'r gweddill yn agor am 09.00,

- Mae un yn cau am 17.45 (13.00 ar ddydd Mercher), mae tair yn cau am 18.00 (mae un yn cau am 17.30 ar ddydd Mercher) a'r gweddill am 18.30 (mae un yn cau am 17.30 ar ddydd Iau).

Mae saith fferyllfa yn aros ar agor trwy'r dydd; mae’r ddwy eraill yn cau amser cinio rhwng 13.00 a 14.00.

Ar ddydd Sadwrn, mae un fferyllfa yn agor am 08.30 a chwech am 09.00. O'r ddwy sydd ar agor trwy'r dydd, mae un yn cau am ginio rhwng 13.00 a 14.00. Mae un yn cau am 17.00 a'r llall am 18.00.

Ar ddydd Sul, sicrheir oriau agor rhwng 10.00 a 16.00.

Derbyniwyd yr wybodaeth yng ngweddill yr adran hon trwy holiadur y contractwr.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i naw o’r fferyllfeydd hyn ac mae ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae pob un o’r deg ardal ymgynghori:

- yn ystafelloedd caeëdig,
- yn ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd un fferyllfa fod y Gymraeg yn cael ei siarad gan staff, ac un arall bod Bengaleg yn cael ei siarad. Fodd bynnag, nid oes gan 86.5% o breswylwyr unrhyw sgiliau iaith Gymraeg ac mae gan 98.7% Saesneg fel eu prif iaith (data lefel awdurdod lleol, Cyfrifiad 2011). Mae hyn, ynghyd ag argaeledd Llinell Iaith, yn golygu nad yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw broblemau i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad i wasanaethau mewn iaith heblaw Saesneg.

Mae deg fferyllfa’n dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer, ac mae un yn dosbarthu gorchuddion yn unig.

Mae’r holl fferyllfeydd yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu. O ran danfon eitemau a ddosberthir:

- mae saith yn darparu gwasanaeth danfon am ddim ar gais,
- mae un yn darparu gwasanaeth danfon am ffi,
- mae dwy’n darparu gwasanaeth am ddim a gwasanaeth y codir tâl amdano.

O ran unrhyw ofyniad am wasanaeth ychwanegol presennol nad yw'n cael ei ddarparu yn yr ardal ar hyn o bryd, nododd fferyllfa fod angen estyn y

gwasanaeth rhagnodwyr annibynnol gan ei fod yn gweithredu i derfyn ei allu. Gall y fferyllfa ddarparu lle/staff ychwanegol i ateb y galw am y gwasanaeth. Dylid ehangu'r gwasanaeth hefyd i gynnwys meysydd fel atal cenhedlu neu reoli cyflyrau cronig fel asthma.

Nododd dwy fferyllfa fod angen cynnig profion/triniaeth ar gyfer heintiau ar y llwybr wrinol oherwydd nifer o geisiadau bob wythnos, gan gynnwys ar y penwythnosau, gan amrywiaeth o gleifion y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hatgyfeirio at eu meddygfa.

O ran gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd:

- Ehangu'r gwasanaeth rhagnodwyr annibynnol i gynnwys meysydd eraill fel atal cenhedlu neu reoli cyflyrau cronig fel asthma
- Gwasanaeth i drin mân heintiau ar y croen fel impetigo. Mae cynnydd yn nifer y cleifion â heintiau croen oherwydd y defnydd cynyddol o fasgiau wyneb yn ystod y pandemig Covid.

Cadarnhaodd wyth fferyllfa fod ganddynt ddigon o le/staff ar eu safleoedd ar hyn o bryd i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Fodd bynnag, nododd dwy nad oedd ganddynt y lle/staff ond y gallent wneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw.

Mae cynlluniau ar y gweill mewn pum fferyllfa i ddatblygu neu ehangu'r gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu:

- Bydd un yn ychwanegu ail ystafell ymgynghori yn 2021 a hoffai ehangu ei wasanaeth rhagnodwyr annibynnol. Mae wrthi'n dechrau gwasanaeth chwistrellu clustiau/microsugno i redeg ochr yn ochr â'r gwasanaeth rhagnodwyr annibynnol. Mae'r fferyllfa hefyd yn awyddus i gynnig gwasanaethau ychwanegol fel podiatreg.
- Mae un yn bwriadu darparu gwasanaethau pellach sy'n addas ar gyfer yr ardal.
- Mae un yn bwriadu cynnig y gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3.
- Dywedodd un arall fod ganddynt gynlluniau os byddant yn adleoli neu os bydd gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol yn dechrau'n fuan.
- Dywedodd un fferyllfa y byddan nhw'n ymdrechu i ddarparu unrhyw wasanaethau ychwanegol sy'n cael eu comisiynu.

18.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau

Roedd pob un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gyda phump yn darparu'r nifer uchaf posibl, sef 400. Roedd yr holl fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth yn 2019/20, gyda thair yn darparu'r nifer uchaf posibl. Ar yr adeg ysgrifennu, mae'r gwasanaeth wedi'i atal tan fis Ebrill 2022 oherwydd pandemig Covid. Fodd bynnag, rhagwelir y

bydd y fferyllfeydd yn ailddechrau'r ddarpariaeth ar ôl i'r gwasanaeth gael ei ailgychwyn.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r cylchoedd glas sy'n cynrychioli'r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae'r fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 121 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o feddyginiaethau yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

18.2.2 Adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Roedd chwech o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, ond ni ddarparodd yr un ohonynt y nifer uchaf posibl, sef 140 o adolygiadau. Roedd saith fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth yn 2019/20, ond eto, nid oedd yr un ohonynt wedi darparu'r nifer fwyaf. Roedd saith fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2020/21 gyda cyfanswm o 204 adolygiad.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau pinc sy'n cynrychioli’r fferyllfeydd orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 122 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

18.2.3 Adolygiadau defnyddio offer

Nid oes yr un o fferyllfeydd yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer offer.

18.2.4 Teilwra offer stoma

Nid oes yr un o fferyllfeydd yr ardal yn darparu'r gwasanaeth hwn er eu bod yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer offer.

18.2.5 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Roedd naw fferyllfa’r darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Yn 2020/21, roedd 10 fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac mae’r 10 cyfan wedi comisynu i ddarparu hyn yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi y gallai'r trionglau llwyd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd.

Map 123 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

18.2.6 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Darparodd pum fferyllfa’r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Yn 2020/21, roedd deg fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth a’r deg cyfan wedi comisynu i darparu hyn yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd marŵn sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 124 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2 yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

18.2.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Roedd pum fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i chwech yn 2019/20. Yn 2020/21, roedd wyth fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth yn gostwng i saith yn 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r sgwariau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 125 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3 yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

18.2.8 Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3, Cynllun Varenicline

Roedd dwy fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i bump yn 2019/20. Roedd chwe fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 gyda'r chwech wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

18.2.9 Brechiad rhag y ffliw

Roedd naw fferyllfa'r darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19 ac yn 2019/20. Yn 2020/21, roedd 10 fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ac mae 9 wedi'i ddarparu cyfanswm o 1,697 brechiad.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r cylchoedd gwyrddlas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 126 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu brechiadau rhag y ffliw yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

18.2.10 Gwasanaeth mân anhwylderau

Roedd naw fferyllfa’n darparu’r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i bob un o’r 10 yn 2019/20. Roedd pob un o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac eto wedi comisynu am 2021/22.

Mae’r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau gwyrdd sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 127 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth mân anhwylderau yn 2019/20

© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

18.2.11 Cyflenwad meddyginiaeth frys

Roedd pedair fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth hwn yn 2018/19, gan gynyddu i naw yn 2019/20. Roedd deg fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth yn 2020/21 ac maent hefyd wedi comisynu am 2021/22.

Mae'r map isod yn dangos lle roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn 2019/20. Dylid nodi, lle mae fferyllfeydd yn agos at ei gilydd, y gallai'r diemwntau glas sy'n eu cynrychioli orgyffwrdd.

Map 128 – lleoliad y fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth cyflenwad o feddyginiaeth frys yn 2019/20



© Trwydded Mapio Arolwg Ordnans Hawlfraint y Goron 100050829

Darparwyd y graffig hwn gan ffynhonnell allanol a dim ond ar gael yn unieithog.

18.2.12 Gwasanaethau cartrefi gofal

Chwech fferyllfa sydd wedi comisynu i ddarparu y gwasnaeth lefel 1 yma yn 2021/22.

18.2.13 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

18.2.14 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Yn 2020/21 roedd un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn ag un eto wedi comisynu yn 2021/22 i ddarparu.

18.2.15 Gwasanaethau rhagnodwyr annibynnol

Yn 2021/22, mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth ar gyfer anhwylderau acíwt.

18.2.16 Gwasanaeth rhoi meddyginiaethau

Yn 2020/21, roedd pob un o'r fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth sy'n cynnwys darparu cofnod rhoi meddyginiaethau neu system ddogn wedi'i monitro, ac mae pob un wedi comisynu i ddarparu yn 2021/22.

Roedd dwy fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu dosbarthwyr tabledi awtomatig yn 2020/21, ond nid yw'r un ohonynt wedi comisynu am 2021/22.

18.2.17 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

18.2.18 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Yn 2021/22 mae un fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

18.2.19 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Mae dwy fferyllfa wedi'i chomisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.

18.2.20 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Yn 2020/21 roedd naw fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn codi i deg am 2021/22.

18.3 Y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol y tu allan i'r ardal

Mae rhai preswylwyr yn dewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael hyd i wasanaethau:

- a gynigir gan gontractwyr cyfarpar dosbarthu
- sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2019/20 wedi'u dosbarthu gan y deg fferyllfa yn yr ardal leol, cafodd 8.1% eu dosbarthu y tu allan i'r ardal leol:

- 5.1% gan fferyllfeydd yng Ngogledd Torfaen,
- 1.4% gan fferyllfeydd yn Nwyrain Casnewydd,
- 0.9% yng Ngorllewin Casnewydd,
- 0.3% gan gontractwyr yn Lloegr,
- 0.1% gan fferyllfeydd ym mhob un o ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Gogledd Sir Fynwy a Dwyrain Caerffili, a
- 0.1% mewn mannau eraill yng Nghymru.

Yn 2020/21gafwyd llai o presgripsynau ei darparu tu fas i'r ardal lleol (7.3%) gyda'r mwyafrif wedi dosbarthu yng Ngogledd Torfaen (5.4%) a Dwyrain Casnewydd (0.7%).

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarparwyd gan fferyllfa arall y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

18.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae'r practisau meddygon teulu yn yr ardal yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys
- Brechiadau rhag y ffliw
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer anhwylderau cyffredin

Roedd 1.6% o'r eitemau a ragnodwyd gan y practisau meddygon teulu yn cael eu dosbarthu'n bersonol gan y practisau yn 2019/20, yn gostwng rhywfaint i 1.3% yn 2020/21.

Bydd preswylwyr yn defnyddio gwasanaethau eraill y GIG sydd yn yr ardal hon neu rywle arall yn ardal y bwrdd iechyd sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol, gan gynnwys:

- Gwasanaethau ysbyty,
- Y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau,
- Unedau mân anafiadau,
- Y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen,
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol,
- Y gwasanaeth ymarferwyr anhwylderau hirdymor, a
- Helpa Fi i Stopio.

Ceir manylion am y gwasanaethau hyn ym mhennod 6.

Nid oes unrhyw wasanaethau GIG eraill wedi'u nodi sydd yn yr ardal ac yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

18.5 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Yn gyffredinol, fel y gwelir o'r adrannau blaenorol, mae'r rhai sy'n byw yn yr ardal ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r chwe phractis meddyg teulu yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn yr ardal i ddosbarthu eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae rhai yn dewis edrych y tu allan i'r ardal, fel arfer i gael mynediad i fferyllfa gyfagos neu gontractwr offer dosbarthu yn agos i le maen nhw’n gweithio, yn siopa neu’n mynd am resymau hamdden neu eraill.

Yn 2019/20 dosbarthodd dros 270 o gontractwyr eitemau a ragnodwyd gan un o bractisau meddygon teulu’r ardal hon, ac o’r rheiny:

- Roedd deg o fewn yr ardal leol,
- Roedd 109 yn rhywle arall o fewn ardal y bwrdd iechyd,
- Roedd 151 yn rhywle arall yng Nghymru,
- Cafodd nifer o bresgripsiynau eu dosbarthu yn Lloegr.

Gostyngodd hyn i 215 yn 2020/21:

- Roedd deg wedi lleoli o fewn yr ardal lleol
- 94 wedi lleoli rhywle arall o fewn ardal y Bwrdd Iechyd,
- 105 wedi lleoli rhywle arall yng Nghymru, a
- Nifer o presgripsiynau wedi ei ddosbarthu yn Lloegr.

18.6 Bylchau yn y ddarpariaeth

18.6.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Ac eithrio un fferyllfa, mae'r fferyllfeydd mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth ac amddifadedd uwch.
- Mae’r ardal gyfan o fewn 20 munud mewn car i fferyllfa.
- Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynyddu 1.1% rhwng 2011 a 2036.
- Mae pedwar datblygiad tai a fydd, gyda'i gilydd, yn creu 1,246 o unedau tai, y mae rhai ohonynt eisoes wedi'u hadeiladu, yng Nghwmbrân a'r cyffiniau.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.2 Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Cyn atal y gwasanaeth hwn, roedd yn cael ei ddarparu gan bob un o'r fferyllfeydd.
- Darparodd pum fferyllfa y nifer uchaf posibl o adolygiadau defnyddio meddyginiaethau yn 2018/19 a thri yn 2019/20.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.3 Adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae saith fferyllfa wedi darparu’r gwasanaeth hwn yn 2020/21.
- Mae’r sgiliau sydd eu hangen ar fferyllwyr i ddarparu’r gwasanaeth hwn yr un fath ag ar gyfer y gwasanaeth adolygu’r defnydd o

feddyginiaethau. Felly, bydd yr holl fferyllfeydd yn gallu darparu’r gwasanaeth hwn.

- Ni all y systemau TG yn yr ysbytai drosglwyddo gwybodaeth am gleifion wedi’u rhyddhau i’r systemau TG yn y fferyllfeydd ar hyn o bryd. Felly, os na fydd y claf yn mynd â’i lythyr rhyddhau i’r fferyllfa, mae’n bosibl na fydd modd i’r fferyllydd nodi ei fod yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei adolygu a gall y sefyllfa wella yn ystod oes y ddogfen hon.
- Oherwydd yr ystod o feddyginiaethau sydd wedi’u cynnwys yn y gwasanaeth, dim ond cyfran fach o gleifion sy’n cael eu rhyddhau fydd yn gymwys i dderbyn y gwasanaeth hwn.
- Gan fod llythyrau rhyddhau yn cael eu hanfon yn electronig i’r practisau meddygon teulu, mae llai o risg o gamgymeriadau trawsgrifio mewn perthynas â meddyginiaethau. Yn ogystal, gall practisau meddygon teulu gysoni meddyginiaethau ar ôl rhyddhau cleifion.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Felly, mae’r bwrdd iechyd yn fodlon mai’r rheswm mwyaf tebygol am lefel gymharol isel y gwasanaeth hwn yw nifer y cleifion cymwys sy’n dod i’r fferyllfa, ac nid anallu nac amharodrwydd y fferyllfeydd i ddarparu’r gwasanaeth.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.4 Adolygiadau defnyddio offer

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer offer yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer a’u bod wedi cadarnhau y gallant ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.5 Teilwra offer stoma

Er nad yw’r un fferyllfa’n darparu'r gwasanaeth hwn, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer offer yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr cyfarpar fferyllol mewn mannau eraill yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae hefyd wedi nodi bod y contractwyr hyn yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Os bydd y patrwm dosbarthu hwn yn newid o fewn oes y ddogfen hon, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod deg o'r fferyllfeydd yn dosbarthu presgripsiynau ar gyfer pob math o offer a’u bod wedi cadarnhau y gallant ymdopi â chynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.6 Dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Bydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei ddarparu gan bractisau meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol.
- Mae ffocws cynyddol ar ddulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor ar gyfer menywod cymwys.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.7 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 2

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.8 Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae saith fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22.
- Cadarnhaodd wyth o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.9 Cyfarwyddyd grŵp cleifion rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae chwe fferyllfa wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn fel rhan o'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu lefel 3.
- Gall practisau meddygon teulu roi presgripsiynau ar gyfer Varenicline, felly gall trigolion yr ardal fanteisio ar y gwasanaeth yn y ffordd honno yn hytrach na thrwy'r gwasanaeth hwn. Serch hyn fferyllfeydd yw'r unig darparwyr o cymorth ysgogol un i un a gwasanaeth ffamarcotherapi rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 yma.
- Gwasanaeth cymharol newydd yw hwn ac mae'n bosibl felly nad yw fferyllfeydd wedi dod ymlaen eto i'w ddarparu.
- O Mehefin 2021, mae dosbarthwyr o Champix® (Varenicline) wedi gorfod stopi am cyfnod gan Pfizer, yr unig darparwyr o'r cynyrch yma. Nid oes dyddiad hyd yn hyn o pryd bydd rhain nol ar gael.
- Cadarnhaodd wyth o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Gan nad yw Varenicline ar gael ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r fferyllfeydd sydd heb arwyddo lan i ddarparu'r gwasnaeth yma i ddeall pam nad ydynt wedi gwneud.

Ar sail yr uchod, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod angen i'r fferyllfeydd sydd yn darparu'r gwasanaeth lefel 3 i hefyd ddarparu'r gwasanaeth hwn dim yn hwyrach na 12 mis wedi i'r cynyrch fod ar gael. Os na fydd hynny'n digwydd, o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch bydd angen

darparu'r gwasanaeth hwn mewn chwech lleoliad wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir dwysedd poblogaeth uwch.

18.6.10 Brechiad rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Roedd yr holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2021/22. Erbyn Awst 2021, wyth fferyllfa sydd wedi arwyddo lan i ddarparu'r gwasnaeth yma yn 2021/22, a rhgdybir bydd un neu'r dwy sy'n weddill yn gwneud.
- Mae darparwyr gwasanaeth eraill ar gael yn yr ardal.
- Cadarnhaodd wyth o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.11 Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Un o amcanion y gwasanaeth yw lleihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu ac felly byddai'n fuddiol pe bai mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd wyth o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.12 Cyflenwad meddyginiaeth frys

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r holl fferyllfeydd wedi'u comisiynu i ddarparu'r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd wyth o'r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer

y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.13 Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae chwe fferyllfa wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth lefel 1 yma yn 2021/22.
- Mater i'r cartref gofal yw dewis pa fferyllfa, os o gwbl, y mae'n dymuno gweithio gyda hi mewn perthynas â meddyginiaethau.
- Bydd cartrefi gofal wedi dewis gweithio gyda darparwyr y tu allan i'r ardal.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu ar hyn o bryd oherwydd y nifer isel sy'n manteisio arno.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.14 Gwasanaeth therapi a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail rhoi presgripsiynau i gleifion ar gyfer meddyginiaeth y mae angen ei harsylwi.
- Nid oes yr un o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu ar hyn o bryd i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Pan fu angen ei gomisiynu yn y gorffennol, nid oedd y bwrdd iechyd yn cael unrhyw anhawster wrth ddod o hyd i fferyllfa a oedd yn fodlon darparu'r gwasanaeth.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.15 Gwasanaethau heparin pwysau moleciwlaidd isel (Dalteparin)

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn "yn ôl yr angen" ar sail anghenion cleifion. Prin y bu ei angen ers ei sefydlu.
- Mae un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu ar hyn o bryd i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Comisiynir y gwasanaeth ledled Gwent ac fe'i darperir gan saith fferyllfa ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.16 Gwasanaethau dosbarthu presgripsiynau annibynnol

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Gwasanaeth newydd yw hwn sy'n dibynnu ar sicrhau bod cyrsiau hyfforddi ar gael a fferyllwyr yn gallu eu cwblhau.
- Mae un o’r fferyllfeydd wedi’i chomisiynu ar hyn o bryd i ddarparu’r gwasanaeth cyflyrau aciwt yma.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Yn unol â Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach, hoffai'r bwrdd iechyd weld rhagnodwr annibynnol ym mhob un o’r fferyllfeydd presennol. Fodd bynnag, nid yw wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.17 Gwasanaethau rhoi meddyginiaethau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Y sector gofal cymdeithasol sy'n gyrru'r galw am y gwasanaethau hyn.

- Mae’r holl fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu cofnodion rhoi meddyginiaethau neu systemau dogn wedi'u monitro a does dim un yn ddarparu peiriannau dosbarthu tabledi awtomatig.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.18 Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae un fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i ddarganfod ble yr hoffent gael mynediad i'r gwasanaeth hwn ac yna'n cysylltu â'r bwrdd iechyd i gomisiynu'r gwasanaeth yn y lleoliad neu'r lleoliadau gofynnol.
- Adroddir bod rhai defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno teithio y tu allan i’w hardal leol i gael mynediad i'r gwasanaeth.
- Mae darparwyr eraill ar gyfer y gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.19 Gwasanaeth gofal lliniarol o fewn oriau gwaith

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau dosbarthiad daearyddol o fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae un fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.20 Gwasanaeth gofal lliniarol y tu allan i oriau

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Comisiynir y gwasanaeth hwn ledled Gwent i sicrhau dosbarthiad daearyddol o fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Mae dwy fferyllfa wedi’i chomisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

18.6.21 Gwasanaeth defnyddio cyffuriau dan oruchwyliaeth

Mae’r bwrdd iechyd wedi nodi’r pwyntiau canlynol:

- Mae naw o’r fferyllfeydd wedi’u comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth hwn.
- Cadarnhaodd wyth o’r fferyllfeydd fod ganddynt ddigon o le a staff ar eu safleoedd presennol i ymdopi â chynnydd mewn galw ar gyfer y gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Dywedodd dwy nad oes ganddynt ddigon ond y gallent wneud addasiadau.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

19 Casgliadau at ddibenion atodlen 1 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi ystyried y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol ar draws ardal y bwrdd iechyd ochr yn ochr â demograffeg ac anghenion iechyd y boblogaeth. Mae wedi dadansoddi p'un a yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu anghenion y boblogaeth ai peidio ac a oes unrhyw fylchau yn narpariaeth y gwasanaeth fferyllol naill ai nawr neu o fewn oes y ddogfen hon.

Mae'r bwrdd iechyd yn dymuno gweld gwasanaeth cyson yn cael ei gynnig gan fferyllfeydd ar draws ei ardal fel bod preswylwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau mewn lleoliadau hygyrch. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nifer o fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a chyflwynir y rhain fel anghenion presennol ac anghenion y dyfodol yn yr adrannau canlynol o'r bennod hon.

19.1 Y Ddarpariaeth bresennol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi nodi'r gwasanaethau canlynol fel y rhai sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal:

- Gwasanaethau hanfodol, datblygedig a gwell a ddarperir ym mhob safle sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr fferyllol, a
- Y gwasanaeth gweinyddu meddyginiaethau a ddarperir gan y practisau meddygon teulu hynny sydd wedi'u cynnwys ar restr y meddygon fferyllol.

Mae penodau blaenorol y ddogfen hon wedi nodi darpariaeth y gwasanaethau hyn ym mhob ardal.

Mae hefyd wedi nodi bod darpariaeth y gwasanaethau uchod gan gontractwyr y tu allan i'w hardal, boed hynny mewn mannau eraill yng Nghymru neu yn Lloegr, yn cyfrannu at ddiwallu'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal.

19.2 Gwasanaethau eraill y GIG

Wrth gynnal yr asesiad anghenion fferyllol hwn, mae'r bwrdd iechyd o'r farn bod y gwasanaethau GIG canlynol yn effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol ac mae wedi eu hystyried:

- Gwasanaethau ysbyty
- Gweinyddu eitemau'n bersonol gan feddygon teulu
- Gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau

- Unedau mân anafiadau
- Gwasanaethau fferylliaeth carchardai
- Y Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Amgen
- Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol
- Y gwasanaeth ymarferwyr anhwylderau hirdymor
- Helpa fi i Stopio
- Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu dan eu contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, a
- Clinigau hwb iechyd rhywiol.

19.3 Bylchau yn y Ddarpariaeth bresennol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'r anghenion cyfredol canlynol o ran darparu gwasanaethau fferyllol.

19.3.1 Dwyrain Blaenau Gwent

Dim angen presenol wedi amlygu yn yr ardal lleol.

19.3.2 Gorllewin Blaenau Gwent

Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 - mae angen y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn ardal Cwm.

19.3.3 Dwyrain Caerffili

Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 - mae angen darparwr y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yng Nghwmfelinfach.

19.3.4 Gogledd Caerffili

Nid oes unrhyw anghenion cyfredol wedi'u nodi yn yr ardal hon.

19.3.5 De Caerffili

Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 - mae angen y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn ardal Llanbadarch. Nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

19.3.6 Gogledd Sir Fynwy

Nid oes unrhyw anghenion cyfredol wedi'u nodi yn yr ardal hon.

19.3.7 Gogledd Sir Fynwy

Nid oes unrhyw anghenion cyfredol wedi'u nodi yn yr ardal hon.

19.3.8 Dwyrain Casnewydd

Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 - mae angen darparwr y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn Llanmartin a Llyswyry.

19.3.9 Gorllewin Casnewydd

Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 - mae angen darparu'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn Bassaleg a Maerun, ac am ledaeniad gwell o fferyllfeydd yng Nghasnewydd ei hun.

19.3.10 Gogledd Torfaen

Dim angen cyfredol wedi nodi yn yr ardal lleol.

19.3.11 De Torfaen

Nid oes unrhyw anghenion cyfredol wedi'u nodi yn yr ardal hon.

19.4 Bylchau yn y ddarpariaeth yn y dyfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi ystyried y datblygiadau hysbys canlynol yn y dyfodol:

- Y twf a ragwelir yn y boblogaeth a'r boblogaeth sy'n heneiddio,
- Datblygiadau Tai,
- Adleoli practisau meddygon teulu, ac
- Y Strategaeth Dyfodol Clinigol.

Yn ogystal, mae wedi ystyried Fferylliaeth; Cyflawni Cymru Iachach sy'n nodi'r nodau hirdymor ar gyfer trawsnewid gwasanaethau er mwyn sicrhau'r cynnydd mwyaf mewn iechyd o feddyginiaethau rhagnodedig.

19.4.1 Dwyrain Blaenau Gwent

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i bob fferyllfa sy’n ddarparu'r gwasanaeth hwn hefyd darparu hyn o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd bryd hynny, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn chwech lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

Brechu rhag y ffliw - yn y dyfodol mae angen i'r gwasanaeth hwn gael ei ddarparu gan fferyllfeydd yn ardaloedd gyda dwyster poblogaeth uchel o fewn yr ardal lleol h.y Abertileri, Blaina, Brynmawr a Llanhilleth o'r tymor

ffliw nesaf. Os na fydd hynny'n digwydd bryd hynny, o 1 Medi 2022, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

19.4.2 Gorllewin Blaenau Gwent

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i’r fferyllfeydd sy’n darparu'r gwasanaeth lefel 3 yma hefyd darparu y gwasanaeth o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch. Mae hefyd yr angen i’r gwasnaeth yma cael ei ddarparu yn ardal Cwm dim yn hwyrach na 12 mis o argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn y flwyddyn i argaeledd y cynyrch, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn chwech lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

19.4.3 Dwyrain Caerffili

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i bob fferyllfa sy’n darparu’r gwasanaeth lefel 3 i ddarparu'r gwasanaeth hwn erbyn o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch. Mae hefyd yr angen am y gwasnaeth yma i gael ei ddarparu yn ardal Cwmfelinfach dim yn hwyrach na 12 mis o argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn y 12 mis i argaeledd y cynyrch, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn naw lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

19.4.4 Gogledd Caerffili

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i bob fferyllfa sy’n darparu’r gwasanaeth lefel 3 i ddarparu'r gwasanaeth hwn erbyn o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn y 12 mis i argaeledd y cynyrch, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn 12 lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

19.4.5 De Caerffili

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i bob fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth hwn i darparu o fewn 12 mis o argaeledd y cynyrch. Mae hefyd angen i’r gwasnaeth cael ei ddarparu yn ardal Llanbradach dim yn hwyrach na 12 mis ar ol i’r cynyrch ddod ar gael. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn y 12 mis o argaeledd y cynyrch bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn naw lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

19.4.6 Gogledd Sir Fynwy

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i’r fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth hwn o fewn i 12 mis i argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn saith lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

19.4.7 Gogledd Sir Fynwy

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i bob fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth hwn o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn tri lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

19.4.8 Dwyrain Casnewydd

Yn y dyfodol, bydd angen fferyllfa o fewn naill ai canolfan lleol Glan-llyn neu’r Parc Bysnes Celtaidd ar pen ddwyreiniol o datblygiad Glan Llyn unwaith mae’r 2,000 o dai wedi gorffen sydd, o leiaf, ag oriau agor craidd o:

- 09.00 to 18.30 dydd llun i ddydd Gwener, a
- 08:00 i 13:00 ar ddydd Sadwrn.

Yn y dyfodol, bydd angen i'r fferyllfa hon ddarparu'r gwasanaethau canlynol o'r pwynt y mae wedi'i chynnwys yn y rhestr fferyllol:

- Yr holl wasanaethau hanfodol
- Gwasanaethau adolygu defnyddio meddyginiaethau a gwasanaethau meddyginiaethau rhyddhau, a
- Gwasanaethau gwell atal cenhedlu hormonaidd brys, lefelau rhoi'r gorau i ysmygu 2 a 3, defnydd dan oruchwyliaeth, y gwasanaeth anhwylder cyffredin, y gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys, brechiadau rhag y ffliw, y gwasanaeth lleihau gwastraff a'r gwasanaethau gweinyddu meddyginiaethau.

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i’r fferyllfeydd sy’n darparu'r gwasanaeth hwn darparu dim yn hwyrach na 12 mis wedi argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y

dyfodol mewn saith lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

19.4.9 Gorllewin Casnewydd

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i’r fferyllfeydd sy’n darparu’r gwasanaeth lefel 3 hefyd darparu'r gwasanaeth hwn dim yn hwyrach na 12 mis o argaaeledd y cynyrch. Mae hefyd angen i’r gwasnaeth yma i gael ei ddarparu yn ardal Bassaleg a am lledaeniad well o fferyllfeydd yn ardal Casnewydd dim yn hwyrach na 12 mis o argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn y 12 mis i argaeledd y cynyrch, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn 10 lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

19.4.10 Gogledd Torfaen

Yn y dyfodol, mae angen fferyllfa o fewn datblygiad Pentref Trefol Mamheilad, unwaith y bydd wedi'i chwblhau a pob cwmni adeiladwaith wedi gadael y safle, sydd, o leiaf, ag oriau agor craidd o:

- 09.00 to 18.30 dydd Llun i ddydd Gwener, a
- 08:00 i 13:00 ar ddydd Sadwrn.

Yn y dyfodol, bydd angen i'r fferyllfa hon ddarparu'r gwasanaethau canlynol o'r pwynt y mae wedi'i chynnwys yn y rhestr fferyllol:

- Yr holl wasanaethau hanfodol
- Gwasanaethau adolygu defnyddio meddyginiaethau a gwasanaethau meddyginiaethau rhyddhau, a
- Gwasanaethau gwell atal cenhedlu hormonaidd brys, lefelau rhoi'r gorau i ysmygu 2 a 3, defnydd dan oruchwyliaeth, y gwasanaeth anhwylder cyffredin, y gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys, brechiadau rhag y ffliw, y gwasanaeth lleihau gwastraff a'r gwasanaethau gweinyddu meddyginiaethau.

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i’r fferyllfeydd ddarparu'r gwasanaeth lefel 3 ymadim yn hwyrach na 12 mis o argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn 15 lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

19.4.11 De Torfaen

Cyfeiriad grŵp cleifion lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu - mae angen i’rfferyllfeydd sy’n darparu'r gwasanaeth lefel 3 yma hefyd darparu o fewn 12 mis i argaeledd y cynyrch. Os na fydd hynny'n digwydd o fewn y 12 mis i argaeledd y cynyrch, bydd angen darparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol mewn 10 lleoliad wedi'u gwasgaru'n gyfartal ledled yr ardal, mewn ardaloedd lle ceir mwy o ddwysedd poblogaeth.

Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol, contractwyr cyfarpar fferyllol a meddygon fferyllol yn gweithredu ynddo drwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi. O fewn y fframwaith, mae'r cyfrifoldeb am gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol wedi'i freinio mewn byrddau iechyd y mae'n rhaid iddynt gynllunio gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaethau preswyl. Mae hyn yn cynnwys pennu nifer a lleoliad fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar fferyllol yn eu hardaloedd.

Rhoddir y ddyletswydd gyffredinol i sicrhau y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu, fel gydag agweddau eraill ar wasanaethau gofal sylfaenol y GIG, yn uniongyrchol i fyrddau iechyd o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 (Deddf 2006). Mae byrddau iechyd yn rheoli rhestrau lleol o ddarparwyr cymeradwy, y cyfeirir atynt fel rhestrau fferyllol, ac mae cynnwys safleoedd contractwyr fferyllol a chontractwyr cyfarpar fferyllol ar restrau fferyllol yn rhoi hawl i gontractwyr ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn y safleoedd hynny.

Mae'r trefniadau hyn yn rheoli'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol ac nid yr hawl i agor a chynnal busnes fferyllol yng Nghymru. Ymdrinnir â hynny o dan ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer y DU gyfan, Deddf Meddyginiaethau 1968.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a dyletswyddau helaeth i wneud rheoliadau ac i roi cyfarwyddiadau i fyrddau iechyd, sy'n rheoli manylion y system gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pennu telerau gwasanaeth fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar fferyllol a chymhwyso'r prawf rheoli mynediad, sef y prawf y bu'n rhaid ei fodloni hyd at 1 Hydref 2021 cyn y byddai bwrdd iechyd yn caniatáu cais am fynediad, neu'n diwygio cofnod, ar y rhestr fferyllol.

O dan Reoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (Rheoliadau 2013), a'r rheoliadau blaenorol, cyflwynodd y personau hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol gais i'r bwrdd iechyd yn unol â Rheoliadau 2013. Yna penderfynodd y bwrdd iechyd p’un a oedd y cais yn bodloni'r prawf perthnasol ai peidio. Roedd Rheoliadau 2013 yn caniatáu i benderfyniad y bwrdd iechyd gael ei herio drwy gyflwyno apêl gyda Gweinidogion Cymru.

Felly, roedd y system flaenorol o ddarparu gwasanaethau fferyllol yn cael ei llywio gan y rhai a oedd yn dymuno darparu gwasanaethau fferyllol. Nhw oedd yn penderfynu pa wasanaethau yr oeddent am eu darparu ac o ba leoliad.

Roedd hynny'n golygu bod y system yn adweithiol i geisiadau ac nad oedd byrddau iechyd yn gallu cynllunio lle'r oedd fferyllfeydd neu gontractwyr cyfarpar fferyllol wedi'u lleoli na chyfarwyddo pa wasanaethau yr oedd rhaid eu darparu o'r lleoliadau hynny.

Sail resymegol dros newid

Yn 2010 sefydlodd y Gweinidog Iechyd bryd hynny a’r Gwasanaethau Cymdeithasol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r fframwaith rheoleiddio, i ystyried polisi Llywodraeth Cymru ar reoli mynediad a darparu gwasanaethau fferyllol gan broffesiynau iechyd ar wahân i fferyllwyr (e.e. meddygon) ac i wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth, os yw'n briodol, i gyflwyno system hirdymor, cost-effeithiol a chynaliadwy a fyddai'n rhoi mynediad priodol i gleifion at wasanaethau fferyllol.

Yn 2011 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar argymhellion y grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd yr ymgynghoriad "Cynigion i ddiwygio a moderneiddio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992" yn ceisio barn ar gynigion i ddarparu dull newydd o benderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol yng Nghymru yn seiliedig ar asesiad o anghenion lleol gan fyrddau iechyd. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gwneud newid o'r fath yn gofyn am greu a chynnwys pwerau priodol yn Neddf 2006.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth Rheoliadau 2013 i rym ar 10 Mai 2013 ond nid oeddent yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno asesiadau o angen fferyllol.

Mewnosododd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Deddf 2017) adran 82A yn Neddf 2006 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswydd newydd i fyrddau iechyd yng Nghymru baratoi a chyhoeddi asesiad o angen am wasanaethau fferyllol. Rhoddodd adran 82A bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi'r gofynion ar gyfer asesiadau o angen fferyllol yng Nghymru.

Effaith a fwriedir a chanlyniadau buddiol

Yr effaith a fwriedir o gyflwyno asesiadau o angen fferyllol yw gwella'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol drwy sicrhau bod y byrddau iechyd yn ystyried anghenion fferyllol eu poblogaethau'n gadarn ac yn alinio gwasanaethau'n agosach â hwy. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gymryd dull mwy integredig o nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad pob darparwr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon fferyllol). Bydd byrddau iechyd yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi lle mae angen safleoedd ychwanegol, lle mae darparwyr presennol yn mynd i'r afael yn

ddigonol ag anghenion fferyllol, a lle mae angen gwasanaethau ychwanegol o safleoedd presennol.

Bydd y newid yn rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr, gan leihau risg busnes a chaniatáu iddynt fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau ehangach nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Yn bwysig, bydd fferyllfeydd yn arbennig hefyd yn dod yn fwy ymatebol i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn darparu gwasanaethau'n effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion fferyllol a nodwyd.

Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoliadau

Mae adran 80 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau fferyllol a nodir yn isadrannau 80(3)(a) i (d). Gwasanaethau gweinyddu yw'r gwasanaethau fferyllol craidd hyn yn y bôn. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd y mae byrddau iechyd yn gwneud y trefniadau hyn.

Mae adran 81 o Ddeddf 2006 yn nodi'r trefniadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol. Diffinnir 'gwasanaethau fferyllol ychwanegol' fel gwasanaethau o’r fath nad ydynt yn dod dan adran 80 h.y. gwasanaethau uwch a gwell. Mae adran 81 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i fwrdd iechyd:

(i) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo drefnu i ddarparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol, neu
(ii) awdurdodi'r bwrdd iechyd i drefnu i ddarparu gwasanaethau fferyllol os yw'n dymuno.

Mae adran 83 o Ddeddf 2006 yn cynnwys craidd pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau fferyllol ac, ymhlith pethau eraill, yn nodi'r gofyniad i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i fwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi rhestr fferyllol, ac yn nodi'r profion y mae'n rhaid i'r personau hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol eu pasio er mwyn gwneud hynny (a elwir yn 'prawf rheoli mynediad').

Mae adran 84 yn nodi gofyniad i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer hawliau apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan fyrddau iechyd drwy arfer pwerau a roddwyd iddynt gan reoliadau a wneir o dan adran 83.

Gwnaeth Rhan 7 o Ddeddf 2017 ddarpariaeth i ddiwygio Deddf 2006 mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol. Mewnosododd adran 111 o Ddeddf 2017 adran 82A newydd yn Neddf 2006 sy'n rhoi pwerau i

Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau o angen fferyllol. Daeth Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019 â Rhan 7 o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2019. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru bellach wedi gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gofynion ar gyfer asesiadau o angen fferyllol yng Nghymru.

Cafodd Rheoliadau 2013 eu dirymu a'u disodli gan Reoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae Rhan 2 o Reoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn gosod y gofynion cyfreithiol ar fyrddau iechyd i gwblhau asesiadau o angen fferyllol.

Daeth Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 i rym ar 1 Hydref 2020 ac mae gan fyrddau iechyd tan 1 Hydref 2021 i gyhoeddi eu hasesiad o angen fferyllol cyntaf.

I grynhoi, mae Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn nodi:

- Gwasanaethau sydd i'w cynnwys gan yr angen fferyllol
- Gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr angen fferyllol (dylid nodi bod byrddau iechyd yn rhydd i gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol yn eu barn nhw)
- Y dyddiad y mae'n rhaid i fyrddau iechyd gyhoeddi eu angen fferyllol cyntaf
- Gofyniad ar fyrddau iechyd i gyhoeddi asesiadau o angen fferyllol pellach bob pum mlynedd
- Gofyniad i gyhoeddi asesiad diwygiedig yn gynt na bob pum mlynedd mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i gyhoeddi datganiadau atodol mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i ymgynghori â rhai pobl a sefydliadau o leiaf unwaith wrth gynhyrchu'r angen fferyllol, am o leiaf 60 diwrnod; a
- Materion y mae'r bwrdd iechyd i roi sylw iddynt wrth gynhyrchu ei angen fferyllol.

Unwaith y bydd bwrdd iechyd wedi cyhoeddi ei angen fferyllol cyntaf, mae'n ofynnol iddo gynhyrchu angen fferyllol diwygiedig o fewn pum mlynedd neu'n gynt os yw'n nodi newidiadau helaeth i'r angen am wasanaethau fferyllol. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo'r bwrdd iechyd yn fodlon y byddai cynhyrchu angen fferyllol diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny.

Yn ogystal, caiff bwrdd iechyd gyhoeddi datganiad atodol pan fo'n nodi newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol sy'n berthnasol i ganiatáu ceisiadau y cyfeirir atynt yn Adran 83 o Ddeddf 2006, a

- Mae'n fodlon y byddai gwneud asesiad diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny, neu
- Mae'n rhan o wneud asesiad diwygiedig ac mae'n fodlon bod addasu ei angen fferyllol ar unwaith yn hanfodol er mwyn atal niwed i ddarparu gwasanaethau fferyllol yn ei ardal.

Datblygu'r gofynion manwl

Sefydlwyd gweithgor ym mis Tachwedd 2015 i ddatblygu'r gofynion manwl ar gyfer cynnal angen fferyllol ac adolygu a diwygio'r profion a'r gweithdrefnau fel y maent yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Roedd y grŵp, a wnaeth gyfarfod ar sawl achlysur, yn cynnwys arweinwyr fferyllfeydd byrddau iechyd gyda gwybodaeth am reolaeth flaenorol y system mynediad ac arbenigedd mewn fferyllfeydd cymunedol, arweinwyr (fferyllfeydd) gofal sylfaenol Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir y GIG, sydd ag arbenigedd yn y broses o benderfynu ar reolaeth dros geisiadau mynediad, a staff Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ar asesiadau o angen fferyllol, gan gynnwys y cynigion dilynol yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Atodiad B – gwasanaethau hanfodol

1. Dosbarthu presgripsiynau

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Cyflenwi meddyginiaethau a chyfarpar a archebwyd ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor, i alluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn derbyn meddyginiaethau a chyfarpar a archebwyd yn ddiogel ac yn briodol gan y fferyllfa:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cael systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Cael systemau ar waith i sicrhau cywirdeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl feddyginiaethau a chyfarpar a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gofal cleifion yn y dyfodol
- Cadw cofnod o'r cyngor a roddir, ac ymyriadau ac atgyfeiriadau a wneir, lle mae'r fferyllydd o'r farn ei fod yn glinigol briodol.

- Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu meddyginiaethau a'u cyfarpar yn effeithiol gan staff fferyllol:

- Rhoi gwybodaeth a chyngor i'r claf neu ei gynrychiolydd ar ddefnyddio ei feddyginiaeth neu ei gyfarpar yn ddiogel
- Darparu cyngor ehangach i'r claf ar y feddyginiaeth pan fo'n briodol, er enghraifft ei sgil-effeithiau posibl a'r ffordd y mae’n rhyngweithio â sylweddau eraill.

2. Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy’r GIG ar gyfer meddyginiaethau a chyfarpar mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer dosbarthu, fel bod y fferyllydd yn canfod angen y claf am ailgyflenwad ac yn cyfleu unrhyw faterion sy'n glinigol arwyddocaol i'r rhagnodwr.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu meddyginiaethau a'u cyfarpar presgripsiwn rheolaidd yn uniongyrchol o fferyllfa gymunedol am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodwr.
- Lleihau gwastraff drwy leihau nifer y meddyginiaethau a'r cyfarpar a ddosberthir nad yw'n ofynnol gan y claf
- Lleihau llwyth gwaith practisau meddygol cyffredinol, drwy ostwng y baich o reoli presgripsiynau amlroddadwy.

3. Gwaredu cyffuriau diangen

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Fferyllfeydd cymunedol yn derbyn meddyginiaethau diangen y mae angen eu gwaredu'n ddiogel gan aelwydydd preifat a phobl sy'n byw mewn cartref gofal preswyl. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd drefnu i gasglu a gwaredu meddyginiaethau gwastraff o fferyllfeydd.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Sicrhau bod gan y cyhoedd ddull hawdd o gael gwared ar feddyginiaethau diangen yn ddiogel
- Lleihau nifer y meddyginiaethau diangen a gedwir yng nghartrefi pobl drwy ddarparu llwybr i'w waredu gan leihau'r risg o wenwyn damweiniol yn y cartref a rhoi meddyginiaethau i bobl eraill nad ydynt wedi'u hawdurdodi i'w cael
- Lleihau'r risg o ddatgelu'r cyhoedd i feddyginiaethau diangen a waredwyd drwy ddulliau anniogel
- Lleihau difrod amgylcheddol a achosir gan y dulliau gwaredu amhriodol ar gyfer meddyginiaethau diangen.

4. Hyrwyddo ffordd o fyw iach

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Darparu ffordd iach o fyw iach oportiwnistaidd a chyngor iechyd y cyhoedd i gleifion sy'n derbyn presgripsiynau sy'n ymddangos fel pe bai’r canlynol yn wir amdanynt:

- mae ganddynt ddiabetes; neu
- maent mewn perygl o gael clefyd coronaidd y galon, yn enwedig y rhai â phwysedd gwaed uchel; neu
- maen nhw’n ysmygu; neu
- maen nhw dros bwysau,

a chyfranogiad rhagweithiol mewn ymgyrchoedd cenedlaethol/lleol, i hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ymwelwyr fferyllfeydd cyffredinol yn ystod cyfnodau ymgyrchu targedig penodol

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth cleifion a'r cyhoedd o negeseuon allweddol am ffordd o fyw iach ac iechyd y cyhoedd fel eu bod yn cael eu grymuso i gymryd camau a fydd yn gwella eu hiechyd.
- Er mwyn targedu'r sectorau 'anodd eu cyrraedd' o'r boblogaeth nad ydynt yn aml yn cael eu hamlygu i weithgareddau hybu iechyd mewn rhannau eraill o'r sector iechyd neu ofal cymdeithasol.

5. Atgyfeirio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu gwybodaeth i bobl sy'n ymweld â'r fferyllfa, y mae angen cymorth, cyngor neu driniaeth bellach arnynt na all y fferyllfa ei ddarparu, ond sydd ar gael gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill neu sefydliadau cymorth a allai gynorthwyo'r person. Lle bo'n briodol, gall hyn fod ar ffurf atgyfeiriad.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Hysbysu neu gynghori pobl sydd angen cymorth, na ellir ei ddarparu gan y fferyllfa, darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol priodol eraill neu sefydliadau cymorth
- Galluogi pobl i gysylltu a/neu gael gafael ar ofal a chymorth pellach sy'n briodol i'w hanghenion
- Lleihau'r defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

6. Cymorth ar gyfer hunanofal

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyngor a chymorth gan staff fferyllol i alluogi pobl i gael y budd mwyaf posibl o ofalu amdanynt eu hunain neu eu teuluoedd.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Gwella mynediad a dewis i bobl sy'n dymuno gofalu amdanynt eu hunain neu eu teuluoedd

- Mae pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael cyngor priodol i'w helpu i hunanreoli cyflwr hunangyfyngol neu hirdymor, gan gynnwys cyngor ar ddethol a defnyddio unrhyw feddyginiaethau priodol
- Mae pobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael cyngor hybu iechyd oportiwnistaidd pan fo'n briodol, yn unol â'r cyngor a ddarperir mewn gwasanaeth hanfodol – hyrwyddo gwasanaeth ffordd o fyw iach
- Mae pobl, gan gynnwys gofalwyr, mewn sefyllfa well i ofalu amdanynt eu hunain neu reoli cyflwr ar y pryd ac yn y dyfodol, drwy fod yn fwy gwybodus am yr opsiynau triniaeth sydd ganddynt, gan gynnwys rhai nad ydynt yn rhai ffarmacolegol
- Lleihau'r defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Atodiad C – gwasanaethau uwch

1. Gwasanaeth adolygu’r defnydd o feddyginiaethau ac ymyrraeth o ran presgripsiynau

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys adolygiadau o’r defnydd o feddyginiaethau a gynhelir o bryd i'w gilydd, yn ogystal â'r rheiny sy'n codi mewn ymateb i'r angen i wneud ymyrraeth sylweddol o ran presgripsiynau yn ystod y broses ddosbarthu. Mae adolygiad o’r defnydd o feddyginiaethau yn ymwneud â helpu cleifion i ddefnyddio eu meddyginiaethau'n fwy effeithiol.

Gall argymhellion a wneir i ragnodwyr hefyd ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol neu gost triniaeth.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Gwella gwybodaeth am gleifion a'r defnydd o feddyginiaethau drwy:

- Sefydlu defnydd, dealltwriaeth a phrofiad gwirioneddol y claf o gymryd ei feddyginiaethau;
- Nodi, trafod a chynorthwyo i ddatrys defnydd gwael neu aneffeithiol o'u meddyginiaethau;
- Nodi sgil-effeithiau a rhyngweithiadau cyffuriau a allai effeithio ar gydymffurfiaeth cleifion;
- Gwella effeithiolrwydd clinigol a chost meddyginiaethau presgripsiwn a thrwy hynny leihau gwastraff meddyginiaeth.

Ym mis Medi 2021, cafodd y gwasanaeth hwn ei atal hyd nes y rhoddir gwybod yn wahanol.

2. Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau i gleifion a ryddhawyd

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Bydd y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau i gleifion a ryddhawyd yn rhoi cymorth i gleifion a ryddhawyd yn ddiweddar rhwng lleoliadau gofal drwy sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wneir mewn un lleoliad gofal (e.e. yn ystod arhosiad yn yr ysbyty) yn cael eu gweithredu fel a fwriadwyd yn y gymuned gan helpu i leihau'r risg o broblemau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir eu hatal a chefnogi cydymffurfiaeth â meddyginiaethau newydd. Bydd y gwasanaeth, sy'n adeiladu ar y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau

i gleifion a ryddhawyd presennol, yn rhoi cyfle i gefnogi cleifion i wella eu gwybodaeth a'u defnydd o gyffuriau.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Diben sylfaenol y gwasanaeth hwn, gyda chytundeb y claf, yw cyfrannu at leihau'r risg o gamgymeriadau gyda meddyginiaethau a digwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau drwy, yn benodol –

- Cynyddu argaeledd gwybodaeth gywir am feddyginiaethau claf,
- Gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal cleifion, a chleifion a'u gofalwyr,
- Cynyddu cyfranogiad cleifion yn eu gofal eu hunain drwy eu helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'u meddyginiaethau, a
- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd presgripsiynau diangen neu ddyblyg yn cael eu dosbarthu a thrwy hynny leihau gwastraff meddyginiaethau.

Gall contractwyr fferyllol hawlio uchafswm o 140 o adolygiadau o feddyginiaethau i gleifion a ryddhawyd fesul fferyllfa am y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth o unrhyw flwyddyn ariannol.

3. Addasu offer Stoma

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Mae addasu offer Stoma yn golygu addasu mwy nag un offeryn stoma, lle:

- Rhestrir yr offeryn stoma sydd i'w addasu yn Rhan IXC o'r Tariff Cyffuriau
- Mae'r addasu'n golygu addasu i'r un fanyleb o rannau unfath lluosog i'w defnyddio gydag offeryn; a
- Mae'r addasiad yn seiliedig ar fesur neu gofnod y claf o'r mesuriadau hynny ac, os yw'n berthnasol, templed.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Diben pennaf y gwasanaeth yw:

- Sicrhau bod y claf yn gallu defnyddio’r offer stoma yn briodol a chyffyrddus; a
- Gwella hyd y defnydd o'r offer, a thrwy hynny leihau gwastraff offer o'r fath.

4. Adolygiad o'r defnydd o gyfarpar

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Mae adolygiad o'r defnydd o gyfarpar yn ymwneud â helpu cleifion i ddefnyddio eu cyfarpar yn fwy effeithiol. Gall argymhellion a wneir i ragnodwyr hefyd ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol neu gost triniaeth.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Diben pennaf y gwasanaeth, gyda chytundeb y claf, yw gwella gwybodaeth a defnydd y claf o unrhyw gyfarpar penodedig drwy, yn benodol:

- Sefydlu'r ffordd y mae'r claf yn defnyddio'r cyfarpar penodedig a phrofiad y claf o ddefnydd o'r fath
- Nodi, trafod a chynorthwyo i ddatrys defnydd gwael neu aneffeithiol o'r cyfarpar penodedig gan y claf
- Cynghori'r claf ar storio'r cyfarpar penodedig yn ddiogel ac yn briodol
- Cynghori'r claf ar waredu'r cyfarpar penodedig sydd wedi’u defnyddio neu nad oes eu hangen mwyach mewn modd diogel a phriodol.

Mae cyfanswm nifer yr adolygiadau defnydd o gyfarpar y caiff contractwr cyfarpar neu fferyllfa hawlio ffioedd ar eu cyfer wedi'i gyfyngu i un ar gyfer pob 35 eitem bresgripsiwn Rhan IXA (eitemau cymwys), Rhan IXB a Rhan IXC a ddosberthir am y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn.

Atodiad D – gwasanaethau gwell

1. Gwasanaeth monitro gwrthgeulo, sy’n galluogi’r contractwr fferyllol i brofi amser ceulo gwaed y claf, adolygu'r canlyniadau ac addasu (neu argymell addasu i) y dos gwrthgeulo yn unol â hynny.

2. Gwasanaeth cartref gofal, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i roi cyngor a chymorth i breswylwyr a staff mewn cartref gofal sy'n ymwneud â’r canlynol —

- Archebu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol er budd preswylwyr yn y cartref gofal
- Y defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
- Gweinyddu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol yn y cartref gofal
- Storio a thrin cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol, a
- Cofnodi cyffuriau a chyfarpar sy’n cael eu harchebu, trin, gweinyddu, storio neu eu gwaredu.

3. Gwasanaeth rheoli clefyd penodol, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i gynghori ar driniaeth cleifion â chyflyrau penodedig, a'u cefnogi a'u monitro, a lle bo'n briodol, cyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

4. Gwasanaeth cyflenwi bwyd heb glwten, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i gyflenwi bwydydd heb glwten i gleifion.

5. Gwasanaeth danfon i’r cartref, sy’n galluogi’r contractwr fferyllol i ddarparu cyffuriau a chyfarpar (ac eithrio 'offer penodedig') i gleifion yn eu cartref.

6. Gwasanaeth mynediad iaith, sy’n galluogi’r contractwr fferyllol i ddarparu, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, gyngor a chymorth i gleifion mewn iaith y maen nhw’n ei deall mewn perthynas â'r canlynol—

- Cyffuriau y maent yn eu defnyddio
- Eu hiechyd, a
- Materion iechyd cyffredinol sy'n berthnasol iddynt,

a lle bo'n briodol, cyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

7. Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Cynnal adolygiad o'r cyffuriau a ddefnyddir gan glaf ar sail gwybodaeth a chanlyniadau profion sydd wedi'u cynnwys yng

nghofnod gofal y claf, gyda'r nod o ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd parhaus y cyffuriau i'r claf,
- Cynghori a chefnogi'r claf ynglŷn â'i ddefnydd o gyffuriau, gan gynnwys annog y claf i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'i ddefnydd o gyffuriau, a
- Lle bo'n briodol, cyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

8. Gwasanaeth asesu meddyginiaethau a chefnogi cydymffurfiaeth, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Asesu gwybodaeth cleifion sy'n agored i niwed a chleifion ag anghenion arbennig am gyffuriau, eu cydymffurfiaeth â hwy a'u defnydd ohonynt, a
- Cynnig cyngor, cefnogaeth a chymorth i gleifion sy'n agored i niwed a chleifion ag anghenion arbennig ynghylch defnyddio cyffuriau gyda'r nod o wella eu gwybodaeth am gyffuriau o'r fath, eu cydymffurfiaeth â hwy a'u defnydd ohonynt.

9. Cynllun mân anhwylderau, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i roi cyngor a chymorth i gleifion cymwys sy'n cwyno am fân anhwylder, a lle bo'n briodol i gyflenwi cyffuriau i'r claf ar gyfer trin y mân anhwylderau.

10. Gwasanaeth cyfnewid chwistrellau, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Darparu nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig di-haint i'r rheiny sy'n camddefnyddio cyffuriau
- Derbyn nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig wedi'u defnyddio gan y rheiny sy'n camddefnyddio cyffuriau
- Cynnig cyngor i'r rheiny sy'n camddefnyddio cyffuriau a lle bo'n briodol atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall neu ganolfan trin cyffuriau arbenigol.

11. Gwasanaeth cyffuriau arbenigol sydd ar gael yn ôl y galw, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i sicrhau bod cleifion neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael mynediad prydlon at gyffuriau arbenigol.

12. Gwasanaethau y tu allan i oriau, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i ddosbarthu cyffuriau a chyfarpar yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau (p'un ai am y cyfnod y tu allan i oriau cyfan ai peidio).

13. Gwasanaeth cyfarwyddyd grŵp cleifion, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i ddarparu meddyginiaeth presgripsiwn yn unig i glaf o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion.

14. Gwasanaeth cymorth rhagnodwyr, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhagnodi cyffuriau, ac yn benodol i gynnig cyngor ar—

- Y defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
- Polisïau a chanllawiau rhagnodi, ac
- Ailadrodd rhagnodi.

15. Gwasanaeth ysgolion, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i roi cyngor a chymorth i blant a staff mewn ysgolion sy'n ymwneud â’r canlynol —

- Y defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau yn yr ysgol
- Gweinyddu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol yn yr ysgol
- Storio a thrin cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol, a
- Cofnodi cyffuriau a chyfarpar sy’n cael eu harchebu, trin, gweinyddu, storio neu eu gwaredu.

16. Gwasanaeth sgrinio, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Nodi cleifion sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd neu gyflwr penodedig
- Cynnig cyngor ynghylch cael prawf am glefyd neu gyflwr penodol
- Cynnal prawf o'r fath gyda chydsyniad y claf, a
- Cynnig cyngor yn dilyn prawf a chyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall fel y bo'n briodol.

17. Gwasanaeth rhoi’r gorau i ‘smygu, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Cynghori a chefnogi cleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ‘smygu, a
- Lle bo'n briodol, cyflenwi cyffuriau a chymhorthion priodol.

18. Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i oruchwylio'r gwaith o roi meddyginiaethau presgripsiwn yn eu safle.

19. Gwasanaeth rhagnodi atodol, sy’n galluogi'r contractwr fferyllol i ragnodi meddyginiaethau mewn amgylchiadau a bennir gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

20. Gwasanaeth casglu gwrthfeirysol, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd gyflenwi meddyginiaethau gwrthfeirysol, yn unol â rheoliad 247 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Esemptiad i'w gyflenwi os bydd

y nachos, neu ymlaen llaw, o glefyd Pandemig), i gleifion am driniaeth neu proffylacsis.

21. Gwasanaeth cyflenwi brys, a'i ddiben sylfaenol yw sicrhau bod cleifion, ar frys, ar eu cais, yn cael mynediad prydlon at gyffuriau neu gyfarpar –

- sydd wedi'u rhagnodi ar eu cyfer o'r blaen mewn presgripsiwn GIG ond nad oes ganddynt bresgripsiwn GIG ar eu cyfer, a
- os bodlonir gofynion rheoliad 225(1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (gwerthu brys ayyb. gan Fferyllydd: ar gais y claf) yn achos meddyginiaethau presgripsiwn yn unig.

Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr cyfarpar fferyllol

1. Dosbarthu presgripsiynau

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Cyflenwi cyfarpar a archebwyd ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor a threfniadau atgyfeirio priodol pe na ellid gwneud cyflenwadau, i alluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn derbyn cyfarpar a archebwyd yn ddiogel ac yn briodol gan y contractwr cyfarpar fferyllol:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cael systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Cael systemau ar waith i sicrhau cywirdeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl gyfarpar a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gofal cleifion yn y dyfodol
- Cadw cofnod o'r cyngor a roddir, ac ymyriadau ac atgyfeiriadau a wneir, lle mae'r contractwr cyfarpar fferyllol o'r farn ei fod yn glinigol briodol.
- Darparu'r eitemau ychwanegol priodol fel bagiau a chlytiau tafladwy
- Darparu'r eitemau priodol os oes angen gwneud hynny mewn modd amserol ac mewn deunydd pacio addas disylw.

Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu cyfarpar yn effeithiol gyda staff yn rhoi gwybodaeth a chyngor i'r claf neu'r gofalwr ar ddefnyddio eu cyfarpar yn ddiogel.

2. Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu cyfarpar presgripsiwn amlroddadwy’r GIG mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer dosbarthu, fel bod y contractwr cyfarpar fferyllol yn canfod angen y claf am amlgyflenwad ac yn cyfleu unrhyw faterion sy'n glinigol arwyddocaol i'r rhagnodwr.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu cyfarpar presgripsiwn rheolaidd yn uniongyrchol gan gontractwr cyfarpar fferyllol am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodwr.
- Lleihau gwastraff drwy leihau swm y cyfarpar a ddosberthir nad yw'n ofynnol gan y claf
- Lleihau llwyth gwaith practisau meddygon teulu, drwy ostwng y baich o reoli presgripsiynau amlroddadwy.

3. Gwasanaeth danfon i’r cartref

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Darparu gwasanaeth danfon i'r cartref mewn perthynas â chyfarpar penodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Cadw urddas cleifion drwy sicrhau bod cyfarpar penodol yn cael eu darparu:

- Yn brydlon, ar adeg y cytunir arno gyda’r claf
- Mewn pecyn heb unrhyw ysgrifen na marciau eraill a allai ddangos ei gynnwys; a
- Mewn ffordd nad yw'n bosibl nodi'r math o gyfarpar sy'n cael ei ddanfon.

4. Cyflenwi eitemau atodol priodol

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Darparu eitemau ychwanegol fel clytiau tafladwy a bagiau gwaredu yn gysylltiedig â chyfarpar penodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod gan gleifion gyflenwad digonol o glytiau i'w defnyddio gyda'u cyfarpar, a'u bod yn gallu eu gwaredu mewn ffordd ddiogel a hylan.

5. Darparu cyngor clinigol arbenigol ynglŷn â'r cyfarpar

Disgrifiad o’r gwasanaeth

Darparu cyngor clinigol arbenigol gan berson sydd wedi'i hyfforddi'n briodol sydd â phrofiad perthnasol mewn perthynas â chyfarpar penodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn gallu gofyn am gyngor priodol ar eu cyfarpar i gynyddu eu hyder wrth ddewis cyfarpar sy'n addas i'w hanghenion yn ogystal â magu hyder i addasu i'r newidiadau yn eu bywyd a dysgu rheoli cyfarpar.

6. Pan ddarperir llinell gofal ffôn, yn ystod y cyfnod pan fo'r contractwr cyfarpar fferyllol ar gau, dylid rhoi cyngor naill ai drwy'r llinell ofal neu dylid cyfeirio galwyr at Galw Iechyd Cymru

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor ar gyfarpar penodol drwy linell gofal ffôn y tu allan i oriau agor y contractwr cyfarpar fferyllol a gontractiwyd. Nid yw'n ofynnol i'r contractwr cyfarpar fferyllol staffio'r llinell ofal drwy'r dydd, bob dydd, ond pan nad yw'n cael ei staffio rhaid rhoi rhif ffôn neu fanylion cyswllt gwefan i Galw Iechyd Cymru y gellir cysylltu â hwy am gyngor.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Gall galwyr i'r llinell gofal ffôn gael cyngor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar gyfarpar penodol er mwyn rheoli eu cyfarpar.

7. Atgyfeirio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Pan fo claf yn cyflwyno presgripsiwn am gyfarpar nad yw'r contractwr cyfarpar fferyllol yn ei gyflenwi, mae'r presgripsiwn naill ai:

- Gyda chydsyniad y claf, yn cael ei anfon at ddarparwr cyfarpar arall, neu
- Os nad yw'r claf yn cydsynio, rhoddir manylion cyswllt iddo ar gyfer o leiaf ddau gontractwr arall sy'n gallu ei ddosbarthu.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu presgripsiwn.

Atodiad F – Aelodaeth grŵp llywio Asesu Anghenion Fferyllol

Rôl	Sefydliad
Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Arweinydd Cyfathrebu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Uwch Fferyllydd Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Pennaeth Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Cyfarwyddwr Cysylltiol Ymgysylltu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Cyfarwyddwr Cysylltiol Ymgysylltu â Chontractwyr	Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Ysgrifennydd Meddygol	Pwyllgor Meddygol Lleol Gwent
Dirprwy Brif Swyddog	Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Cynghorwr	PCC CIC

Atodiad G – arolwg cleifion ar gyfer asesiad anghenion fferyllol Aneurin Bevan

Rydym yn eich gwahodd i ddweud wrthym am wasanaethau fferylliaeth yn eich ardal. Mae eich barn yn bwysig i ni felly rhowch ychydig funudau i lenwi'r holiadur hwn. Amcangyfrifwn y bydd yn cymryd tua 5 i 10 munud i chi ei gwblhau yn dibynnu ar faint o wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei rhoi i ni.

Yr ydym yn adolygu pa wasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd, ble ac ar ba adegau, ac a ydynt yn diwallu anghenion pobl. Yr ydym hefyd yn edrych ar yr hyn a allai newid yn y pump i chwe blynedd nesaf ac a fydd gennym ddigon o fferyllfeydd yn y mannau iawn, gan ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl eu hangen, er enghraifft, wrth adeiladu mwy o dai. Byddwn hefyd yn edrych ar y gwasanaeth gweinyddu y mae rhai practisau meddygon teulu yn ei ddarparu mewn ardaloedd gwledig – mae'r gwasanaeth hwn yn caniatáu i feddygon teulu ddarparu'r meddyginiaethau rhagnodedig i bobl yn hytrach na rhoi presgripsiwn iddynt fynd i fferyllfa.

Gelwir y broses hon yn 'asesiad o anghenion fferyllol' ac rydym yn paratoi un ar hyn o bryd ar gyfer yr ardal sydd yng nghwmpas Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gyda chymorth cwmni o'r enw Primary Care Commissioning (PCC) sy'n arbenigo yn y math hwn o waith.

Bydd eich atebion i'r cwestiynau canlynol yn ein helpu i nodi a oes unrhyw fylchau, er enghraifft a oes angen fferyllfa mewn ardal benodol, neu a oes angen i fwy o fferyllfeydd ddarparu gwasanaeth penodol.

Mae'r holiadur yn ddienw; does dim rhaid i chi roi eich enw na'ch cyfeiriad. Ni fydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn gysylltiedig â chi. Gan mai holiadur dienw yw hwn, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth a fyddai'n dangos pwy ydych chi nac unrhyw unigolyn arall yn eich ymatebion i'r cwestiynau.

Bydd unrhyw ddata personol a ddarparwch yn cael ei gadw yn unol â'n polisi preifatrwydd.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr holiadur neu os oes gennych gwestiynau am sut i lenwi'r holiadur, cysylltwch â samantha.bright2@wales.nhs.uk gyda "holiadur PNA" yn y pennawd pwnc neu ffoniwch 01495 241206 (y tîm fferylliaeth gymunedol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan).

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/ This document is available in English.

Amdanoch chi

Beth yw eich cod post?

Drwy roi pedwar digid cyntaf eich cod post i ni, rydych yn cydsynio i ni ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddeall ym mha ran o Went y rydych yn byw. Dim ond at ddibenion yr holiadur hwn y defnyddir y wybodaeth hon, er mwyn i ni wybod a ydym wedi cael ymatebion o bob rhan o Ogledd Cymru ynteu o ardaloedd penodol. Peidiwch â rhoi eich cod post cyfan i ni.

Er enghraifft, os mai NP18 3XQ yw eich cod post, teipiwch NP18 yn y blwch isod.

Mae rhai pobl yn cael y cyfan neu'r rhan fwyaf o'u meddyginiaethau gan eu meddygfa deulu. Ydy hyn yn berthnasol i chi?

- Ydy
- Nac ydy
- Wn i ddim

Os gwnaethoch ateb ydy, mae cwestiynau 1 i 14 yn ymwneud â fferyllfeydd felly atebwch y rheini os ydych yn defnyddio fferyllfa. Os nad ydych yn defnyddio fferyllfa yna symudwch i gwestiwn 15.

Sut rydych chi'n defnyddio eich fferyllfa - naill ai drwy fynd yno neu drwy gael rhywun arall i fynd yno ar eich rhan

1. Pam byddwch chi fel arfer yn ymweld â fferyllfa? Ticiwch bob berthnasol.

- I nôl presgripsiwn drosof fy hun
- i nôl presgripsiwn i rywun arall
- Mae rhywun arall yn nôl fy mhresgripsiwn ar fy rhan.
- I brynu meddyginiaethau i mi fy hun
- Mae rhywun arall yn prynu meddyginiaethau ar fy rhan.
- I gael cyngor i mi fy hun
- I gael cyngor dros rywun arall
- Mae rhywun arall yn cael cyngor drosof fi
- Dydw i ddim, achos caiff fy meddyginiaethau eu danfon i mi gartref
- Arall [text box]

2. Pa mor aml byddwch chi'n defnyddio fferyllfa?

- Bob dydd
- Bob wythnos
- Bob pythefnos
- Bob mis
- Yn chwarterol
- Fydda' i ddim yn defnyddio fferyllfa
- Arall [text box]

3. Pa amser sydd fwyaf cyfleus gennych chi i ddefnyddio fferyllfa?

- Cyn 7 am
- 7am tan 9am
- 9am tan 12.00pm
- 12pm tan 3pm
- 3pm i 6pm
- 6pm i 9pm
- 9pm tan hanner nos

4. Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus gennych chi i ddefnyddio fferyllfa?

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener
- Dydd Sadwrn
- Dydd Sul
- Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol
- Penwythnosau yn gyffredinol
- Does dim diwrnod sydd fwyaf cyfleus.

5. Os bu adeg yn ddiweddar pan na fu modd i chi ddefnyddio eich fferyllfa arferol, beth wnaethoch chi? Ticiwch bob un datganiad sy'n berthnasol.

- Es i fferyllfa arall
- Arhosais nes bod y fferyllfa ar agor
- Es i at fy meddyg teulu
- Es i'r ysbyty cyffredinol
- Ffoniais i GIG 111 Cymru
- Arall [text box]

Eich fferyllfa ddewisol

6. A fyddech cystal â dweud wrthym a ydych chi:

- O hyd yn defnyddio’r un fferyllfa
- Yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol ond mae un y mae’n well gennyf ei defnyddio gan amlaf
- O hyd yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd
- Prin yn defnyddio fferyllfa
- Byth yn defnyddio fferyllfa

7.A allech ddweud wrthym pam rydych yn defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch bob datganiad sy’n berthnasol i chi.

- Agos at fy nghartref.
- Agos at fy ngwaith
- Agos at fy meddyg
- Agos at ysgol neu ysgol feithrin fy mhlant
- Agos at siopau eraill
- Mae lleoliad y fferyllfa yn haws ei gyrraedd
- Mae'n hawdd parcio yn y fferyllfa
- Rydw i’n ymddiried yn y staff sy’n gweithio yno.
- Mae'r staff yn fy adnabod i ac yn gofalu amdanaf
- Dydy’r staff ddim yn fy adnabod.
- Rydw i wedi defnyddio’r fferyllfa hon erioed.
- Mae'r gwasanaeth yn gyflym
- Fel arfer mae ganddyn nhw beth mae arna i ei angen mewn stoc
- Mae gan y fferyllfa oriau agor da
- Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn danfon fy meddyginiaethau
- Mae'r fferyllfa yn rhoi cyngor a gwybodaeth dda
- Y gwasanaeth cwsmeriaid
- Mae'n hygyrch iawn h.y. mae’n addas ar gyfer cadair olwyn/bygi babanod
- Arall [text box]

8. A oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydych yn ei defnyddio?

- Oes
- Nac oes
- Wn i ddim

9. … ac os ateboch chi oes i gwestiwn 8, a fyddech cystal â dweud wrthym pam nad ydych yn defnyddio'r fferyllfa honno?

- Dydy hi ddim yn hawdd parcio yn y fferyllfa
- Cefais brofiad gwael yno yn y gorffennol
- Mae'r gwasanaeth yn rhy araf
- Mae'r staff bob amser yn newid
- Dydy'r staff ddim yn fy adnabod.
- Does ganddyn nhw ddim beth mae arna i ei angen mewn stoc
- Dydy'r fferyllfa ddim yn danfon meddyginiaethau
- Does dim digon o breifatrwydd
- Dydy hi ddim ar agor pan fydd arna i ei hangen.
- Dydy hi ddim yn addas i gadeiriau olwyn/bygi babi
- Arall [text box]

Teithio i fferyllfa

10. Os ydych chi'n mynd i'r fferyllfa, sut byddwch chi'n cyrraedd yno fel arfer?

- Cerdded
- Ar fws
- Mewn car
- Ar feic
- Mewn tacsi
- Arall [insert text box]

11. … a faint o amser y mae'n ei gymryd i gyrraedd yno fel arfer?

- Dan 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- Dros 20 munud

Gwasanaethau fferyllfa yn gyffredinol

12. Hoffem wybod sut y cewch wybodaeth am fferyllfa, megis amseroedd agor neu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig. Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- Byddwn yn eu ffonio nhw
- Byddwn yn ffonio GIG 111 Cymru
- Byddwn yn chwilio ar y we
- Byddwn yn gofyn i ffrind
- Byddwn yn galw heibio ac yn gofyn iddyn nhw
- Byddwn yn edrych yn y ffenestr

- Byddwn yn cael gwybod wrth ddarllen y papur newyddion lleol
- Arall [text box]

13. Ydych chi'n teimlo y gallwch drafod rhywbeth preifat gyda fferyllydd?

- Ydw
- Nac ydw
- Fu erioed angen i mi
- Wn i ddim

14. A ydych yn ymwybodol ei bod yn bosibl y gallwch gael y gwasanaethau canlynol mewn fferyllfa fel rhan o'r GIG? Ticiwch bopeth roeddech chi eisoes yn gwybod amdano

- Brechiadau ffliw (i'r rhai sydd yn un o'r grwpiau sy'n wynebu risg)
- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty – gwasanaeth i bobl y mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad yn yr ysbyty, i'w helpu i ddeall y newidiadau a wnaed ac i sicrhau bod presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir
- Atal cenhedlu hormonaidd brys, y cyfeirir ato hefyd fel y 'bilsen fore wedyn'
- Help i roi'r gorau i ysmygu
- Cynllun anhwylderau cyffredin – gall fferyllwyr roi cyngor a thriniaeth am ddim i chi am fân afiechydon ac anhwylderau cyffredin fel nad oes angen i chi weld meddyg teulu.
- Cyflenwad meddyginiaethau brys - mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd fferyllydd yn gallu rhoi rhai o'ch meddyginiaethau i chi os ydych wedi dod i ben ac nad oes gennych bresgripsiwn.

15. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am wasanaethau fferyllfalleol?

[Text box]

Cwestiynau cydraddoldeb

Er mwyn monitro effeithiolrwydd a gweithrediad ein Polisi Cydraddoldeb ac er mwyn sicrhau fod ein gwasanaethau'n cael eu darparu mewn dull sy'n deg i bawb a heb ragfarn, hoffem pe baech yn darparu'r wybodaeth isod (yn gwbl wirfoddol). Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn anhysbys, a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Bydd yn cael ei drin ar wahân i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir gennych a bydd yn cael ei ddinistrio'n ddiogel ar ôl inni gofnodi'r wybodaeth.

Oedran:

Nodwch eich oedran trwy dicio'r blwch perthnasol:	0 - 15 oed	☐	16 - 24 oed	☐	25 - 34 oed	☐
	35 - 44 oed	☐	45 - 54 oed	☐	55 - 64 oed	☐
	65 - 74 oed	☐	75 ac uwch	☐		

Rhyw:

Gwryw	☐	Arall	☐
Benyw	☐	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Grŵp Ethnig:

Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio'ch grŵp ethnig neu gefndir orau.

Gwyn		**Du / Du Prydeinig**		**Asiaidd / Prydeinig Asiaidd**	
O Brydain	☐	Caribïaidd	☐	Indiaidd	☐
O Loegr	☐	Affricanaidd	☐	Bangladeshaidd	☐
O Ogledd Iwerddon	☐	Unrhyw gefndir Du arall	☐	Pacistanaidd	☐
O'r Alban	☐			Tseineaidd	☐
O Gymru	☐			Asiaidd arall	☐
O Iwerddon	☐				
Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig	☐				
Arall	☐				
Cymysg / Prydeinig Cymysg		**Arall / Prydeinig Arall**			
Caribïaidd Gwyn / Du	☐	Arabaidd	☐	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐
Gwyn / Du Affricanaidd	☐	Arall (nodwch os oes angen)	☐	_____	
Gwyn / Asiaidd	☐				
Unrhyw gefndir Cymysg arall	☐				

Rhywioldeb: Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun?

Heterorywiol	☐	Deurywiol	☐
Dyn Hoyw	☐	Arall (nodwch os dymunir) _____	☐
Dynes Hoyw / Lesbiaidd	☐	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Statws priodasol:		
Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil gyda pherson o'r un rhyw?	Ydw	☐
	Na	☐
	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Crefydd neu Gred:	Beth yw eich crefydd?							
	Cristion (pob enwad)					☐	Dim crefydd	☐
	Bwdhaidd	☐	Mwslim	☐	Iddewig	☐	Arall (noder os dymunwch) _____	☐
	Hindw	☐	Sikh	☐	Anffyddiwr	☐	Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Anabledd:	Mae adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi bod gan berson anabledd: a) Os oes gan y person hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a b) Os yw'r nam yn cael effaith andwyol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol dydd i ddydd		
	Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Ydw	☐
		Na	☐
		Mae'n well gen i beidio â dweud	☐
Hunaniaeth Rhyw:	A yw eich hunaniaeth rhyw wedi newid o'r hyn a briodolwyd pan gawsoch eich geni?	Ydi	☐
		Nac ydi	☐
		Mae'n well gen i beidio â dweud	☐

Cyfrifoldebau Gofalu:	Ydych chi'n gofalu am neu'n rhoi help neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd naill ai:

• Afiechyd / anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir; neu • Problemau yn ymwneud â henaint	Ydw Na Mae'n well gen i beidio â dweud	☐ ☐ ☐

Atodiad H – canlyniadau llawn yr holiadur cleifion a'r cyhoedd

Beth yw eich cod post?

Cod Post	Nifer yr ymatebion
CF3	1
CC46	3
CC81	5
CC82	5
CC83	19
NP10	14
NP11	1
NP12	12
NP13	6
NP15	7
NP16	44
NP18	10
NP19	23
NP20	18
NP22	6
NP23	21
NP25	7
NP26	19
NP4	59
NP7	17
NP8	1
Dewis peidio ag ateb	9

Mae rhai pobl yn cael eu holl neu’r rhan fwyaf o’u meddyginiaethau gan eu practis meddyg teulu h.y. yn hytrach na bod eu practis meddyg teulu yn rhoi presgripsiwn iddynt i fynd i fferyllfa, maen nhw’n rhoi eu meddyginiaethau iddynt. Yw hyn yn berthnasol i chi?

Yw hyn yn berthnasol i chi?	Nifer yr ymatebion
Ydy	68
Nac ydy	227
Ddim yn gwybod	7
Dewis peidio ag ateb	19

C1. Pam ydych chi fel arfer yn ymweld â fferyllfa?

	Nifer yr ymatebion
Nôl presgripsiwn drosof fy hun	267
Nôl presgripsiwn i rywun arall	171
Prynu meddyginiaethau i fi fy hun	118
Cael cyngor i fi fy hun	98
Cael cyngor dros rywun arall	41
Mae rhywun arall yn nôl fy mhresgripsiwn ar fy rhan	19
Dydw i ddim, gan fod fy meddyginiaethau yn cael eu danfon i mi gartref	11
Arall	10
Rhywun arall yn prynu meddyginiaethau ar fy rhan	8
Mae rhywun arall yn cael cyngor drosof fi	2

Lle dewiswyd 'Arall', darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

"Rwy'n gofyn am fy meddyginiaeth drwy MHOL [Fy Iechyd Ar-lein], yna mae fy fferyllfa'n casglu fy Rx, yna maen nhw'n ei dosbarthu ac yn ei ddanfon i'm cartref"
"Mae [enw'r fferyllfa] yn cael fy mhresgripsiynau rheolaidd gan fy meddygfa ac yn danfon y feddyginiaeth 10 diwrnod yn ddiweddarach gan ei bod hi'n cael ei llenwi yn eu warws."
"Rwy'n treulio'r rhan fwyaf o'm hamser mewn fferyllfa yn cywiro problemau, naill ai rhwng fferyllfeydd a phractis meddyg teulu neu gan fod y fferyllfa'n methu â chael beth sydd ei angen arnom"
"Wedi derbyn y pigiad ffliw blynyddol yno yn lle'r meddyg teulu gan ei fod yn fwy cyfleus ac yn nes ataf. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn dal stoc gan ei bod yn cael ei rhannu rhwng fferyllfeydd"
"I bori, ac i brynu pethau ymolchi a cholur"
"prynu nwyddau ymolchi ac eitem amrywiol eraill"
"I brynu meddyginiaeth i eraill yn fy aelwyd"
"Rwy'n casglu presgripsiynau ar gyfer perthynas oedrannus"
"yn ystod y cyfnod clo, mae presgripsiynau'n cael eu danfon - sy'n RHAGOROL"

C2. Pa mor aml byddwch chi'n defnyddio fferyllfa?

	Nifer yr ymatebion
Bob dydd	0
Wythnosol	10
Bob pythefnos	27
Misol	209
Bob chwarter	30
Fydda' i ddim yn defnyddio fferyllfa	1
Arall	20
Dewis peidio ag ateb	24

Lle dewiswyd 'Arall', darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

"Ar gyfer meddyginiaeth bresgripsiwn, er ein bod yn defnyddio [fferyllfa] ac yn mynd yn fwy rheolaidd ar gyfer nwyddau ymolchi, meddyginiaeth dros y cownter a fitaminau ac ati"
"bob deufis fel arfer"
"Fel arfer unwaith y flwyddyn ar gyfer y bilsen, neu yn ôl yr angen ar gyfer gwrthfiotigau"
"Yn anaml iawn"
"Sefydlais brosiect danfon gwirfoddol yn ystod Covid a gwnaethom ddanfon dros 300 o bresgripsiynau yn lleol rhwng 10 gwirfoddolwr, felly rydym yn ei defnyddio'n fwy na'r rhan fwyaf o bobl"
"Bob 2 fis"
"6 mis i flwyddyn"
"Bob yn ail fis"
"Bob 4 mis"
"Pan fo angen"
"bob dau fis"
"bob mis ar gyfer presgripsiynau neu yn ôl yr angen pan fo angen cyngor o ddydd i ddydd neu eitemau di-bresgripsiwn."
"Bob 4 wythnos, gan fod presgripsiynau am 28 diwrnod nid mis calendr!"
"Ad hoc pan fydd angen prynu unrhyw feddyginiaethau neu pan fydda' i'n cael presgripsiwn gan feddyg teulu. Ddim yn rheolaidd"
"Bob 4 wythnos"
"Yn ôl y gofyn"
"Anaml, dim ond pan fydd angen tanysgrifiad arna' i - i fi fy hun neu fy mhlentyn."
"Weithiau"

"Yn ôl yr angen"
"Misol ar gyfer presgripsiynau ond yn fwy rheolaidd ar gyfer gwasanaethau eraill, 2 feddyginiaeth ac ati...
“Ad hoc. Yn dibynnu ar yr angen."
"Unwaith bob hyn a hyn pan fo angen."

C3. Pa amser sy'n well i chi ar gyfer defnyddio fferyllfa?

	Nifer yr ymatebion
Cyn 7am	0
7am i 9am	7
9am i 12.00pm	58
12pm i 3pm	42
3pm i 6pm	67
6pm i 9pm	33
9pm i hanner nos	0
Does gen i ddim ffafriaeth	90
Dewis peidio ag ateb	24

C4. Pa ddiwrnod sy'n well i chi ar gyfer defnyddio fferyllfa?

	Nifer yr ymatebion
Dydd Llun	6
Dydd Mawrth	4
Dydd Mercher	8
Dydd Iau	7
Dydd Gwener	12
Dydd Sadwrn	12
Dydd Sul	2
Dyddiau’r wythnos yn gyffredinol	73
Penwythnosau yn gyffredinol	35
Does gen i ddim ffafriaeth	136
Dewis peidio ag ateb	26

C5. Os bu adeg yn ddiweddar pan nad oedd modd i chi ddefnyddio eich fferyllfa arferol, beth wnaethoch chi?

	Nifer yr ymatebion
Es i fferyllfa arall	135
Arhosais nes bod y fferyllfa ar agor	118
Es i at fy meddyg teulu	7
Es i i'r ysbyty	1

Ffoniais GIG 111 Cymru (Galw Iechyd Cymru gynt)	3
Arall	19
Ddim yn berthnasol	12
Dewis peidio ag ateb y cwestiwn	62

Lle dewiswyd 'Arall', darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

"Defnyddiais fferyllfa arall [fferyllfa] sy'n hollol wych. Mae'r fferyllfa yn fy meddygfa leol [practis] yn ofnadwy, gan hyd yn oed gyflenwi hen dabledi ac ati sydd wedi darfod - mae'r gwasanaeth yn wael iawn."
"Dydw i ddim wedi cael problem"
"Nid yw hyn erioed wedi digwydd"
"Dim byd"
"Mae fy fferyllfa i fod i drefnu fy meddyginiaeth reolaidd bob mis. Maent yn aml yn gofyn am bresgripsiynau anghyflawn sy'n achosi straen sylweddol i mi gan fod yn rhaid i mi wedyn fynd at y meddyg teulu a cheisio datrys y broblem fy hun. Pe gallent roi cymaint o bwyslais ar archebu meddyginiaeth reolaidd ag y maent ar wirio meddyginiaeth, byddai'r gwasanaeth yn wych. Y ddau fis diwethaf bu'n rhaid i mi fynd at fy meddyg teulu am bresgripsiynau brys ar gyfer y feddyginiaeth a gollwyd. Dyma pryd rydw i wedi defnyddio fferyllfa wahanol."
"Fe wnaethom newid fferyllfeydd gan ein bod wedi cael llond bol ar y gwallau ac anghwrteisi'r staff"
"Dydw i erioed wedi methu â defnyddio fy fferyllfa"
"Roedd problemau cyflenwi gyda'm cyffur presgripsiwn rheolaidd (Tamoxifen) ond yn y pen draw fe'i cefais mewn fferyllfa arall. Mae'n ymddangos bod y broblem gyflenwi bellach wedi'i chywiro."
"lle rwy'n byw mae gen i sawl fferyllfa - gallwn i ddefnyddio unrhyw un ohonyn nhw ond rwy'n tueddu i ddefnyddio dim ond 2 gan fy mod i'n ymddiried yn y fferyllydd."
"Roedd rhaid cael rhai pobl i fynd ar fy rhan i"

C6. A fyddech cystal â dweud wrthym a ydych:

	Nifer yr ymatebion
O hyd yn defnyddio'r un fferyllfa	216
Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond yn ffafrio ymweld ag un gan amlaf	75
O hyd yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd	1

Prin yn defnyddio fferyllfa	7
Dewis peidio ag ateb	22

C7. A fyddech cystal â dweud wrthym pam rydych yn defnyddio'r fferyllfa hon?

	Nifer yr ymatebion
Agos at fy nghartref	215
Agos at fy meddyg	151
Mae’r fferyllfa’n hawdd ei chyrraedd	119
Rydw i’n ymddiried yn y staff sy’n gweithio yno	116
Fel arfer mae ganddyn nhw beth sydd ei angen arna’ i mewn stoc	102
Y gwasanaeth cwsmeriaid	95
Mae'r staff yn fy adnabod i ac yn gofalu amdanaf	91
Rydw i wedi defnyddio’r fferyllfa hon erioed	91
Mae'r fferyllfa yn rhoi cyngor a gwybodaeth dda	90
Mae'r gwasanaeth yn gyflym	83
Mae'n hawdd parcio yn y fferyllfa	79
Mae gan y fferyllfa oriau agor da	75
Agos at siopau eraill	55
Agos at fy ngwaith	41
Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn danfon fy meddyginiaethau	21
Mae'n hygyrch iawn h.y. mae’n addas ar gyfer cadair olwyn/bygi babanod	13
Agos at ysgol neu ysgol feithrin fy mhlant	12
Arall	12
Dydy’r staff ddim yn fy adnabod	7

Lle dewiswyd 'Arall', darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

"Mae'r staff bob amser yn ddibynadwy"
"Maen nhw'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn cadw meddyginiaethau i fi eu casglu, ond anfonwch neges destun ataf i roi gwybod eu bod nhw’n barod i’w casglu"
"Fferyllfa’n casglu presgripsiwn yr ydw i’n ei gasglu"
"Arferai fod yn agos i'r gwaith ond dwi wedi ymddeol nawr. Maen nhw'n cael swp blynyddol gan fy meddyg teulu ac rwy'n ffonio pan fydd angen presgripsiwn arall arnaf ac yna'n mynd i'w gasglu."
"Mae'n annibynnol"

"Rydw i wedi fy nghofrestru fel person anabl. Mae gan y fferyllfa rwy'n ei defnyddio lawer o lefydd parcio i'r anabl"
"Mae ein fferyllfa newydd yn gwneud yr uchod i gyd ac yn sicrhau bod ein meddyginiaeth reolaidd yna i ni bob mis"
"Fe wnaethon nhw ddeall a llwyddo i ddod o hyd i eitem anarferol dwi’n ei chael yn rheolaidd. Mae'n annibynnol, felly’n fwy hyblyg. Dwi wedi rhoi cynnig ar fasnachfraint fwy ond doedden nhw erioed wedi clywed am yr eitem nac yn barod i geisio dod o hyd iddi a'i harchebu i mi."
"Fferyllfa’n casglu presgripsiynau ond ddim yn danfon"
"Rwy'n archebu presgripsiwn ar-lein - rwy’n anfon e-bost at fy fferyllfa ac maen nhw'n casglu'r presgripsiwn ac yna rwy'n ei gasglu o’r fferyllfa"
"Maen nhw'n defnyddio'r gwasanaeth presgripsiwn electronig gyda fy meddygfa felly does dim angen dibynnu cymaint ar gasglu presgripsiwn papur fy hun"
"Does gen i ddim dewis - mae fy mhresgripsiynau'n cael eu hanfon yno gan feddygon, byddai'n well gen i ddefnyddio un arall"
"Mae'r fferyllfa'n gysylltiedig â'm meddyg teulu felly os oes unrhyw broblemau'n codi maen nhw'n delio'n uniongyrchol â'm meddygfa."
"Rwy'n cael presgripsiynau rheolaidd gan fy mod i’n archebu ar Fy Iechyd Ar-lein"
"Rwy'n defnyddio fferyllfa wahanol ar gyfer fy meddyginiaethau rheolaidd, maen nhw'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn ei ddosbarthu."
"Mewn archfarchnad - dwi’n gallu gollwng y presgripsiwn a’i gasglu ar ôl siopa"
"Mae'n ddibynadwy ac yn dosbarthu fy holl feddyginiaeth - nid rhywfaint ohoni fel fferyllfeydd eraill rydw i wedi'u defnyddio yn y gorffennol."
"Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiynau ac fe fyddai’n eu dosbarthu pe bawn i’n gofyn - efallai pe bawn i’n gaeth i'r tŷ neu'n hunanynysu."
"Mae fy fferyllfa leol yn cyflogi pobl leol, mae rhai yn gymdogion a dydw i ddim yn gwbl hapus gyda hyn"
"Mae’r presgripsiwn ar swp a rhaid ei gasglu mewn fferyllfa benodol"
"Rwy'n defnyddio [Ap] i archebu fy mhresgripsiynau ac mae'r Fferyllfa/Ap yn anfon neges ataf pan fyddant yn barod i’w casglu"
"Rwy'n defnyddio'r [fferyllfa] gan eu bod nhw’n anfon neges destun ataf pan mae’n barod yn y fferyllfa. Nid oedd canolfan feddygol y meddyg teulu yn gwneud hyn, ac yn aml roedd oedi annerbyniol wrth ddod o hyd i'm presgripsiwn ar y silffoedd"

"dyma'r un y mae’r feddygfa wedi’i nodi fel ‘ein fferyllfa’"
"Maen nhw'n rheoli fy nghais am bresgripsiwn gyda'r meddyg ac rwy'n casglu fy meddyginiaethau o'r fferyllfa"

C8. A oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydych yn ei defnyddio?

	Nifer yr ymatebion
Oes	94
Nac oes	196
Ddim yn gwybod	5
Dewis peidio ag ateb	26

C9. .. ac os ateboch chi ‘oes’ i gwestiwn 8, a fyddech cystal â dweud wrthym pam nad ydych yn defnyddio’r fferyllfa honno?

"rhoddon nhw bresgripsiwn anghywir i'm mam a bu farw oherwydd hynny."
"Wedi defnyddio fy fferyllfa bresennol ers blynyddoedd lawer - dim rheswm i newid"
"Roedd gennym ddosbarthwr yn ein practis a gaewyd i ganiatáu i fferyllydd agor yn y pentref - nid yw llawer o’r trigolion yn fodlon defnyddio fferyllydd y pentref."
"Dim gwasanaeth neges destun pan mae’n barod i’w gasglu ac nid yw'r staff yn sensitif a chynnil"
"Roeddwn i’n eu defnyddio un tro ond newidiodd y perchnogion ac nid oedd yr un peth. Dim ond pan nad oes gen i ddewis arall y byddwn i’n eu defnyddio"
"Yn aml yn ceisio roi hanner presgripsiynau neu mae'n rhaid aros i stoc ddod i mewn. Hefyd, nid yw’r oriau agor yn dda i weithwyr 9-5."
"Mae fy mhresgripsiwn yn cael ei anfon i'r fferyllfa hon gan fy meddyg teulu."
"Rwy'n nabod y staff yn lleol a dydw i ddim eisiau iddyn nhw weld fy ngwybodaeth bersonol, er enghraifft os oes angen i mi gael presgripsiwn drwy fy meddyg teulu"
"Mae fy meddyg yn yr un adeilad â’r fferyllfa rwy'n mynd iddi"
"Mae'r staff yn ddirmygus ac anghwrtais iawn!"
"Roedd [aelod o'r teulu] yn gweithio yno ers talwm felly roedd yn gyfleus ar gyfer casglu fy mhresgripsiwn. Wedi parhau i'w defnyddio"

"Mae'n rhan o gwmni mawr [enw'r cwmni]"
"Roedd y staff yn anghwrtais ac yn newid bob amser. Dim meddyginiaeth reolaidd mewn stoc. Problem bob amser gyda meddyginiaeth reolaidd. Hefyd yn beio’r meddyg teulu a’r meddyg teulu yn beio’r fferyllfa. Mae gen i blentyn sy’n ddifrifol sâl ac ro’n i’n gwastraffu cymaint o amser yn mynd yn ôl ac ymlaen nes i ni newid i fferyllfa wahanol"
"Byddai'n cymryd mwy o amser i'm presgripsiwn gyrraedd yno"
"Fel y nodwyd uchod, byddwn i'n ei defnyddio ond mae’r meddyg yn anfon presgripsiynau i [fferyllfa]"
"Arferiad"
"Rwy'n ffyddlon i'r fferyllfa rydw i bob amser wedi'i defnyddio - fferyllfa annibynnol sy'n cael ei rhedeg gan deulu"
"ffyddlon i'r un fferyllfa"
"Defnyddio un sy'n fwy lleol i'r person rwy’n casglu presgripsiwn ar ei ran"
"Byddwn i'n ei defnyddio pe bawn i'n cael presgripsiwn yn uniongyrchol o'r feddygfa, ond mae hi allan o’r ffordd fel arall. Hefyd does unman i siarad yn breifat - dim ond ardal agored fach"
"Sawl rheswm. E.e. ceisiais ddefnyddio’r cynllun mân anhwylderau, ond dywedwyd wrthyf nad oedd ganddynt yr amser na'r staff i wneud hynny gyda fi ac y dylwn i fynd i rywle arall neu weld meddyg teulu. Yn aml, nid oes ganddynt stoc dda o feddyginiaethau, hyd yn oed pethau cyffredin - maen nhw’n dweud wrthyf yn aml bod yn rhaid iddyn nhw archebu rhywbeth i mewn ac y bydd yn cymryd sawl diwrnod. Mae gan rai o’r staff broblem gyda’u hagwedd ac yn ymddangos yn fwriadol lletchwith. Nid yw rhai o’r fferyllwyr yno mor wybodus â’r rhai yn fy fferyllfa arferol ac maen nhw’n rhoi cyngor gwael, anghywir. Os nad ydyn nhw'n gwybod yr ateb, dydyn nhw ddim yn ceisio dod o hyd i un fel fy fferyllfa arferol - maen nhw’n eich anfon i rywle arall."
"Mae’r un rwy'n ei defnyddio yn haws - mae fy ngŵr yn casglu fy mhresgripsiwn ar ei ffordd adref o'r gwaith."
"Mae'n well gen i fferyllfa breifat"
"ddim yn agos at fy meddygfa"
"Mae gan [fferyllfa] broblemau bob amser - dim meddyginiaeth neu ddim sgript - aros yn hir - ar gau am egwyl ginio - posteri hen hyn yn cael eu harddangos er eu bod nhw wedi cael gwybod eu bod nhw’n hen!"
"Mae'n haws mynd i'r un rwy'n ei defnyddio gan fy mod i’n gallu siopa gerllaw"

"Rwy'n defnyddio'r un sy'n agos at fy meddygfa"
"Mae'r fferyllfa nad ydw i'n ei defnyddio y tu mewn i'r clinig lle rwy'n gweld fy meddyg teulu. Mae'n rhan o gadwyn genedlaethol ac mae'n well gen i gefnogi fy fferyllfa leol."
"Nid oes gwasanaeth presgripsiwn rheolaidd ar gael"
"Yn nes at fy ngweithle"
"Amseroedd aros"
"Nid yw'r fferyllydd mor gymwys"
"gwasanaeth cwsmeriaid gwael iawn a gwybodaeth annibynadwy yn cael ei rhoi am leoliad gwaith papur presgripsiwn."
"Dim preifatrwydd, staff swnllyd, amodau Covid yn golygu bod yn rhaid aros tu allan ym mhob tywydd"

C10. Os ydych chi’n mynd i'r fferyllfa, sut byddwch chi'n cyrraedd yno fel arfer?

	Nifer yr ymatebion
Mewn car	193
Ar droed	89
Dewis peidio ag ateb	25
Arall	5
Ar fws	5
Ar feic	4

Lle dewiswyd 'Arall', darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

"Mae fy ngŵr naill ai'n casglu fy meddyginiaeth ar ei ffordd adref o'r gwaith yn y car neu byddaf i’n galw i mewn ar ôl apwyntiad gyda’r meddyg gan ei fod ar yr un safle"
"Byddwn i’n cerdded i'r fferyllfa leol ond mae problemau stoc yn fy atal rhag eu defnyddio"
"Cerdded a char, yn dibynnu ar y tywydd (mae yna fryn eithaf serth i'w ddringo) ond mae parcio am ddim yn broblem"
"Rydw i naill ai'n cerdded o fy nhŷ os ydw i gartref neu'n parcio mewn maes parcio y tu ôl i fferyllfa ar y ffordd adref o'r gwaith"
"mewn car neu ar fws yn dibynnu ar y jobsys bach eraill sydd angen i fi ‘neud"
"fy sgwter symudedd [rwy’n anabl felly’n methu â cherdded a phe bai gennyf gar byddai parcio’n anodd]"

C11. ...a faint o amser mae'n ei gymryd i gyrraedd yno fel arfer?

	Nifer yr ymatebion
Dan 5 munud	120
Rhwng 5 a 15 munud	140
Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud	24
Dros 20 munud	11
Dewis peidio ag ateb	26

C12. Hoffem wybod sut rydych chi'n cael gwybodaeth am fferyllfa, megis amseroedd agor neu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig.

	Nifer yr ymatebion
Byddwn i'n chwilio ar y we	235
Byddwn i'n eu ffonio nhw	106
Ddim yn berthnasol	68
Byddwn i'n galw heibio ac yn gofyn iddyn nhw	60
Byddwn i'n edrych yn y ffenestr	57
Byddwn i'n gofyn i ffrind	8
Arall	8
Byddwn i'n ffonio GIG 111 Cymru (Galw Iechyd Cymru gynt)	2
Byddwn i'n cael gwybod drwy ddarllen y papur newydd lleol neu gylchgrawn	2

Lle dewiswyd 'Arall', darparwyd y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

"Edrych ar eu tudalen Facebook"
"Mae gan yr ardal dudalen cyfryngau cymdeithasol gymunedol gref ar Facebook"
"Byddwn i'n e-bostio Gwasanaeth Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan"
"Cyfryngau cymdeithasol"
"Dim presenoldeb ar y we ar gyfer gwybodaeth, sy'n siomedig"
"Rwy'n eu dilyn ar Facebook ac mae eu tudalen yn postio'r wybodaeth ddiweddaraf"
"Safle GIG Cymru"
"MAE DERBYNFA FY MEDDYGFA GYFAGOS YN DARPARU UNRHYW GYNGOR ANGENRHEIDIOL"
"chwilio ar-lein am wasanaethau Sul/gŵyl y banc"

"Gwirio’r Ap [enw]”

C13. Ydych chi'n teimlo y gallwch siarad am rywbeth preifat/sensitif gyda fferyllydd?

	Nifer yr ymatebion
Ydw	175
Nac ydw	30
Erioed wedi angen gwneud	80
Ddim yn gwybod	13
Dewis peidio ag ateb	23

C14. A ydych chi’n ymwybodol ei bod hi’n bosibl y gallwch gael y gwasanaethau canlynol mewn fferyllfa fel rhan o'r GIG?

	Nifer yr ymatebion
Brechiadau ffliw (i'r rhai sydd yn un o'r grwpiau risg)	257
Cynllun anhwylderau cyffredin – gall fferyllwyr roi cyngor a thriniaeth am ddim i chi at fân afiechydon ac anhwylderau cyffredin fel nad oes angen i chi weld meddyg teulu.	244
Help i roi’r gorau i ysmygu	171
Atal cenhedlu hormonaidd brys, y cyfeirir ato hefyd fel y 'bilsen bore wedyn'	164
Cyflenwad meddyginiaethau brys – mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd fferyllydd yn gallu rhoi rhai o'ch meddyginiaethau i chi os ydych chi wedi rhedeg allan ac nad oes gennych bresgripsiwn	128
Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau – mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl y mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad mewn ysbyty, i'w helpu i ddeall y newidiadau sydd wedi'u gwneud ac i sicrhau bod presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir.	104
Gwasanaeth adolygu defnyddio meddyginiaethau – mae hwn yn gyfle i chi eistedd gyda'r fferyllydd a thrafod yr holl feddyginiaethau rydych chi’n eu cymryd i'ch helpu i gael y budd mwyaf posibl ohonynt.	0

Gwasanaeth adolygu defnyddio offer - mae hwn yn gyfle i drafod offer, fel y rhai ar gyfer bag stoma a cholostomïau, gyda fferyllydd neu nyrs arbenigol i sicrhau bod eich offer yn gwneud yr hyn y mae angen iddo ei wneud.	0

C15. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am wasanaethau fferyllfa leol?

"Mae'n wallgof mai dim ond un fferyllfa sydd yng Nghanol Tref Cwmbrân (sy'n araf a phrysur iawn iawn). Mae Canol Tref Cwmbrân yn ganolfan siopa brysur iawn, yn ganolog, yn hawdd cael mynediad iddo, parcio am ddim a dyma lle mae pobl yn aml yn mynd i siopa bwyd a hanfodion eraill (yn enwedig preswylwyr heb gludiant). Yng nghanol tref Pont-y-pŵl mae tair fferyllfa a nifer o fferyllfeydd o amgylch canol y dref (rwy'n gwerthfawrogi bod opsiynau eraill yng Nghwmbrân, ond maen nhw wedi'u lleoli gryn bellter i ffwrdd o ganol y dref). Mae'n teimlo fel petai gan [fferyllfa] fonopoli (credaf mai nhw hefyd yw'r fferyllfa agosaf y tu allan i ganol y dref - yn Hen Gwmbrân)."
"Gall y staff fod yn anghwrtais, dydyn nhw ddim yn gwrando, cyfathrebu gwael rhwng y fferyllfa a’r feddygfa. Cyfathrebu gwael. Gwybodaeth anghywir yn cael ei rhoi i gleifion. Meddyginiaeth anghywir wedi’i rhoi i fi"
"Mae fferyllfa'r meddyg yn dosbarthu fy meddyginiaeth ac yn addasu'r hyn sydd ei angen. Mae'n effeithlon ac yn cael ei werthfawrogi."
"cael meddyginiaeth yn y fferyllfeydd yn gyflymach"
"Yn y ganolfan iechyd [enw] mae'n rhaid i chi ffonio wedyn aros tu allan yn y glaw ac aros wrth ffenestr am feddyginiaeth - ddim yn hapus gyda’r system o gwbl"
"Dim ond ‘mod i wedi gorfod newid fferyllfeydd yn ddiweddar oherwydd dirywiad yn y gwasanaeth"
"Maen nhw'n sêr ac maen nhw bob amser yn gofalu am anghenion meddygol fy ngŵr"
"Dywedwch wrthyn nhw eu bod nhw'n wasanaeth gwych - [fferyllfa]."
"Rhagorol"
"Gallu gofyn am fân bethau"
"Yn byw mewn cymuned wledig, mae'n dda gwybod ‘mod i’n gallu cael fy meddyginiaethau i a rhai fy ngŵr o'm meddygfa, fodd bynnag, os oes angen rhywbeth ac nad oes ganddyn nhw’r

feddyginiaeth, maen nhw’n hapus i roi presgripsiwn i fi fel fy mod i’n gallu mynd i unrhyw fferyllfa o'm dewis"
"Rydw i wedi clywed (er nad ydw i wedi profi hyn yn bersonol) fod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin wedi gorfod talu am eitemau y gallent fod wedi'u cael am ddim ar bresgripsiwn gan y meddyg teulu. Neu maen nhw wedi ymgynghori â'r fferyllydd ac yna wedi gorfod mynd at y meddyg teulu am bresgripsiwn beth bynnag."
"Mae gan Gas-gwent gyflenwad gwael o ofal fferylliaeth y tu allan i oriau, yn enwedig ar gyfer clinigau hwyr ac apwyntiadau ar ôl 6pm - mae'n rhaid trefnu meddyginiaeth frys yng Nghasnewydd neu Fryste sy'n annerbyniol"
"staff neis iawn a chymwys iawn, bob amser yn barod i helpu"
"Mae’r gwasanaeth ar ddydd Sul yn wael/ddim yn bodoli. Pan oedd angen, bu'n rhaid gyrru 20 milltir"
"Gwasanaeth rhagorol gan [fferyllfa] - meincnod ardderchog ar gyfer fferyllfeydd eraill. Mae parhad staff yn allweddol i wasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.
"mae'r gwasanaeth presgripsiwn rheolaidd a gynigir, yn llythrennol, yn achub bywyd."
"Roedden fferyllfa yn y feddygfa ‘slawer dydd. Rwy'n teimlo'n dawel fy meddwl - nawr bod y trefniant hwnnw wedi dod i ben - y bydd y fferyllydd yn codi ac yn herio unrhyw wallau."
"Mae fy fferyllfa'n cynnig gwasanaeth ardderchog ac awyrgylch cyfeillgar a chymwynasgar."
"Rydw i bob amser wedi cael gwasanaeth rhagorol gan fy fferyllfa"
"Rydyn ni'n lwcus i gael ein fferyllfa bresennol - does dim byd yn ormod iddyn nhw ac maen nhw wedi gofalu'n dda am fy anghenion. [fferyllfa] - diolch"
"Nid yw sefyll tu fas yn yr oerfel wrth i chi aros iddyn nhw ddod i'r ffenestr yn dderbyniol yn y tywydd hwn."
"Mae [fferyllfa] yn ardderchog!"
"Nid yw ein fferyllfa bob amser ar agor ar ddydd Sadwrn. Mae'n cau cyn i mi orffen gweithio. Os ydw i’n mynd i’r fferyllfa yn yr archfarchnad mae’n rhaid aros yn hir bob amser. Nid yw'r fferyllydd byth yn gallu ateb cwestiynau am anhwylderau cyffredin ac mae'n dweud wrthyf am siarad â meddyg - hyd yn oed pethau syml fel a yw mhlentyn 12 oed yn gallu cymryd 1 tabled Ibuprofen gydag 1 llwyaid o Ibuprofen neu gyngor ar frech. Byddai'n dda pe bai practis meddyg teulu a fferyllfa o fewn pellter cerdded i [cod post], mae'n anodd i gymdogion nad ydynt yn gyrru gyrraedd y naill na'r llall."

"fferyllfa yn y feddygfa yn iawn, wedi defnyddio fferyllfa arall pan yn teimlo'n sâl - gwnaethant brofi pwysedd gwaed ac awgrymu fy mod yn mynd at y meddyg"
"Maen nhw'n angenrheidiol ac yn gyfleus. Mae’r fferyllwyr yn eithaf gwybodus pan dwi’n gofyn am wybodaeth/cyngor ac maen nhw’n hanfodol i gefnogi gyda’r pwysau sydd ar practisau meddyg teulu"
"Ar ddechrau Covid cefais fy synnu gyda pha mor fregus ac amharod oedd gwasanaethau cymunedol. Nid oedd pobl a oedd yn hunan-warchod neu'n bryderus yn teimlo'n ddiogel yn ymweld â fferyllfa. Sefydlais grŵp o wirfoddolwyr a gwnaethom ddosbarthu cannoedd o bresgripsiynau i bobl leol a hefyd drwy’r grŵp gwnaethom nodi lle mae ein trigolion mwyaf agored i niwed a dilyn ein gwaith gyda galwadau ffôn rheolaidd a danfoniadau bwyd hyd yn oed. Synnais ar y prinder o ran meddwl cydgysylltiedig a grwpiau sefydledig sy’n gallu rheoli anghenion iechyd lleol. Roedd rhai pobl oedrannus mewn sefyllfaoedd hynod o fregus yn methu â chael gafael ar gymorth iechyd digonol, ac roedd yn aml yn teimlo bod pobl yn cael eu hanwybyddu a’u hanfon i rywle arall. Rwy'n gwybod nad oedd hyn yn wir - nid oedd y systemau'n bodoli ac roedd gwasanaethau'n cael eu llethu. Cefais sioc yn y ffordd y daeth cymunedau'n gwbl ddibynnol ar wirfoddolwyr a wnaeth y trefniadau eu hunain, nid fel rhyw gorff mwy. Pasiodd misoedd cyn i GAVO gael ei sefydlu, a hyd yn oed wedyn roedd hyn yn ymwneud yn fwy â chofrestru grwpiau a sefydlwyd yn annibynnol ar y wladwriaeth. Roedd yn eithaf brawychus gweld pa mor fregus oedd iechyd cymunedol ychydig o dan yr wyneb."
"Mae gen i ddewis o 2 fferyllfa leol. Rwy'n teimlo bod y staff yn yr un rwy'n ei ddefnyddio yn fy adnabod ac yn gyfeillgar. Ond hoffwn i godi ambell beth: a) Dwi wedi cael ymgynghoriad 1-i-1 gyda'r fferyllydd yn y siop - ardderchog. b) Dwi wedi cael ymgynghoriadau ffôn a wyneb-yn-wyneb gyda fferyllwyr yn ein practis meddyg teulu lleol - ardderchog. Ym mhob un o'r sefyllfaoedd uchod dwi wedi teimlo ‘mod i wedi gallu rhannu unrhyw bryderon a bod fy marn yn ddilys ac yn ddefnyddiol. c) Weithiau dwi’n gweithio fel chwaraewr rôl proffesiynol ar gyfer [lleoliad] lle mae fferyllwyr yn cael y cyfle i ymarfer eu sgiliau cyfathrebu. Yn seiliedig ar y profiad hwn o weithio ar sgiliau cyfathrebu - gallaf ddweud wrthych fod pob un o'n fferyllwyr lleol (yn y siop ac yn y practis meddyg teulu) y cefais ymgynghoriadau gyda nhw yn sgorio 10/10!!!"
"Dim byd, diolch, gan fy mod i'n rheolwr practis sydd wedi ymddeol!"

"Mae fy fferyllfa leol yn wych, mae'r fferyllydd sy'n berchen ar y fferyllfa yn uchel ei barch yn y gymuned leol ac yn rhoi cyngor rhagorol. Mae'r holl staff yn gymwynasgar iawn ac yn mynd yr ail filltir i gael cyflenwad o feddyginiaethau os nad ydynt mewn stoc."
"Maen nhw'n wych."
"ddim yn glir a oes unrhyw breifatrwydd yn unman"
"Staff a gwasanaeth gwych"
"Mae'r fferyllfa dwi'n mynd iddi yn wych"
"Mae fy fferyllydd lleol yn gymwynasgar iawn, yn broffesiynol iawn ac yn gyfeillgar iawn! Mae'r gwasanaethau sydd ar gael heb eu hail."
"Gormod o staff yng nghefn y siop yn sgwrsio a ddim yn talu sylw i gwsmeriaid"
"Mae [fferyllfa] yn wych gan fod y staff yn eich gweld fel person, nid fel rhif GIG neu archeb"
"Dydw i ddim yn hoffi gorfod aros 10 diwrnod i bresgripsiynau rheolaidd gael eu llenwi. Dydw i ddim yn ymddiried yn [fferyllfa] i'w harchebu gan eu bod nhw naill ai'n anghofio neu'n colli eitem o'r rhestr. Digwyddodd hyn mor aml nes i mi ddechrau gwneud cais amdanyn nhw fy hun o'r feddygfa dros y ddwy flynedd ddiwethaf a gofyn iddyn nhw roi presgripsiynau i [fferyllfa].
"Mae angen edrych ar [fferyllfa]."
"Mae [fferyllfa] wedi bod mor gymwynasgar. Pan nad oes ganddyn nhw wrthfiotig rhagnodedig mewn stoc, maen nhw'n ffonio o gwmpas i weld ble allwn i ei gasglu."
"Dim digon o barcio yn y fferyllfa. Yn sgil COVID dydw i ddim yn gallu mynd i mewn i'r fferyllfa sy'n eich atal rhag gofyn am gyngor"
"Yn ystod y pandemig, dywedwyd wrthyf nad oedden nhw'n gwneud mân anhwylderau ac y dylwn i ffonio'r meddyg teulu. Ond roedden nhw'n gadael defnyddwyr cyffuriau i mewn i'r adeilad"

"Mae'r gwasanaeth wedi gwaethygu’n ddramatig ers Covid ac nid yw'n gyfeillgar iawn o ran amseroedd aros a bod yn yr awyr agored. Mae'n cymryd dros awr i mi gael fy meddyginiaeth nawr ac ro’n i’n feichiog drwy gydol y pandemig. Nid oes seddi i'r henoed, pobl anabl ac ati, nid oes unrhyw gysgod rhag y glaw, mae mesurau ymbellhau cymdeithasol yn wael oherwydd y gosodiad, ac ni ddylid disgwyl i bobl gerdded yn y mwd - mae damwain yn siŵr o ddigwydd. Hefyd, ni ches i fynd â'm sgript dyddiedig gyda fi (ces i wybod bod hyn yn anghyfreithlon... dwi’n gweithio mewn fferyllfa a dwi’n gwybod nad yw hynny’n wir, dwi jyst ddim yn gallu cael y feddyginiaeth cyn y dyddiad hwnnw) ac mae aelodau o’r teulu wedi profi nifer o gamgymeriadau a gafodd eu gwadu a phan ofynnwyd iddyn nhw a oedd hyn wedi cael ei gofnodi ar Piers, na oedd yr ateb! Ond eto digwyddodd yr un camgymeriad am fisoedd - beth yw'r pwynt cael Piers os nad yw’n cael ei ddefnyddio? Mae’n amlwg nad yw staff yn cael gwybod am y gwallau ac nad yw’r ffyrdd o wella yn cael eu gweithredu."
"Defnyddiol ac effeithlon iawn."
"Hoffwn iddyn nhw fod ar agor yn gynharach ac yn hwyrach na’r arfer ar ddyddiau'r wythnos ac yn ddelfrydol drwy'r dydd ddydd Sadwrn i’r rhai sy’n gweithio oriau swyddfa"
"Mae fy Fferyllfa [enw] yn anhygoel ac mor gymwynasgar"
"[Fferyllfa] yw'r fferyllfa waethaf, dydyn nhw ddim yn ateb y ffôn, dydyn nhw ddim yn gwneud eich meddyginiaethau, hyd yn oed pan mae eich presgripsiwn wedi bod gyda nhw am 3 diwrnod, mae'n rhaid i chi giwio y tu allan o hyd wrth iddyn nhw eu gwneud nhw - arhosais i am 45 munud unwaith, mae rhai o'r staff yn anghwrtais iawn ac yn ddi-gymwynas"
"Mae gennym berthynas ragorol gyda'n fferyllydd. Rydym yn casglu meddyginiaeth ar gyfer ein mab anabl ac mae ei feddyginiaeth yn eithaf cymhleth. Rydym yn teimlo'n lwcus iawn i gael fferyllfa mor wych ger ein cartref."
"Rwy'n defnyddio [fferyllfa] gan fy mod wedi cael fy siomi ar sawl achlysur gan [fferyllfa]. Mae gen i Gardiomyopathi felly mae cael fy meddyginiaeth fisol ar amser yn bwysig iawn. Nid yw [fferylliaeth] erioed wedi fy siomi. Rwy'n teimlo fy mod i’n derbyn gofal da iawn a’u bod nhw’n poeni amdanaf i. Alla i ddim diolch digon iddyn nhw. Fferyllfa o angylion."
"Er ein bod yn derbyn ein meddyginiaethau'n uniongyrchol o'r feddygfa mae dwy fferyllfa o fewn 4 milltir i'r cartref."
"Gwasanaeth neges destun gwael ar gyfer sgript rheolaidd, weithiau'n brysur iawn, gallai fod yn fwy ar gyfer maint y siop a nifer y bobl sy'n mynychu"

"Y broblem rwy'n ei gweld fwyaf yw nad yw’r meddyg teulu [enw] wedi anfon y presgripsiynau yn yr amser y mae wedi'i nodi."
"Hyd yn ddiweddar, maen nhw wedi danfon fy meddyginiaeth yn rhad ac am ddim. Heb unrhyw rybudd, daeth hyn i ben a phan ffoniais i geisio dod o hyd i'm meddyginiaeth, dywedwyd wrthyf - pe bawn i eisiau i’m meddyginiaeth gael ei danfon - y byddai’n rhaid i mi dalu £55 y flwyddyn erbyn hyn, felly £110 i fi a’r gŵr. Dywedwyd wrthyf mai'r rheswm am hyn yw bod y llywodraeth wedi rhoi'r gorau i'r cynllun am ddim. Fel pensiynwr, nid oedd y gost ychwanegol sydyn hon yn dderbyniol, felly nawr mae'n rhaid i'm gŵr gasglu ein meddyginiaethau ddwywaith y mis, gan fod ei ddyddiad ef yn wahanol i fy un i. Gyda Covid, rwy'n teimlo bod hyn yn risg na ddylai fod yn rhaid i ni ei chymryd."
"Bob amser yn rhoi cyngor os na allwch weld meddyg teulu"
"Araf iawn. Hoffwn i bresgripsiynau fod am gyflenwad o 2 fis o feddyginiaethau rheolaidd i arbed teithiau misol i’r fferyllfa"
"Fe wnes i fynd â'm mab i’r fferyllfa am gyngor gan fod ganddo frech - oherwydd covid gwrthodwyd help i mi gan eu bod wedi creu system dim mynediad yn ddiweddar ac rydych chi'n cael eich gwasanaethu mewn drws. Bu’n rhaid i mi ddefnyddio meddyg teulu wedyn. Ro’n i’n meddwl bod fferyllfeydd yno i helpu i dynnu straen oddi ar y meddygon teulu. Ry’ch chi’n dweud wrthym am wneud y dewis iawn, wel fe wnes i ac yna gwastraffu taith a gorfod mynd at y meddyg teulu beth bynnag."
"Gan ein bod yn byw ar ffin Cymru a Lloegr [lleoliad] rwy'n aml yn cael fy anfon o [leoliad] i'r dosbarthwr yn [lleoliad] i gasglu'r presgripsiwn!!!! Mae hyn yn 15 munud neu fwy eto yn y car oherwydd y traffig yn [lleoliad]!"
"Yn aml, nid oes gan fy fferyllfa leol y stoc sydd ei hangen arnaf sy'n golygu bod yn rhaid i mi wneud ymweliad ychwanegol sy’n anghyfleus. Nid oes byth digon o staff ac felly rwy'n aros rhwng 30 a 60 munud am fy mhresgripsiwn misol a ddylai fod yn barod eisoes."
"Maen nhw'n gymunedol iawn ac yn adnabod pobl yn unigol. Maent yn gyfeillgar, yn effeithlon ac yn wybodus."
"mae'n fferyllfa annibynnol - mae ganddynt wybodaeth am y meddygon, eich meddyginiaeth, felly os yw’r meddyg wedi rhoi rhywbeth i chi a bod y fferyllfa'n gwybod y bydd yn effeithio arnoch chi byddant yn eich cynghori. Mae hyn yr un peth â'r fferyllfa arall rydw i’n ei defnyddio, y fferyllydd y tro hwn, fy nheulu cyfan."
"aneffeithlon iawn, bob amser yn colli presgripsiynau, arosiadau hir,"

"Ie… fy fferyllfa leol yw [fferyllfa], maent yn codi £5 y mis am ddanfon, felly rwy'n defnyddio [fferyllfa] yn lle hynny, sy'n agosach…"
"mae'n ymddangos bod fferyllfeydd yn ymgymryd â/cael eu gorfodi i gynnig gormod o wasanaethau oherwydd y pwysau mawr ar ofal iechyd sylfaenol"
"Araf iawn. Ciw bob amser. Dim preifatrwydd o gwbl felly ddim yn teimlo y gallaf siarad am unrhyw beth gyda nhw. Yn aml, mae'n rhaid i mi fynd yn ôl y diwrnod nesaf i gael meddyginiaeth y maent wedi rhedeg allan ohoni, sy'n mynd ar fy nerfau, yn enwedig yn ystod pandemig pan dwi am gyfyngu ar fy amser cyhoeddus. Mae gen i feddyginiaethau cyffredin sy'n cael eu hailadrodd bob mis felly dwi ddim yn deall pam maen nhw'n rhedeg allan cyn ailarchebu."
"Amseroedd aros yn rhy hir"
"Byddwn yn gwerthfawrogi oriau agor hirach fel y gallwn alw heibio ar ôl gwaith. Rhaid mynd ar ddydd Sadwrn yn bennaf."
"Mae'r arfer cyffredin o fferyllfeydd yn defnyddio hybiau i lenwi presgripsiynau yn achosi oedi wrth gael meddyginiaeth. Felly mae angen i gleifion ofyn am sgriptiau'n llawer cynt."
"Mae'n ddealladwy bod y gwasanaethau yn ystod y pandemig wedi bod yn anodd. Fodd bynnag, rwy'n credu eu bod nhw o bosib yn brin o staff gan nad yw fy mhresgripsiwn misol wedi bod yn barod ar amser ac mae'r amseroedd aros yn hir."
"Nid yw'r trosiant ar bresgripsiynau rheolaidd yn wych - 72 awr. Pan ry'ch chi'n ceisio bod yn drefnus a chyflwyno presgripsiwn rheolaidd yn gynnar, dydyn nhw ddim yn ei gyhoeddi (gan ei fod yn 'rhy fuan' dwi'n cymryd). Os ydych ar sawl meddyginiaeth, weithiau mae'n anodd alinio amseriad y rhai rheolaidd er mwyn osgoi ymweliadau lluosog â'r fferyllfa."
"Dim ond [fferyllfa] sydd ar agor ar benwythnosau ac mae'n darparu gwasanaeth da."
"Nid yw'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio yn wych gyda gwasanaeth cwsmeriaid - mae bob amser yn brysur. Rwy'n deall nad nhw sydd ar fai, ond gall gymryd sawl diwrnod cyn bod y presgripsiwn yn barod, a hyd yn oed wedyn efallai nad oes ganddyn nhw bopeth sydd ei angen arnoch."
"hapus iawn gyda gwasanaeth fy fferyllfa leol"
"Diolch fel GWEITHIWR ALLWEDDOL"
"Mae'r weithdrefn ar gyfer Dosbarthu meddyginiaethau rheolaidd yn newid yn rheolaidd."
"Oherwydd nifer y tai sy'n cael eu hadeiladu yn yr ardal mae'r fferyllfa'n brysur iawn felly mae'n rhaid ciwio'n rheolaidd"

"Mae'n ymddangos nad oes digon o staff ym mhob fferyllfa a bod ganddyn nhw ormod o waith. Byddai'n dda cael mwy nag un fferyllydd i bob fferyllfa fel bod y fferyllydd ar gael yn fwy ar gyfer cyngor a gwasanaethau clinigol."
"FFERYLLFA NEWYDD I FI YN DILYN SYMUDIAD TŶ YN DDIWEDDAR. WEDI CAEL ARGRAFF DDA O'R GWASANAETH A GYNIGIR AC A GYFLWYNIR"
"Mae meddygfeydd yn achosi anhrefn drwy beidio â pharatoi presgripsiynau ar amser a peidio ag ateb eu ffonau. Mae hyn yn gwneud i gleifion ffonio'r fferyllfa a chwyno, ond does dim bai arnyn nhw."
"Maen nhw'n ddefnyddiol iawn ac mae hwn yn wasanaeth lleol ardderchog i'r gymuned"
"Rwy'n hoffi i'm meddyginiaethau fod gan yr un gwneuthurwr bob tro. Haws ymweld â nhw na fy meddyg teulu"
"Os byddaf yn ffonio fy meddyg teulu am bresgripsiwn, maen nhw'n ei anfon yn uniongyrchol i'r Fferyllfa. Yna maen nhw'n ei anfon i ffwrdd i gael ei lenwi sy'n gallu cymryd tua wythnos, felly os oes angen meddyginiaeth ar frys mae'n wastraff amser gofyn amdani."
"Yn aml, rydw i wedi gorfod gwrthod meddyginiaeth gan nad yw'r hyn a gynigiwyd yn rhywbeth dwi'n gallu ei gymryd oherwydd fy alergeddau. Mae hyn yn wastraff amser enfawr i mi, y meddyg teulu a'r fferyllydd. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae ganddynt fferyllydd sy'n rhagnodi, sy'n canolbwyntio llawer mwy ar yr unigolyn ac sy'n gallu gwirio a rhagnodi meddyginiaethau amgen fel nad oes rhaid i mi fynd yn ôl at y meddyg teulu dro ar ôl tro er mwyn iddo ddiwygio'r presgripsiwn. Yn anffodus, nid oes gan feddygon teulu unrhyw syniad beth yw'r cynhwysion neu'r llenwyr 'eraill' mewn meddyginiaeth y maent yn ei rhagnodi. Mae angen i'r fferyllydd fod yn fwy ymwybodol o gyflymder y gwasanaeth a'i bod yn well rhoi'r presgripsiynau allan wrth iddynt ddod yn barod (yn hytrach nag mewn sypiau) er mwyn cynorthwyo gydag ymbellhau cymdeithasol a pharcio. Rwy'n siŵr y gellir dod o hyd i ateb i'r broblem hon."
"Mae fy fferyllfa leol yn anghwrtais ac yn araf iawn ond mae'r fferyllwyr bob amser yn neis a chymwynasgar. Dim ond er hwylustod y byddaf yn ei defnyddio."
"Y tu allan i oriau gwaith arferol mae'r gwasanaeth fferyllfa leol yn gyfyngedig iawn."
"Maen nhw i gyd yn cau am ginio rhwng 1-2 sef pan dw i ar fy awr ginio, felly nid yw'n gyfleus iawn"

"Yn gyffredinol, rwy'n cael fy synnu gan y diffyg ymgysylltu rhwng staff a chwsmeriaid - mae pobl yn cael eu gadael i aros am amser hir heb gael eu cydnabod heb sôn am eu cyfarch neu weini, a hynny pan mae sawl aelod o staff i'w gweld 'yn y cefn'. Nid yw hyn yn gwrtais na phroffesiynol."
"Gan mai anaml y byddaf yn defnyddio'r [fferyllfa] nid oes unrhyw beth arwyddocaol i'w ychwanegu yma."
"gwasanaeth gwael a rhy fach i ymdopi â'r galw gan feddygfa o'r maint hwn a nifer y cleifion, bob amser yn gorfod aros a chiw bob amser"
"Yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth, rwy'n defnyddio Fy Iechyd Ar-lein i archebu presgripsiynau rheolaidd ac ers i mi newid fy mhractis meddygol mae'r gwasanaeth yn gyflym ac yn effeithlon iawn."
"Gwasanaeth da, dim digon o staff o bellffordd, yn anodd cael ateb ar y ffôn oherwydd lefelau staffio. Defnyddiol iawn ar y cyfan."
"Hyd at y pandemig roedd fy Fferyllfa leol yn berffaith ond yn ystod y pandemig dwi wedi sylwi ar newid mawr yn agweddau pob aelod o staff. Maen nhw'n ymddangos yn ddigalon iawn, a ddim mor galonogol na gofalgar."
"Mae'r amser aros yn ddychrynllyd"
"Byddai'n dda pe bai gennym system gystal â Lloegr ar gyfer presgripsiynau."
"Mae staff fferyllfa yn asedau i'w cymunedau, ond maent o dan bwysau gwaith cynyddol. Maent yn ymgymryd â mwy a mwy o waith y feddygfa, ac eto nid ydynt yn cael mwy o adnoddau e.e. staff, i'w reoli. Pan ofynnais pam na allent recriwtio mwy o staff gan eu bod yn gwneud mwy o waith, dywedasant fod y llywodraeth yn tanariannu'r gwasanaeth, a bod yn rhaid iddynt weithio'n galetach flwyddyn ar ôl blwyddyn dim ond i aros ar agor ac osgoi diswyddiadau. Mae hyn yn hurt! Maen nhw'n gweithio'n ddiflino, dim ond i gadw eu swyddi a sicrhau bod eu cymuned yn cadw ei gwasanaeth fferyllol."
"gall cyfathrebu amrywio rhwng y fferyllfa a'r meddyg teulu o ran parodrwydd presgripsiynau. Diwylliant o feio yw hyn ac nid yw'n dda o gwbl i ofal cwsmeriaid pan nad yw meddyginiaethau ar gael i'w casglu ar ôl cael gwybod fel arall."

"Roedd y fferyllfa ger fy nhŷ yn ei chael hi'n anodd iawn yn y pandemig. Tra roeddwn ar ffyrlo, gwirfoddolais ar gyfer grŵp covid cymunedol a bu'n rhaid i mi fynd yno bron bob dydd. Roedd pobl yn ciwio weithiau am hyd at 90 munud i gael eu gweld. Roedd eitemau ar goll yn aml neu byddwn yn cael gwybod nad oedd y presgripsiwn yno (yn aml byddai'n cael ei ffeindio'n ddiweddarach ar safle'r fferyllfa). Roedd fferyllfeydd lleol eraill yn y dref yn brysurach hefyd, ond nid oedd capasiti yn system fy fferyllfa leol oherwydd y ffordd yr oeddent (neu y maent) yn cael eu trefnu. Gwelais ddadlau rhwystredig a dig rhwng staff y fferyllfa a chwsmeriaid eraill a oedd hefyd yn profi'r materion hyn. Wrth giwio y tu mewn, roedd ffôn y fferyllfa yn aml yn canu a chanu ac roedd yr holl staff yn ei anwybyddu. Mae'r ciwiau'n llawer llai nawr, ond gan nad ydw i'n ymweld bob dydd mwyach (rwy'n gwneud casgliad wythnosol o fferyllfa leol arall) dydw i ddim yn gwybod a ydyn nhw wedi ail-strwythuro, aildrefnu eu hunain, neu os yw'r rhan fwyaf o bobl bellach wedi dewis mynd i rywle arall am wasanaeth."
"Rydym yn falch iawn gyda'n un ni, rydyn ni'n eu nabod nhw ac maen nhw'n ein nabod ni. Rydym yn ymddiried ynddynt ac wedi eu defnyddio ers blynyddoedd lawer"
"Nid yw'r amseroedd agor yn ddefnyddiol iawn i bobl sy'n gweithio - fel arfer 9-12 ac yna 1-4.30pm. Gan fy mod yn tueddu i adael am y gwaith am 7 a ddim yn cyrraedd adre tan wedi 4, mae'n anodd cael fy mhresgripsiynau. Maent ar agor ar fore Sadwrn ond yn anffodus mae fy meddygfa yn aml yn ei gadael tan y funud olaf i dderbyn fy nghais am bresgripsiwn felly weithiau mae'n rhaid i mi fynd yn ystod yr wythnos (nid bai'r fferyllfa yn amlwg). Hoffwn ddweud hefyd eu bod yn gyfeillgar iawn a bob amser yn gweithio'n galed, yn enwedig yn ystod y pandemig, i sicrhau bod pawb yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt. Mae'r staff yn dda iawn. Gallai'r fferyllfa roi eu horiau agor ar-lein (roedden nhw'n newid yn achlysurol yn ystod y pandemig) a daeth yn gêm o siawns o ran a fyddent ar agor pan ro'n i'n cyrraedd yno."
"Mae fferyllfeydd lleol mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol gan y byddai angen i gleifion deithio i dref i gasglu eu presgripsiwn."

"Rwy'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth rwy'n ei dderbyn gan y fferyllfa yn [lleoliad]. Fe wnes i ofyn am 2 fis o bresgripsiynau batsh ar y tro yn ystod y pandemig COVID ac roeddent yn hyblyg iawn gyda hyn. Rwy'n dewis fy fferyllfa gan ei bod mewn archfarchnad y byddaf yn ymweld â hi'n aml ac nid oes rhaid i mi wneud taith ychwanegol i gael fy mhresgripsiwn. Mae gan y fferyllfa oriau estynedig ac mae ar agor ar benwythnosau, sy'n ei gwneud yn hygyrch iawn, sy'n bwysig i mi. Mae hefyd yn hawdd parcio. Dwi'n gallu gofyn am fy mhresgripsiwn a siopa wrth iddynt ei baratoi, ond yn aml dwi'n ffonio ymlaen llaw i ofyn iddyn nhw ei baratoi. Mae staff yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar iawn. Mae gennyf fferyllfa yn fy mhentref sy'n agosach ond nid yw'r oriau mor hir, mae parcio'n anoddach ac mae'n golygu fy mod yn gwneud taith bwrpasol ar gyfer meddyginiaethau. Weithiau rwy'n ei defnyddio pan fydd angen i mi brynu rhywbeth dros y cownter."
"Gwasanaeth gwych yn cael ei gynnig gan [fferyllfa]!!"
"O ran lle preifat i drafod symptomau, byddwn yn dweud bod rhai fferyllfeydd yn well nag eraill"
"Yn aml mae'n rhaid aros yn hir wrth ollwng y presgripsiwn - felly mae'n well gollwng ac yna casglu'r diwrnod wedyn, ond dyw hyn ddim bob amser yn opsiwn i ni."
"Mae fferyllydd gwahanol ar ddyletswydd bob tro. Bob tro."
"Cyflenwad meddyginiaethau brys – mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd fferyllydd yn gallu rhoi rhai o'ch meddyginiaethau i chi os ydych chi wedi rhedeg allan ac nad oes gennych bresgripsiwn. Gwrthodwyd hyn i mi a dywedwyd wrthyf nad ydynt yn gallu gwneud hyn"
"hoffwn oriau agor ehangach ar benwythnosau ac amser cinio"
"Mae [fferyllfa] yn cau amser cinio am px. Gall hyn fod yn anodd iawn oherwydd yn aml dyma'r amser gorau ar gyfer gwaith / casglu meddyginiaeth hanfodol."
"fy [fferyllfa] leol yw'r gorau - cyfeillgar gyda chyfathrebu da

"Hoffwn gael gwasanaeth presgripsiwn ar-lein gyda gwasanaeth danfon am ddim - nid yw'r gwasanaeth hwnnw ar gael yng Nghymru yn yr un modd ag y mae yn Lloegr. Gan fod fy ngŵr mewn categori hunan-warchod, mae'n rhaid i mi fynd unwaith y mis i gasglu ei bresgripsiynau a byddai'n well o lawer pe gallent gael eu danfon. Hefyd mewn meddygfeydd yn Lloegr ry'ch chi'n gallu mewngofnodi a chwilio am bethau fel llythyrau gan feddygon ymgynghorol ac archebu presgripsiynau ar-lein a chasglu o archfarchnadoedd mawr fel [fferyllfa]. Nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael yma ac mae'n rhaid i chi ddweud wrth y fferyllydd pan fyddwch yn mynd i mewn fod angen presgripsiwn rheolaidd arnoch. Byddai'n arbed llawer o amser i wirfoddolwyr yn ystod Covid pe gallech gael y cwmnïau fferyllfa ac archfarchnadoedd sydd â fferyllfeydd i ddarparu presgripsiynau am ddim."
"Mae fy fferyllfa mor gymwynasgar. Byddwn yn gofyn am eu cyngor nhw cyn mynd at fy meddyg teulu."
"mae'r un rwy'n ei defnyddio yn gwbl anobeithiol - meddyginiaeth anghywir neu brinder meddyginiaeth yn rheolaidd iawn, system cofnodi gwybodaeth sydd ddim yn adlewyrchu'n gywir yr hyn a ddywedwyd, gwasanaeth cwsmeriaid gwarthus"
"Mae'r staff wedi gweithio'n eithriadol o galed yn ystod y pandemig dan amodau anodd iawn ac rwy'n eu cymeradwyo."
"Nid oedd y presgripsiwn deintyddol yn gallu cael ei ddosbarthu amser cinio mewn 2 fferyllydd lleol, a oedd yn anghyfleus iawn i mi"
"Byddai'n well gen i gael dosbarthiad i'm cartref os yn bosibl"
"Mae'r fferyllydd a'r fferyllydd cyflenwi yn wybodus iawn ac yn ddymunol."
"Bob amser yn brin o staff o ran y gwasanaethau y maent i fod i'w darparu"
"Rwyf wedi cael rhai profiadau ofnadwy yn ddiweddar gyda fferyllfeydd yn colli fy mhresgripsiwn ac yn peidio â dweud wrthyf beth sydd wedi digwydd nes ei bod hi'n rhy hwyr ac fy mod i wedi rhedeg allan o'm meddyginiaeth."
"Maen nhw bob amser yn ymddangos yn brin o staff ac mae casglu presgripsiwn bob amser yn cymryd o leiaf 20 munud"
"Mae'r staff yn gyfeillgar, cymwynasgar ac anfonir ein presgripsiynau atynt bob mis"
"Gwych gallu defnyddio'r fferyllfa leol gyda staff rheolaidd sy'n gyfeillgar ac yn gefnogol iawn"

"Mae fy fferyllfa wedi bod yn brysur iawn ers misoedd, gan arwain at amser aros llawer hirach, ciwiau hir a chamgymeriadau'n cael eu gwneud; dywedwyd wrthyf fod pethau’r un fath mewn llawer o fferyllfeydd ar hyn o bryd... ddim yn agos at ddigon o staff."
"Ffydd mawr yn y fferyllfa bresennol, roedd yr un flaenorol bob amser yn ceisio gwerthu rhywbeth. Mae preifatrwydd yn broblem ym mhob fferyllfa - mae darparu manylion cyfeiriad llawn wrth gasglu presgripsiynau yn teimlo'n anghyfforddus pan mae ciw o bobl y tu ôl i chi heb ddim i'w wneud ond gwrando."
"Er fy mod yn defnyddio fy nosbarthfa meddyg teulu ar hyn o bryd, rwyf wedi defnyddio fferyllfeydd ar gyfer fy mhresgripsiynau rheolaidd yn y gorffennol tra'n byw yn Lloegr. Rwy'n teimlo nad oes digon o fynediad hawdd at wasanaethau fferyllol y Tu Allan i Oriau a 24 awr yma yng Ngwent / Sir Fynwy ac mae’r mynediad yn wael i'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser (yn bennaf gan fod yn rhaid i’r mwyafrif helaeth o'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser weithio ym Mryste, Casnewydd, Caerdydd neu hyd yn oed ymhellach i ffwrdd gan fod cyn lleied o gyflogwyr a swyddi yma yn ein hardal). Mae llawer o leoedd yn cau am 5pm yn lleol ac mae ein holl wasanaethau Tu Allan i Oriau a 24 awr ymhell i ffwrdd. Dydw i ddim yn gyrru, felly mae'n rhaid i mi ddibynnu ar fy ngŵr os oes angen i mi gael mynediad at rywbeth ar ôl 5:30pm / 6pm ac nid yw fy meddyg teulu ar agor. Ar y nodyn hwnnw, pam nad oes mwy o wasanaethau meddyg teulu ar agor ar ôl 6pm (e.e. tan 8pm) a/neu ar agor ar benwythnosau (e.e. bore Sadwrn 10am-1pm neu rywbeth tebyg); gallai'r meddygon teulu hefyd fod ar agor ar yr adegau hyn i greu gwasanaeth llawer gwell i'r cyhoedd (yn enwedig y rhai sy'n gweithio, sydd â phlant ifanc ac ati)"
"Mae'r fferyllfa rwy'n ei defnyddio'n gyffredinol yn annibynnol. Mae'r fferyllydd a'r staff yn gyfeillgar ac yn wybodus ond mae'r gwasanaeth yn eithaf araf. Mae'r fferyllfa arall yn rhan o gadwyn adnabyddus ac er bod y gwasanaeth yn weddol effeithlon mae'n amhersonol iawn."
"Rwyf ar wasanaeth presgripsiwn rheolaidd sy'n rhedeg am 6 mis ar y tro. Weithiau mae'n rhaid i mi aros yn hir yn y fferyllfa pan fyddaf yn cyflwyno fy ngherdyn ar gyfer cyflenwad y mis nesaf."
"Mae presgripsiynau ar-lein yn gweithio'n dda"
"Rwy'n credu ei bod hi’n wych eich bod chi’n gallu defnyddio'r fferyllfa ar gyfer anhwylderau mwy cyffredin i ryddhau meddygon teulu. Byddai rhagor o hysbysebu am yr hyn y gallwch weld eich fferyllydd amdano yn dda."
“Meddyginiaethau dros y cownter. Cyngor ar fân anhwylderau"

"Byddwn i'n defnyddio gwasanaethau Fferyllfa ar gyfer cyngor lefel isel - pan na allwn gyfiawnhau mynd at feddyg teulu - felly maen nhw'n angenrheidiol yn ogystal â'r ddosbarthfa yn y feddygfa."
"Mae fferyllfa New Inn newydd yn dda iawn. Does gen i ddim cwynion."
"gwasanaeth a gwybodaeth ragorol. Ai dyma'r amser gorau (pandemig) i gynnal arolwg o'r fath a fydd yn effeithio ar newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol?"

Monitro Cydraddoldeb

Nodwch eich ystod oedran drwy ddewis yr opsiwn priodol:	**Nifer yr ymatebion**
0-15 oed	0
16-24 oed	4
25-34 oed	23
35-44 oed	52
45-54 oed	77
55-64 oed	80
65-74 oed	64
75 oed a hŷn	19
Dewis peidio ag ateb	2

Rhywedd	**Nifer yr ymatebion**
Benyw	248
Gwryw	61
Gwag	6
Mae'n well gen i beidio â dweud	6

Grŵp Ethnig Gwyn:	**Nifer yr ymatebion**
Prydeinig	136
Seisnig	15
Gogledd Iwerddon	2
Albanaidd	1
Cymreig	154
Arall	3

Grŵp Ethnig Cymysg/Cymysg Prydeinig:	**Nifer yr ymatebion**
Gwyn/Du Caribïaidd	1
Unrhyw gefndir cymysg arall	2

Grŵp Ethnig Asiaidd/Asiaidd Prydeinig:	Nifer yr ymatebion
Indiaidd	1

Grŵp Ethnig Arall/Prydeinig Arall:	Nifer yr ymatebion
Mae'n well gen i beidio â dweud	2
Arall	5
Os dewisoch chi Grŵp Ethnig Arall, nodwch:	Ewropeaidd (x2) Gwyn, Cymreig Ewropeaidd Cymreig

Cyfeiriadedd Rhywiol	Nifer yr ymatebion
Heterorywiol / Syth	280
Hoyw / Lesbiaidd	7
Deurywiol	1
Dewis peidio â dweud	21
Arall	2

Statws Priodasol - Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw?	Nifer yr ymatebion
Ydw	203
Nac ydw	87
Mae'n well gen i beidio â dweud	24

Crefydd neu Gred - Beth yw eich crefydd?	Nifer yr ymatebion
Cristion (pob enwad)	181
Anffyddiwr	19
Bwdhydd	1
Dim crefydd	89
Mae'n well gen i beidio â dweud	18
Arall	2

Anabledd - Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?	Nifer yr ymatebion
Ydw	67
Nac ydw	230

Mae’n well gen i beidio â dweud	11

Hunaniaeth Rhywedd - A yw eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a neilltuwyd i chi ar eich genedigaeth?	**Nifer yr ymatebion**
Ydy	5
Nac ydy	289
Mae’n well gen i beidio â dweud	13

Cyfrifoldebau Gofalu:	**Nifer yr ymatebion**
Oes	107
Nac oes	192
Mae’n well gen i beidio â dweud	9

Atodiad I – holiadur contractwyr fferyllol

Manylion y Safle

Cod contractwr (cod ODS)	
Enw'r contractwr (h.y. enw'r unigolyn, y bartneriaeth neu'r cwmni sy'n berchen ar y busnes fferyllol)	
Enw masnachu	
Cyfeiriad y fferyllfa	
Cyfeiriad e-bost y fferyllfa	
Rhif ffôn y fferyllfa	
Rhif ffacs y fferyllfa (os yw'n berthnasol)	
Cyfeiriad gwefan y fferyllfa (os yw'n berthnasol)	
A all y bwrdd iechyd gadw'r wybodaeth uchod a'i defnyddio i gysylltu â chi?	☐ Gall ☐ Na

Cyfleusterau ymgynghori

A yw'r safle'n hygyrch ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn? Ydy / Nac ydy

Mae yna ardal ymgynghori (ticiwch fel y bo'n briodol)

Na, neu	☐
Ar gael (gan gynnwys mynediad i gadeiriau olwyn), neu	☐
Ar gael (heb fynediad i gadeiriau olwyn), neu	☐
Wedi'i chynllunio o fewn y 12 mis nesaf, neu	☐
Arall (nodwch)	

Lle ceir ardal ymgynghori;	
Yw hi'n ystafell gaeedig?	☐ Ydy ☐ Nac ydy
A yw'n ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd?	☐ Ydy ☐ Nac ydy

A yw'r claf a'r fferyllydd yn gallu siarad ar lefel arferol heb gael eu clywed gan staff y fferyllfa neu ymwelwyr â'r fferyllfa?	☐ Ydynt ☐ Nac ydynt
A yw wedi'i ddynodi'n glir yn ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa?	☐ Ydy ☐ Nac ydy
Os nad oes ardal ymgynghori a oes trefniadau amgen ar gyfer trafodaethau cyfrinachol?	☐ Oes ☐ Nac oes

Ieithoedd a siaredir (yn ogystal â Saesneg)	

Gwasanaethau

A yw'r fferyllfa'n dosbarthu cyfarpar?

Ydy – Pob math, neu	☐
Ydy, ac eithrio offer stoma, neu	☐
Ydy, ac eithrio offer anymataliaeth, neu	☐
Ydy, ac eithrio offer stoma ac anymataliaeth, neu	☐
Ydy, dim ond gorchuddion, neu	☐
Arall [nodwch]	
Dim	☐

Gwasanaethau heb eu Comisiynu

A yw'r fferyllfa'n darparu unrhyw un o'r canlynol?

Casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu	☐
Darparu meddyginiaethau fferyllol – Am ddim ar gais	☐
Darparu meddyginiaethau fferyllol – Grwpiau cleifion dethol (rhestrwch y meini prawf)	
Darparu meddyginiaethau fferyllol – Ardaloedd dethol (rhestrwch yr ardaloedd)	
Darparu meddyginiaethau fferyllol - Codir tâl	☐

Yn eich barn chi, a oes gofyniad am wasanaeth ychwanegol sydd eisoes yn bodoli nad yw'n cael ei ddarparu yn eich ardal chi ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.	

Yn eich barn chi, a oes gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.	

Capasiti

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol yn gyffredinol yn cynyddu. Gan feddwl am eich fferyllfa chi:

	√
Oes gennych ddigon o gapasiti yn eich safle presennol ac o ran eich lefelau staffio i reoli'r cynnydd yn y galw yn eich ardal?	
Nid oes gennych ddigon o le na digon o gapasiti staffio ar hyn o bryd ond gellir gwneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw yn eich ardal?	
Nid oes gennych ddigon o le na chapasiti staffio a byddai'n anodd rheoli cynnydd yn y galw?	

(Ticiwch un opsiwn)

Datblygu busnes

A oes gennych unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eich safle neu ddarpariaeth gwasanaeth? Oes / Nac oes

Os oes, rhowch fanylion yma.

Manylion y person sy'n cwblhau'r ffurflen hon:

Enw cyswllt y person sy'n cwblhau'r holiadur, os bydd cwestiynau'n codi	Rhif ffôn cyswllt

Atodiad J – holiadur ymarfer fferyllol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn paratoi ei asesiad anghenion fferyllol (AAFf) cyntaf, sydd i'w gyhoeddi erbyn 1 Hydref 2021, ac mae angen eich help arnom i gasglu rhywfaint o wybodaeth i gefnogi ei ddatblygiad.

Mae'r holl fyrddau iechyd wedi cytuno ar yr holiadur hwn a chaiff ei ddefnyddio ledled Cymru. Wrth ddatblygu'r holiadur rydym ond yn gofyn am wybodaeth sydd ei hangen ond nad yw'n cael ei chadw na'i chasglu fel mater o drefn. Fel y gwelwch, rydym wedi cadw'r holiadur mor fyr â phosibl.
Er y bydd ar gael tan 4 Rhagfyr 2020 byddem yn eich annog i lenwi'r holiadur nawr.

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu'r atebion sydd eu hangen, e-bostiwch charlotte.goodson@pcc.nhs.uk gyda theitl pwnc 'arolwg AAFf ymarfer fferyllol BIPAB'.

Rhowch enw'r practis rydych yn llenwi'r holiadur ar ei ran:

Rhowch gyfeiriad neu gyfeiriadau'r safle y mae’r practis wedi cael cymeradwyo safle i weinyddu ohonynt:

1 Llenwch y tabl isod gyda’r amseroedd y mae'r fferyllfa ar agor gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.

	Cyfeiriad -	**Cyfeiriad -**
Dydd Llun		
Dydd Mawrth		
Dydd Mercher		
Dydd Iau		
Dydd Gwener		

Os yw eich fferyllfa ar agor dros y penwythnos nodwch y dyddiau a'r amseroedd.

2 A yw offer yn cael ei weinyddu o'r safle?

Ystod o offer: un ateb 'ydy' yn unig	**YDY**
Ydy – Pob math, neu	
Ydy, ac eithrio offer stoma, neu	
Ydy, ac eithrio offer anymataliaeth, neu	
Ydy, ac eithrio offer stoma ac anymataliaeth, neu	
Ydy, dim ond gorchuddion, neu	
Dim	

3 Dosbarthu eitemau a weinyddir

Ydych chi'n cynnig gwasanaeth dosbarthu?	Ydym	Nac ydym

Os ydych, a yw'r gwasanaeth ar gael i bob claf?	Ydy	Nac ydy

Os cyfyngir ar y gwasanaeth, cadarnhewch y grwpiau cleifion a gaiff ddefnyddio'r gwasanaeth.

4 Ar wahân i Saesneg pa ieithoedd eraill, os o gwbl, sydd ar gael i gleifion gan staff yn y safle bob dydd – rhestrwch y prif ieithoedd a siaredir

Rhestr o'r ieithoedd a siaredir:

5 Capasiti

Mae'r galw am wasanaethau iechyd yn gyffredinol yn cynyddu. Gan feddwl am eich gwasanaeth fferyllol yn unig, p'un sy'n berthnasol i chi:

	✔
Mae gennych ddigon o gapasiti yn eich safle presennol ac o ran eich lefelau staffio i reoli'r cynnydd yn y galw yn eich ardal.	
Nid oes gennych ddigon o le na digon o gapasiti staffio ar hyn o bryd ond gellir gwneud addasiadau i reoli'r cynnydd yn y galw yn eich ardal.	
Nid oes gennych ddigon o le na chapasiti staffio a byddai'n anodd rheoli cynnydd yn y galw.	

(Ticiwch un opsiwn)

6 Gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â fferyllfeydd

A fyddech gystal â rhoi manylion unrhyw weithgareddau eraill yr ydych yn eu cynnig sy'n gysylltiedig â'ch gwasanaeth fferyllol, er enghraifft siartiau Cofnod Gweinyddu Meddyginiaethau (MAR).

7 Rhowch eich manylion cyswllt i ni.

Enw:

Teitl Swydd:

E-bost:

Rhif ffôn:

Atodiad K – adroddiad ymgynghori

1 Cyflwyniad

Yn rhan o'r broses asesu anghenion fferyllol, mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gynnal ymgynghoriad o leiaf 60 diwrnod o hyd gyda sefydliadau penodol. Diben yr ymgynghoriad yw sefydlu a yw'r darparwyr fferyllol a'r gwasanaethau sy'n cefnogi poblogaeth ardal y bwrdd iechyd yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y ddogfen asesu anghenion fferyllol derfynol. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ystyriaethau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn disgrifio proses gyffredinol cynnal yr ymgynghoriad.

2 Y broses ymgynghori

Er mwyn cwblhau'r broses hon mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgynghori â'r partïon a nodwyd dan reoliad 7 Rheoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, i ganfod a yw'r asesiad anghenion fferyllol drafft yn mynd i'r afael â materion yr oeddent yn eu hystyried yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau fferyllol:

- Community Pharmacy Wales/Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Pwyllgor Meddygol Lleol Gwent
- Contractwyr sydd ar ei restr fferyllol
- Meddygon teulu sydd ar restr meddygon fferyllol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Practisau meddygon teulu
- Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
- Y Rhwydweithiau Lles Integredig
- Y 11 rhwydwaith gofal cymdogaeth
- Y pum bwrdd gwasanaethau cyhoeddus
- Hyrwyddwyr Cymunedol Nye
- Grwpiau cymunedol - Oxford House Rhisga, Canolfan The Bridges, Sefydliad Lysagh Casnewydd, Growing Space Casnewydd, Cyfeillion Grŵp Pont Gludo Casnewydd, Canolfan Pedwar Loc ar Ddeg, Woodland Routes to Wellbeing, Pride in Pill, Newport East Litter Pickers Group, The Power Station, The Corn Bin, Partneriaeth Garnsychan, TRAC2, Blaenafon Seniors, Blaenafon Townswomen's

Guild, Tîm Tref Blaenafon, Côr Merched Blaenafon, Côr Meibion Blaenafon, Cymdeithas Hanes Lleol Blaenafon, Cymdeithas Arddwriaethol Blaenafon, Grŵp Crefft Cwmafan, Dawnswyr Blaenafon, Clwb Modelau Rheilffordd Pont-y-pŵl a Blaenafon, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent
- Grwpiau gofalwyr
- Fforymau 50+
- Sefydliad Onyx Link
- Teithio Ymlaen
- Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
- Race Equality First
- Grŵp Cymunedol Pwylaidd Ludek
- Kidcare4u
- Settled
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
- Cynghrair Gwirfoddol Torfaen
- Pobl yn Gyntaf
- Panel Dinasyddion Gwent
- Clybiau Rotari
- Ffederasiwn Sefydliadau'r Merched Gwent
- Prifysgol y Drydedd Oedran
- Rhwydwaith Pobl Aneurin Bevan
- Arweinwyr cyfathrebu ac ymgysylltu awdurdodau lleol
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Cyhoeddwyd fersiwn ymgynghori'r asesiad o anghenion fferyllol ar wefan y Bwrdd Iechyd a chafodd yr ymgyngoreion e-bost a'u gwahodd i ymateb i'r holiadur ar-lein. Cafodd y ddolen at yr asesiad o anghenion fferyllol a'r holiadur eu cynnwys yn yr e-bost. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo hefyd ar wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd.

Yn ogystal â'r asesiad o anghenion fferyllol, cynhyrchwyd dogfen gryno a fersiwn hawdd ei darllen hefyd i gefnogi'r ymgynghoriad.

Soniwyd hefyd am yr asesiad o anghenion fferyllol mewn amrywiaeth o gyfarfodydd ymgysylltu ym mis Mehefin a mis Gorffennaf:

- Hyrwyddwyr Cymunedol Nye Sir Fynwy – Dydd Mercher 9 Mehefin
- Grŵp Ymgysylltu BGC Caerffili – Dydd Mercher 9 Mehefin
- Grŵp ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent – Dydd Iau 10 Mehefin
- Hyrwyddwyr Cymunedol Nye Casnewydd – Dydd Iau 17 Mehefin
- Panel Dinasyddion Gwent – Dydd Mercher 23 Mehefin
- Hyrwyddwyr Cymunedol Nye Torfaen – Dydd Iau 24 Mehefin
- Cyfarfod arweinwyr clinigol rhwydweithiau gofal cymdogaeth – dydd Iau 24 Mehefin

- Hyrwyddwyr Cymunedol Nye Blaenau Gwent – Dydd Iau 1 Gorffennaf
- Hyrwyddwyr Cymunedol Nye Caerffili – Dydd Iau 8 Gorffennaf
- Fforwm Iechyd Cymunedau Amrywiol – Dydd Iau 8 Gorffennaf

Rhoddwyd cyfle i ymgyngoreion ymateb drwy ateb cyfres o gwestiynau a/neu gyflwyno sylwadau ychwanegol. Gwnaed hyn drwy gwblhau'r cwestiynau ar-lein neu drwy'r fersiwn hawdd ei ddarllen. Roedd yr asesiad o anghenion fferyllol a'r cwestiynau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Diben y cwestiynau a ddeilliodd o hyn oedd asesu'r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol bresennol, rhoi sylw i unrhyw amgylchiadau penodol yn y dyfodol lle gallai'r sefyllfa bresennol newid yn sylweddol a nodi unrhyw fylchau yn y gwasanaethau fferyllol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori rhwng 1 Mehefin a 31 Gorffennaf 2021.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ystyriaethau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Dylid nodi nad oedd yn ofynnol i gyfranogwyr yn yr ymgynghoriad gwblhau pob cwestiwn.

Cafwyd 20 o ymatebion ar yr ymgynghoriad ar-lein, a nodwyd fel a ganlyn.

Opsiynau Ateb	**Canran ymateb**	**Cyfrif ymateb**
Ar ran fferyllfa / contractwr dosbarthu cyfarpar ar bresgripsiwn / practis dosbarthu meddyginiaethau ar bresgripsiwn	20%	4
Ar ran sefydliad	10%	2
Ymateb personol	70%	14
Cwestiwn a atebwyd		**20**

Yn ogystal, cafwyd dau ymateb oddi ar y system. Roedd un gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru a roddodd sylwadau ar gwestiynau'r ymgynghoriad, ac roedd y llall gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Derbyniwyd un ymateb i fersiwn hawdd ei ddarllen yr ymgynghoriad, gan aelod o'r cyhoedd.

3 Crynodeb o gwestiynau ar-lein, ymatebion ac ystyriaethau'r Bwrdd Iechyd

Mae'r holl sylwadau a wnaed gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys air am air.

Wrth ofyn "A yw diben yr asesiad o anghenion fferyllol wedi'i esbonio", mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi bod yr holl ymatebwyr wedi dweud "Ydy".

Ffigur 37 – A yw diben yr asesiad o anghenion fferyllol wedi'i egluro'n ddigonol?



Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi'r sylwadau canlynol.

- Darllenais y crynodeb
- Mae'r wybodaeth ar y crynodeb Hawdd ei Ddarllen yn esbonio'r asesiad yn fanwl iawn ac mae'r lluniau'n helpu llawer hefyd.
- Rwyf wedi darllen drwy'r ddogfen gyfan
- Defnyddiais y fersiwn Hawdd ei Ddarllen ac esboniwyd diben yr asesiad o anghenion fferyllol yn glir.
- Rwyf wedi darllen y dogfennau
- Dogfen gryno yn ddefnyddiol
- Rwyf wedi darllen yr adroddiad ac rwy’n deall bod yn rhaid i chi wneud hyn fel rhan o'r broses
- Roeddwn yn gallu deall yr esboniad
- Rydych am wybod beth mae arnom ni ei angen ac egluro sut y byddwch yn defnyddio'r un wybodaeth
- Oherwydd ar ôl darllen drwy'r crynodeb roeddwn yn gallu deall yr hyn yr oeddech yn ei ddweud.

- Mae'r Crynodeb Gweithredol yn nodi diben yr asesiad o anghenion fferyllol a sut y caiff ei ddefnyddio wrth ystyried ceisiadau gan gontractwyr fferyllol yn ogystal â meddygon fferyllol.
- wedi'i esbonio'n glir.
- wedi'i esbonio'n glir yn y ddogfen.

Gofynnodd y cwestiwn nesaf "A yw'r asesiad o anghenion fferyllol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol bresennol yn eich ardal?" ac eto mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi bod 16 o bobl (80%) wedi dweud 'Ydy'.

Ffigur 38 - A yw'r asesiad o anghenion fferyllol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol bresennol yn eich ardal?



Gwnaed pum sylw mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

- Ddim yn gwybod – does gen i ddim gwybodaeth bersonol fanwl.
- Na - Mae'r contractwyr yng Ngorllewin Casnewydd wedi dweud bod ganddynt y gallu i ateb y galw presennol neu y gallent ehangu i ateb y galw. Nid wyf yn credu bod hyn yn gywir yn achos [fferyllfa], mae ciw yno bob amser, mae'n cymryd wythnos o'r amser archebu presgripsiwn ar-lein nes ei fod ar gael i'w gasglu.
  Nid yw eu horiau agor yn bodloni anghenion y boblogaeth sy'n gweithio, maent yn agor am 9, yn cau am 5 ac nid ydynt yn agor ar ddydd Sadwrn, mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i rywun sy'n gweithio'n llawn amser gasglu presgripsiwn.
  Mae [enw'r fferyllfa] hefyd yn brysur iawn, gyda chiwiau ac amseroedd aros hir i bresgripsiwn fod yn barod.
  Nid wyf yn credu bod yn rhaid i drigolion Whitson deithio am 20 munud i gyrraedd fferyllfa. Mae'r amser gyrru o Whitson i Glasllwch yn 20 munud ac mae nifer o fferyllfeydd a fyddai'n agosach.

- Na - Rydym yn byw yng Ngogledd Torfaen a dim ond o ddydd Llun i ddydd Gwener y mae'r fferyllfa leol ar agor.
- Ydy – Rwy'n credu
- Na - Mae fy fferyllfa yn [lleoliad] yn cynnig gwasanaethau lefel 3 ysmygu.
  Hyfforddodd fy fferyllydd ym mis Mawrth 2021 ac mae wedi cyflwyno CLG i'r BI

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y sylwadau hyn a gall gadarnhau bod, ynglŷn â'r un olaf, yr asesiad o anghenion fferyllol wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu darpariaeth yr holl uwch wasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.

Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â Gorllewin Casnewydd mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r effaith y mae pandemig Covid wedi'i chael ar fferyllfeydd a'r boblogaeth, a bod hyn wedi arwain at fferyllfeydd prysurach nag arfer gan eu bod wedi aros ar agor drwy gydol y pandemig ac felly mae mwy o bobl wedi gofyn am gyngor iechyd ganddynt.

Ers dechrau'r pandemig, y cyngor gan Lywodraeth Cymru oedd y dylid ceisio archebu presgripsiynau amldro saith diwrnod cyn bo eu hangen fel y gall fferyllfeydd reoli eu llwyth gwaith a gwella mynediad ar gyfer ceisiadau brys a gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â phersgripsiynau, megis anhwylderau cyffredin.

Mae'r fferyllfa benodol ar agor tan 18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac nid 17:00. Yng Ngorllewin Casnewydd mae dwy fferyllfa ar agor tan 20:00 ac un tan 22:00. Yn ogystal, mae dwy fferyllfa arall ar agor tan 18:30 ac mae 11 o fferyllfeydd ar agor tan 18:00. Ar ddydd Sadwrn mae 12 o'r 18 fferyllfa ar agor, gyda phump ar agor drwy'r dydd gan gynnwys tair sy'n agor tan 20.00. Felly, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon bod oriau agor y fferyllfeydd yn yr ardal leol yn ddigonol i fodloni anghenion y boblogaeth.

Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â Gogledd Torfaen mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi bod fferyllfa leol yr ymatebydd yn agor o ddydd Llun i ddydd Gwener. Nid yw'n glir o'r ymateb a yw hyn yn broblem ai peidio, ond mae pump o'r fferyllfeydd yn yr ardal ar agor ar ddydd Sadwrn, gydag un ar agor tan 17:30.

Yna gofynnodd yr ymgynghoriad am sylwadau ar y trefniadau ar gyfer darparu cyfarpar a gwasanaethau cysylltiedig. Roedd y bwrdd iechyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau ar gyfer cyfarpar yn cael eu dosbarthu gan gontractwyr y tu allan i'w ardal, naill ai mewn mannau eraill yng Nghymru neu yn Lloegr, a bod y contractwyr hynny'n darparu'r gwasanaethau adolygu defnyddio offer ac addasu cyfarpar stoma. Felly, mae wedi tybio bod yr angen am y ddau wasanaeth hyn yn cael ei fodloni

gan y darparwyr hyn y tu allan i'r ardal. Gofynnwyd i'r ymgyngoreion a oeddent yn cytuno â'r dybiaeth honno. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod 11 (55%) yn cytuno â'r dybiaeth hon.

Ffigur 39 - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi tybio bod yr angen i adolygu'r defnydd o gyfarpar a gwasanaethau addasu cyfarpar stoma yn cael ei bodloni gan y darparwyr y tu allan i'r ardal. A ydych yn cytuno â hyn?



Gwnaed dau sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Na – rwy'n ddibynnol ar inswlin ac mae gan fy ngŵr sglerosis ymledol. Bellach mae'n rhaid i mi gynllunio cael danfon fy meddyginiaeth i'r cartref (sydd gyda llaw yn dda iawn oherwydd ei fod ar gael ystod y nos a thros y penwythnos, yr unig wasanaeth yw 111 neu'r meddyg y tu allan i oriau.
- Ddim yn gwybod - dydw i ddim yn deall yr holl ddatganiad hwn. Beth yw cyfarpar yn yr achos hwn?

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r ddau sylw hyn. Gan nad yw'r cyntaf yn ymwneud â darparu cyfarpar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i fodloni bod ei ragdybiaeth ynghylch darparu'r uwch wasanaethau cyfarpar yn gywir. Mae'n bleser nodi'r sylw ynglŷn â'r gwasanaeth danfon da iawn i'r cartref.

O ran yr ail sylw, yng nghyd-destun yr asesiad o anghenion fferyllol, cyfarpar yw unrhyw un o'r eitemau a restrir yn Rhan XI y Tariff Cyffuriau, er enghraifft:

- Cathetrau a bagiau cathetrau
- Hosannau elastig
- Dillad cymorth torgest

- Bagiau colostomi
- Bagiau ileostomi
- Bagiau wrostomi, a
- Stribedi profi gwaed ar gyfer diabetes.

Ceir gwybodaeth am y ddau uwch wasanaeth cyfarpar yn atodiad C.

Pan ofynnwyd "A oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir; h.y. pryd, ble a pha wasanaethau sydd ar gael nad ydynt wedi'u nodi yn yr asesiad o anghenion fferyllol?" Dywedodd pedwar o bobl (20%) "Oes".

Ffigur 40 – A oes unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir; h.y. pryd, ble a pha wasanaethau sydd ar gael nad ydynt wedi'u nodi yn yr asesiad o anghenion fferyllol?



Mae'r bylchau a nodwyd fel a ganlyn.

- Gwasanaethau i ofalwyr ifanc - codi presgripsiynau..... Er enghraifft..... cerdyn gofalwyr ifanc yn cael ei gydnabod
- Mae Glasllwch yng Ngorllewin Casnewydd yn cael ei wasanaethu'n wael gan fysus, mae ganddi boblogaeth oedrannus yn bennaf sy'n ei chael hi'n anodd cyrraedd practis meddyg teulu neu fferyllfa os nad oes ganddynt gludiant. Dylid darparu meddygfa a fferyllfa yng Nglasllwch.
- Weithiau mae'n anodd dod o hyd i fferyllfa gyda fferyllydd hyfforddedig a chael amser i weinyddu cynllun anhwylderau cyffredin ac atal cenhedlu brys
- Clinigau diabetig, adolygiad diabetes blynyddol, podiatreg, adolygu meddyginiaethau blynyddol, nid yw’r un ohonynt wedi digwydd ers 2019.

- roedd bylchau o ran rhoi'r gorau i ysmygu mewn rhai ardaloedd a gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau wedi'u rhagnodi mewn lleoliad penodol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r sylw ynghylch gwasanaethau i ofalwyr ifanc sy'n awgrymu nad yw rhai fferyllfeydd yn adnabod y cerdyn gofalwyr ifanc. Mae eisoes wedi amlygu'r cerdyn i fferyllfeydd ond bydd yn gwneud gwaith hyrwyddo pellach er mwyn lleihau unrhyw anhawster y gallai gofalwyr ifanc wynebu wrth gasglu meddyginiaeth ar gyfer y person neu'r personau y maent yn gofalu amdanynt.

Nodwyd y sylw ynglŷn â'r angen am feddygfa yn Glasllwch, ond mae hyn y tu allan i gwmpas yr asesiad o anghenion fferyllol. O ran anawsterau i'r rhai sy'n byw yn yr ardal nad oes ganddynt fynediad at drafnidiaeth breifat, naill ai ar bob adeg neu ar adegau pan fo angen iddynt gasglu meddyginiaeth a ragnodwyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod llawer o fferyllfeydd yn cynnig gwasanaeth casglu a danfon.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol y gallai fod achlysur pan na all fferyllfa ddarparu gwasanaeth penodol sy'n ddyledus, er enghraifft, os yw'r fferyllydd rheolaidd ar wyliau. Ceir gwybodaeth am y gwasanaethau y mae fferyllfeydd yn eu darparu ar wefan GIG 111 Cymru[61].

Gan nad yw'r gwasanaethau diabetes a restrir yn cael eu darparu gan fferyllfeydd, mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r asesiad o anghenion fferyllol.

Nid yw'n glir pa feysydd y mae'r sylw terfynol yn ymwneud â hwy, ond mae'r asesiad o anghenion fferyllol wedi nodi'r angen am wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu mewn rhai ardaloedd.

Pan ofynnwyd a yw'r ddogfen yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth, mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi mai dim ond tri pherson (15%) a ddywedodd nad oedd yn gwneud hynny.

[61] GIG 111 Cymru

Ffigur 41 – A yw'r asesiad anghenion fferyllol drafft yn adlewyrchu anghenion poblogaeth eich ardal?



Gwnaed tri sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Na – Fel uchod. [Clinigau diabetig, adolygiad diabetes blynyddol, podiatreg, adolygu meddyginiaethau blynyddol, nid oes yr un ohonynt wedi digwydd ers 2019.]
- Na - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymdrin ag anghenion iechyd ardal y Bwrdd Iechyd yn ei chyfanrwydd ac ym mhob ardal, fodd bynnag, ni allwn gytuno ar hyn o bryd fod yr asesiad drafft o anghenion fferyllol yn adlewyrchu'r anghenion yn Ardal Dwyrain Casnewydd ac Ardal Gogledd Torfaen am y rhesymau a nodir yng Nghwestiwn 6.
- Na - Er bod hwn yn drosolwg cynhwysfawr ar y gwasanaethau a ddarperir yn yr ardal, mae'n canolbwyntio llawer mwy ar argaeledd na hygyrchedd. Er bod cyfran uchel yn byw o fewn taith 20 munud yn y car o fferyllfa, dywedodd 11% o'r ymatebwyr nad dyma'r achos. Nid oes gan 24% fynediad at drafnidiaeth fodurol. Mae'n eithaf posibl byw ar gyriaon cymdogaeth neu ar ben neu wrth waelod allt serth ac felly nid yw gwasanaethau fferylliaeth yn hawdd cyrraedd atynt.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'r sylw cyntaf uchod. O ran yr ail sylw, mae ymateb wedi'i gynnwys isod.

Mewn perthynas â'r trydydd sylw, gan nad oes unrhyw ardal wedi'i nodi, ni all y Bwrdd Iechyd ystyried a oes angen newid neu adolygu'r asesiad o anghenion fferyllol.

Yna gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ynghylch a yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth er mwyn llywio

penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â cheisiadau am fferyllfeydd newydd a safleoedd contractwyr cyfarpar ar bresgripsiwn, a cheisiadau gan feddygon fferyllol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi mai dim ond dau berson (10%) a ddywedodd nad yw'n gwneud hynny.

Ffigur 42 – A yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth i lywio penderfyniadau mynediad i'r farchnad h.y. penderfyniadau ar geisiadau am fferyllfeydd newydd a safleoedd contractwyr cyfarpar ar bresgripsiwn?



Gwnaed dau sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

Y sylw cyntaf yw "Ydy, i ryw raddau. Er bod yr asesiad wedi amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael mewn ardal, dylai gyflwyno gwybodaeth ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol ac nid mwy na hynny. Mae angen ystyried fy mhwynt blaenorol ynghylch y ddaearyddiaeth leol yn ogystal â newidiadau mewn tai ac ati."

Mae'r asesiad o anghenion fferyllol yn sail ar gyfer ceisiadau a fydd ar restr fferyllol y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol, gyda dau eithriad (newidiadau perchnogaeth ac adleoli am resymau busnes). Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ystyried unrhyw geisiadau o'r fath yn unol â darpariaethau'r rheoliadau.

Mae'r ail sylw yn hwy.

Er bod yr asesiad o anghenion wedi darparu gwybodaeth, ni allwn gytuno â gwybodaeth a chanfyddiadau'r asesiad o anghenion fferyllol drafft o ran dwy ardal Dwyrain Casnewydd a Gogledd Torfaen.

Ardal Dwyrain Casnewydd

Credwn nad oes angen ar hyn o bryd ac na fydd angen chwaith fferyllfa newydd yn natblygiad Glan Llyn yn y dyfodol yn ystod oes yr AAFf hwn.

Fel y gŵyr aelodau'r BILl, agorodd Fferyllfa Boots yn Uned 1A Parc Manwerthu Casnewydd, Spytty Road, Casnewydd, NP19 4QQ, ym mis Rhagfyr 2014. Agorodd y fferyllfa ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo mewn apêl ym mis Hydref 2014.

Dywedodd Gweinidogion Cymru yn eu penderfyniad ar 27 Hydref 2014:

43. Nododd Gweinidogion Cymru fod datblygiad Glan Llyn wedi'i gynnwys yn Ardal Ehangu'r Dwyrain a nodwyd yn y papur, ac mai pwrpas y parc manwerthu oedd gweithredu fel canolfan siopa leol i'r trigolion sy'n byw yn yr ardal. Penderfynodd Gweinidogion Cymru ei bod yn debygol y byddai'r trigolion newydd sy'n byw yn natblygiad Glan Llyn yn teithio i'r parc manwerthu yn gyffredinol i gael mynediad i'r siopau a'r gwasanaethau yno, yn hytrach nac i'r siopau a'r amwynderau mwy cyfyngedig yn ardaloedd preswyl Llyswyry neu Alway. Roedd y parc manwerthu’n agos at y tai newydd hyn ac roedd cysylltiadau ffordd da yn darparu mynediad yno. Er mai'r darparwyr gwasanaeth meddygol cyffredinol agosaf at ddatblygiad Glan Llyn ar hyn o bryd oedd y rhai yn Llyswyry ac Alway, gall y preswylwyr a oedd wedi symud i Glan Llyn ar gofrestr meddygfeydd eraill, er enghraifft meddygfeydd sy’n nes at eu cartrefi blaenorol neu eu gweithleoedd. Penderfynwyd er y byddai'n rhaid i'r preswylwyr hynny deithio y tu allan i'w cymdogaeth i gael mynediad at wasanaethau meddygol cyffredinol ac y gallent gael mynediad at wasanaethau fferyllol gan fferyllfeydd Llyswyry neu Alway, nad oeddent yn fodlon bod hyn yn sicrhau darpariaeth ddigonol o’r gwasanaethau o’r fath. At hynny, roedd Gweinidogion Cymru yn ymwybodol y gellir cael gwasanaethau fferyllol ar wahân i wasanaethau meddygol cyffredinol. Er mwyn cael mynediad at wasanaethau fferyllol yn unig, byddai rhaid i drigolion Glan Llyn deithio heibio'r parc manwerthu i gael mynediad i'r gwasanaethau hynny o Lyswyry ac Alway yn y gymdogaeth gyfagos, ac efallai na fydd hon yn daith naturiol iddynt ei gwneud.

44. Felly, roedd Gweinidogion Cymru yn fodlon ei bod yn ddymunol cymeradwyo cais Boots i sicrhau y darperir gwasanaethau fferyllol digonol ar gyfer trigolion Glan Llyn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Cafodd datblygiad Glan Llyn a Gwaith Dur Llanwern eu cynnwys yn y gymdogaeth a ddiffiniwyd ar gyfer ein cais. Gellir darparu copi o'r penderfyniad a map y gymdogaeth os oes angen.

Mae'r map yn dangos bod Parc Manwerthu Casnewydd yn uniongyrchol gyfagos i Ddatblygiad Glan Llyn. Mae fferyllfa Boots ar y parc manwerthu lai na milltir ar y ffordd o ymyl orllewinol y datblygiad, a dim ond milltir ar y ffordd o'r ganolfan leol arfaethedig oddi ar yr A4810.

Mae gwefan Santes Modwen yn nodi:

'Lai na milltir i lawr y ffordd y mae Parc Manwerthu Casnewydd i fodloni’ch holl anghenion siopa sy'n cynnig archfarchnadoedd gan gynnwys Tesco Extra ac M&S yn ogystal â chymysgedd poblogaidd o siopau'r stryd fawr. Mae Casnewydd ychydig dros 4 milltir i ffwrdd sy'n cynnig amrywiaeth o siopau, bwytai a chyfleusterau hamdden adnabyddus ac annibynnol.

Gyda'r AAFf drafft yn datgan 'Mae angen fferyllfa yn natblygiad Glan Llyn yn y dyfodol', mae'n bosibl y gellid lleoli'r fferyllfa yn gymharol agos at y fferyllfa bresennol.

Mae ein fferyllfa ym Mharc Manwerthu Casnewydd, yn ogystal â fferyllfeydd eraill ledled yr ardal, wedi bodloni anghenion trigolion Glan Llyn wrth i'r datblygiad fynd rhagddo. Mae gan ein fferyllfa'r gallu i fodloni anghenion sy'n deillio o'r datblygiad hwn yn y dyfodol.

Mae gan ein fferyllfa oriau agor estynedig, saith diwrnod yr wythnos ac mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau fferyllol gan gynnwys adolygiadau defnyddio meddyginiaethau, adolygiadau rhyddhau defnyddio meddyginiaethau, rhoi'r gorau i ysmygu lefelau 2 a 3, gweinyddu dan oruchwyliaeth, gwasanaeth anhwylderau cyffredin, cyflenwad meddyginiaeth frys, lleihau gwastraff a brechiadau ffliw tymhorol.

Mae uwchgynllun Glan Llyn yn dangos y bydd datblygiadau'n digwydd dros sawl cam gyda thai sydd ar werth ar hyn o bryd yng Ngham 3a. Mae'r cynllun safle ar wefan Sant Modwen yn dangos yr ardaloedd o amgylch cam 3a, gan gynnwys y ganolfan leol, fel rhai ar gyfer 'datblygiad yn y dyfodol'.

Mae'r BILl wedi nodi yn yr AAFf fod y gyfradd cwblhau yn llithro (tudalen 327). Ar adeg cymeradwyo ein cais mewn apêl yn 2014, roedd cam un y datblygiad wedi'i gwblhau, roedd 307 o dai wedi'u gwerthu ac roedd y rhan fwyaf yn cael mewn meddiant ac roedd cam 2 ar y gweill. Mae'r AAFf yn nodi bod cyfanswm o 780 o dai wedi'u hadeiladu ym mis Mawrth 2019. Felly, mae nifer y tai a gwblhawyd wedi llithro o tua 95 o dai y flwyddyn ar gyfartaledd i 67 yn 2019/20.

Yn olaf, nodwn ar dudalen 343 o'r AAFf drafft fod lle wedi'i nodi ar gyfer gwasanaethau iechyd o fewn y cytundeb Adran 106 perthnasol ar gyfer

datblygiad Glan Llyn. Nid yw'n nodi natur y gwasanaethau iechyd hyn na lle y byddant wedi'u lleoli. Fodd bynnag, os mai'r bwriad yw cael meddyg teulu ar y datblygiad, yna nid yw o reidrwydd yn dilyn bod angen fferyllfa os yw'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol ac yn rhesymol hygyrch.

Mae'r AAFf yn dweud bod angen fferyllfa yn y dyfodol o 1 Ebrill 2023. Fodd bynnag, ni allwn weld unrhyw resymau yn yr AAFf nac ar wefan y datblygwr ynghylch pam y dylai angen godi ar hyn o bryd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y sylw hwn ac mae’n nodi'r penderfyniad a wnaed o dan y fframwaith rheoleiddio blaenorol. Mae datblygiad Glan Llyn yn sylweddol ei natur ac yn ogystal â'r boblogaeth breswyl bydd yn denu pobl naill ai am resymau cyflogaeth, hamdden neu addysgol. Mae hefyd yn un o ddau ddatblygiad tua'r dwyrain o Gasnewydd gyda datblygiadau pellach yn ymestyn tua'r dwyrain tuag at Gas-gwent.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn fodlon y bydd angen fferyllfa yn y datblygiad cyn iddo gael ei gwblhau er mwyn bodloni anghenion y preswylydd a'r boblogaeth sy'n ymweld. Nid yw'n hysbys eto a fydd gwasanaethau eraill y GIG ar gael yn y datblygiad na pryd y gallai'r gwasanaethau a ddarperir ddechrau. Fodd bynnag, mae eu habsenoldeb a'u presenoldeb yn pwysleisio'r angen am fferyllfa. Os nad oes meddyg teulu yna bydd pobl yn gallu cael mynediad at ystod eang o wasanaethau o'r fferyllfa. Os oes meddyg teulu yna bydd oriau agor estynedig y fferyllfa yn sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau agor arferol y meddygfeydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y sylwadau ynghylch amseriad yr angen am fferyllfa a'r lleoliad posibl ac felly mae wedi diwygio geiriad yr angen yn unol â hynny.

Ardal Gogledd Torfaen

Mae'r BILl wedi nodi angen yn y dyfodol am fferyllfa yn natblygiad Pentref Trefol Mamhilad unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, pe bai'r BILl yn dal i gredu bod angen fferyllfa yn yr ardal hon yn y dyfodol, yna byddem yn annog y BILl yn gryf i ddatgan ar ba bwynt y byddai'n ystyried bod y datblygiad yn gyflawn ac mae angen darparu gwasanaethau fferyllol. Er enghraifft, os bwriedir y bydd y datblygiad yn cynnwys 900 o anheddau, a fyddai'r BILl yn ystyried y datblygiad yn gyflawn ar yr adeg y caiff y 900fed cartref ei adeiladu, neu pan gaiff ei feddiannu?

Credwn, y gall bod yn benodol fel hyn helpu i atal unrhyw broblemau a heriau i benderfyniadau yn y dyfodol, a bodloni unrhyw anghenion cleifion y gellir eu hadnabod.

Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn y bydd angen fferyllfa o hyd unwaith y bydd y datblygiad hwn wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, mae wedi penderfynu egluro geiriad yr angen i roi eglurder ynghylch pryd y bydd yn codi.

Yna gofynnwyd i ymatebwyr a yw'r ddogfen wedi darparu gwybodaeth i lywio sut y gellir comisiynu gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi mai dim ond un person (5%) a ddywedodd "Na".

Ffigur 43 – A yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu gwybodaeth i lywio sut y gellir comisiynu gwasanaethau fferyllol yn y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol?



Gwnaed dau sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

- Na – Unwaith eto, teimlaf y dylai'r ddogfen hon fod yn ganllaw i gomisiynu yn y dyfodol ond nid ar ei phen ei hun.
- Ddim yn gwybod – Gweler y sylwadau – C12 [wedi'u cynnwys isod]

Gall y Bwrdd Iechyd gadarnhau na fydd yr asesiad o anghenion fferyllol yn cael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau ychwanegol newydd. Fodd bynnag, dyma'r brif ddogfen gyfeirio sy’n ymwneud â cheisiadau i'w cynnwys yn y rhestr fferyllol.

Gan droi at p'un ai yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu digon o wybodaeth i gontractwyr gynllunio darpariaeth gwasanaethau fferyllol yn

y dyfodol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod tri o bobl (15%) wedi dweud "Na".

Ffigur 44 – A yw'r asesiad o anghenion fferyllol wedi darparu digon o wybodaeth i lywio darpariaeth a chynlluniau gwasanaethau fferyllol yn y dyfodol ar gyfer fferyllfeydd a chontractwyr sy'n dosbarthu cyfarpar ar bresgripsiwn?



- Na - Credaf nad yw'r fersiwn Hawdd ei Darllen yn darparu digon o wybodaeth am y pwnc hwn yn enwedig yn ardal BIPAB.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau bod y fersiwn hawdd ei darllen wedi'i darparu at ddibenion yr ymgynghoriad dim ond gan ei fod yn agored i aelodau'r cyhoedd.

- Ddim yn gwybod - rwy'n hynod ansicr am hyn o ystyried profiad chwerw'r gorffennol. Os ydw i'n profi hypo (glwcos gwaed peryglus o isel) mae rhaid i mi hunanreoli gan nad oes unrhyw beth nac unman i gael help yn enwedig ar y penwythnos.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r sylw hwn a hoffai gadarnhau bod gwasanaethau ar gael dros y penwythnos ar gyfer gofal brys. Gellir cael cyngor a thriniaeth drwy GIG 111 Cymru a'r adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar adegau o'r fath.

- Ddim yn gwybod - Gweler C6 [ymateb manwl i ardal Dwyrain Casnewydd ac ardal Gogledd Torfaen].

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'r sylw hwn uchod.

- Na - Er bod hwn yn grynodeb cynhwysfawr o'r anghenion fferyllol yn yr ardal nid yw'n rhoi fawr o ystyriaeth i ddaearyddiaeth leol. Ystyrir bod 99% o gleifion yn byw o fewn 20 munud i fferyllfa, dywedodd 11% o'r rhai a ymatebodd fod hynny'n wir. Nid oes gan 24% gar na fan i’w ddefnyddio. Mae hyn yn golygu na all cyfran sylweddol o boblogaeth BIPAB gael mynediad hawdd at wasanaethau fferyllol ac mae’r ffigur mympwyol o 20 munud o yrru'n ormod yn fy marn i. Yn ogystal, gallai cleifion fod ym mhen pellaf cymdogaeth neu ar ben neu wrth waelod allt serth sydd rhyngddynt â’r fferyllfa. Os ychwanegwn yn y ffactor bod deunaw meddyg fferyllol o fewn BIPAB sy'n darparu gwasanaethau dosbarthu meddyginiaethau ar bresgripsiwn ond nid gwasanaethau fferyllol, mae'n tynnu sylw at y ffaith nad yw’r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol yn BIPAB yn ddigonol. Er y gall ac y bydd y ddogfen yn ddefnyddiol wrth lywio penderfyniadau ar geisiadau fferyllfeydd yn y dyfodol, ni ddylid ei hystyried mewn unrhyw ffordd fel y gair olaf ynghylch a ddylid darparu gwasanaethau newydd.

Gan nad oes unrhyw wybodaeth wedi'i darparu am yr ardaloedd y mae'r sylw hwn yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd, ni all ystyried pa welliannau sydd eu hangen, os o gwbl.

- Na - yn unol â'm pwyntiau blaenorol.

  mae'n werth nodi hefyd bod ardal fawr yn cael ei dominyddu gan feddygon fferyllol sy'n darparu gwasanaethau dosbarthu meddyginiaethau ar bresgripsiwn ond nid gwasanaethau fferyllol. Felly, mae'r boblogaeth yn yr ardaloedd hyn yn cael eu hamddifadu rhag mynediad rhesymol i wasanaethau fferyllol.

Er nad yw'r sylw hwn wedi nodi at ba ardal y mae'n cyfeirio, mae’r Bwrdd Iechyd wedi tybio ei fod berthnasol i Sir Fynwy gan fod y rhan fwyaf o'r meddygfeydd sy’n dosbarthu meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn y sir honno. Rhoddwyd ystyriaeth i'r angen am fferyllfa neu fferyllfeydd yn y rhannau o Sir Fynwy sy'n fwy nag 20 munud o daith car o fferyllfa ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad na fyddai fferyllfa yn hyfyw yn ariannol.

Yna gofynnodd yr ymgynghoriad a oes unrhyw wasanaethau fferyllol nad ydynt wedi eu hamlygu y gellid eu cynnig gan fferyllfeydd yn y dyfodol. Dywedodd pump o bobl (25%) "Oes".

Ffigur 45 - A oes unrhyw wasanaethau fferyllol nad ydynt wedi'u hamlygu y gellid eu darparu yn y lleoliad fferyllfa gymunedol yn y dyfodol?



Gwnaed chwe sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

- Dewis peidio ag ateb - Gwasanaethau cymorth yn yr ardal: er enghraifft cyfeirio at wasanaethau'r trydydd sector, fel y byddai derbynfeydd meddygfeydd teulu yn ei wneud

Mae cyfeirio yn un o'r gwasanaethau hanfodol y mae'n ofynnol i fferyllfeydd ei ddarparu,

- Oes - Clinigau cyngor Therapi Galwedigaethol drwy apwyntiad, gan gynnig cyngor a gwybodaeth am offer neu dechnegau a allai wella annibyniaeth.
  Asesu cymorth cerdded a darparu cymhorthion cerdded.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r sylw hwn, ond nid yw gwasanaethau therapi galwedigaethol yn cael eu comisiynu gan fferyllfeydd yng Nghymru.

- Oes - Brechu rhag Covid. Os gallaf gael fy mrechiad ffliw mewn fferyllfa, pam na chaf frechiad Covid?

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi treialu defnyddio fferyllfeydd i ddarparu brechiadau Covid. Cynigir brechiadau drwy ganolfannau brechu torfol. Mae cynlluniau ar gyfer rhwydweithiau gofal cymdogaeth yn darparu rhaglenni brechu yn cael eu cwblhau, a allai gynnwys elfen o gyfranogiad gan fferyllfeydd cymunedol fel rhan o ddull cydweithredol.

- Oes - Adolygiadau a chlinigau diabetig.

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynlluniau i gomisiynu'r gwasanaethau hyn gan fferyllfeydd.

- Oes - Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallai pobl yng Nghymru gael eu presgripsiynau fel yn Lloegr gan fwy o fferyllfeydd nag ambell un.

Mae fferyllfeydd yn ardal y Bwrdd Iechyd yn cynnig gwasanaeth dosbarthu preifat, ac yn ogystal mae rhai trigolion wedi dewis defnyddio'r safleoedd gwerthu o bell (fferyllfeydd rhyngrwyd) sydd yn Lloegr.

- Oes - O ystyried bod 64% o boblogaeth BIPAB yn cael ei hystyried dros eu pwysau neu'n ordew, dylai fod gwasanaeth colli pwysau wedi'i gomisiynu drwy fferyllfa yn ychwanegiad amlwg at y gwasanaethau fferyllol.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried comisiynu'r gwasanaeth hwn ond ar hyn o bryd nid oes ganddo unrhyw gynlluniau i wneud hynny.
Er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw ddatblygiadau wedi'u methu, gofynnodd yr ymgynghoriad a oes unrhyw ddatblygiadau a fydd yn codi o fewn oes yr asesiadau anghenion fferyllol nad ydynt wedi'u nodi. Er enghraifft, datblygiadau tai, prosiectau adfywio, neu adeiladau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau'r GIG. Dywedodd dau berson (20%) "Oes".

Ffigur 46 - A oes unrhyw ddatblygiadau a fydd yn codi o fewn oes yr asesiadau o anghenion fferyllol nad ydynt wedi'u nodi?



Gwnaed pum sylw mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

- Oes - Mae safleoedd newydd ar gyfer darparu gwasanaethau'r GIG yn cael eu hadeiladu ym Mlaenau Gwent ar hyn o bryd a dim ond rhai sy'n cynnwys fferyllydd neu fferyllfa. Mae hyn yn golygu bod angen i gleifion deithio i gael eu tabledi.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried datblygiadau adeiladau ym Mlaenau Gwent ac nid yw, ar hyn o bryd, wedi nodi'r angen am fferyllfa newydd yn unrhyw un ohonynt.

- Oes - Mae'r cynllun lleol drafft yn rhagweld cynnydd mawr mewn tai a phoblogaeth mewn rhai ardaloedd, ond nid yw'n glir ble yn union y bydd y rhain nac a fyddant yn cynnwys mynediad i fferyllfeydd ai peidio. Mae'n ymddangos bod y tai newydd hefyd yn tybio y bydd gan bobl ddigon o amwynderau o fewn pellter cerdded, ond mae’n debygol bod angen cymorth ar lawer o bobl sydd angen cyfleusterau presgripsiwn i gyrraedd fferyllfeydd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y datblygiadau tai, a nifer y tai newydd y rhagwelir a gaiff eu hadeiladu yn ystod oes y ddogfen hon. Mae wedi nodi'r angen am ddwy fferyllfa newydd: un yn natblygiad Glan Llyn a'r llall ym Mhentref Trefol Mamheilad.

- Na - Nid hyd y gwyddom
- Ddim yn gwybod - Yr ateb syml yw dydyn ni ddim yn gwybod. Felly, dylai'r ddogfen hon gael ei hadolygu'n gyson ac ni ddylid ei chadarnhau’n sicr am rai blynyddoedd i ddod.
- Ddim yn gwybod - Y pwynt yw nad ydym yn gwybod yn awr ac felly mae angen i'r AAFf gael ei adolygu'n rheolaidd a pheidio â chael ei ystyried yn ddogfen gadarn am flynyddoedd lawer i ddod.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu'r asesiad o anghenion fferyllol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.
Yna gofynnodd yr ymgynghoriad a oedd ymatebwyr yn cytuno â chasgliadau'r asesiad o anghenion fferyllol ac mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi bod 13 o bobl (65%) yn dweud eu bod nhw.

Ffigur 47 - A ydych yn cytuno â chasgliadau'r asesiad o anghenion fferyllol?



Ymhelaethodd tri o bobl ar eu hatebion.

- Ydw - Dim ond i ryw raddau. Mae angen mawr hefyd am linellau cymorth ar gyfer sglerosis ymledol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r sylw hwn ond mae o'r farn na allai fferyllfeydd ddarparu llinellau cymorth o'r fath.

- Na - Nid ydym yn cytuno'n llwyr â chasgliadau'r asesiad o anghenion fferyllol am y rhesymau yr ydym wedi'u nodi yng Nghwestiynau 6 a 12.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'r sylw hwn uchod.

- Na - rwy'n teimlo ei bod yn anodd dweud, gyda'r eithriadau a amlygwyd, fod gwasanaethau fferyllol yn gwbl ddigonol ac mae'n anos fyth dweud gyda sicrwydd llwyr y bydd y gwasanaethau yn awr yn ddigonol am dair, pump neu hyd yn oed saith mlynedd.

Yn absenoldeb gwybodaeth benodol ynghylch lle nad yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigonol ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl i'r Bwrdd Iechyd ystyried pa ddiwygiadau, os o gwbl, sy'n ofynnol i'r asesiad o anghenion fferyllol.

Yn olaf, gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach. Gwnaeth dau berson sylw.

- Parthed: Cwestiwn 2

> Credwn fod y manylion yn yr asesiad o anghenion fferyllol yn adlewyrchu darpariaeth bresennol fferyllfeydd Boots yn ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn falch o nodi'r sylw hwn.

> Parthed: Cwestiwn 7
> O ran PGD Lefel 3 Rhoi'r Gorau i Ysmygu, credwn fod y datganiad a gynhwysir yn yr adran berthnasol ym mhob crynodeb ardal:
> 'Ar sail yr uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod angen i bob fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth hwn erbyn 1 Ebrill 2022. Os nad yw hynny'n digwydd bryd hynny, o 1 Ebrill 2022 bydd angen y gwasanaeth hwn yn y dyfodol'.
> gellid gweld ei fod yn amwys a byddem yn awgrymu, os yw'n bosibl, y dylid ei aralleirio er mwyn atal unrhyw gamddehongli yn y dyfodol.

Mae'r angen hwn wedi'i ailysgrifennu.

- Mae'r AAFf drafft wedi nodi angen fferyllfa yn y dyfodol o fewn datblygiad Glan Lyn a datblygiadau Pentref Trefol Mamheilad. Mae'n werth nodi y gall adleoli fferyllfa o rannau eraill o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan lenwi'r bylchau hyn lle mae clwstwr o fferyllfeydd mewn ardal fach ar hyn o bryd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r sylw hwn ac mae’n cytuno y gallai fferyllfa bresennol sy'n gwneud cais i adleoli fodloni'r anghenion hyn.

4 Ymatebion oddi ar y system

Ymatebodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro i'r ymgynghoriad gyda'r ymateb canlynol.

"Mae'r rhan fwyaf o'r cwestiynau a ofynnwyd yn ymwneud â phrofiad cleifion sy'n byw yn ardal Aneurin Bevan o gael mynediad at wasanaethau fferyllol yno, felly rwy'n dyfalu mai'r prif ymateb gennym ni ynghylch y cwestiwn 'unrhyw sylwadau eraill', fydd rwy'n cytuno â'r casgliadau.

Ardaloedd Aneurin Bevan yn ffinio ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Gaerdydd a’r Fro yw De Caerffili a Gorllewin Casnewydd.

Nid oes unrhyw anghenion ar gyfer gwasanaethau ychwanegol ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, na fferyllfeydd wedi'u nodi yn Ne Caerffili, sy'n ffinio ar Ardal Gogledd Caerdydd. P258

O fewn Ardal Gorllewin Casnewydd mae fferyllfa bresennol yn Marshfield, sydd lai na thair milltir o Fferyllfa Caerdydd a'r Fro yn Llaneirwg ac felly mae'n bosibl y gall cleifion gael mynediad at wasanaethau yn y fferyllfa hon yn Ardal Dwyrain Caerdydd (yn ogystal ag o fewn Ardal Gorllewin Casnewydd). Rydych wedi nodi (t 374, 375, 376) fod bwlch yn narparu Dulliau Atal Cenhedlu Hormonaidd Brys, Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu Lefel 3 a Brechu Rhag y Ffliw yn y fferyllfa hon; mae darparu'r gwasanaethau hyn yn fwy lleol i'r boblogaeth yn debygol o fod yn ddewis cadarnhaol ac a gaiff ei gefnogi."

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r sylw hwn.

Rhoddodd Fferylliaeth Gymunedol Cymru ymateb cynhwysfawr i gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae ei sylwadau wedi'u cynnwys air am air.

4.1 A yw diben yr asesiad o anghenion fferyllol wedi'i egluro?

Yn y cyflwyniad yn 1.1 Diben yr Asesiad o Anghenion Fferyllol nodir:

"Yn gyffredinol, rhaid i'w cais gynnig i fodloni angen a nodir yn AAFf y Bwrdd Iechyd".

Gallai'r geiriau "yn gyffredinol" gael eu camddehongli i olygu bod senario eithriadol a allai ganiatáu i rywun wneud cais am fferyllfa newydd; yn debyg i'r Budd Anrhagweladwy yn Lloegr, lle hyd yn oed os nad yw AAFf yn nodi angen am fferyllfa newydd ar hyn o bryd nac yn y dyfodol, gellir gwneud cais i sicrhau gwelliannau neu well mynediad at wasanaethau.

Er bod rhywfaint o fanylion yn y crynodeb gweithredol, efallai y byddai'n fuddiol amlinellu ym Mhennod 1 y mathau o geisiadau a benderfynir yn erbyn yr AAFf er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.

Ni phenderfynir ar geisiadau am newid perchnogaeth ac adleoli am resymau math busnes (e.e. prydles wedi dod i ben ac angen eiddo newydd) o dan Reoliad 15(1)9b) (ii) yn erbyn AAFf felly efallai y byddai'n werth gwneud hyn yn glir.

Ymateb

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y sylw hwn ac wedi newid y rhan berthnasol yn adran 1.1 i egluro'r ddau fath o gais nad ydynt yn seiliedig ar anghenion a nodwyd yn yr asesiad o anghenion fferyllol.

4.2 A yw'r asesiad o anghenion fferyllol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol bresennol yn eich ardal?

Mae Aneurin Bevan (BIPAB) wedi defnyddio'r wybodaeth a gyflwynwyd gan gontractwyr fferyllol yn rhan o ymarfer Cronfa Ddata Fferylliaeth Cymru Gyfan (CDdFfC) a gwblhawyd y llynedd i bennu'r ddarpariaeth fferyllfeydd cymunedol bresennol. Er nad yw manylion pa gontractwr fferyllol sy'n darparu pob un o'r gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol wedi'u cynnwys yn yr AAFf, hyderwn fod BIPAB wedi dadansoddi'r data'n gadarn a bydd yn diweddaru unrhyw newidiadau cyn eu cyhoeddi.

Ymateb

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru'r asesiad o anghenion fferyllol fel ei fod yn cynnwys manylion am nifer y fferyllfeydd sy'n darparu pob un o'r gwasanaethau ychwanegol yn 2021/22. Mae hefyd wedi diweddaru'r wybodaeth am oriau agor i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi digwydd ers i fersiwn ymgynghori'r ddogfen gael ei hysgrifennu.

